Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
54/2023
DYDDIAD CYHOEDDI:
16/05/2023

# Gwerthusiad o'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu, arweinyddiaeth a chynorthwyo addysgu: Adroddiad terfynol

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80535-980-7

**Gwerthusiad o'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu, arweinyddiaeth a chynorthwyo addysgu**

Awduron: Hefin Thomas, Brett Duggan, Ymchwil Arad. Nia Bryer a Heledd Bebb, Ymchwil OB3.

Adolygwyr: Dr Carmel Conn a Dr Matthew Hutt, Prifysgol De Cymru

Adroddiad Ymchwil Llawn: Thomas, H. Duggan, B. Bryer, N, Bebb, H. (2023). *Gwerthusiad o'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu, arweinyddiaeth a chynorthwyo addysgu.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 54/2023.
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-safonau-proffesiynol-ar-gyfer-addysgu-arwain-chynorthwyo-gwaith-addysgu-adroddiad

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Cangen Ymchwil Ysgolion
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 03000256812
E-bost: YmchwilYsgolion@Llyw.Cymru

## Tabl cynnwys

Rhestr o'r ffigurau ........................................................................................ 2
Rhestr o'r tablau ............................................................................................ 2
Geirfa 3
1. Cyflwyniad ........................................................................................ 4
2. Methodoleg ...................................................................................... 22
3. Canfyddiadau: ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r safonau........................ 31
4. Y defnydd o'r safonau ...................................................................... 41
5. Y cymorth sydd ar gael i ddefnyddio'r safonau ........................................ 72
6. Effeithiau canfyddedig a disgwyliedig y safonau ....................................... 84
7. Casgliadau ......................................................................................... 97
8. Materion i'w hystyried....................................................................... 105
Atodiad A: Offer ymchwil ........................................................................ 108
Atodiad B: Astudiaethau achos................................................................. 121
Llyfryddiaeth ........................................................................................... 168

**Rhestr o'r ffigurau**

Ffigur 1. Trosolwg o'r safonau a phum elfen hanfodol addysgu ac arweinyddiaeth effeithiol. .......... 7
Ffigur 2. Llinell amser o'r cerrig milltir allweddol yn ymwneud â'r safonau.......... 20
Ffigur 3. Nifer a chanran yr athrawon a'r gweithwyr cymorth dysgu sydd wedi creu eu PDP eu hunain.......... 46
Ffigur 4. Canran yr athrawon (gan gynnwys uwch arweinwyr ac ANG) sydd wedi creu eu PDP eu hunain yn ôl pryd y gwnaethant ennill SAC .......... 47
Ffigur 5. Cyfanswm cronnol yr asedau a uwchlwythwyd neu a grëwyd gan ymarferwyr sydd wedi creu eu PDP eu hunain .......... 49
Ffigur 6. Canran yr holl athrawon cofrestredig sydd wedi creu eu PDP eu hunain yn ôl sector cyflogaeth (math o ysgol / lleoliad) 2021-22 .......... 51
Ffigur 7. Dylanwad arweinwyr y lleoliad a chyfranogiad mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol ar y tebygolrwydd o ddefnyddio'r safonau. .......... 58

**Rhestr o'r tablau**

Tabl 1. Datblygiadau allweddol sy'n berthnasol i'r safonau.......... 17
Tabl 2. Nifer / math o leoliadau a nifer / rôl yr ymarferwyr a gymerodd ran ym Mlwyddyn 2.......... 27
Tabl 3. Rhanddeiliaid a gyfwelwyd yn ystod Blwyddyn 2 y gwerthusiad.......... 28
Tabl 4. Pa mor gyffredin oedd gwahanol fathau o ddefnydd o'r safonau, fel yr adroddwyd gan leoliadau a gymerodd ran yn y gwerthusiad .......... 53

**Geirfa**

| Acronym/Allweddair | Diffiniad |
|---|---|
| ADY | Anghenion dysgu ychwanegol |
| AGA | Addysg Gychwynnol i Athrawon |
| ANG | Athrawon Newydd Gymhwyso |
| CA | Cynorthwywyr Addysgu |
| CALU | Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch |
| CGA | Cyngor y Gweithlu Addysg |
| CPCP | Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth |
| DPP | Datblygiad proffesiynol parhaus |
| Gweithiwr cymorth dysgu | Ddefnyddir hyn i gyfeirio at Gynorthwywyr Addysgu a Chynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch |
| HMS | Hyfforddiant Mewn Swydd |
| OECD | Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd |
| PDP | Pasbort Dysgu Proffesiynol |
| PYPC | Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol |
| SAC | Statws Athro Cymwysedig |
| SAU | Sefydliadau Addysg Uwch |
| Y safonau | Safonau proffesiynol: defnyddir hyn i gyfeirio at y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth a'r safonau proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu |
| Ysgol ganol | Ysgol 3 - 16 / 19 oed |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Comisiynwyd Ymchwil Arad, mewn partneriaeth ag OB3 a Phrifysgol De Cymru, gan Lywodraeth Cymru i werthuso'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth a'r safonau proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu (y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon fel y 'safonau proffesiynol' neu'r 'safonau'). Mae’r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau’r gwerthusiad hwn.

1.2 Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r fethodoleg werthuso (Adran 2) a chanfyddiadau'r gwerthusiad (Adrannau 3-6). Amlinellir y casgliadau a'r materion i'w hystyried yn Adrannau 7 ac 8. Disgrifir yr offer ymchwil yn Atodiad A. Mae'r adroddiad yn rhoi synthesis o ganfyddiadau’r gwerthusiad terfynol dros ddwy flynedd y gwerthusiad ac yn cyfeirio at ganfyddiadau Adroddiad gwerthuso Blwyddyn 1 (Llywodraeth Cymru, 2021) lle y bo’n briodol. Yn adrannau 3-6, cyflwynir canfyddiadau Blwyddyn 1 yn gyntaf gyda chanfyddiadau Blwyddyn 2, gan gynnwys unrhyw newidiadau a arsylwyd dros amser, yn dilyn hynny. Cyflwynir astudiaethau achos yn seiliedig ar leoliadau yr ymgysylltwyd a hwy yn ystod dau gam y gwerthusiad yn Atodiad B.

### Nodau ac amcanion y gwerthusiad

1.3 Nod y gwerthusiad oedd 'gwerthuso gweithrediad, effeithiolrwydd ac effeithiau disgwyliedig y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu, arweinyddiaeth a chynorthwyo addysgu o ran eu gallu i gefnogi’r gwaith o ddatblygu gweithlu sy’n meddu ar y sgiliau priodol ac sy’n barod i ymateb i heriau diwygio addysg yng Nghymru' (Llywodraeth Cymru, 2019a).

1.4 Amcanion y gwerthusiad oedd:

- Asesu ymgysylltiad ymarferwyr â'r safonau
- Adolygu gweithrediad y safonau ymysg ymarferwyr
- Deall pa ffactorau a/neu amodau sy'n cefnogi neu'n rhwystro'r broses o weithredu ac ymgysylltu'n effeithiol â'r safonau

- Ystyried a yw'r safonau wedi bod yn effeithiol o ran eu bwriad i:
    - Osod disgwyliadau clir am ymarfer effeithiol yn ystod gyrfa ymarferydd gan gynnwys, lle bo hynny'n berthnasol, ymuno â'r proffesiwn
    - Galluogi ymarferwyr i fyfyrio ar eu hymarfer, yn unigol ac ar y cyd, yn erbyn safonau ymarfer effeithiol y cytunwyd arnynt yn genedlaethol, a chadarnhau a dathlu eu llwyddiannau
    - Cefnogi ymarferwyr i nodi meysydd ar gyfer datblygiad proffesiynol pellach
    - Cael eu defnyddio fel rhan o'r broses rheoli perfformiad
- Ymchwilio i effeithiau disgwyliedig gweithredu'r safonau ar lefel yr ymarferydd, yr ysgol a'r system
- Gwneud argymhellion ar gyfer polisi ac ymarfer ar draws y system gyfan i gefnogi gweithredu'r safonau yn y dyfodol a'u heffeithiolrwydd (Llywodraeth Cymru, 2019a).

**Trosolwg o'r safonau**

1.5 Cyhoeddwyd y safonau ym mis Medi 2017 ac mae'n ofynnol i Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) sy'n dechrau eu cyfnod sefydlu o'r dyddiad hwnnw weithio yn unol â'r safonau. Roedd ANG a ddechreuodd ar eu cyfnod sefydlu cyn y dyddiad hwn wedi cwblhau eu cyfnod sefydlu gan ddefnyddio'r un safonau â phan ddechreusant ar eu hyfforddiant. Dechreuodd yr holl athrawon ac arweinwyr eraill ddilyn y safonau newydd o fis Medi 2018 ymlaen.

1.6 Mae’r safonau’n cynnwys tair adran ryng-gysylltiedig:

- Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth;
- Safonau proffesiynol ar gyfer arweinyddiaeth ffurfiol;
- Safonau proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu.

1.7 I gyd-fynd â'r safonau mae gwerthoedd ac ymagweddau cyffredin sydd wedi'u bwriadu i gefnogi ymarferwyr i 'fod y gorau y gallwch':

- Iaith a diwylliant Cymru;
- Hawl broffesiynol;
- Rôl yn y system;
- Dysgwr proffesiynol;
- Llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol;
- Hawliau dysgwyr.


1.8 Mae pob un o'r tair set o safonau yn seiliedig ar bum elfen hanfodol o addysgu ac arweinyddiaeth effeithiol: addysgeg; arweinyddiaeth; dysgu proffesiynol; arloesi; cydweithio.

1.9 Rhennir pob safon yn elfennau sy'n cynnwys disgrifyddion sy'n dangos sut y gellid cymhwyso'r safonau, yn dibynnu ar ba gam y mae unigolyn yn ei yrfa a'i rôl.

- Safonau ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth - mae'r disgrifyddion yn amlinellu'r disgwyliadau y dylid eu cyflawni ar gyfer (1) sicrhau dyfarniad statws athro cymwysedig (SAC) a (2) cwblhau'r cyfnod sefydlu statudol yn llwyddiannus, yn y drefn honno. Mae'r drydedd lefel o ddisgrifyddion yn dangos enghreifftiau o arferion effeithiol iawn a pharhaus ac yn ffocws ar gyfer dysgu proffesiynol gydol gyrfa.
- Safonau ar gyfer arweinyddiaeth ffurfiol - mae'r disgrifyddion yn dangos y disgwyliadau ar gyfer (1) rôl arweinyddol ffurfiol a (2) arferion effeithiol iawn mewn rôl arweinyddol ffurfiol.
- Safonau ar gyfer cynorthwyo addysgu - mae'r disgrifyddion yn disgrifio arferion effeithiol fel Cynorthwyydd Addysgu (CA) ac arferion effeithiol iawn fel CA. Dylai CA sy'n ceisio statws Cynorthwyydd Addysg Lefel Uwch (CALU) fod yn dangos arferion effeithiol iawn a pharhaus yn y disgrifyddion perthnasol cyn iddynt ymgymryd â'r cynllun CALU ac os ydynt yn llwyddiannus, cyflawni statws CALU.

1.10 Mae Ffigur 1 isod yn rhoi trosolwg o'r safonau a phum elfen hanfodol addysgu ac arweinyddiaeth effeithiol.

**Ffigur 1. Trosolwg o'r safonau a phum elfen hanfodol addysgu ac arweinyddiaeth effeithiol.**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2018

### Cyd-destun a chefndir

1.11 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu proffesiwn addysg o ansawdd uchel fel y nodir yn ei strategaeth ar gyfer y sector addysg hyd at 2021, 'Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl, Cynllun gweithredu

2017-21'.[1] Er mwyn cyflawni'r nod hwn, mae 'Cenhadaeth ein Cenedl' yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn 'cefnogi athrawon yng Nghymru i fod yn ddysgwyr proffesiynol gydol oes sy'n myfyrio ar eu hymarfer eu hunain a'i wella er mwyn cymell ac ysbrydoli'r plant a'r bobl ifanc yn eu gofal'.[2] Mae hefyd yn amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i ddiwygio systemau'r cwricwlwm ac arholiadau, gwella hyfforddiant i athrawon, sefydlu Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol ac adolygu'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth. Mae 'Cenhadaeth Ein Cenedl' hefyd yn nodi'r amcan o ddatblygu, ymgynghori ar a lansio 'safonau proffesiynol newydd ar gyfer athrawon ac aelodau eraill o'r gweithlu addysg a fydd yn canolbwyntio ar elfennau hanfodol addysgu llwyddiannus'. Mae hefyd yn ymrwymo i ddatblygu safonau ar gyfer 'staff cymorth a fydd yn eu galluogi i wella eu sgiliau ac ymrwymo i ddysgu proffesiynol ac yn hwyluso llwybrau cliriach i rôl cynorthwyydd addysgu lefel uwch'.[3]

1.12 Datblygwyd y safonau ar ôl cyhoeddi cyfres o adolygiadau a fu'n sail i ddull Llywodraeth Cymru o ymdrin â gweithgareddau dysgu proffesiynol yn y gweithlu addysg.

1.13 Cydnabu 'Adolygiad o Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru' fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu adolygu Safonau Athrawon Wrth eu Gwaith, gan ddadlau y dylai unrhyw safonau yn y dyfodol fod yn seiliedig ar un fframwaith y gellid ei gymhwyso i ymarferwyr sy'n ennill Statws Athro Cymwysedig (SAC) ar ôl cwblhau eu Haddysg Gychwynnol i Athrawon (AGA); i'r cyfnod sefydlu ar gyfer ANG ac i athrawon newydd eraill sy'n gweithio yn y 'tair i bum mlynedd cyntaf o addysgu'. Pwysleisiodd yr adroddiad bwysigrwydd sicrhau bod safonau yn y dyfodol yn cael eu 'halinio fel eu bod yn rhoi llwybr eglur i arwain dilyniant gyrfa gynnar athrawon'.[4]

1.14 Ystyriodd adroddiad yr Athro Graham Donaldson, 'Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru',

---

[1] Llywodraeth Cymru (2020) Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl. Diweddariad Hydref 2020.
[2] Ibid., tud.25
[3] Ibid., tud.25
[4] Yr Athro Ralph Tabberer (2013) Adolygiad o Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru t.35

ddibenion sylfaenol addysg gan argymell trefniadau cwricwlwm ac asesu sy'n gallu cyflawni'r dibenion hynny orau.[5] Amlygodd yr Adolygiad yr angen i greu 'cwricwlwm sy'n cynnal ac yn hwyluso addysgu a dysgu o'r radd flaenaf yn yr unfed ganrif ar hugain'. Sbardunodd yr Adolygiad raglen fawr o ddiwygio'r cwricwlwm yng Nghymru, gan sefydlu cwricwlwm newydd i Gymru i'w roi ar waith o 2022 ymlaen. Argymhellodd 'Dyfodol Llwyddiannus' hefyd y dylid datblygu rhaglenni dysgu proffesiynol cychwynnol a thrwy gydol gyrfa sy'n meithrin gallu athrawon i gefnogi'r ystod lawn o ddibenion y cwricwlwm.

1.15 Cydnabu 'Addysgu Athrawon Yfory' y byddai proses o ddiwygio addysg wedi'i harwain gan Lywodraeth Cymru, a weithredwyd yn dilyn yr argymhellion yn Adolygiad Donaldson, yn 'codi'r safon yn sylweddol' o ran yr hyn a ddisgwylid gan athrawon.[6] O ganlyniad, mae Adolygiad Furlong a gyhoeddwyd yn 2015 yn nodi y 'bydd ar Gymru angen math gwahanol o athro ac athrawes broffesiynol; un sy'n ysgwyddo cryn dipyn yn fwy o gyfrifoldeb, un sy'n deall dulliau addysgu a'r rhesymau drostyn nhw yn ogystal â chynnwys yr addysgu... [a fydd yn arwain at] oblygiadau pwysig ar gyfer addysg gychwynnol athrawon ac ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)'.[7]

1.16 Canfu'r adroddiad 'Datblygu Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu yng Nghymru', er bod y rhan fwyaf o ysgolion yn cymryd camau tuag at ddatblygu fel sefydliadau sy'n dysgu, bod 'cyfran sylweddol' yn 'dal i fod yn bell iawn o gyflawni'r amcan hwn'. [8] Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod y dull presennol yn dibynnu ar nifer fawr o safonau addysgu ac arweinyddiaeth gwahanol a chymharol statig. Argymhellodd y dylid symleiddio safonau proffesiynol ar gyfer athrawon yng Nghymru o fewn un fframwaith i gwmpasu pob cam gyrfa a phob aelod o staff. Nododd y dylai Cymru ystyried symleiddio a lleihau nifer y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu

[5] Donaldson (2015) Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru
[6] Yr Athro John Furlong (2015) Addysgu Athrawon Yfory
[7] Ibid., tud.38
[8] OECD (2018) Datblygu Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu yng Nghymru

ac arweinyddiaeth a'u seilio ar weledigaeth yr athro a'r arweinydd Cymreig a sicrhau bod safonau'n cwmpasu'r holl staff proffesiynol, gan gynnwys y staff cymorth, yn ogystal â darparu eglurder ac arweiniad ar y disgwyliadau proffesiynol ar bob cam gyrfa.[9]

1.17 Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar safonau proffesiynol drafft ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth rhwng mis Mawrth a mis Mai 2017.[10] Teimlai'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad fod y safonau'n briodol o uchelgeisiol ac yn cyd-fynd â diwygiadau eraill ar draws y maes addysg. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn croesawu'r ymreolaeth gynyddol yr oedd y safonau'n ei rhoi i ymarferwyr. Mynegodd rhai ymatebwyr bryder y gallai llwyth gwaith athrawon fod yn rhwystr i gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth. Mewn ymateb i hyn, nododd Llywodraeth Cymru fod y cynnig yn cynnwys llai o safonau nag o dan y trefniadau presennol (bryd hynny) a bod ystyriaeth ofalus yn cael ei rhoi i sicrhau na fyddai'r safonau newydd yn cynyddu'r llwyth gwaith. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno bod strwythur y safonau proffesiynol (y gwerthoedd a'r ymagweddau, y pum dimensiwn a'u helfennau) yn amlinellu diben cyffredin priodol ar gyfer pob athro ac arweinydd ysgol. Teimlai rhai fod strwythur a chynnwys y safonau'n gymhleth gan gwestiynu'r berthynas rhwng amrywiol elfennau'r model. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno bod y disgrifyddion yn briodol a'u bod yn cefnogi dysgu proffesiynol drwy gydol gyrfa a deialog broffesiynol barhaus.

1.18 Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y safonau proffesiynol drafft ar gyfer cynorthwyo addysgu yn 2019.[11] Roedd y safonau hyn ar gyfer yr holl gynorthwywyr addysgu (CA) a chynorthwywyr addysgu lefel uwch (CALU) sy'n gweithio gyda dysgwyr. Amlygodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad fanteision cyflwyno safonau proffesiynol ar gyfer CA a CALU, gan gynnwys cydnabod statws proffesiynol a gwerth y rhai sy'n cynorthwyo addysgu.

[9] Ibid., tud.108
[10] Llywodraeth Cymru (2017b). Ymgynghoriad - crynodeb o'r ymatebion: Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth.
[11] Llywodraeth Cymru (2019b). Ymgynghoriad - crynodeb o'r ymatebion: Safonau proffesiynol drafft ar gyfer cynorthwyo addysgu.

Nododd yr ymatebwyr y gallai safonau helpu i egluro rolau CA a CALU a rhoi ffocws cyffredin i'r rhai sy'n cynorthwyo addysgu (ynghyd ag athrawon ac arweinwyr) ar y pum safon: addysgeg, cydweithio, dysgu proffesiynol, arweinyddiaeth ac arloesi. Nododd yr ymatebion i'r ymgynghoriad bryderon ynghylch yr amser a'r hyfforddiant sy'n ofynnol i gyflwyno'r safonau a'r posibilrwydd y gallai'r safonau newid canfyddiadau o rolau CA a CALU. Yn ei hymateb, nododd Llywodraeth Cymru fod y safonau'n cael eu cyflwyno fesul cam ac mewn partneriaeth â rhanddeiliaid cenedlaethol a rhanbarthol. Nodwyd hefyd bod y safonau'n debygol o fod fwyaf effeithiol pan gânt eu defnyddio fel dull galluogi yn hytrach na dull o fesur perfformiad.

1.19 Mae 'Buddsoddi mewn rhagoriaeth: Ein cynllun cenedlaethol i ddatblygu'r gweithlu 2019–21' yn tynnu sylw at y safonau fel elfen allweddol o 'gadw athrawon a chamu ymlaen mewn gyrfa' ochr yn ochr â 'rheoli perfformiad', 'dysgu proffesiynol a’r rhwydweithiau cenedlaethol' ac 'arweinyddiaeth, gan gynnwys cynllunio ar gyfer olyniaeth'.[12] Mae'r cynllun hwn yn nodi'r gofynion i ANG 'fyfyrio ar eu hymarfer a chasglu tystiolaeth i ddangos eu bod yn cyrraedd y safonau proffesiynol gofynnol a’r disgrifyddion perthnasol' yn ystod eu blwyddyn sefydlu. Mae'r cynllun hefyd yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu safonau proffesiynol ar gyfer Cynghorwyr Herio rhanbarthol a'r rhai sy'n cefnogi gwella ysgolion. Mae’n cynnwys y maen prawf llwyddiant canlynol sy’n ymwneud â’r safonau: 'Mae pob ymarferydd yn myfyrio ar y safonau proffesiynol i lywio eu hadolygiadau o ddatblygiad proffesiynol'.[13]

1.20 Mae'r safonau yn un o wyth elfen sy'n rhan o'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol. Lansiwyd y dull cenedlaethol yn 2018, gyda'r nod o greu gweledigaeth ar gyfer dysgu proffesiynol sy'n addas ar gyfer y system addysg sy'n esblygu yng Nghymru. Mae elfennau eraill yn cynnwys gwneud y defnydd gorau o rwydweithiau cydweithredol, cymryd rhan mewn Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu, modelau achredu/cydnabod a darparu cyfuniad

[12] Llywodraeth Cymru (2019c): Buddsoddi mewn rhagoriaeth: Ein cynllun cenedlaethol i ddatblygu'r gweithlu 2019-21.
[13] Ibid., tud.35.

o weithgareddau dysgu proffesiynol i sicrhau mynediad a hyblygrwydd. Yn y cyd-destun hwn, bwriad y safonau yw ategu'r cwricwlwm dysgu proffesiynol.[14]

1.21 Fel rhan o'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol, ac i gefnogi datblygiad y Cwricwlwm i Gymru, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chonsortia rhanbarthol a phartneriaid mewn sefydliadau addysg uwch (SAU) i ddatblygu'r Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol. Caiff ysgolion sy'n cymryd rhan eu cefnogi i arwain ymholiadau yn eu lleoliad eu hunain i ymchwilio i ofynion dysgu proffesiynol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Cynhaliwyd cam treialu a datblygu cynnar yn 2018-19, lle y bu ysgolion yn gweithio mewn grwpiau ymholi cenedlaethol gan ganolbwyntio ar themâu o fewn y meysydd trosfwaol 'cynllunio ar gyfer cwricwlwm a yrrir gan ddiben', 'addysgeg a sut mae dysgu'n gweithio', 'dysgu ar sail prosiectau' a 'goblygiadau o ran arwain a rheoli'. Cynlluniwyd gweithgareddau cryfhau a chyfoethogi i ddechrau ar gyfer 2019-20 a'r gwaith ehangu a datblygu pellach yn 2020-21.[15]

1.22 Er mwyn helpu i arwain ysgolion drwy'r agweddau dysgu strwythurol a phroffesiynol ar baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, datblygwyd y Daith Dysgu Proffesiynol.[16] Fe'i cyhoeddwyd ym mis Mai 2020, ac mae'n ymgorffori'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol, Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu a'r rhaglen gymorth draws-ranbarthol a ddatblygwyd gan y consortia. Ei bwriad yw gwneud y modelau a'r dulliau hyn yn haws i gael gafael arnynt, yn haws ei deall ac yn haws eu defnyddio wrth gynllunio. Mae'r elfen o'r daith dysgu proffesiynol sy'n cyfeirio'n benodol at y safonau yn dangos y gallai ymarferwyr ystyried: creu cyfleoedd dysgu parhaus i staff; dysgu mewn tîm a chydweithio; a chreu systemau ar gyfer casglu a chyfnewid gwybodaeth ar gyfer dysgu.

---

[14] Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol, ar gael ar-lein ar Hwb [Dull cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol - Hwb (gov.wales)] [fel ar 17.5.21]
[15] Y Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol, ar gael ar-lein ar Hwb [Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol - Hwb (gov.wales)] [fel ar 17.5.21]
[16] Taith Dysgu Proffesiynol, ar gael ar-lein ar Hwb [Taith Dysgu Proffesiynol - Hwb (gov.wales)] [fel ar 17.5.21]

1.23 Mae Estyn wedi ceisio cefnogi lefelau cyson o waith gwella ysgolion o ansawdd uchel ymhellach drwy ddatblygu Adnodd Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol. Bwriad yr adnodd hwn yw cefnogi a chryfhau'r broses hunanwerthuso mewn ysgolion. Mae diweddariad a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020 yn nodi cynnydd a chynlluniau ar gyfer datblygu'r adnodd (gyda'r llinell amser derfynol ar gyfer ei gyflwyno eto i'w phenderfynu). Bydd yr adnodd yn canolbwyntio ar bum ysgogiad; addysgu, arweinyddiaeth, gweledigaeth, llesiant, cwricwlwm a dysgu cyfunol. Mae'r ysgogiadau addysgu ac arweinyddiaeth yn cyd-fynd â'r safonau ac yn cynnwys ysgogiad deialog sy'n cyfeirio'n benodol at y safonau:

> 'I ba raddau y mae'r holl athrawon yn defnyddio'r Safonau proffesiynol ar gyfer addysg ac arweinyddiaeth i arwain eu dysgu proffesiynol?'[17]

1.24 Amlygodd adroddiad yr OECD, 'Achieving the New Curriculum for Wales' a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020, y rôl ganolog y dylai dysgu proffesiynol ei chwarae wrth weithredu'r cwricwlwm newydd yn llwyddiannus.[18] Yn fwy penodol, trafododd yr adroddiad hefyd y gwaith a wnaed gan Lywodraeth Cymru i gysoni safonau proffesiynol â'r cwricwlwm ehangach a'r broses o ddiwygio trefniadau dysgu proffesiynol. Noda fod y safonau'n dechrau annog mwy o alluedd ar ran athrawon, a mwy o "gyd-alluedd" ar ran arweinwyr ac athrawon lleoliadau, yn unol â myfyrdodau rhyngwladol cyfredol. Yn ystod y cyfweliadau, darganfu OECD: fod y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid yn croesawu'r safonau; bod y safonau'n annog arloesi, cydweithio, a dysgu ac ymholi dilys; ond bod gan randdeiliaid haen ganol a Llywodraeth Cymru ran allweddol i'w chwarae o ran cynnig rhagor o eglurder ac arweiniad ynghylch sut y gellir rhoi'r safonau ar waith.

1.25 Ym mis Tachwedd 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adolygiad annibynnol o drefniadau sefydlu statudol athrawon, a gynhaliwyd gan yr Athro Mick Waters.[19] Roedd yr adroddiad yn feirniadol o lawer o'r ddarpariaeth gyfredol, gan nodi 'prin y gallai adolygiad o agwedd ar

---

17 Estyn (2020) Adnodd Cenedlaethol Gwerthuso a Gwella - diweddariad a chanllawiau v1.3, atodiad 1.

18 OECD (2020), Achieving the New Curriculum for Wales

19 Waters (2020) Dysgu bod yn athro yng Nghymru: sefydlu athrawon yn y proffesiwn.

addysgu fod wedi derbyn ton gystal o unfrydedd' gan fynegi rhwystredigaeth gyda'r prosesau cyfredol. Mae'r rhwystredigaeth hon ymysg ymarferwyr yn ymestyn i lawer o'r strwythurau dysgu proffesiynol presennol. Mae'r adroddiad yn gwneud nifer o awgrymiadau ynghylch gwella dysgu proffesiynol yn ystod cyfnod sefydlu athrawon, gan gynnwys: yr angen i Estyn adolygu'r broses yn rheolaidd; rhaglen genedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol wedi'i datblygu gan gonsortia sy'n canolbwyntio ar dwf effeithiol y safonau; a darpariaeth ddysgu wahaniaethol a ddarperir gan gonsortia i ategu cyfleoedd dysgu ar lefel ysgol, gyda phwyslais ar gydweithio proffesiynol, arloesi ac arweinyddiaeth. Mae’r adroddiad yn ei gwneud yn glir:

> 'Dylai'r pum safon broffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth arwain profiad a dysgu proffesiynol yr athro ymrestredig o ddechrau'r rhaglen addysg gychwynnol i athrawon hyd at ddiwedd y cyfnod sefydlu a'r tu hwnt, a dylid defnyddio disgrifyddion i ddarparu tystiolaeth o addasrwydd yr unigolyn ar gyfer ei gynnwys ar gofrestr athrawon Cymru.' [20]

1.26 Yn 2020-21, ariannwyd Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) i adolygu sut y mae ymarferwyr yn ymgysylltu â'r safonau ac i ddatblygu adnoddau newydd i gynorthwyo ymarferwyr i ymgysylltu â'r safonau.[21] Er bod adolygiad cychwynnol a gynhaliwyd gan CGA fel rhan o'r gwaith hwn wedi nodi pocedi o arfer da o ran ymgysylltiad ymarferwyr â'r safonau, canfu hefyd fod y patrymau ymgysylltu'n amrywio'n sylweddol ar draws y gweithlu, gydag ymarferwyr sydd â rhwymedigaeth statudol i ymgysylltu â'r safonau (megis ANG) yn fwy tebygol o wneud hynny. Amlygodd yr adolygiad hefyd yr angen i addysgu ymarferwyr ymhellach ynghylch sut y gellir defnyddio'r safonau ac i ddarparu rhagor o adnoddau i gefnogi ymgysylltiad. Nododd yr adolygiad dri grŵp o ymarferwyr y dylid eu blaenoriaethu o fewn ail gam gwaith CGA, sef: athrawon ôl-sefydlu; penaethiaid ac uwch arweinwyr; a

[20] Ibid tud. 50.
[21] Cyngor y Gweithlu Addysg (2021), Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu, arweinyddiaeth a chynorthwyo addysgu yng Nghymru

chynorthwywyr dysgu. Yn ôl yr adroddiad, byddai unrhyw adnoddau a gynhyrchir yn debygol o:

> ‘include some form of exemplification to help practitioners to interpret the standards, case studies providing relatable examples of how they may be used to improve practitioners practice and self-evaluation tools that allow practitioners to measure and reflect upon their progress.’[22]

1.27 Mae nifer o fentrau polisi wedi’u lansio gan Lywodraeth Cymru yn y blynyddoedd diwethaf sydd wedi cyflwyno newidiadau i’r maes dysgu proffesiynol yng Nghymru ac sydd wedi darparu llwyfannau ar gyfer cydweithio proffesiynol. Mae’r Rhwydwaith Cenedlaethol, a lansiwyd ar ddiwedd 2021, yn dod ag ymarferwyr, arbenigwyr academaidd, consortia rhanbarthol, Estyn, llunwyr polisïau a sefydliadau eraill ynghyd i nodi a mynd i’r afael â rhwystrau a chyfleoedd i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'n adeiladu ar ddysgu proffesiynol ar lefel ranbarthol ac yn darparu cyfleoedd i drafod, cyd-greu, ymholi ar y cyd a gweithgaredd datrys problemau.

1.28 Lansiwyd y Prosiect Addysgeg Cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru i hwyluso sgwrsio, cydweithio ac ymholi er mwyn cefnogi'r broses o archwilio a myfyrio ar yr egwyddorion addysgeg. Mae hefyd yn anelu at lunio'r weledigaeth barhaus ar gyfer dysgu wrth i'r Cwricwlwm i Gymru gael ei wireddu. Mae 'Trafod Addysgeg, Meddwl am Ddysgu' yn darparu gofod digidol i rannu ymarfer a chefnogi cydweithio o fewn ac ar draws ein hysgolion i archwilio addysgeg ac ymarfer.

1.29 Mae'r safonau proffesiynol yn elfen allweddol o'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol. Mae'r weledigaeth yn adeiladu ar y Dull cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol ac yn nodi ymrwymiad i fynediad cyfartal at ddysgu proffesiynol o safon i bob gweithiwr addysg proffesiynol. Mae’r Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol yn nodi’r disgwyliad y dylai pob ymarferydd gael ei ysgogi gan y set gyffredinol o werthoedd a

[22] Ibid tud. 23.

thueddiadau sydd wedi'u cynnwys yn y safonau proffesiynol yn ogystal â'r pum safon broffesiynol eu hunain. Ymhellach mae'n datgan:

- y dylai defnyddio'r safonau proffesiynol lywio trefniadau rheoli perfformiad a gwella ysgolion ac arwain at ddatblygu taith dysgu proffesiynol unigol ar gyfer pob ymarferydd, gan gynnwys athrawon a chynorthwywyr addysg, arweinwyr ac arweinwyr systemau.
- bod gan bob gweithiwr addysg proffesiynol hawl i weithio mewn ysgol neu leoliad, neu sefydliad sy'n defnyddio safonau proffesiynol ym mhob agwedd ar ddatblygiad proffesiynol.
- y dylai ymarferwyr ystyried yn rheolaidd eu rôl o ran y safonau proffesiynol ac ysgogi gwelliant drwy weithgareddau dysgu proffesiynol priodol.
- y dylai arweinwyr a chynghorwyr y system addysg, gan gynnwys consortia addysg, awdurdodau lleol ac awdurdodau esgobaethol, gefnogi ysgolion neu leoliadau i ddatblygu diwylliant sy'n hyrwyddo ac yn cefnogi dysgu proffesiynol yn unol â'r safonau proffesiynol perthnasol ac egwyddorion y model ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu.
- Y dylai arweinwyr neu gynghorwyr systemau addysg, gan gynnwys consortia addysg, awdurdodau lleol ac awdurdodau esgobaethol sicrhau eu bod yn gweithredu fel dysgwyr proffesiynol eu hunain, gan fodelu, defnyddio safonau proffesiynol perthnasol ac ymrwymo i'w teithiau dysgu proffesiynol eu hunain.

1.30 Dechreuodd y broses o gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ym mhob ysgol gynradd a rhai ysgolion uwchradd yng Nghymru. Cafodd ysgolion uwchradd y dewis i ddechrau ei weithredu ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 7 o fis Medi 2022 ymlaen ac ymestyn hynny fesul blwyddyn o hynny ymlaen, neu ei gyflwyno ym Mlynyddoedd 7 ac 8 o fis Medi 2023 ymlaen. Wrth baratoi ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm, roedd yn ofynnol i ysgolion ddylunio eu cwricwlwm. Yr hyn sy'n allweddol i wireddu'r trefniadau cwricwlwm newydd yn llwyddiannus yw sicrhau bod ysgolion, drwy weithio gyda phartneriaid, yn

gallu cael mynediad at y cymorth ymarferol i ddatblygu’r sgiliau addysgeg, dylunio cwricwlwm ac arweinyddiaeth sydd eu hangen.

1.31 Mae Tabl 1 yn rhoi trosolwg o'r gyfres o adolygiadau a mentrau a amlinellir uchod a datblygiadau a cherrig milltir allweddol eraill sy'n berthnasol i'r safonau. Cyflwynir crynodeb diagramatig o'r rhain yn **Error! Reference source not found.**Ffigur 2.


**Tabl 1. Datblygiadau allweddol sy'n berthnasol i'r safonau**

| Dyddiad | Datblygiad allweddol |
|---|---|
| 2009 | Safonau Statws Athro Cymwysedig Cymru - roedd y rhain yn disodli safonau 2006 ac yn seiliedig ar ddatganiadau deilliant, yn nodi'r hyn y mae'n rhaid i hyfforddeion ei wybod - Gwerthoedd ac arferion proffesiynol; Gwybodaeth a dealltwriaeth; Addysgu. |
| 2011 | Safonau proffesiynol diwygiedig ar gyfer ymarferwyr addysg yng Nghymru<br><br>Safonau ar gyfer - Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch, Athrawon wrth eu Gwaith ac Arweinyddiaeth. Roedd y safonau'n canolbwyntio ar - Nodweddion a gwerthoedd proffesiynol; Gwybodaeth a dealltwriaeth; Sgiliau. |
| 2013 | Adolygiad o Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru cynigiwyd 15 o argymhellion i wella ansawdd yn y sector gan y canfuwyd bod angen gwella hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru mewn sawl maes. Ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r argymhellion gan gynnwys 'system integredig o safonau proffesiynol'. |
| 2013 | Cymunedau dysgu proffesiynol - trosolwg o'r model cenedlaethol ar gyfer cymunedau dysgu proffesiynol |
| 2013 | Cynllun gweithredu i hyrwyddo rôl a hybu datblygiad staff cymorth mewn ysgolion yng Nghymru sy'n amlygu ymrwymiad i holl staff cymorth ysgolion gael mynediad at hyfforddiant, gyda chymwysterau sy'n addas at y diben, gan gynnwys safonau proffesiynol sy'n darparu cysondeb cenedlaethol. |
| 2014 | Cymwys am Oes: Cynllun Gwella Addysg ar gyfer Dysgwyr 3-19 oed yng Nghymru - Amcan Strategol 1 - Gweithlu proffesiynol rhagorol gydag addysgeg gref yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio, a chryfhau'r safonau a diwygio safonau arweinyddiaeth wedi'u nodi, a sicrwydd y bydd y safonau'n parhau i fod yn addas at y diben. |
| 2014 | Improving Schools in Wales (OECD) - safonau a argymhellir wedi'u symleiddio ac yn seiliedig ar weledigaeth Cymru o'r ymarferydd a'r arweinydd, sy'n cwmpasu pob cam gyrfa ac yn cynnwys staff cymorth dysgu. |

| | |
|---|---|
| Mehefin 2014 | Cyhoeddwyd y 'Fargen newydd i'r gweithlu addysg', gyda manylion pellach yn cael eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2015. Sefydlu llwybrau datblygu gydol gyrfa ac adnewyddu safonau proffesiynol. |
| 2015 | Argymhellodd Addysgu Athrawon Yfory 'gysyniadau sylfaenol newydd' o ran y safonau ar gyfer AGA fel bod y safonau'n adlewyrchu'n well y sgiliau gofynnol ar gyfer newydd-ddyfodiaid i'r proffesiwn a'r angen i integreiddio AGA â dysgu proffesiynol gydol gyrfa |
| 2015 | Nododd Dyfodol Llwyddiannus fod angen i'r strategaeth newid effeithiol sy'n ofynnol gael ei chefnogi gan ddull strategol o ddatblygu capasiti, gan gynnwys AGA briodol a datblygiad proffesiynol parhaus. |
| Tachwedd 2015 | Sefydlwyd Rhwydwaith Ysgolion Arloesol, gan gynnwys arloeswyr dysgu proffesiynol (a elwid gynt yn 'fargen newydd') |
| Hydref 2016 | Lansiodd Cyngor y Gweithlu Addysg y Pasbort Dysgu Proffesiynol |
| 2017 | Cydnabuwyd bod yr adroddiad The Welsh Education Reform Journey (OECD) yn brif ysgogydd ar gyfer gwella, ac argymhellwyd cysoni'r safonau arweinyddiaeth a'r safonau addysgu newydd a chysylltu'r safonau â rhaglenni hyfforddiant cychwynnol i athrawon gan gwmpasu'r holl gamau gyrfa. |
| Mehefin 2017 | Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth. |
| Medi 2017 | Mae Addysg yng Nghymru: cenhadaeth ein cenedl: cynllun gweithredu 2017-21 yn cynnwys 'safonau proffesiynol newydd ar gyfer athrawon ac aelodau eraill o'r gweithlu addysg a fydd yn canolbwyntio ar elfennau hanfodol addysgu llwyddiannus'. |
| Medi 2017 | Cafodd Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth eu lansio a'u mabwysiadu gan ANG yn ystod y cyfnod sefydlu. |
| Tachwedd 2017 | Cyflwynwyd Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu yng Nghymru. |
| 2018 | Mae Datblygu Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu yng Nghymru (OECD) yn cefnogi Cymru ac yn asesu i ba raddau y mae ysgolion wedi datblygu fel sefydliadau sy'n dysgu |
| 2018 | Lansiwyd y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol a chyflwynwyd elfennau ar gyfer ysgolion, rhanbarthau a'r genedl. |
| 2018 | Cam cyntaf Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol yn dechrau. |
| Mai 2018 | Lansiwyd Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, gyda'r nod o sicrhau bod pob ymarferydd yn gallu ymgysylltu â dysgu proffesiynol. |

| | |
|---|---|
| Medi 2018 | Safonau newydd yn ffurfio rhan o'r gofynion statudol ar gyfer arfarnu pob athro ac arweinydd ysgol, a defnyddir Safonau arweinyddiaeth fel sail i'r Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) |
| Tachwedd 2018 | Cyhoeddwyd Safonau drafft ar gyfer CA a CALU ar gyfer ymgynghori.<br>Prosiect ymholi proffesiynol cenedlaethol Cam 1 - treialu a datblygiad cynnar |
| Chwefror 2019 | Ailbwysleisiodd Buddsoddi mewn gweithlu rhagorol y byddai safonau newydd yn cael eu sefydlu i fod yn sail i ddatblygiad y proffesiwn addysgu. |
| Mai 2019 | Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar safonau proffesiynol drafft ar gyfer cynorthwyo addysgu. |
| Medi 2019 | Darpariaeth AGA yn mabwysiadu'r safonau.<br>Safonau proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu ar gael i bob CA a CALU. |
| Tachwedd 2019 | Buddsoddi mewn rhagoriaeth: Ein cynllun cenedlaethol i ddatblygu'r gweithlu 2019–21 yn cynnwys datblygu Pecyn Cymorth Gyrfa Gynnar, pwysleisir trefniadau sefydlu statudol, a'r cynllun i ddatblygu safonau proffesiynol ar gyfer Cynghorwyr Herio rhanbarthol.<br>Lansiwyd Rhaglen Ymholi Proffesiynol Athrawon Cam 2: Cryfhau a Chyfoethogi. |
| Mai 2020 | Cyhoeddwyd y Daith Dysgu Proffesiynol |
| Hydref 2020 | Cyhoeddwyd adroddiad yr OECD, Achieving the New Curriculum for Wales |
| Tachwedd 2020 | Dysgu bod yn athro yng Nghymru: sefydlu athrawon yn y proffesiwn. Adroddiad annibynnol gan yr Athro Mick Waters. |
| Mawrth 2021 | Cyngor y Gweithlu Addysg (2021), adolygiad o safonau proffesiynol ar gyfer addysgu, arweinyddiaeth a chynorthwyo addysgu yng Nghymru |
| Medi 2021 | Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yn dechrau dod i rym yng Nghymru. |
| Medi 2022 | Dechrau cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ym mhob ysgol gynradd a rhai ysgolion uwchradd yng Nghymru. |
| Medi 2022 | Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, yn nodi y dylai 'defnyddio'r safonau proffesiynol i fyfyrio ar ymarfer unigol lywio trefniadau rheoli perfformiad a gwella ysgolion ac arwain at ddatblygu taith dysgu proffesiynol unigol ar gyfer pob ymarferydd.' |

**Ffigur 2. Llinell amser o'r cerrig milltir allweddol yn ymwneud â'r safonau**



**I bwy mae'r safonau'n berthnasol: y gweithlu addysg yn y sector a gynhelir**

1.32 Mae'n ofynnol i athrawon ysgol a gweithwyr cymorth dysgu gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA) a thalu ffi flynyddol er mwyn parhau i fod yn gofrestredig. Mae CGA yn cyhoeddi 'Crynodeb Ystadegau' blynyddol yn seiliedig ar y data a gedwir yn y Gofrestr Ymarferwyr Addysg. Dengys data o ystadegau blynyddol y gweithlu addysg ar gyfer Cymru 2022[23] (CGA, 2022) y canlynol:

- roedd 82,159 o unigolion cofrestredig (roedd 13 y cant o'r rhain wedi'u cofrestru mewn categorïau lluosog e.e. athro a gweithiwr cymorth dysgu)
- roedd 35,256 o unigolion cofrestredig yn gymwys i ymarfer fel athrawon ysgol
- roedd 42,585 o unigolion cofrestredig yn gymwys i ymarfer fel gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgol
- roedd dros dri chwarter yr athrawon ysgol (76 y cant) a mwyafrif y gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion (86 y cant) yn fenywod
- nododd mwyafrif yr athrawon ysgol (92 y cant) a'r gweithwyr cymorth dysgu (69 y cant) eu hethnigrwydd fel Gwyn
- nododd traean (33 y cant) yr athrawon ysgol eu bod yn siaradwyr Cymraeg, ac roedd ychydig dros chwarter yr athrawon ysgol yn gallu gweithio drwy gyfrwng Cymraeg (27 y cant).

[23] Ystadegau gweithlu addysg blynyddol ar gyfer Cymru 2022 Ystadegau'r gweithlu addysg (ewc.wales)

## 2. Methodoleg

2.1 Mae'r adran hon yn darparu manylion am y fethodoleg a fabwysiadwyd yn ystod y gwerthusiad. Mae hyn yn cynnwys y rhesymeg dros y dull a ddefnyddiwyd, manylion y gwaith maes, yr heriau a chyfyngiadau'r fethodoleg.

2.2 Roedd y fethodoleg werthuso yn cynnwys ymchwil ansoddol hydredol gyda rhanddeiliaid ac ymarferwyr ochr yn ochr ag adolygiad o'r data sydd ar gael ar weithrediad y safonau.

2.3 Roedd cyfanswm o 18 o leoliadau a 30 o randdeiliaid yn cymryd rhan mewn dau gam o weithgaredd ymchwil (y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn fel gwaith maes Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2):

- Cynhaliwyd gwaith maes Blwyddyn 1 rhwng mis Hydref 2020 a mis Ebrill 2021
- Cynhaliwyd gwaith maes Blwyddyn 2 rhwng mis Mai a mis Medi 2022.

Isod ceir dadansoddiad manylach o'r ymarferwyr a'r rhanddeiliaid a gymerodd ran ym mhob cam o'r gwaith maes. Cyflwynir astudiaethau achos yn seiliedig ar y lleoliadau a gynhwyswyd yn y gwaith maes yn Atodiad B.

**Trosolwg o fethodoleg y gwerthusiad a'r sail resymegol drosti**

2.4 Roedd ein dull yn seiliedig ar fodel proses a oedd yn edrych ar y camau rhesymegol sy'n ofynnol er mwyn gweithredu'r safonau'n effeithiol. Roedd hyn yn cynnwys archwilio:

- lefelau o **ymwybyddiaeth a dealltwriaeth** o'r safonau ymhlith ymarferwyr ysgol a rhanddeiliaid.
- sut y mae ymarferwyr a rhanddeiliaid wedi **defnyddio'r safonau neu ymateb iddynt** o ddydd i ddydd, er enghraifft mewn cynlluniau ysgol neu adrannol ac mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol.

- **effeithiolrwydd gweithredu'r** safonau, gan gynnwys ffactorau ac amodau sy'n galluogi ac yn rhwystro eu gweithredu'n effeithiol.[24]
- y **cymorth** a ddarperir i hwyluso eu gweithredu, ac a yw hyn yn ddigonol.
- yr **effeithiau** sy'n dod i'r amlwg neu'r effeithiau disgwyliedig o ganlyniad i weithredu'r safonau.

2.5 Yn bennaf, mabwysiadwyd dull ansoddol o gasglu data yn y gwerthusiad. Y rhesymeg dros hyn oedd galluogi'r gwerthusiad i gasglu tystiolaeth gyfoethog a manwl i helpu i ddeall ymwybyddiaeth yr ymarferwyr a'r rhanddeiliaid o'r safonau a'u profiadau o'u defnyddio. Mabwysiadwyd dull hydredol er mwyn rhoi cyfle i waith maes y gwerthusiad ystyried sut yr oedd ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a defnydd ymarferwyr o’r safonau yn newid dros amser. Nid yw'r gwerthusiad wedi ceisio casglu data cyffredinol sy'n ystadegol ddibynadwy ar y safonau, er bod rhywfaint o dystiolaeth feintiol eilaidd o ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad lleoliadau wedi'i chynnwys yn Adran 4 o'r adroddiad hwn.

2.6 Yn ystod y cyfweliadau, gofynnwyd i'r rhanddeiliaid pa wybodaeth yr oeddent yn ei chasglu ar y defnydd o'r safonau. Er nad oedd y rhanddeiliaid yn gallu darparu data meintiol ar y defnydd o'r safonau gan leoliadau ac ymarferwyr, darparodd y Consortia Addysg Rhanbarthol a CGA ddata ar y niferoedd a gymerodd ran mewn digwyddiadau dysgu proffesiynol yn ymwneud â'r safonau. Yn benodol, fe wnaethant ddarparu data ar nifer y lleoliadau a gymerodd ran mewn digwyddiadau hyfforddi ar y 'proffil sefydlu'; dyma un o elfennau allweddol y Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) ac mae'n seiliedig ar y safonau. Darparodd CGA hefyd rywfaint o ddata ar ymgysylltiad ymarferwyr â'r safonau drwy'r PDP ac ar yr hyfforddiant a drefnwyd gan y Consortia Addysg Rhanbarthol mewn perthynas â defnyddio'r proffil sefydlu. Cyflwynir y data hyn yn Adran 4 o'r adroddiad hwn.

[24] Mae'r canfyddiadau sy'n ymwneud â pha mor effeithiol y gweithredwyd y safonau wedi'u hintegreiddio â chanfyddiadau ar sut y defnyddir y safonau i'w gweld yn Adran 4.

### Gwaith maes

2.7 Yn ystod cyfnod cwmpasu'r prosiect (Ionawr-Ebrill 2020) cynhaliwyd gwaith maes gyda chyfanswm o 22 o unigolion o sefydliadau rhanddeiliaid cenedlaethol a rhanbarthol. Roedd y rhain yn cynnwys cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, Estyn, Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA), yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, Darparwyr AGA a'r Consortia Addysg Rhanbarthol. Helpodd y cyfweliadau hyn i lywio datblygiad yr offer ymchwil (Gweler Atodiad A o adroddiad Blwyddyn 1) ar gyfer gwaith maes Blwyddyn 1, a chawsant eu mireinio ar gyfer gwaith maes Blwyddyn 2 (Gweler Atodiad A yr adroddiad hwn). Cafodd y rhai a gyfwelwyd yn y cyfnod cwmpasu eu hailgyfweld yn y gwaith maes â rhanddeiliaid ym Mlwyddyn 2 y gwerthusiad.

2.8 Ar ôl y cam cwmpasu, roedd gwaith maes gydag ymarferwyr a rhanddeiliaid yn cynnwys y canlynol:

- Blwyddyn 1 (Hydref 2020-Ebrill 2021): cyfwelwyd â chyfanswm o 83 o ymarferwyr ar draws 20 o leoliadau, a chyfwelwyd â chyfanswm o 49 o randdeiliaid hefyd (heb gynnwys y 22 a gyfwelwyd yn y cyfnod cwmpasu y cyfeirir atynt uchod).
- Blwyddyn 2 (Mai-Gorffennaf 2022): Cymerodd cyfanswm o 44 o ymarferwyr ran o 18 o leoliadau (nid oedd modd i ddau o'r 20 lleoliad ym Mlwyddyn 1 gymryd rhan). Cymerodd cyfanswm o 40 o blith y 44 o ymarferwyr ran yn nau gam yr ymchwil. Cyfwelwyd â chyfanswm o 30 o randdeiliaid yn ystod Blwyddyn 1 y gwerthusiad.[25]

2.9 Cynhaliwyd y cyfweliadau o bell dros y ffôn neu ar blatfform rhithwir. Cynhaliwyd y mwyafrif o'r cyfweliadau yn unigol, gyda rhai yn cael eu cynnal mewn parau neu grwpiau bach, yn seiliedig ar ddewisiadau'r cyfweleion.

[25] Roedd pob un o'r 30 a gyfwelwyd yn rhanddeiliaid o sefydliadau 'cenedlaethol' neu 'ranbarthol' yr ymgysylltwyd â nhw yn ystod Blwyddyn 1. Roedd dau o blith y 30 o a gyfwelwyd yn unigolion na wnaethant gymryd rhan yng nghyfweliadau Blwyddyn 1 ond a oedd yn cynrychioli sefydliadau a oedd yn ymgysylltu.

### Gwaith maes gyda lleoliadau

2.10 Yn ystod y cam cwmpasu, gofynnodd y tîm gwerthuso am farn rhanddeiliaid ar sut i sicrhau y gellid nodi a recriwtio lleoliadau a oedd wedi ymgysylltu â'r safonau mewn amrywiol ffyrdd. Cytunwyd, yn absenoldeb data meintiol ar lefelau ymgysylltu â'r safonau, y byddai angen dull pwrpasol o nodi lleoliadau, gan ddefnyddio tystiolaeth ansoddol gan randdeiliaid.

2.11 Yn dilyn y cam cwmpasu, gofynnodd y tîm gwerthuso am restrau o 12 lleoliad gan bob Consortia Addysg Rhanbarthol - chwech yr ystyriwyd eu bod wedi ymgysylltu â'r safonau 'yn helaeth' a chwech yr ystyriwyd eu bod ar 'gam ymgysylltu cynharach' â'r safonau. Rhannwyd nodyn briffio yn egluro'r categorïau hyn â'r Consortia Addysg Rhanbarthol.

| **Grŵp A: Wedi ymgysylltu'n helaeth â'r safonau** | **Grŵp B: Ar gam ymgysylltu cynharach â'r safonau** |
|---|---|
| Lleoliadau yr ystyrir eu bod yn ymgysylltu'n helaeth â'r safonau. Galli hyn gynnwys:<br>• Lefelau uchel o ymgysylltiad â rhaglenni rhanbarthol gyda'r nod o gefnogi'r defnydd o'r safonau<br>• Ymgorffori'r safonau yn eu dysgu proffesiynol<br>• Defnyddio iaith y safonau yn ddyddiol<br>• Athrawon yn cyfleu eu hanghenion dysgu proffesiynol drwy'r safonau<br>• Athrawon ac arweinwyr yn defnyddio'r safonau i hunanwerthuso a myfyrio ar eu hymarfer. | Lleoliadau yr ystyrir eu bod ar gam cynharach o ran eu hymgysylltiad â'r safonau.<br>• Efallai y bydd ambell enghraifft o'r nodweddion a welir yn Grŵp A, ond mae'r defnydd o'r safonau yn llai systematig ar draws y lleoliad<br>• Lefelau is o ymgysylltiad â rhaglenni rhanbarthol gyda'r nod o gefnogi'r defnydd o'r safonau<br>• Hefyd, ceir lefelau cymharol is o wybodaeth a dealltwriaeth o'r safonau ar draws y lleoliad. |

2.12 Dewisodd y tîm gwerthuso 20 lleoliad o'r 'rhestrau hir' a ddarparwyd gan y Consortia Addysg Rhanbarthol (10 o grŵp A a 10 o grŵp B uchod), a gwahoddwyd lleoliadau i gymryd rhan drwy gysylltu â'r pennaeth. Os nad oedd lleoliad yn gallu cymryd rhan yn y gwerthusiad, neu os nad oedd wedi ymateb i'r gwahoddiad, dewiswyd lleoliad arall a oedd â nodweddion tebyg (h.y. rhanbarth, sector, math, cyfrwng) i'r lleoliad a ddewiswyd yn wreiddiol. Dewiswyd y lleoliadau newydd hyn o blith y rhestrau hir i ddechrau ac yna,

os nad oedd dewis arall addas ar y rhestrau hyn, fe'u dewiswyd ar hap o restrau o leoliadau a oedd â nodweddion tebyg.

2.13 Dangosir dadansoddiad o'r 18 lleoliad a gymerodd ran ym Mlwyddyn 1 yn ôl categori yn **Error! Reference source not found.**Nhabl 2 isod. Yn ddaearyddol, roedd y lleoliadau o bob rhanbarth a gymerodd ran wedi'u gwasgaru'n gymharol gyfartal, gyda phum lleoliad yn cymryd rhan o ddau ranbarth a phedwar lleoliad o'r ddau ranbarth arall.[26]

2.14 Ym Mlwyddyn 1, gofynnwyd i leoliadau a allai 8-10 o ymarferwyr o amrywiaeth o rolau gymryd rhan mewn cyfweliadau, fodd bynnag nid oedd hyn yn bosibl ym mhob lleoliad. Cyfwelwyd ag o leiaf un uwch arweinydd ym mhob un o'r 20 lleoliad. Mewn 14 o blith yr 20 lleoliad, cyfwelwyd â staff o amrywiaeth o rolau; mewn chwe lleoliad dim ond y pennaeth neu uwch arweinydd yr oedd yn bosibl ei gyfweld.[27]

2.15 Yn ystod gwaith maes Blwyddyn 2, gofynnwyd i leoliadau a oedd modd ail-gyfweld â'r ymarferwyr a gymerodd ran ym Mlwyddyn 1. Mewn lleoliadau lle y cyfwelwyd ag uwch arweinwyr yn unig ym Mlwyddyn 1, gofynnwyd hefyd am gyfweliadau gydag ymarferwyr. Cyfwelwyd ag o leiaf un uwch arweinydd mewn 13 o blith y 18 lleoliad a ail-gyfwelwyd.

- Mewn naw o blith y 18 lleoliad, cafodd staff o amrywiaeth o rolau eu cyfweld
- Mewn pedwar o blith y 18 lleoliad dim ond y pennaeth neu uwch arweinydd yr oedd yn bosibl ei gyfweld.[28]
- Mewn pump o blith y 18 lleoliad, dywedodd uwch arweinwyr na fyddent hwy na'u staff yn gallu cymryd rhan mewn gwaith maes

[26] Bwriadwyd sicrhau niferoedd cyfartal ym mhob rhanbarth, ond nid oedd hyn yn bosibl am resymau ymarferol yn ymwneud â recriwtio'r sampl.
[27] Yn y lleoliadau hyn, roedd uwch arweinwyr wedi bwriadu i staff eraill gymryd rhan i ddechrau, ond nid oedd yn bosibl trefnu hyn yn ystod cyfnod y gwaith maes.
[28] Yn y lleoliadau hyn, roedd uwch arweinwyr wedi bwriadu i staff eraill gymryd rhan i ddechrau, ond nid oedd yn bosibl trefnu hyn yn ystod cyfnod y gwaith maes.

- Ym mhob un o'r rhain, dywedodd uwch arweinwyr nad oedd llawer wedi newid o ran ymwybyddiaeth a defnydd eu lleoliadau o'r safonau ers Blwyddyn 1.
- Yn y lleoliadau hyn, datblygwyd astudiaethau achos yn seiliedig ar waith maes Blwyddyn 1 a'u rhannu ag uwch arweinwyr er mwyn iddynt allu eu hadolygu a gwirio bod y rhain yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol yn eu lleoliad; mae'r astudiaethau achos hyn wedi'u cynnwys yn Atodiad B.

Dangosir dadansoddiad o rolau ymarferwyr hefyd yn Nhabl 2 isod.

**Tabl 2. Nifer / math o leoliadau a nifer / rôl yr ymarferwyr a gymerodd ran ym Mlwyddyn 2**

| Math o leoliad | Cyfanswm nifer y lleoliadau | Cyfanswm yr ymarferwyr a gyfwelwyd | Math o rôl ymarferwr | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Uwch arweinwyr | Arweinwyr canol | Athrawon | CA | ANG |
| Ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg | 2 | 5 | 2 | 0 | 1 | 1 | 1 |
| Ysgol gynradd cyfrwng Saesneg | 2 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ysgol gynradd dwy ffrwd | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg | 4 | 5 | 4 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Ysgol uwchradd ddwyieithog | 1 | 7 | 2 | 2 | 1 | 1 | 1 |
| Ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg | 2 | 9 | 3 | 3 | 3 | 0 | 0 |
| Ysgol ganol* | 2 | 6 | 4 | 2 | 0 | 0 | 0 |
| Ysgol arbennig | 2 | 4 | 3 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Uned Cyfeirio Disgyblion | 2 | 5 | 2 | 1 | 1 | 1 | Ddim ar gael |
| **Cyfanswm** | **18** | 44 | 23 | 9 | 6 | 4 | 2 |

*Roedd y ddwy ysgol ganol yn y sampl yn ysgolion cyfrwng Saesneg

2.16 Mae**Error! Reference source not found.** yn dangos bod tua hanner y rhai a gyfwelwyd ym Mlwyddyn 2 yn uwch arweinwyr, ychydig yn uwch nag oedd ym Mlwyddyn 1 (lle roedd tua 40 y cant o'r rhai a gyfwelwyd yn uwch arweinwyr). Roedd tua chwarter yn arweinwyr canol a thua chwarter yn athrawon neu'n gynorthwywyr addysgu, ychydig yn llai nag ym Mlwyddyn 1

(lle roedd tua 40 y cant yn athrawon neu’n CA).[29] Dylid nodi bod yr holl arweinwyr canol a gyfwelwyd hefyd yn athrawon wrth eu gwaith. Fel ym Mlwyddyn 1, roedd heriau o ran ymgysylltu â lleoliadau oherwydd effaith barhaus y pandemig Covid-19 a methwyd â chynnal nifer o'r cyfweliadau a gynlluniwyd yn ystod mis Gorffennaf 2022.

Gwaith maes gyda rhanddeiliaid

2.17 Cyfwelwyd â chyfanswm o 30 o randdeiliaid yn ystod Blwyddyn 2 y gwerthusiad.[30] Roedd y rhain i gyd yn unigolion o sefydliadau rhanddeiliaid 'cenedlaethol' a 'rhanbarthol' a gyfwelwyd yn ystod Blwyddyn 1 y gwerthusiad. Roedd y 30 o randdeiliaid a gyfwelwyd yn ystod Blwyddyn 1 yn cynnwys cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, Estyn, CGA, Consortia Addysg Rhanbarthol, yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysg, awdurdodau lleol, Sefydliadau Addysg Uwch (SAU) a rhanddeiliaid sy'n ymwneud â llywodraethu ysgolion.

**Tabl 3. Rhanddeiliaid a gyfwelwyd yn ystod Blwyddyn 2 y gwerthusiad**

| Math o sefydliad rhanddeiliaid | Y nifer a gyfwelwyd |
|---|---:|
| Cynrychiolwyr Consortia Addysg Rhanbarthol ac awdurdodau lleol | 11 |
| Llywodraeth Cymru | 6 |
| Cynrychiolwyr SAU | 5 |
| Eraill* | 8 |
| **Cyfanswm** | **30** |

*Yn cynnwys CGA, Estyn, yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol a rhanddeiliaid eraill sy'n ymwneud â llywodraethu ysgolion.

[29] Cyflwynir dadansoddiad llawn o sampl Blwyddyn 1 yn adroddiad gwerthuso Blwyddyn 1.
[30] Cyfwelwyd â 71 o randdeiliaid yn ystod Blwyddyn 1 y gwerthusiad, gan gynrychioli’r un mathau o sefydliadau â’r rhai a gynhwyswyd ym Mlwyddyn 2 i raddau helaeth. Mae dadansoddiad llawn o'r rhanddeiliaid hyn wedi'i gynnwys yn adroddiad Blwyddyn 1.

### Dadansoddiad

2.18 Mabwysiadwyd dull fframwaith o ddadansoddi data'r gwaith maes. Mae hyn yn caniatáu i ni gynnal dadansoddiad ansoddol o ddata'r cyfweliadau yn erbyn y themâu a nodir yn yr offer ymchwil (gweler Atodiad A) yn ogystal â'n galluogi i ystyried materion a ddaeth i'r amlwg o'r data ac nad ydynt wedi'u hystyried o'r blaen o bosibl. Adolygwyd y dystiolaeth i ddechrau yn ystod sesiwn friffio a oedd yn cynnwys yr ymchwilwyr a gynhaliodd y gwaith maes. Fe wnaeth hyn alluogi'r ymchwilwyr i ddod i gytundeb ar y themâu allweddol sy'n deillio o'r dystiolaeth, a fu'n sail i'r dadansoddiad dilynol. Yn adrannau 3-6, cyflwynir crynodeb o ganfyddiadau Blwyddyn 1 yn gyntaf, gyda chanfyddiadau Blwyddyn 2 yn dilyn hwnnw.

### Heriau a chyfyngiadau'r fethodoleg

2.19 Wrth ddadansoddi’r canfyddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn, mae’n bwysig cofio rhai o’r heriau a wynebwyd a chyfyngiadau’r dull a ddefnyddiwyd. Cynhaliwyd gwaith maes Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 yn ystod y pandemig COVID-19 ac amharwyd yn sylweddol ar ei gynnydd gan yr heriau a'r newidiadau mynych a oedd yn effeithio ar y sector addysg. Dywedodd llawer o leoliadau nad oeddent yn gallu cymryd rhan yn y gwaith maes, yn aml oherwydd pwysau amser, ansicrwydd a heriau o ddydd i ddydd yn ymwneud â COVID-19.[31] Yn ogystal â hyn, roedd y pandemig yn amlwg yn cyfyngu ar allu lleoliadau ac ymarferwyr i ymgysylltu â'r safonau yn ystod 2020 a 2021; dywedodd yr ymarferwyr yn aml eu bod wedi 'gohirio' llawer o'u gweithgaredd arfaethedig yn ymwneud â'r safonau. Roedd natur hydredol y gwerthusiad hwn o gymorth i liniaru rhai o'r heriau hyn, ac mae mwy o weithgaredd sy'n ymwneud â'r safonau i'w gweld mewn sawl lleoliad ym Mlwyddyn 2.

2.20 Tynnwyd sylw at ddiffyg data meintiol i nodi lleoliadau sydd ar wahanol gamau o ran eu hymgysylltiad â'r safonau yn ystod y cam cwmpasu. Roedd

[31] Roedd hyn yn arbennig o wir yn ystod Blwyddyn 1 yn achos ysgolion arbennig, a arhosodd ar agor yn ystod llawer o'r 'cyfnodau clo' yn 2020 a 2021.

hyn yn cyflwyno heriau o ran nodi a dewis lleoliadau i gymryd rhan yn y gwerthusiad yn ystod Blwyddyn 1 yn seiliedig ar dystiolaeth o'u hymgysylltiad â'r safonau.

2.21 Mae'n bwysig cydnabod y risg o ragfarn wrth ddethol y sampl o leoliadau sydd wedi cymryd rhan ym Mlwyddyn 1 y gwerthusiad. Efallai y byddai lleoliadau sydd wedi ymgorffori'r safonau'n llawnach yn eu gweithgareddau dysgu proffesiynol wedi bod yn fwy tebygol o gytuno i gymryd rhan yn y gwaith maes.

2.22 Ceisiodd y gwerthusiad liniaru'r risg hon drwy ofyn am 'restrau hir' o leoliadau gan bob Consortiwm Addysg Rhanbarthol, gan gynnwys lleoliadau yr ystyriwyd eu bod wedi ymgysylltu'n 'helaeth' â'r safonau a'r rhai ar 'gam ymgysylltu cynharach'. Fodd bynnag, cytunodd llai o'r lleoliadau yr ystyriwyd eu bod ar gam ymgysylltu cynharach â'r safonau i gymryd rhan yn y gwerthusiad. Disodlwyd lleoliadau nad oeddent yn gallu cymryd rhan yn y sampl gan leoliadau â nodweddion tebyg a ddewiswyd ar hap. Ymhlith lleoliadau a ddewisir ar hap, mae risg y gallai'r rhai a gytunodd i gymryd rhan fod wedi ymwneud yn fwy helaeth â'r safonau na'r lleoliadau a ddisodlwyd ganddynt yn y sampl. Amlygir hyn i raddau gan y ffaith bod lleoliadau yr ystyriwyd eu bod ar gam ymgysylltu cynharach â'r safonau yn llai tebygol o gytuno i gymryd rhan yn y gwerthusiad.

2.23 Mae risg hefyd o ragfarn wrth ddethol y sampl o ymarferwyr sy'n cymryd rhan. Er bod y tîm gwerthuso wedi gofyn am gyfweliadau ag ystod o ymarferwyr mewn gwahanol rolau ym mhob lleoliad, efallai y byddai uwch arweinwyr wedi bod yn fwy tebygol o ddewis staff yr oeddent yn ystyried eu bod wedi ymgysylltu'n fwy helaeth â'r safonau. At hynny, mewn rhai lleoliadau mynegodd uwch arweinwyr eu parodrwydd i staff gymryd rhan yn y gwerthusiad a chymryd rhan mewn cyfweliadau eu hunain, ond wedi hynny ni wnaethant ddarparu manylion ymarferwyr eraill yn y lleoliad.[32]

[32] Cytunodd uwch arweinwyr yn yr ysgolion hyn i ddechrau i ddarparu manylion ar gyfer staff, ond ni wnaethant ymateb i geisiadau dilynol am fanylion a threfniadau ar gyfer cyfweliadau.

## 3. Canfyddiadau: ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r safonau

3.1 Mae’r adran hon yn amlinellu canfyddiadau’r gwerthusiad terfynol mewn perthynas ag ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o’r safonau ymhlith ymarferwyr a rhanddeiliaid. Yn gyntaf mae’n crynhoi canfyddiadau Blwyddyn 1 y gwerthusiad, cyn ystyried sut y mae ymwybyddiaeth a dealltwriaeth wedi newid ym Mlwyddyn 2.

**Crynodeb o ganfyddiadau gwerthusiad Blwyddyn 1**

3.1 Canfu gwerthusiad Blwyddyn 1 y canlynol:

- roedd amrywiaeth o wybodaeth, canllawiau ac offer hunanwerthuso ar gael o wahanol ffynonellau (e.e. dogfennaeth ar-lein a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, canllawiau a ddatblygwyd gan leoliadau, cyflwyniadau gan uwch arweinwyr a rhanddeiliaid, y PDP sy'n cael ei gynnal gan CGA) i hysbysu ymarferwyr am y safonau, a gwnaed defnydd helaeth o'r rhain. Roedd ymarferwyr hefyd yn dibynnu'n fawr ar wybodaeth ac adnoddau ar lefel lleoliad wrth ymgysylltu â'r safonau
- roedd arweinwyr lleoliadau yn cyflawni rôl allweddol wrth godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o’r safonau ymhlith staff, a chynhaliodd lleoliadau sesiynau Hyfforddiant Mewn Swydd (HMS) a chyfarfodydd staff ar y safonau
- roedd arweinwyr ac ymarferwyr lleoliadau a gyfrannodd at yr astudiaeth yn gyfarwydd iawn â'r safonau, ond awgrymodd adborth gan randdeiliaid fod lefelau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth yn fwy amrywiol nag ymysg sampl yr astudiaeth.
- yr ymarferwyr a oedd fwyaf cyfarwydd â’r safonau oedd ANG, myfyrwyr AGA, mentoriaid sefydlu ANG a dilyswyr allanol. Staff cymorth ac athrawon dosbarth profiadol, hirsefydlog oedd leiaf cyfarwydd â nhw
- at ei gilydd, roedd barn ymarferwyr am y safonau'n fwy cadarnhaol na'u barn am y safonau blaenorol ac roeddent yn ystyried bod y rhai newydd yn fwy hylaw ac yn caniatáu iddynt adeiladu ar eu cryfderau fel ymarferwyr. Roedd

rhanddeiliaid yn teimlo eu bod yn ddull mwy cyfannol, datblygiadol ac uchelgeisiol na'r safonau blaenorol

- roedd ymgysylltu â’r safonau wedi bod yn frawychus i rai ymarferwyr, yn enwedig cynorthwywyr addysgu, oherwydd y defnydd o derminoleg ac iaith anghyfarwydd, fodd bynnag dywedwyd bod rhai ymarferwyr wedi datblygu hyder gyda’r derminoleg dros amser
- ystyriwyd bod y safonau'n cyd-fynd yn dda iawn â datblygiadau polisi allweddol eraill, yn enwedig y Cwricwlwm i Gymru, ond roedd y broses o'u hyrwyddo a'u gweithredu wedi cael ei bwrw i'r cysgod gan y datblygiadau strategol eraill hyn.
- roedd cymhwyso'r safonau ar draws darpariaeth AGA wrth ddyfarnu SAC yn creu heriau i ddarparwyr, gan eu bod yn rhy eang i'w defnyddio fel mecanwaith pasio neu fethu effeithiol wrth benderfynu dyfarnu SAC i fyfyriwr.

**Canfyddiadau gwaith maes Blwyddyn 2**

3.2 Yn gyntaf, rydym yn ystyried barn ymarferwyr (gan gynnwys arweinwyr lleoliadau, athrawon a staff cymorth) cyn nodi barn rhanddeiliaid a gasglwyd yn ystod gwaith maes y gwerthusiad terfynol.

**Barn ymarferwyr**

Gwybodaeth a chanllawiau'n ymwneud â'r safonau

3.3 Roedd arweinwyr lleoliadau ac ymarferwyr yn parhau i ddefnyddio gwybodaeth ac adnoddau allanol a mewnol mewn perthynas â'r safonau. Er na soniodd yr ymarferwyr am y defnydd o unrhyw adnoddau newydd, penodol, nododd rhai eu bod yn cael defnyddio adnoddau ychwanegol a oedd wedi’u hymgorffori mewn rhaglenni datblygiad proffesiynol sy’n cael eu darparu gan Gonsortia Addysg Rhanbarthol. Roedd yn parhau i fod yn wir mai ychydig iawn o ddefnydd a wnaed gan ymarferwyr o’r Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP), ac eithrio ANG a mentoriaid y mae’n ofynnol iddynt ei ddefnyddio fel rhan o’u dull sefydlu ac asesu.

3.4 Roedd trafodaethau wedi'u harwain gan leoliadau (e.e. yn ystod cyfarfodydd staff) yn ogystal â thrafodaethau proffesiynol anffurfiol rhwng ymarferwyr yn parhau i fod yn bwysig i wella dealltwriaeth o'r safonau ymhlith ymarferwyr, ac wrth hwyluso dehongliad mwy cyffredin o'u hystyr.

Rôl arweinwyr lleoliadau o ran hysbysu ymarferwyr am y safonau

3.5 Mae uwch arweinwyr lleoliadau wedi parhau i chwarae rhan ganolog o ran codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o'r safonau ymhlith ymarferwyr. Roedd yn ymddangos bod dulliau codi ymwybyddiaeth wedi'u hymgorffori'n fwy yn arferion lleoliadau nag yn ystod gwaith maes Blwyddyn 1. Roedd dulliau gweithredu ar lefel lleoliad wedi symud ymlaen o'r cyflwyniadau cyffredinol a throsolwg a ddisgrifiwyd gan ymarferwyr yn ystod Blwyddyn 1 (e.e. yn ystod sesiynau HMS a chyfarfodydd staff). Ym Mlwyddyn 2, roedd lleoliadau'n tueddu i adrodd bod gweithgareddau codi ymwybyddiaeth wedi'u hymgorffori mewn prosesau rheoli perfformiad, gweithgareddau dysgu proffesiynol a deialogau proffesiynol anffurfiol a oedd yn digwydd yn fwy naturiol ar draws lleoliadau.

Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r safonau

3.6 Un canfyddiad allweddol o waith maes Blwyddyn 2 yw mai cymharol ychydig sydd wedi newid o ran ymwybyddiaeth ymarferwyr o'r safonau. Nododd lleoliadau fod hyn i'w briodoli'n bennaf i'r ffaith eu bod yn blaenoriaethu datblygiadau eraill yn hytrach na chynyddu ymwybyddiaeth o'r safonau. Dywedodd ymarferwyr fod lleoliadau wedi bod yn gweithredu mewn amodau heriol iawn dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf, ac wedi gorfod canolbwyntio ar gefnogi llesiant ymarferwyr a mynd i'r afael ag effaith cyfnodau clo y pandemig ar ymddygiad a datblygiad cymdeithasol dysgwyr a'u parodrwydd i ddysgu yn y dosbarth. Yn ogystal â hynny, nodwyd bod lleoliadau wedi gorfod canolbwyntio ar weithredu'r Cwricwlwm i Gymru ac er bod ymarferwyr yn cydnabod bod cyfatebiaeth glir rhwng y cwricwlwm newydd a'r safonau, nid oeddent eto wedi'u hintegreiddio'n llawn â'i gilydd. Nododd un uwch arweinydd:

> 'Rydym wedi bod mor brysur yn paratoi ar gyfer y cwricwlwm fel nad ydym wedi ystyried mewn gwirionedd sut mae'r safonau'n cyfeirio ato.' **(Uwch Arweinydd, ysgol gynradd cyfrwng Saesneg)**

3.7 Er gwaethaf hyn, dywedodd rhai ymarferwyr fod diwygio’r cwricwlwm wedi gwneud iddynt ganolbwyntio mwy ar egwyddorion addysgegol dros y flwyddyn ddiwethaf, ac felly roedd dealltwriaeth gynyddol o’r elfen hon o’r safonau erbyn i waith maes Blwyddyn 2 gael ei gynnal.

3.8 Yn ystod gwaith maes Blwyddyn 2, roedd yn dal i fod yn wir mai ANG a myfyrwyr AGA oedd yr ymarferwyr a oedd fwyaf cyfarwydd â’r safonau. Dywedodd uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn ogystal â mentoriaid ANG a dilyswyr allanol eu bod yn dra chyfarwydd â disgrifyddion y safonau. Daeth yn fwy amlwg yn ystod gwaith maes Blwyddyn 2 fod ymarferwyr a oedd yn dymuno symud ymlaen i rolau arweinyddiaeth ffurfiol yn eu gyrfa yn tueddu i ymgysylltu’n fwy â’r safonau hefyd.

3.9 Roedd risg o hyd y byddai ymarferwyr yn dod yn llai ymwybodol ac yn ymgysylltu llai â’r safonau ar ôl cwblhau eu blwyddyn sefydlu, oni bai bod hyn yn cael ei atgyfnerthu gan uwch arweinwyr a phrosesau yn eu lleoliad. Yn gyffredinol, dywedodd ymarferwyr nad oeddent yn ymwneud â dysgu proffesiynol achrededig neu ardystiedig fod ganddynt lefelau is o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o’r safonau. Pan gafodd ei gyfweld yn ystod gwaith maes Blwyddyn 1, nododd un athro, a oedd yn ANG, nad oedd wedi gwneud cymaint o ddefnydd o'r safonau ers cwblhau ei flwyddyn sefydlu, er bod ei leoliad yn dal i ofyn iddo ddefnyddio’r safonau fel rhan o’i ddatblygiad proffesiynol parhaus.

3.10 Mae ymwybyddiaeth ac adnabyddiaeth fanwl o'r safonau ymhlith staff cymorth ac athrawon dosbarth hirsefydlog yn parhau i fod yn is nag ymhlith ymarferwyr eraill. Awgryma'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod gwaith maes Blwyddyn 2 nad yw llawer o staff cymorth yn ymwybodol o hyd bod y safonau’n bodoli ac nad ydynt yn dewis ymgysylltu â nhw, ond bod y rhai sy’n dymuno datblygu eu gyrfa yn fwy tueddol o’u defnyddio:

> 'Nid yw'r safonau'n flaenllaw ym meddwl y cynorthwyydd addysgu cyffredin, o gymharu â phethau eraill. Mae llawer ohonynt dal ddim yn gwybod eu bod yn bodoli. Mae rhai Cynorthwywyr Cymorth Dysgu yn awyddus i symud ymlaen

yn eu gyrfa felly mae'r safonau yno i'w harwain'. **(CA, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg)**

3.11 Roedd ambell leoliad wedi parhau i gynnwys CA yn eu gweithgaredd sy'n ymwneud â'r safonau. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o leoliadau, roedd ymgysylltiad CA â'r safonau yn gyfyngedig; ni chanfu gwaith maes Blwyddyn 2 enghreifftiau o CA yn cymryd rhan mewn gweithgaredd sy'n ymwneud â safonau nad oeddent eisoes yn gwneud hynny yn ystod Blwyddyn 1. Mae hyn yn awgrymu bod lleoliadau a oedd yn 'fabwysiadwyr cynnar' eisoes wedi cyflwyno'r safonau i staff cymorth, a heb anogaeth a chymorth allanol pellach, mae lleoliadau eraill yn annhebygol o ymestyn y safonau y tu hwnt i athrawon ac uwch arweinwyr, i staff cymorth.

3.12 Er gwaethaf pwysau a blaenoriaethau eraill a adroddwyd gan ysgolion, roedd y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod gwaith maes Blwyddyn 2 yn awgrymu bod rhai o'r lleoliadau yn y sampl wedi cynyddu eu ffocws ar y safonau yn ystod y flwyddyn. Rhoddodd ymarferwyr yn yr ysgolion hyn enghreifftiau o sut yr oedd hyn wedi arwain at gynnydd mewn ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r safonau yn eu lleoliad:

- Nododd uwch arweinwyr mewn un ysgol fod ymwybyddiaeth wedi cynyddu ymhlith ymarferwyr wrth iddynt ail-ganolbwyntio eu hymdrechion ar integreiddio'r safonau i brosesau rheoli perfformiad yn ystod 2022, ar ôl colli rhywfaint o'u momentwm cynnar yn ystod y pandemig.
- Mewn lleoliad arall, dywedwyd bod ymwybyddiaeth o'r safonau wedi cynyddu oherwydd bod uwch arweinwyr wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant arweinyddiaeth a oedd yn canolbwyntio gryn dipyn ar y safonau. Roedd hyn wedyn wedi arwain at ddefnyddio'r safonau wrth gynllunio dull dysgu proffesiynol ar draws y lleoliad cyfan ac wrth ddatblygu'r Cwricwlwm i Gymru.
- Dywedodd trydydd lleoliad fod y safonau bellach yn cael mwy o sylw ar draws y lleoliad nag o'r blaen, oherwydd ei fod bellach wedi'u defnyddio fel fframwaith ar gyfer dau 'gylch' adolygu perfformiad. Dywedodd un arweinydd canol fod hyn yn dechrau llywio trafodaethau strategol:

  'Maen nhw [y safonau] bellach yn cael mwy o amlygrwydd. Erbyn hyn, mae'r uwch dîm arwain yn cael trafodaethau amdanyn nhw.' **(Arweinydd canol, Ysgol ganol cyfrwng Saesneg**)

- Dywedodd un lleoliad fod ymwybyddiaeth o'r safonau wedi cynyddu oherwydd i fwy o sylw ac amlygrwydd gael eu rhoi iddynt mewn cyrsiau dysgu proffesiynol allanol. Roedd yr ysgol hon yn bwriadu ehangu'r defnydd o'r safonau ar draws yr ysgol i gefnogi gweithrediad y Cwricwlwm i Gymru.

  > 'Pan fyddwch yn cael hyfforddiant nawr, rydych yn gallu gweld cymryd cam yn ôl i weld y darlun cyfan - rydych chi'n cael y 'wow factor'. Gallwch weld sut mae'r diwygiadau i'r cwricwlwm, y gweithgareddau dysgu proffesiynol, fel jig-so – mae popeth yn ffitio'n dda gyda'i gilydd'. **(Uwch arweinydd, Ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg)**

- Dywedodd dau leoliad eu bod wedi cynyddu ymwybyddiaeth o'r safonau drwy gyfeirio atynt mewn swydd-ddisgrifiadau. Yn y ddau leoliad, roedd swydd-ddisgrifiadau bellach yn cyd-fynd â'r safonau ac roedd terminoleg megis arweinyddiaeth ac addysgeg yn cael eu defnyddio drwyddynt draw.
  - Yn ogystal â hynny, nododd un lleoliad fod hyn yn golygu bod cwestiynau eu cyfweliadau swyddi yn cael eu siapio'n fwyfwy naturiol gan y derminoleg yn y safonau.

Gwell dealltwriaeth o ganlyniad i ddarpariaeth dysgu ar gyfer datblygiad proffesiynol

3.13 Canfu gwaith maes Blwyddyn 2 fod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r safonau wedi cynyddu ymhlith yr ymarferwyr hynny a oedd yn ymwneud â rhaglenni datblygiad proffesiynol, sef uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn bennaf. Mae adborth gan y rhai a gyfwelwyd yn awgrymu bod ymarferwyr a oedd wedi cymryd rhan mewn cyrsiau dysgu proffesiynol, megis y rhai a oedd yn cael eu darparu gan Gonsortia Addysg Rhanbarthol, yn cael eu hatgoffa'n rheolaidd i ystyried y safonau gan mai dyma yw 'asgwrn cefn' unrhyw raglen ddysgu. Dywedodd uwch arweinwyr mewn dwy ysgol eu bod nhw a'u staff yn defnyddio'r safonau'n fwy rheolaidd oherwydd bod uwch arweinwyr wedi cofrestru ar y Rhaglen Ddatblygu Genedlaethol ar gyfer Uwch Arweinwyr (RhDUA), sy'n rhoi pwyslais ar y safonau. Nododd un uwch arweinydd:

> 'Fe wnaethon ni fapio pob rhan o'r dasg [fel rhan o'r RhDUA], yn erbyn y safonau. Roedd hon yn broses ddefnyddiol oherwydd doeddwn i ddim wedi defnyddio'r safonau yn y gwaith o'r blaen - mae'r gwaith cynllunio ac asesu

mor brysur; dydy'r safonau ddim wedi bod yn rhan amlwg o fy swydd.' **[Uwch arweinydd, Ysgol Arbennig]**

3.14 Yn yr un modd, dywedodd arweinwyr canol mewn ysgol arall fod ganddynt ddealltwriaeth well o’r safonau gan fod yn rhaid iddynt ddangos sut yr oeddent yn eu defnyddio fel rhan o'u gweithgareddau dysgu Proffesiynol Arweinwyr Canol.

Cymhariaeth â'r safonau blaenorol

3.15 Fel yr adroddwyd ym Mlwyddyn 1, roedd arweinwyr lleoliadau ac ymarferwyr o bob math o leoliadau addysgol yn parhau i ddweud eu bod yn ffafrio’r safonau presennol o gymharu â’r rhai blaenorol. Ystyriwyd bod y safonau presennol yn fwy hylaw ac yn galluogi ymarferwyr i adeiladu ar eu cryfderau a thargedu meysydd i'w datblygu.

Geiriad a therminoleg

3.16 Mae’r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod gwaith maes Blwyddyn 2 yn awgrymu bod ymarferwyr sydd wedi ymgysylltu â’r safonau fel rhan o brosesau lleoliadau wedi dod yn fwy cyfarwydd â geiriad a therminoleg y safonau dros amser. O'r herwydd, codwyd llai o faterion yn ystod y gwaith maes am iaith y safonau, ac roedd ymarferwyr a oedd yn ddefnyddwyr cyson ohonynt yn ymddangos yn gyfforddus ac yn hyderus wrth eu defnyddio. Fodd bynnag, roedd uwch arweinwyr ac ymarferwyr yn parhau i ddweud bod gan staff cymorth lefelau is o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o’r safonau ac o ganlyniad eu bod yn llai hyderus wrth eu defnyddio.

Barn ar gydweddiad strategol y safonau â datblygiadau polisi eraill

3.17 Fel yr adroddwyd ym Mlwyddyn 1, roedd arweinwyr lleoliadau ac ymarferwyr yn parhau i gredu bod y safonau’n cyd-fynd yn dda â datblygiadau polisi allweddol eraill, yn enwedig y ffocws ar addysgeg yn y Cwricwlwm i Gymru. Dywedodd y rhai a gyfwelwyd nad oedd y safonau o bosibl wedi cael yr un faint o sylw â'r Cwricwlwm i Gymru dros y flwyddyn ddiwethaf, o ystyried yr angen i’w weithredu o 2022 ymlaen. Teimlai rhai ymarferwyr hefyd y gellid mireinio'r iaith a ddefnyddir mewn rhai o'r disgrifyddion er mwyn sicrhau cysondeb â datblygiadau eraill ers eu

cyhoeddi (e.e. dogfennau canllaw cwricwlwm). Awgrymodd rhai uwch arweinwyr y gellid darparu arweiniad ychwanegol i egluro’r cysylltiadau rhwng y safonau a’r cwricwlwm a helpu i sicrhau bod lleoliadau’n integreiddio’r safonau â’u cwricwlwm eu hunain.

> 'Yn 'Trafod Addysgeg', rydym yn trafod y 12 Egwyddor Addysgeg. Yna yn y safonau mae gennym ni 17 disgrifydd ar gyfer addysgeg. Gallen ni wneud y cysylltiadau rhwng y safonau a'r egwyddorion yn fwy tryloyw.' **(Cyfweliad â rhanddeiliad)**

**Barn rhanddeiliaid**

3.18 Nid oedd y rhanddeiliaid yn ystyried bod llawer wedi newid o ran ymwybyddiaeth o’r safonau ers gwaith maes Blwyddyn 1. Roedd rhanddeiliaid yn parhau i ddweud y gallent nodi carfannau gwybodus, sef myfyrwyr AGA, ANG, mentoriaid, dilyswyr allanol, arweinwyr lleoliadau a’r rhai sy’n dilyn llwybrau arweinyddiaeth o fewn y proffesiwn. Ystyriwyd mai athrawon dosbarth profiadol a chynorthwywyr addysgu oedd yn ymgysylltu leiaf â'r safonau. Crynhodd un rhanddeiliad y safbwyntiau hyn drwy nodi:

> 'A bod yn onest, dw i ddim yn meddwl bod llawer iawn wedi newid ers i ni siarad ddiwethaf.' **(Cyfweliad â rhanddeiliad)**

3.19 Dywedodd y rhanddeiliaid nad oedd y safonau wedi bod yn flaenaf ym meddyliau’r rhan fwyaf o’r uwch arweinwyr dros y flwyddyn ddiwethaf. Disgrifiodd un rhanddeiliad ymwybyddiaeth o'r safonau fel 'ysbeidiol' gan ddweud mai dim ond yn achlysurol iawn y sonnir amdanynt yn ystod eu cyfarfodydd sector gyda phenaethiaid. Soniodd y rhanddeiliaid am ddau ffactor a oedd i gyfrif am hyn yn eu barn nhw. Yn gyntaf, dywedodd y rhanddeiliaid y bu'n ofynnol i leoliadau ac ymarferwyr flaenoriaethu datblygiadau eraill dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys gweithredu’r Cwricwlwm i Gymru, cyflwyno’r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a datblygiadau ôl-16. Yn ail, credwyd bod y safonau wedi cilio i'r cefndir yng ngoleuni pwysau ac aflonyddwch arall yn ymwneud â'r pandemig. Awgrymwyd yn gyson bod ysgolion wedi bod yn 'datrys problemau' dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf a oedd wedi ei gwneud yn anodd iddynt ddychwelyd i normalrwydd.

3.20 Mynegwyd rhywfaint o bryder gan randdeiliaid ynghylch y diffyg ymwybyddiaeth eang ar draws y sector. Dadleuodd un rhanddeiliad, oni bai bod y safonau'n dod yn orfodol i staff cymorth, y byddai'r lefelau ymgysylltu yn annhebygol o newid ar gyfer y garfan hon. Mynegodd rhanddeiliad arall bryder ei bod yn ymddangos bod yr ymgysylltiad â'r safonau yn lleihau ar ôl y cyfnod sefydlu:

> 'Yn ystod y cyfnod sefydlu mae pobl yn dweud, iawn, mi wna'i eu defnyddio oherwydd bod ganddynt reswm i wneud hynny. Ar ôl y cyfnod sefydlu, mae pobl yn gofyn pam ddylwn i eu defnyddio? Mae angen i ni roi rheswm iddyn nhw.' **(Cyfweliad â rhanddeiliad)**

3.21 Mae sefydliadau rhanddeiliaid, yn enwedig Consortia Addysg Rhanbarthol a darparwyr AGA, yn parhau i chwarae rhan bwysig wrth gefnogi ymarferwyr i ymgysylltu â'r safonau. Datgelodd y gwaith maes fod darpariaeth dysgu proffesiynol, gan gynnwys rhaglenni arweinyddiaeth, bellach wedi ymgorffori'r safonau. Mewn rhai achosion, mae rhaglenni wedi'u hailstrwythuro fel bod modiwlau unigol yn cyd-fynd â safonau unigol er mwyn caniatáu dadansoddiad dyfnach. Dadleuodd un cynrychiolydd rhanddeiliaid fod y safonau bellach yn fframio eu ffordd o feddwl wrth ddylunio rhaglenni newydd. Mae'r safonau hefyd wedi'u hymgorffori yn rhaglenni'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol.

3.22 Er bod rhanddeiliaid wedi nodi nad oedd ymwybyddiaeth o'r safonau wedi newid yn sylweddol yn ystod Blwyddyn 2 y gwerthusiad, cofnodwyd rhywfaint o dystiolaeth o ddealltwriaeth gynyddol. Nododd rhanddeiliaid fod gan y rhai sy'n ymgymryd â gweithgareddau dysgu proffesiynol ddealltwriaeth well o'r safonau erbyn hyn, gan fod hyfforddwyr a hwyluswyr yn cael llai o gwestiynau sylfaenol am beth yw'r safonau. Dadleuodd y rhanddeiliaid fod gan y rhai sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni datblygiad proffesiynol a ddarperir gan gonsortia addysgol ymwybyddiaeth a dealltwriaeth well o lawer o'r safonau na'r rhai nad ydynt yn gwneud hynny. Nododd un rhanddeiliad fod yr ymarferwyr hyn wedi datblygu dealltwriaeth fwy soffistigedig o'r safonau dros amser.

> 'Mae'n ymddangos bod pobl yn fwy ymwybodol o safonau pan gânt eu trafod mewn cyrsiau dysgu proffesiynol. Yn flaenorol, byddwn yn sôn am y safonau ac yna'n cael llawer o gwestiynau ynglŷn â beth ydyn nhw.' **(Cyfweliad â rhanddeiliad)**

**Crynodeb o ganfyddiadau terfynol y gwerthusiad: ymwybyddiaeth a dealltwriaeth**

3.23 Mae canfyddiadau allweddol y gwerthusiad terfynol fel a ganlyn:

- mae dulliau codi ymwybyddiaeth wedi ymwreiddio'n fwy yn arferion presennol ysgolion, ac wedi'u hymgorffori mewn dulliau gweithredu presennol, gan gynnwys deialogau proffesiynol anffurfiol a gweithgareddau dysgu proffesiynol
- cymharol ychydig sydd wedi newid ar draws y sector o ran ymwybyddiaeth gyffredinol ymarferwyr ysgol o'r safonau, oherwydd pwysau a blaenoriaethau eraill a wynebir gan ysgolion. Fodd bynnag, dywedodd nifer o'r ysgolion a gyfrannodd at waith maes gwerthusiad Blwyddyn 2 fod dealltwriaeth well o ganlyniad i ymgysylltu dyfnach â'r safonau yn eu lleoliad eu hunain
- mae'r safonau wedi'u hymgorffori mewn rhai rhaglenni datblygiad proffesiynol ac mae'r rhain wedi chwarae rhan bwysig o ran gwella dealltwriaeth ymarferwyr ohonynt
- yr un carfannau o ymarferwyr a oedd yn parhau i fod fwyaf cyfarwydd â'r safonau, a'r rhai sy'n ymwneud â rhaglenni datblygiad proffesiynol oedd fwyaf tebygol o fod wedi gwella eu dealltwriaeth ohonynt dros y flwyddyn ddiwethaf
- heb anogaeth bellach, ac o bosibl mwy o reoleiddio, mae ysgolion nad ydynt wedi gwneud hynny eisoes yn annhebygol o ymestyn y safonau i staff cymorth
- er yr ystyrir bod cyfatebiaeth dda rhwng y safonau a'r Cwricwlwm i Gymru, nid yw'n ymddangos eu bod wedi'u hintegreiddio'n llawn â'i gilydd eto, ac mae ysgolion wedi rhoi blaenoriaeth i weithredu'r cwricwlwm dros y flwyddyn ddiwethaf.

## 4. Y defnydd o'r safonau

4.1 Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau'r gwerthusiad terfynol mewn perthynas â'r defnydd o'r safonau. Mae'n dechrau drwy grynhoi canfyddiadau adroddiad gwerthuso Blwyddyn 1, yna mae'n nodi data eilaidd gan CGA ar ymgysylltu â'r PDP cyn cyflwyno canfyddiadau o waith maes Blwyddyn 2 gydag ymarferwyr, uwch arweinwyr a rhanddeiliaid.

**Crynodeb o ganfyddiadau gwerthusiad Blwyddyn 1**

4.2 Canfu gwerthusiad Blwyddyn 1 y canlynol:

- Roedd i ba raddau yr oedd ymarferwyr yn defnyddio'r safonau yn amrywio ar draws a rhwng lleoliadau. Roedd y canfyddiadau'n awgrymu bod hyn yn dibynnu ar nifer o ffactorau gan gynnwys:
  - y pwyslais a roddir ar y safonau gan uwch arweinwyr gan gynnwys a gawsant eu hymgorffori mewn prosesau rheoli perfformiad ac a ddyrennir amser i ymarferwyr fyfyrio arnynt
  - a oedd ymarferwyr yn cymryd rhan mewn AGA neu brosesau sefydlu neu'n dilyn cyrsiau arweinyddiaeth ffurfiol.
- Roedd lleoliadau a oedd wedi sefydlu'r safonau yn eu hysgol a phrosesau datblygu staff yn eu gwerthfawrogi ac yn eu hystyried yn fuddiol.
- Defnydd cyfyngedig a wnaed o'r safonau mewn rhai lleoliadau, a nodwyd bod rhywfaint o weithgaredd codi ymwybyddiaeth cychwynnol ond gwelwyd llai o dystiolaeth bod y safonau'n cael eu hymgorffori mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol a rheoli perfformiad.
- Roedd y safonau'n cael eu defnyddio'n llai aml gan rai ymarferwyr, yn benodol CA (er bod y rhai a gyfwelwyd yn gwerthfawrogi'r safonau proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu), ac athrawon mwy profiadol nad oeddent wedi dilyn cyrsiau arweinyddiaeth ffurfiol.

- Roedd rhai lleoliadau wedi ymgorffori'r safonau yn eu gweithgareddau dysgu a datblygu proffesiynol; fodd bynnag, roedd y mwyafrif yn ystyried eu bod ar 'gam cynnar' o ran eu gweithredu.
- Roedd COVID-19 wedi arwain at ohirio neu gyfyngu gweithgaredd a gynlluniwyd yn ymwneud â'r safonau. Fodd bynnag, roedd lleoliadau o'r farn bod llawer o gynnydd wedi'i wneud o ran datblygiad proffesiynol yn erbyn rhai o'r safonau, yn enwedig arloesi.
- Gwerthfawrogwyd y safonau fel offeryn datblygu effeithiol i amlinellu'r disgwyliadau ar gyfer ymarferwyr fel gweithwyr proffesiynol. Roedd gwahaniaeth barn ynghylch eu defnydd mewn strwythurau mwy ffurfiol fel swydd-ddisgrifiadau.
- Roedd y safonau'n cael eu gwerthfawrogi gan ymarferwyr mewn unedau cyfeirio disgyblion gan eu bod yn teimlo eu bod yn rhoi mwy o statws i weithwyr proffesiynol yn y sector.

**Data ar yr ymgysylltiad â'r safonau ym Mlwyddyn 2**

4.3 Cyfyngedig yw'r data sydd ar gael ar ymgysylltiad ymarferwyr â'r safonau. Cesglir rhywfaint o ddata ar yr ymgysylltiad â'r safonau drwy'r Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP), a chesglir rhywfaint o ddata ar ymgysylltiad â hyfforddiant a ddarperir gan randdeiliaid. Rhoddir trosolwg o'r data hyn isod.[33]

Hyfforddiant

4.4 Mae'r Consortia Addysg Rhanbarthol wedi cyflwyno digwyddiadau briffio a hyfforddiant i ymarferwyr yn ymwneud â'r safonau. Mae'r rhain wedi canolbwyntio ar godi proffil y safonau yn ogystal â hyfforddi ymarferwyr ac eraill i ymgysylltu â'r safonau fel rhan o'u datblygiad proffesiynol. Mewn rhai achosion, cyflwynwyd

[33] Ar lefel genedlaethol, casglwyd data ar yr ymgysylltiad â'r safonau blaenorol drwy'r Arolwg Cenedlaethol o'r Gweithlu Addysg (CGA, 2017), ond nid oedd y rhifyn diweddaraf o'r arolwg hwn (CGA, 2021) yn cynnwys cwestiynau ar ddefnyddio'r Safonau presennol. Dadansoddir y data o arolwg 2017 yn adroddiad Blwyddyn 1 y gwerthusiad hwn. Mae adroddiadau ar gyfer y ddau arolwg ar gael yma: Arolwg o'r Gweithlu Addysg Cenedlaethol (ewc.wales)

sesiynau briffio neu raglenni penodol yn ymwneud â'r safonau.[34] Yn ogystal â hynny, mae cyrsiau a ddarperir gan y Consortia Addysg Rhanbarthol wedi'u strwythuro i gynnwys ymgysylltiad â'r safonau.

4.5 Mae CGA yn cynnal arddangosiadau o'r Pasbort Dysgu Proffesiynol i ysgolion. Mae ysgolion yn gwneud cais am yr arddangosiadau hyn a chânt eu trefnu drwy'r Consortia Addysg Rhanbarthol. Darparwyd arddangosiadau o'r PDP i gyfanswm o 51 o sefydliadau, gan gynnwys 45 o ysgolion yn 2019/20 ac i 10 sefydliad, gan gynnwys 9 ysgol, yn 2020/21.[35] Mae sesiynau arddangos hefyd wedi'u cyflwyno i sefydliadau eraill gan gynnwys undebau addysgu a darparwyr AGA, gyda gwybodaeth am y PDP hefyd wedi'i darparu i sefydliadau drwy CGA sy'n mynychu marchnadoedd mewn cynadleddau cenedlaethol. Yn ogystal â hynny, cyflwynwyd arddangosiadau o'r proffil sefydlu, elfen allweddol o'r PDP, gan y Consortia Addysg Rhanbarthol i 39 grŵp o ymarferwyr (e.e. ANG a dilyswyr allanol) yn 2019/20 a 43 o grwpiau o'r fath yn 2020/21. Er nad y safonau yw ffocws y sesiynau arddangos hyn, mae'r PDP wedi'i gynllunio i alluogi ymarferwyr i ymgysylltu â'r safonau.

Y Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP)

4.6 Mae CGA yn cynnig pasbort dysgu proffesiynol ar-lein (PDP) i ymarferwyr cofrestredig er mwyn myfyrio ar eu hymarfer a chofnodi eu gweithgareddau dysgu proffesiynol. Ariennir y PDP gan Lywodraeth Cymru, a gall unigolion cofrestredig gael mynediad ato drwy eu cyfrif ar-lein neu drwy'r ap 'PebblePocket'. Mae PDP pob defnyddiwr yn cynnwys templedi dysgu proffesiynol a 'gweithlyfr safonau' lle y gall ymarferwyr fapio eu profiadau dysgu proffesiynol ac uwchlwytho tystiolaeth yn erbyn pob un o'r safonau. Ers mis Medi 2021, mae athrawon sy'n astudio'r MA (Gradd Meister) Cenedlaethol mewn Addysg (Cymru) wedi gorfod defnyddio'r PDP er mwyn cyrchu deunyddiau dysgu. Mae'n bwysig cydnabod nad yw'r defnydd o'r PDP o reidrwydd yn adlewyrchu lefelau ymgysylltu â'r safonau. Gall ymarferwyr fewngofnodi i'r platfform i gofnodi tystiolaeth o'u dysgu proffesiynol heb ei fapio i'r

[34] Er enghraifft, cyflwynodd Consortiwm Canolbarth y De weithgaredd dysgu proffesiynol fel rhaglen benodol mewn perthynas â'r safonau i 139 o ymarferwyr mewn traean (35 y cant) o ysgolion yn ystod 2018/19.
[35] Er bod CGA wedi cynnig sesiynau rhithwir i ysgolion yn ystod 2019/20 a 2020/21, effeithiwyd yn sylweddol ar nifer y sesiynau a gyflwynwyd gan y pandemig COVID-19, yn enwedig yn 2020/21.

safonau. Mae rhai ymarferwyr yn ymgysylltu â'r safonau gan ddefnyddio platfform ar-lein amgen a ddefnyddir gan eu lleoliad (e.e. Xlence, Teaching Continua). Fodd bynnag, mae data ar ddefnyddio'r PDP yn rhoi dealltwriaeth ddefnyddiol o ymddygiad ymarferwyr wrth gofnodi eu datblygiad.

Athrawon a gweithwyr cymorth dysgu sy'n defnyddio'r PDP

4.7 Mae CGA yn cadw data ar nifer yr athrawon ysgol, arweinwyr a gweithwyr cymorth dysgu cofrestredig sy'n defnyddio'r PDP.[36] Mae data ar y PDP a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yn ymwneud ag ymarferwyr sydd wedi cofrestru gyda CGA yn y categori 'athro ysgol' (gan gynnwys uwch arweinwyr ac ANG) a/neu weithwyr cymorth dysgu. Dadansoddir y data hyn isod ac mae'n cynnwys:

- cyfanswm yr unigolion cofrestredig sydd wedi creu eu PDP eu hunain;
- cyfanswm yr unigolion cofrestredig sydd wedi mewngofnodi i'w PDP yn ystod y tri mis, chwe mis neu'r deuddeg mis diwethaf;
- cyfanswm cronnol yr asedau y mae defnyddwyr wedi eu creu neu eu huwchlwytho (tystiolaeth o'u datblygiad proffesiynol) i'w PDP.

4.8 Mae’r data diweddaraf ar gyfer mis Medi 2022 yn dangos bod 31,101 o ymarferwyr wedi creu eu PDP eu hunain, ers ei sefydlu yn 2017. Roedd hyn yn cynnwys:

- 14,017 o athrawon
- 1,408 o uwch arweinwyr[37]
- 2,412 o ANG
- 13,264 o weithwyr cymorth dysgu.

[36] Mae gan ymarferwyr eraill fynediad at y PDP (e.e. myfyrwyr AGA, ymarferwyr Addysg Bellach). Fodd bynnag, nid yw'r data a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yn cynnwys yr ymarferwyr hyn, oni bai eu bod hefyd wedi'u cofrestru fel athro neu weithiwr cymorth dysgu (gall ymarferwyr gofrestru gyda CGA mewn mwy nag un categori). Er enghraifft, mae ymarferwyr sydd wedi’u cofrestru fel athro ac fel darlithydd AB (roedd 51 o’r rhain yn nata'r PDP ar gyfer mis Medi 2022) wedi’u cynnwys yn ogystal â gweithwyr cymorth dysgu sydd hefyd yn astudio cyrsiau AGA (roedd 24 o’r rhain yn nata'r PDP ar gyfer mis Medi 2022). Mae'r data hefyd yn cynnwys athrawon gweithredol sy'n astudio ar gyfer cyrsiau Meistr mewn Addysg (tua 200-250 yn 2022/23).


[37] Mae uwch arweinwyr yn cynnwys penaethiaid, dirprwy benaethiaid a phenaethiaid cynorthwyol.

4.9 Mae cyfanswm yr ymarferwyr sydd wedi creu eu PDP eu hunain wedi cynyddu'n gyson ers 2017, pan oedd 4,876 o athrawon wedi gwneud hynny. Drwy gydgrynhoi'r data ar gyfer athrawon, uwch arweinwyr ac ANG sydd wedi creu eu PDP eu hunain, a chymharu hyn â chyfanswm yr ymarferwyr sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru (gan ddefnyddio Ystadegau Blynyddol Gweithlu Addysg Cymru), mae modd amcangyfrif canrannau'r athrawon sy'n wedi creu eu PDP eu hunain ym mis Mawrth bob blwyddyn rhwng 2017 a 2022.[38] Dangosir hyn isod, ochr yn ochr â chanran amcangyfrifedig y gweithwyr cymorth dysgu sydd wedi creu eu PDP eu hunain. Mae'r data'n dangos y canlynol:

- roedd tua hanner (48 y cant) yr holl athrawon cofrestredig wedi creu eu PDP eu hunain erbyn mis Mawrth 2022[39]
    - mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 35 pwynt canran o gymharu â 2017 (pan ddechreuodd y PDP gael ei ddefnyddio fel rhan o broses sefydlu athrawon)
- roedd ychydig yn llai na thraean o'r gweithwyr cymorth dysgu (30 y cant) wedi creu eu PDP eu hunain erbyn mis Mawrth 2022, o'i gymharu â dim un yn 2017 a 12 y cant yn 2018.

[38] Gweler Ystadegau Blynyddol y Gweithlu Addysg (CGA, 2022). Cesglir y data ym mis Mawrth bob blwyddyn.
[39] Mae defnyddio'r ffigur chwarterol diweddaraf ar gyfer y rhai sydd wedi creu eu PDP eu hunain (Medi 2022) a chymharu hyn â ffigurau gweithlu mis Mawrth 2022 yn awgrymu bod canran yr athrawon bellach tua 51 y cant a gweithwyr cymorth dysgu yn 31 y cant.

**Ffigur 3. Nifer a chanran yr athrawon a'r gweithwyr cymorth dysgu sydd wedi creu eu PDP eu hunain**




Noder: Ch = diwedd chwarter. Mae Ch1 yn cyfeirio at y cyfnod o ddeuddeng mis hyd at ddiwedd mis Mawrth ym mhob blwyddyn a ddangosir.

Ffynhonnell: CGA


4.10 Mae'n bosibl archwilio cofnodion y PDP a nodweddion y rhai sydd wedi creu cyfrifon. Mae data ar gyfer mis Medi 2022 yn dangos, o blith yr athrawon, uwch arweinwyr ac ANG sydd wedi creu eu PDP eu hunain:

- bod tua thri chwarter (73 y cant) wedi cyflawni SAC cyn mis Medi 2018
    - byddai'r grŵp hwn yn cynnwys athrawon a gwblhaodd eu blwyddyn sefydlu yn ystod 2017/18, neu'n gynharach
- bod 27 y cant wedi cyflawni SAC o fis Medi 2018 ymlaen, gan gynnwys y garfan gyfredol o ANG.

Bydd cyfran yr ymarferwyr mwy profiadol (h.y. y rhai sydd wedi bod yn gofrestredig am gyfnod hwy) sydd wedi creu PDP yn debygol o gynyddu dros amser, oherwydd

mae athrawon sy'n gorfod creu un yn ystod eu cyfnod sefydlu yn cynrychioli cyfran gynyddol o'r rhai sydd wedi creu eu PDP eu hunain.

**Ffigur 4. Canran yr athrawon (gan gynnwys uwch arweinwyr ac ANG) sydd wedi creu eu PDP eu hunain yn ôl pryd y gwnaethant ennill SAC**




Sylfaen: 17,837 o athrawon cofrestredig, ANG ac uwch arweinwyr

Ffynhonnell: CGA

4.11 Mae canran yr ymarferwyr sydd wedi creu eu PDP eu hunain sy'n ANG wedi gostwng dros amser, o 31 y cant ym mis Mawrth 2017 i 8 y cant ym mis Mawrth 2022. Mae hyn yn adlewyrchu cynnydd dros amser yn nifer cronnol yr ymarferwyr sydd wedi cwblhau eu cyfnod sefydlu ac sydd hefyd wedi creu eu PDP eu hunain, felly mae cyfran y defnyddwyr PDP sy'n ANG ar hyn o bryd wedi gostwng dros yr un cyfnod.

Defnyddwyr yn mewngofnodi i'r PDP

4.12 Gall ymarferwyr sy'n mewngofnodi i'r PDP ymgymryd â nifer o weithgareddau:

- cael gafael ar ganllawiau ar sut i ddefnyddio eu PDP
- cael gafael ar dempledi dysgu proffesiynol, neu greu rhai eu hunain, i fyfyrio ar eu profiadau

- gweld eu 'gweithlyfr safonau proffesiynol' eu hunain a mapio eu profiadau dysgu proffesiynol yn erbyn disgrifyddion y safonau
- uwchlwytho tystiolaeth o'u profiadau dysgu proffesiynol
- cael mynediad i gronfa ddata o gyfnodolion addysg.

Fe wnaeth tua hanner y 31,101 o ymarferwyr sydd wedi creu eu PDP eu hunain (49 y cant) fewngofnodi i'r platfform yn ystod y deuddeg mis hyd at fis Medi 2022; roedd y ganran hon ar ei huchaf ymhlith ANG (92 y cant) o gymharu â thua hanner yr uwch arweinwyr a gweithwyr cymorth dysgu (ill dau yn 52 y cant) a 39 y cant o athrawon. Mae'r canrannau hyn wedi aros yn weddol debyg i'r rhai a adroddwyd yn adroddiad gwerthuso Blwyddyn 1.

4.13 Roedd ychydig yn llai na chwarter yr ymarferwyr sydd wedi creu eu PDP eu hunain (24 y cant) wedi mewngofnodi rhwng 1 Gorffennaf a 30 Medi 2022; eto, roedd y ganran hon ar ei huchaf ymhlith ANG (76 y cant) ac yn is ymhlith uwch arweinwyr a gweithwyr cymorth dysgu (ill dau yn 24 y cant) yn ogystal ag athrawon (16 y cant).

Asedau a uwchlwythwyd i'r PDP


4.14 Gall ymarferwyr sydd wedi creu eu PDP eu hunain uwchlwytho tystiolaeth o'u datblygiad proffesiynol i'r platfform (a elwir yn 'asedau') a mapio hyn yn erbyn y safonau. Gall asedau gynnwys tystiolaeth o brofiadau ymarferwyr a'u myfyrdodau ar addysgu a dysgu, er enghraifft, yr hyn a fu'n llwyddiannus, yr hyn na weithiodd cystal, yr hyn y gwnaethant ei ddysgu, pa newidiadau y byddent yn eu gwneud y tro nesaf. Gellir uwchlwytho'r rhain mewn fformatau gwahanol megis dogfennau Word, tystysgrifau wedi'u sganio ar gyfer gweithgaredd dysgu proffesiynol a gwblhawyd neu dystiolaeth i'w chynnwys yn eu proffil sefydlu. Mae amrywiaeth o dempledi i ymarferwyr gofnodi ac uwchlwytho tystiolaeth ar gael ar wefan y PDP.

4.15 Mae'r siart isod yn dangos nifer cronnol yr asedau a uwchlwythwyd neu a grëwyd yn y PDP gan ANG, athrawon, uwch arweinwyr a gweithwyr cymorth dysgu.[40] Nid oes data ar gael sy'n dangos nifer yr asedau a uwchlwythwyd gan ymarferwyr

[40] Nid yw'r data'n cynnwys myfyrwyr AGA (ac eithrio Gweithwyr Cymorth Dysgu sy'n dilyn cyrsiau AGA) ond mae'n cynnwys nifer bach o athrawon a gweithwyr cymorth dysgu sydd hefyd wedi'u cofrestru fel darlithwyr AB (51 yn Ch3 2022) a gweithwyr cymorth dysgu AB (27 yn Ch3 2022).

mewn gwahanol rolau a sectorau. Mae'r data ar asedau gan CGA yn dangos fod nifer cronnol yr asedau a uwchlwythwyd i'r PDP rhwng ail chwarter (Ch2) 2019 a thrydydd chwarter (Ch3) 2022 wedi cynyddu bedair gwaith o 429,541 o asedau ym mis Mehefin 2019, i 2,172,336 o asedau yn Medi 2022. Yn ogystal, mae nifer yr asedau a uwchlwythwyd fesul unigolyn cofrestredig oedd wedi creu ei PDP ei hun wedi cynyddu o 37 yn y cyfnod  hyd fis Mawrth 2020 i 70 ym mis Medi 2022.

**Ffigur 5. Cyfanswm cronnol yr asedau a uwchlwythwyd neu a grëwyd gan ymarferwyr sydd wedi creu eu PDP eu hunain**




Noder: Mae'r ffigurau'n cynnwys asedau a lanlwythwyd neu a grëwyd gan: ANG, athrawon, uwch arweinwyr, gweithwyr cymorth dysgu (gan gynnwys gweithwyr cymorth dysgu sydd hefyd yn astudio cyrsiau AGA; roedd 24 o'r rhain yn nata Ch3 2022); ac athrawon wrth eu gwaith sy'n astudio ar gyfer cyrsiau Meistr mewn Addysg (tua 200-250 yn 2022/23). C = Chwarter (h.y. tri mis). Ym mhob blwyddyn a ddangosir mae Ch1 yn cyfeirio at gyfanswm yr asedau ar ddiwedd mis Mawrth, mae Ch2 yn cyfeirio at y rhai ar ddiwedd mis Mehefin, Ch3 at y rhai ar ddiwedd mis Medi, Ch4 at y rhai ar ddiwedd mis Rhagfyr.

Ffynhonnell: CGA

Y defnydd o'r PDP gan y sector addysg

4.16 Mae CGA yn cadw data ar y sector addysg y mae ymarferwyr sydd wedi creu eu PDP eu hunain yn cael eu cyflogi ynddo (os yw cofrestreion wedi nodi eu cyflogwr wrth gofrestru).

4.17 Dengys y data ar gyfer 2022 ar athrawon sydd wedi creu eu PDP eu hunain fod 43 y cant yn gweithio mewn ysgolion cynradd; mae hyn ychydig yn uwch na chanran yr

holl athrawon ysgol cofrestredig a gyflogir yn y sector cynradd (38 y cant).[41] Dengys y data fod 35 y cant o athrawon sydd wedi creu eu PDP eu hunain wedi'u cyflogi mewn ysgolion uwchradd, ychydig yn uwch na chanran yr holl athrawon a gyflogir yn y sector uwchradd (32 y cant). Roedd canran yr ymarferwyr a gyflogir mewn sectorau eraill sydd wedi creu eu PDP eu hunain hefyd yn cynrychioli'r holl ymarferwyr yn fras; mae hyn felly'n dangos bod proffil yr athrawon sy'n defnyddio'r PDP yn ôl sector cyflogaeth yn weddol debyg i broffil y gweithlu cyfan. [42]

4.18 Dengys y data ar weithwyr cymorth dysgu fod traean (32 y cant) o'r rhai sydd wedi creu eu PDP eu hunain wedi'u cyflogi mewn ysgolion cynradd; mae hyn ychydig yn is na chanran yr holl weithwyr cymorth dysgu cofrestredig sy'n cael eu cyflogi yn y sector cynradd (36 y cant). Dengys y data fod 12 y cant o weithwyr cymorth dysgu sydd wedi creu eu PDP eu hunain wedi'u cyflogi mewn ysgolion uwchradd, sef yr un ganran â'r holl weithwyr cymorth dysgu cofrestredig sy'n cael eu cyflogi yn y sector cynradd (12 y cant).[43]

4.19 Ymhlith ANG a oedd wedi creu eu PDP eu hunain, roedd 29 y cant yn cael eu cyflogi yn y sector cynradd (o gymharu â 28 y cant o'r holl ANG) a 32 y cant yn y sector uwchradd (o gymharu â 30 y cant o'r holl ANG a gyflogir yn y sector).[44]

4.20 Mae'r data'n dangos bod 68 y cant o uwch arweinwyr sydd wedi creu eu PDP eu hunain wedi'u cyflogi yn y sector cynradd, a 24 y cant yn y sector uwchradd.[45]


4.21 Mae'r nifer sy'n manteisio ar y PDP fesul sector, fel y dangosir gan ganran yr holl athrawon cofrestredig sydd wedi creu eu PDP eu hunain, wedi cynyddu ar draws y rhan fwyaf o sectorau cyflogaeth (mathau o ysgol/lleoliad). Dengys y data ar gyfer mis Medi 2022 fod ychydig dros hanner yr athrawon cofrestredig mewn ysgolion cynradd (55 y cant) ac mewn ysgolion arbennig (54 y cant) wedi creu eu PDP eu

---

41 Yn seiliedig ar Ystadegau Blynyddol y Gweithlu Addysg i Gymru 2021.
42 Roedd 4 y cant o'r rhai a oedd wedi creu PDP yn cael eu cyflogi mewn ysgolion canol, 3 y cant mewn ysgolion arbennig ac 1 y cant mewn ysgolion annibynnol. Ni chadwyd gwybodaeth am sector cyflogaeth ar gyfer 9 y cant o'r rhai a oedd wedi creu PDP.
43 Yn seiliedig ar Ystadegau Blynyddol y Gweithlu Addysg i Gymru 2021. Ni chadwyd gwybodaeth am sector cyflogaeth ar gyfer 9 y cant o'r gweithwyr cymorth dysgu a oedd wedi creu PDP.
44 Yn seiliedig ar Data Insights: Registered Newly Qualified School Teachers (EWC 2022)
45 Ni chyhoeddir data ar nifer yr uwch arweinwyr, er bod nifer yr ysgolion yn cael ei gyhoeddi. Mae data ar gyfer 2021/22 yn dangos bod 83 y cant o holl ysgolion Cymru yn ysgolion cynradd a 12 y cant yn ysgolion uwchradd.

hunain, o gymharu â 48 y cant mewn ysgolion canol, 45 y cant o athrawon uwchradd a 32 y cant o athrawon mewn uned cyfeirio disgyblion. Ym mhob un o’r sectorau hyn, ac eithrio ysgolion canol, mae canran yr athrawon sydd wedi creu eu PDP eu hunain wedi cynyddu ers adroddiad gwerthuso Blwyddyn 1.[46]

**Ffigur 6. Canran yr holl athrawon cofrestredig sydd wedi creu eu PDP eu hunain yn ôl sector cyflogaeth (math o ysgol / lleoliad) 2021-22**




Ffynhonnell: CGA

Sgiliau Cymraeg defnyddwyr PDP

4.22 Dengys y data fod traean (33 y cant) o athrawon ysgol sydd wedi creu eu PDP eu hunain wedi datgan wrth gofrestru eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn yn cyfateb i ganran yr holl athrawon cofrestredig a nododd eu bod yn siaradwyr Cymraeg yn 2022 (33 y cant). Roedd dros chwarter (26 y cant) yr athrawon a oedd wedi creu eu PDP eu hunain yn cael eu cyflogi mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, yn debyg i’r 27 y cant o’r holl athrawon a ddywedodd eu bod yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2022.[47] Mae'r data felly'n dangos bod athrawon sydd wedi

[46] Mae’r gostyngiad yng nghanran yr athrawon ysgol ganol sydd wedi creu eu PDP eu hunain i'w briodoli'n bennaf i'r cynnydd yng nghyfanswm yr athrawon ysgol ganol rhwng 2021 a 2022.
[47] Gweler Ystadegau Blynyddol y Gweithlu Addysg CGA ar gyfer Cymru 2022.

creu eu PDP eu hunain yn gymharol debyg i'r holl athrawon o ran eu sgiliau Cymraeg a'r canran â gyflogir mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

4.23 Dengys y data fod 25 y cant o'r gweithwyr cymorth dysgu sydd wedi creu eu PDP eu hunain ym mis Medi 2022 yn siaradwyr Cymraeg, sef cynnydd o 7 pwynt canran o fis Mawrth 2021. Mae hyn yn uwch na chanran yr holl weithwyr cymorth dysgu cofrestredig a nododd eu bod yn siaradwyr Cymraeg yn 2022 (20 y cant). Yn ogystal â hynny, roedd 20 y cant o'r gweithwyr cymorth dysgu sydd wedi creu eu PDP eu hunain ym mis Medi 2022 yn gweithio mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, cynnydd o 6 phwynt canran ers 2021.[48] Mae hyn fymryn yn uwch na chanran yr holl weithwyr cymorth dysgu a nododd y gallent weithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2022 (17 y cant).[49] Mae hyn yn awgrymu bod twf wedi bod yn nifer y gweithwyr cymorth dysgu Cymraeg a'r gweithwyr cymorth dysgu sy'n gweithio mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a greodd eu PDP eu hunain rhwng 2021 a 2022.

### Canfyddiadau gwaith maes Blwyddyn 2

4.24 Mae canfyddiadau gwaith maes Blwyddyn 2 wedi'u nodi isod. Yn gyntaf, rydym yn ystyried barn ymarferwyr (gan gynnwys arweinwyr lleoliadau, athrawon dosbarth a staff cymorth mewn ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion) cyn troi i ystyried barn rhanddeiliaid a gasglwyd yn ystod gwaith maes y gwerthusiad terfynol.

### Sut y mae lleoliadau yn dweud eu bod wedi defnyddio'r safonau

4.25 Parhaodd y safonau i gael eu defnyddio mewn amrywiaeth o gyd-destunau gan ymarferwyr a rhanddeiliaid. Fel gyda gwerthusiad Blwyddyn 1, dywedodd y rhai a gyfwelwyd ym mhob lleoliad eu bod wedi defnyddio'r safonau mewn rhyw ffordd, er bod maint y defnydd yn amrywio'n sylweddol. Mae'r tabl isod yn cyflwyno'r amrywiaeth o ffyrdd y defnyddiwyd y safonau, a pha mor gyffredin oedd y math hwn o ddefnydd ymhlith y sampl o leoliadau a holwyd fel rhan o'r gwerthusiad.

[48] Nid yw CGA yn cyhoeddi data ar nifer yr athrawon ysgol sy'n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, dim ond y nifer sydd â'r gallu i wneud hynny.
[49] Gweler Ystadegau Blynyddol y Gweithlu Addysg CGA ar gyfer Cymru 2021.

**Tabl 4. Pa mor gyffredin oedd gwahanol fathau o ddefnydd o'r safonau, fel yr adroddwyd gan leoliadau a gymerodd ran yn y gwerthusiad**

| Math o weithgaredd sy'n ymwneud â'r safonau | Disgrifiad o'r gweithgaredd sy'n ymwneud â'r safonau |
|---|---|
| Roedd **pob lleoliad** a gymerodd ran yn y gwerthusiad yn defnyddio'r safonau yn y ffyrdd canlynol… | |
| 1. Uwch arweinwyr yn lledaenu gwybodaeth i staff er mwyn codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r safonau | Cyflwyniadau ar y safonau gan uwch arweinwyr neu bartneriaid allanol (e.e. Consortia Addysg Rhanbarthol, ysgolion eraill) i staff.<br>Dosbarthu gwybodaeth am y safonau i staff, gan gynnwys gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru a chanllawiau'r lleoliadau eu hunain. |
| 2. Fel rhan o AGA a phrosesau sefydlu (lle roedd myfyrwyr AGA neu ANG yn gweithio mewn lleoliadau) | ANG a myfyrwyr AGA yn coladu tystiolaeth o'u hymarfer a'u cynnydd eu hunain ac yn cofnodi hyn yn y PDP<br>Mentoriaid yn adolygu cynnydd ANG yn erbyn y safonau a'r dystiolaeth a gasglwyd.<br>ANG a myfyrwyr AGA ac yn cael eu hasesu yn erbyn y safonau. |
| Roedd **y rhan fwyaf o leoliadau** a gymerodd ran yn y gwerthusiad yn defnyddio'r safonau yn y ffyrdd canlynol… | |
| 3. Fel rhan o'u gweithgareddau dysgu proffesiynol eu hunain | Ymarferwyr sydd â (neu sy'n dymuno cael) cyfrifoldeb arwain ffurfiol yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol ffurfiol wedi'i strwythuro o amgylch y safonau.<br>Ymarferwyr yn myfyrio ar sut y mae eu gweithgareddau dysgu proffesiynol yn berthnasol i'r safonau yn ystod neu ar ddiwedd sesiynau dysgu proffesiynol. |
| 4. Fel rhan o brosesau datblygu neu reoli perfformiad ymarferwyr | Safonau ac iaith a therminoleg y disgrifyddion y cyfeiriwyd atynt mewn trafodaethau rheoli perfformiad (e.e. gofynnodd staff gwestiynau am eu datblygiad yn erbyn y safonau).<br>Ymarferwyr a rheolwyr llinell yn gallu 'dadgodio' y safonau yng nghyd-destun rôl ymarferwr. |
| 5. Wrth hunanwerthuso a myfyrio'n feirniadol | Y safonau'n cael eu defnyddio fel fframwaith ar gyfer proses hunanfyfyrio'r ymarferwyr eu hunain.<br>Y safonau'n cael eu defnyddio fel fframwaith ar gyfer uwch arweinwyr i annog y staff i feddwl am eu datblygiad proffesiynol eu hunain a chymryd mwy o berchnogaeth drosto. |

| Math o weithgaredd sy'n ymwneud â'r safonau | Disgrifiad o'r gweithgaredd sy'n ymwneud â'r safonau |
|---|---|
| Roedd **rhai lleoliadau** a gymerodd ran yn y gwerthusiad yn defnyddio'r safonau yn y ffyrdd canlynol… | |
| 6. Defnyddio platfformau ar-lein neu brosesau monitro eraill i reoli perfformiad, hunanwerthuso a/neu gofnodi datblygiad staff yn erbyn y safonau | Y safonau a'r disgrifyddion yn cael eu hymgorffori mewn offer hunanasesu sy'n cael eu cynnal ar-lein (e.e. holiaduron electronig) neu mewn offer eraill fel holiaduron ar ffurf taenlen.<br>Ymarferwyr yn cael eu hyfforddi i ddefnyddio'r offer hyn fel rhan o weithgaredd rheoli perfformiad. Mae'r offer yn cynhyrchu proffil neu ddadansoddiad o hunanfyfyrdodau staff ar hyder neu gynnydd yn erbyn y safonau.<br>Ymarferwyr yn cwblhau hunanasesiadau yn erbyn pob un o'r safonau cyn cymryd rhan mewn trafodaeth rheoli perfformiad gyda'u rheolwr llinell. |
| 7. Wrth gynllunio gweithgareddau dysgu proffesiynol staff | Uwch arweinwyr yn defnyddio'r safonau fel fframwaith i benderfynu ar nodau neu themâu ar gyfer gweithgareddau dysgu proffesiynol y lleoliad cyfan (e.e. sesiynau HMS) yn ogystal ag ar gyfer ymarferwyr unigol. |
| 8. Yn gydweithredol o fewn yr ysgol | Fel strwythur ar gyfer cynnal gweithgaredd ymholiad proffesiynol cydweithredol neu 'grwpiau proffesiynol' eraill sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad staff.<br>Sgyrsiau anffurfiol gydag ymarferwyr eraill yn yr ysgol am ddatblygiad proffesiynol neu ddysgu proffesiynol. |
| Roedd **ambell leoliad** a gymerodd ran yn y gwerthusiad yn defnyddio'r safonau yn y ffyrdd canlynol… | |
| 9. Fel rhan o brosesau recriwtio (swydd-ddisgrifiadau, cyfweliadau) | Ymgorffori'r safonau mewn swydd-ddisgrifiadau a manylebau person mewn lleoliadau.<br>Swydd-ddisgrifiadau a manylebau person yn cyfeirio at ddefnyddio'r safonau. |
| 10. Coladu data cyfunol yn seiliedig ar hunanwerthusiadau'r staff | Uwch arweinwyr yn datblygu systemau ar gyfer cydgrynhoi'r data o hunanwerthusiadau ymarferwyr i roi darlun o ddatblygiad proffesiynol eu gweithlu ar gyfer y lleoliad cyfan. Roedd platfformau ar-lein ac offer ar ffurf taenlen yn cael eu defnyddio i wneud hyn.<br>Uwch arweinwyr yn defnyddio'r data hyn ochr yn ochr â data arall ar lefel ysgol (e.e. o arsylwadau ystafell ddosbarth, teithiau dysgu, adolygiadau gan gymheiriaid) i gynllunio gweithgareddau dysgu proffesiynol. |
| 11. Mewn cydweithrediad ag ysgolion eraill. | Y safonau'n cael eu defnyddio fel iaith gyffredin i ymarferwyr mewn gwahanol leoliadau i drafod dysgu a datblygiad proffesiynol. |

Amrywiad yn y defnydd o'r safonau

4.26 Roedd yn ymddangos bod yr amrywiad yn y ffordd y defnyddiwyd y safonau, gan gynnwys amlder a dyfnder yr ymgysylltiad, i'w priodoli'n bennaf i ddau ffactor. Yn gyntaf, ar lefel lleoliad, y pwyslais a roddir arnynt gan arweinwyr lleoliadau. Yn ail, ar lefel unigol, p'un a oedd ymarferwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol a oedd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ymgysylltu â'r safonau. Trafodir y ddau ffactor isod.

4.27 Ar lefel lleoliad, roedd yn ymddangos bod y pwyslais a roddwyd arnynt gan uwch arweinwyr yn dylanwadu ar eu defnydd gan ymarferwyr, gan gynnwys i ba raddau yr oedd uwch arweinwyr:

- yn annog neu'n mynnu bod staff yn eu defnyddio fel rhan o brosesau'r ysgol (e.e. cyfeirio atynt mewn swydd-ddisgrifiadau neu yn y strwythur neu'r cwestiynau a ddefnyddiwyd fel rhan o drafodaethau rheoli perfformiad)
- wedi datblygu neu fabwysiadu offer i annog defnyddio'r safonau (e.e. holiaduron hunanfyfyrio)
- yn neilltuo amser i staff wneud hyn (e.e. ar gyfer hunanfyfyrio ar ddiwedd sesiynau dysgu proffesiynol).

Roedd ymarferwyr a oedd yn cael eu hannog yn weithredol i ymgysylltu â'r safonau, yr oedd eu lleoliadau wedi datblygu offer hunanasesu yn seiliedig ar y disgrifyddion, ac y dyrannwyd amser iddynt i'w defnyddio, yn fwy tebygol o adrodd eu bod wedi defnyddio'r safonau. Roedd dyfnder y defnydd o'r safonau hefyd yn fwy amlwg mewn lleoliadau lle roedd y prosesau hyn wedi bod ar waith ers nifer o flynyddoedd. Roedd ymarferwyr yn y mathau hyn o leoliadau hefyd yn fwy tebygol o nodi eu bod yn gweld y safonau'n fuddiol o ran eu datblygiad proffesiynol, er enghraifft drwy osod nodau, hunanfyfyrio a darparu pwynt cyfeirio i adolygu eu datblygiad eu hunain yn ei erbyn.

4.28 Ar lefel unigol, roedd y defnydd o'r safonau'n uwch ymhlith ymarferwyr a oedd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol, neu a oedd wedi gwneud hynny'n ddiweddar, ble roedd yn ofynnol eu defnyddio i ymgysylltu â'r safonau, er enghraifft AGA, prosesau sefydlu a dysgu proffesiynol ffurfiol eraill (e.e. cyrsiau arweinyddiaeth). Roedd uwch arweinwyr ac arweinwyr canol, mentoriaid sefydlu ac

ANG felly yn fwy tebygol o fod yn defnyddio'r safonau o gymharu ag ymarferwyr eraill.

4.29 Ym Mlwyddyn 2 y gwerthusiad hwn, roedd y defnydd o'r safonau wedi cynyddu mewn sawl lleoliad, er bod rhai lleoliadau wedi adrodd bod eu defnydd o'r safonau wedi aros yn gymharol ddigyfnewid. Ymddengys fod y ffactorau a nodir yn Adran 4.22-4.24 uchod, sef y pwyslais a roddir ar y safonau gan uwch arweinwyr a chyfranogiad mewn dysgu proffesiynol, yn dylanwadu ar a oedd y defnydd o'r safonau wedi cynyddu ai peidio.

4.30 Roedd lleoliadau a oedd yn gwneud mwy o ddefnydd o'r safonau yn ystod Blwyddyn 2 y gwerthusiad, wedi ymgorffori'r safonau ymhellach yn eu gweithgareddau a'u systemau gan gynnwys rheoli perfformiad, datblygiad proffesiynol a dysgu proffesiynol. Mewn ambell leoliad, dywedodd ymarferwyr fod defnyddio'r safonau yn y prosesau hyn, dros amser, wedi arwain at ymarferwyr yn defnyddio iaith a therminoleg y safonau yn fwy 'organig' wrth rannu eu myfyrdodau a'u profiadau gyda chydweithwyr. Er enghraifft, teimlai rhai uwch arweinwyr fod y safonau'n dechrau 'treiddio' i ddeialog yn ystod cyfarfodydd staff neu fel rhan o drafodaethau proffesiynol anffurfiol.

4.31 Ar draws yr holl leoliadau a holwyd, roedd y safonau'n parhau i gael eu gwerthfawrogi fel fframwaith sy'n amlinellu'r disgwyliadau ar gyfer ymarferwyr. Roedd uwch arweinwyr ac ymarferwyr yn eu hystyried yn arf datblygiadol defnyddiol a oedd yn darparu iaith gyffredin ar gyfer myfyrio ar a thrafod eu datblygiad eu hunain a datblygiad cydweithwyr. Roedd ymarferwyr mewn unedau cyfeirio disgyblion yn eu gwerthfawrogi'n arbennig am eu bod yn darparu fframwaith cyson a oedd yn rhoi mwy o statws iddynt ac iaith gyffredin ar gyfer trafodaethau am ddatblygiad proffesiynol gyda'u cymheiriaid mewn ysgolion.

4.32 Mewn ambell ysgol, roedd uwch arweinwyr wedi sefydlu'r prosesau ar gyfer casglu data cyfanredol ar gyfer y lleoliad cyfan ar ddatblygiad proffesiynol ei gweithlu. Yn yr ysgolion hyn, roedd safonau a disgrifyddion yn cael eu defnyddio fel fframwaith ar gyfer offer megis holiaduron hunanasesu electronig (rhai yn cael eu cynnal ar-lein ac eraill all-lein). Dywedodd yr uwch arweinwyr hyn fod y mathau hyn o ddata yn ddefnyddiol i nodi anghenion datblygiad proffesiynol, ac y gellid eu defnyddio ochr

yn ochr â data sicrhau ansawdd arall, fel canfyddiadau o arsylwadau ystafell ddosbarth, adolygiadau gan gymheiriaid neu deithiau dysgu i helpu i gynllunio gweithgareddau dysgu proffesiynol i fynd i'r afael â'r anghenion hyn. Ar draws yr holl leoliadau dan sylw, roedd barn uwch arweinwyr am werth defnyddio'r safonau yn y ffordd fwy 'strwythuredig' neu 'feintiol' hon yn amrywio; roedd yn well gan rai ddull mwy ansoddol, yn seiliedig ar ddeialog, ac roedd eraill yn eu gwerthfawrogi fel fframwaith ar gyfer casglu data ar ddatblygiad proffesiynol ar gyfer y lleoliad cyfan neu gyfadran gyfan.

4.33 Mewn rhai lleoliadau, nid oedd y defnydd o'r safonau wedi newid yn sylweddol rhwng gwaith maes Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2. Priodolodd uwch arweinwyr hyn yn bennaf i ffactorau allanol, fel effaith y pandemig a blaenoriaethau eraill yn ymwneud â gwaith. Dywedodd llawer o uwch arweinwyr fod eu ffocws wedi bod ar flaenoriaethu gweithredu diwygiadau eraill, gan gynnwys cynllunio'r cwricwlwm a'r rhaglen trawsnewid ADY, a bod hyn hefyd wedi gohirio neu gyfyngu ar eu gweithgaredd arfaethedig yn ymwneud â'r safonau.

4.34 Mewn ambell leoliad, roedd defnydd cyfyngedig o'r safonau yn parhau. Yn y lleoliadau hyn, dywedodd yr ymarferwyr fod y gweithgaredd wedi canolbwyntio ar:


- codi ymwybyddiaeth cychwynnol, fel uwch arweinwyr yn rhoi cyflwyniadau ar y safonau yn ystod cyfarfodydd staff, neu rannu gwybodaeth ysgrifenedig gyda staff.
- ANG a mentoriaid yn casglu tystiolaeth yn erbyn y safonau fel rhan o brosesau sefydlu.
- uwch arweinwyr yn ystyried y safonau ar lefel strategol wrth adolygu data addysgu a dysgu a chynllunio gweithgareddau dysgu proffesiynol.

4.35 Mae Ffigur 7 isod yn ceisio rhoi darlun o ddylanwad uwch arweinwyr, a chyfranogiad mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol, ar debygolrwydd ymarferwyr o ddefnyddio'r safonau. Mae'n darlunio'r patrymau a adroddwyd o ran y defnydd o'r safonau yn seiliedig ar leoliadau ac ymarferwyr a holwyd yn ystod y gwerthusiad hwn, sef:

- mae ymarferwyr yn fwy tebygol o ddefnyddio'r safonau mewn ysgolion lle mae uwch arweinwyr yn rhoi mwy o bwyslais arnynt (gweler Adran 4.23), ac i'r gwrthwyneb (echelin lorweddol).

- mae ymarferwyr yn fwy tebygol o ddefnyddio’r safonau os ydynt wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol ffurfiol sy'n seiliedig ar y safonau (gweler Adran 4.24), ac i’r gwrthwyneb (echelin fertigol).

**Ffigur 7. Dylanwad arweinwyr y lleoliad a chyfranogiad mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol ar y tebygolrwydd o ddefnyddio'r safonau.**




4.36 Mae'r astudiaethau achos a nodir yn Atodiad B yn cynnwys amrywiaeth o enghreifftiau o sut y dywedodd ymarferwyr a lleoliadau eu bod wedi defnyddio'r safonau o ddydd i ddydd. Adolygwyd y rhain i ddatblygu tair 'teipoleg defnydd' sy'n dangos y gwahanol ffyrdd y mae lleoliadau'n ymgysylltu â'r safonau fel arfer. Mae’n bwysig pwysleisio:

- bod gan rai o'r lleoliadau a gymerodd ran yn y gwerthusiad nodweddion a ddisgrifir mewn mwy nag un deipoleg. Felly, nid yw lleoliadau bob amser yn ffitio'n 'daclus' o fewn un deipoleg
- gall ymarfer o fewn lleoliadau amrywio yn dibynnu ar y ffocws a roddir ar y safonau gan gyfadrannau unigol, arweinwyr canol ac ymarferwyr.

Fodd bynnag, mae'r teipolegau yn rhoi crynodeb o'r math o ymgysylltu a'r defnydd o'r safonau a adroddwyd gan leoliadau, ac a ddisgrifir yn llawnach yn yr astudiaethau achos.

## Teipolegau defnydd o'r safonau mewn lleoliadau

**Teipoleg 1: eu defnyddio fel fframwaith cyfannol ar gyfer trafod datblygiad proffesiynol**


- Gweithgaredd codi ymwybyddiaeth cychwynnol ar draws y lleoliad (e.e. cyflwyniadau gan uwch arweinwyr).
- Lleoliadau'n ymgorffori ac yn defnyddio iaith a therminoleg y safonau'n rheolaidd mewn ffordd gyfannol fel rhan o'u prosesau ysgol gyfan ar gyfer:
  - rheoli perfformiad (e.e. cwestiynau fel rhan o drafodaethau adolygu perfformiad yn cyfeirio at y safonau)
  - datblygiad proffesiynol a gweithgareddau dysgu (e.e. cyfeirir at y safonau yn ystod gweithgareddau dysgu proffesiynol a myfyrio arnynt wedyn).
- Canolbwyntio ar ddefnyddio'r safonau ar lefel unigol mewn ffordd ansoddol, sy'n hyrwyddo ymgysylltiad yr ysgol gyfan â'r safonau.
- Fe'u defnyddir hefyd i hysbysu/arwain uwch arweinwyr wrth gynllunio gweithgaredd ar draws y lleoliad. Nid yw data meintiol cyfunol yn cael eu casglu fel arfer.


**Teipoleg 2: y safonau'n cael eu defnyddio mewn dulliau sy'n seiliedig ar ddeialog a data o ymdrin â datblygiad proffesiynol**

- Gweithgaredd codi ymwybyddiaeth cychwynnol ar draws y lleoliad (e.e. cyflwyniadau gan uwch arweinwyr).
- Lleoliadau wedi ymgorffori iaith a therminoleg y safonau mewn prosesau (fel yn Nheipoleg 1) a hefyd drwy ddefnyddio offer i gefnogi ymarferwyr unigol (e.e. holiaduron hunanfyfyrio ar-lein, offer ar ffurf taenlen).
- Defnyddir canfyddiadau hunanfyfyrio i ysgogi deialog rhwng uwch arweinwyr ac ymarferwyr ynghylch datblygiad proffesiynol.
- Lleoliadau hefyd yn casglu data ysgol gyfan neu gyfadran yn systematig (gan ddefnyddio offer mewnol neu allanol (offer a ddatblygwyd gan Gonsortia Addysg Rhanbarthol a phlatfformau masnachol) a all arwain penderfyniadau strategol ar nodi anghenion datblygiad proffesiynol ac anghenion dysgu ymarferwyr.
- Offer mewnol neu offer a ddatblygwyd yn allanol (offer a ddatblygwyd gan y Consortia Addysg Rhanbarthol ac offer masnachol) yn cael eu defnyddio i hwyluso casglu data meintiol a all gefnogi'r broses hon
    - e.e. proffilio hyder staff yn erbyn disgrifyddion penodol.

**Teipoleg 3: y safonau'n cael eu defnyddio'n bennaf fel pwynt cyfeirio gan uwch arweinwyr**

- Peth gweithgaredd codi ymwybyddiaeth (e.e. cyflwyniadau gan uwch arweinwyr).
- Mae uwch arweinwyr yn defnyddio’r safonau i arwain eu gweithgaredd datblygiad proffesiynol a chynllunio strategol eu hunain.
- Iaith a therminoleg heb eu hymgorffori o fewn datblygiad proffesiynol, rheoli perfformiad a gweithgareddau DP. Staff ddim yn dod i gysylltiad â'r safonau o fewn y prosesau hyn fel mater o drefn.
- Newydd-ddyfodiaid i'r proffesiwn sy'n ymgysylltu fwyaf â'r safonau. Maent yn llai cyfarwydd i lawer o ymarferwyr, oni bai eu bod yn cael eu hamlygu iddynt drwy weithgareddau dysgu proffesiynol ffurfiol.





Iaith a therminoleg

4.37 At ei gilydd, roedd uwch arweinwyr ac ymarferwyr yn parhau i deimlo bod y safonau’n dal yn berthnasol ac yn cyd-fynd yn dda ag agweddau eraill ar ddiwygio addysg. Cyfeiriodd rhai uwch arweinwyr ac ymarferwyr at ddisgrifyddion penodol y gellid eu hadolygu, er mwyn sicrhau bod terminoleg y safonau yn parhau i gyd-fynd â datblygiadau eraill (e.e. canllawiau'r cwricwlwm). Teimlai rhai uwch arweinwyr y gallai fod yn fuddiol adolygu’r disgrifyddion i greu mwy o ‘gamau’ cynnydd rhwng cwblhau cyfnod sefydlu statudol ac ‘ymarfer effeithiol iawn a pharhaus’. Teimlai’r uwch arweinwyr hyn y byddai hyn yn adlewyrchu’r modd yr oedd rhai lleoliadau a rhanddeiliaid wedi dehongli’r safonau ac wedi datblygu eu graddfeydd hyder neu ymwybyddiaeth eu hunain. Teimlai rhai hefyd y gallai proses 'adnewyddu ac ail-lansio' helpu i gynyddu amlygrwydd y safonau hefyd. Mae hyn yn awgrymu y gallai fod achos dros adolygu geiriad rhai o’r safonau, yng ngoleuni diwygiadau i’r cwricwlwm a diwygiadau addysg eraill.

**Barn rhanddeiliaid**

4.38 Fel y nodwyd yn adroddiad Blwyddyn 1, mae rhanddeiliaid wedi cymryd rhan mewn llawer o weithgareddau i gefnogi’r defnydd o’r safonau. Mae rhanddeiliaid wedi

parhau i ddatblygu a rhannu adnoddau a deunyddiau sy'n ymwneud â'r safonau, hyrwyddo eu defnydd a chefnogi lleoliadau i weithredu'r safonau, er enghraifft drwy hyfforddiant neu drwy hwyluso cydweithio. Mae'r adran hon yn crynhoi barn rhanddeiliaid.

Barn rhanddeiliaid ar y defnydd o'r safonau mewn AGA a gweithgaredd sefydlu

4.39 Mae'r meini prawf ar gyfer achredu AGA (Llywodraeth Cymru, 2018b) yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr AGA ymgorffori'r safonau ym mhob agwedd ar ddarparu ac asesu modiwlau cwrs AGA. Er mwyn hwyluso hyn, mae darparwyr wedi gweithio gyda CGA i ddatblygu 'gweithlyfrau dysgu proffesiynol' ar y PDP, yn seiliedig ar y safonau a'r disgrifyddion, er mwyn i ymgeiswyr ddangos eu bod wedi cyflawni'r deilliannau sy'n ofynnol i gael SAC.

4.40 Dywedodd rhanddeiliaid fod tiwtoriaid AGA yn dod yn fwy cyfarwydd â’r safonau dros amser a bod y safonau’n helpu’n raddol i newid meddylfryd o ‘gasglu portffolio o eitemau’ i ddull mwy ‘cyfannol’ o gasglu tystiolaeth. Teimlai rhai darparwyr AGA y gallai’r gofyniad i uwchlwytho tystiolaeth yn erbyn pob safon ar y PDP arwain at ymgeiswyr yn canolbwyntio gormod ar yr agwedd hon ar eu portffolio, yn hytrach nag ansawdd eu tystiolaeth neu fyfyrio’n feirniadol ar eu profiadau.

> 'Mae myfyrwyr yn aml yn gofyn cwestiynau am 'sawl darn o dystiolaeth sydd eu hangen' yn erbyn pob un o'r safonau; gall y meddylfryd hwn fynd yn groes i'r bwriad cyfannol. Mae yna gamsyniad byddan nhw'n pasio ar ôl iddyn nhw uwchlwytho tystiolaeth yn erbyn pob un.' **(Cyfweliad â rhanddeiliad)**

4.41 Dywedodd partneriaethau AGA y gallai casglu tystiolaeth i ddangos cynnydd yn erbyn y safonau 'orlethu' ymgeiswyr ar y dechrau. Darparodd partneriaethau AGA enghreifftiau o sut yr oeddent yn cefnogi eu staff a’u myfyrwyr i ddefnyddio’r safonau:

- Roedd un bartneriaeth AGA wedi cydweithio â'r Consortiwm Addysg Rhanbarthol i ddatblygu canllawiau a deunyddiau ategol, gan gynnwys clipiau fideo, i helpu tiwtoriaid ac ymgeiswyr i ddehongli'r safonau a dangos cynnydd yn eu herbyn.[50]

[50] Gweler Partneriaeth Caerdydd: Shared Understanding of the Standards - YouTube

- Roedd un bartneriaeth wedi ceisio gwneud y safonau'n llai beichus ac yn haws eu rheoli i ymgeiswyr drwy ganolbwyntio ar 10 safon 'sylfaenol' yn y lle cyntaf, ac yna mynd i'r afael â'r lleill yn raddol.
- Dywedodd un ei bod yn canolbwyntio'n bennaf ar 'gydweithio' yn ystod y lleoliad AGA cynnar, ac yna'n canolbwyntio mwy ar 'arloesi' ac 'arweinyddiaeth' yn y lleoliad terfynol. Cyflwynwyd addysgeg mewn 'haenau' drwy gydol y ddau leoliad.
- Disgrifiodd rhai o'r partneriaethau sut yr oeddent wedi datblygu graddfeydd ar gyfer asesu cynnydd yn erbyn y safonau dros amser. Er enghraifft, a oedd eu hymarfer yn 'dechrau dod i'r amlwg', yn 'cyflawni' neu'n 'rhagori' ar y safon.

4.42 Dywedodd partneriaethau AGA eu bod wedi annog lleoliadau ac ymgeiswyr AGA i gynnwys amser myfyrio mwy rheolaidd yn eu lleoliadau. Er mwyn helpu i hwyluso hyn, nododd rhai darparwyr eu bod wedi annog ymgeiswyr i gyflwyno myfyrdodau o'u cynnydd yn erbyn y safonau mewn amrywiaeth o fformatau gan gynnwys sain, llun a fideo. Teimlai'r rhanddeiliaid y gallai cynnig hyblygrwydd o ran fformat y dystiolaeth hwyluso myfyrdodau mwy 'dilys' gan ymgeiswyr.

4.43 Fel ym Mlwyddyn 1, teimlai rhai rhanddeiliaid ei bod yn heriol defnyddio'r safonau wrth wneud penderfyniadau asesu AGA (trothwyon llwyddo/methu) oherwydd bod modd eu dehongli mewn ffyrdd gwahanol. Teimlai'r rhanddeiliaid fod y safonau'n ddefnyddiol fel arf datblygiadol i ymarferwyr nodi meysydd ar gyfer eu taith datblygiad proffesiynol, ond eu bod yn llai defnyddiol ar gyfer gwerthuso eu sgiliau a'u galluoedd presennol, oherwydd natur oddrychol y disgrifyddion. Roedd y rhanddeiliaid yn croesawu'r trafodaethau parhaus rhyngddynt hwy a Llywodraeth Cymru ar y mater hwn, yn enwedig yn ystod y pandemig. Dywedodd y rhanddeiliaid fod gweithgaredd cydweithredol a gynlluniwyd, a grybwyllwyd gan ddarparwyr AGA yn ystod gwaith maes Blwyddyn 1, i helpu i oresgyn yr heriau hyn (e.e. gweithgor cydweithredol dan arweiniad Cyngor y Prifysgolion ac Ysgolion ar gyfer Addysgu Athrawon) wedi'i ohirio oherwydd effaith y pandemig.

4.44 Dywedodd y rhanddeiliaid y byddent yn croesawu mwy o gyfleoedd i bartneriaethau AGA gydweithio â'i gilydd, yn enwedig i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o sut y gellir cyrraedd y safonau mewn gwahanol ffyrdd. Fodd bynnag, soniodd y rhanddeiliaid

hefyd am bwysigrwydd osgoi nodi enghreifftiau o arfer da a oedd wedyn yn cael eu hystyried fel 'yr unig ffordd' o gyrraedd safon.

Barn rhanddeiliaid ar y defnydd o'r safonau mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol

4.45 Disgrifiodd y rhanddeiliaid sut yr oeddent wedi parhau i ymgorffori'r safonau fel 'elfen gyffredin' o fewn cyrsiau hyfforddi ffurfiol yn ogystal â'u cynlluniau strategol.[51] Teimlai'r rhanddeiliaid fod y safonau'n dod yn fwy 'amlwg' i gyfranogwyr ar y cyrsiau hyn ar wahanol gamau yn eu gyrfa. Ystyriwyd bod datblygu llyfrau gwaith dysgu proffesiynol gan CGA a Chonsortia Addysg Rhanbarthol i'w defnyddio gyda chyrsiau dysgu proffesiynol ffurfiol, gan gynnwys y rhai ar gyfer arweinwyr ac ymarferwyr, yn bwysig i sicrhau bod cyfranogwyr yn ymgysylltu â'r safonau ar wahanol gamau o'u gyrfa. Disgrifiodd un rhanddeiliad sut yr oedd y safonau bellach yn fwy amlwg yn ei ddarpariaeth dysgu proffesiynol.

> 'Rydym wedi ailstrwythuro un o'n rhaglenni arweinyddiaeth… …Mae pob modiwl [yn canolbwyntio ar] safon wahanol ac rydym yn cynnal sesiynau 'craffu manwl' arnynt; mae hyn yn helpu penaethiaid mwy newydd i ddefnyddio'r safonau fel 'craidd'. Mae'r adborth rydym yn ei gael yn gadarnhaol, gallaf weld pa mor fuddiol yw'r modiwlau hyn i'r penaethiaid newydd.' **(Cyfweliad â rhanddeiliad)**

4.46 Ystyriwyd bod y defnydd o'r PDP wedi cynyddu ymhlith y rhai a oedd yn cymryd rhan mewn rhaglenni achrededig neu ardystiedig. Priodolwyd hyn i ddatblygiad llyfrau gwaith dysgu proffesiynol a'r ffaith bod darparwyr yn cyfeirio'n rheolaidd at y rhain a'r PDP yn ystod cyrsiau, gan annog cyfranogwyr i gofnodi eu myfyrdodau yn y rhain. Dywedodd y rhanddeiliaid fod rhai ymarferwyr wedi dweud eu bod yn defnyddio'r PDP am y tro cyntaf ers cwblhau'r cyfnod sefydlu. Mae hyn yn awgrymu mai defnydd cyfyngedig a wneir o'r PDP gan ymarferwyr rhwng pwyntiau hollbwysig ar eu taith gyrfa.

> 'I rai, dyma'r tro cyntaf iddynt fewngofnodi i'w PDP ers y cyfnod sefydlu' **(Cyfweliad â rhanddeiliad)**

4.47 Roedd barn rhanddeiliaid am y modd yr oedd ymarferwyr yn defnyddio'r safonau y tu allan i gyrsiau dysgu proffesiynol ffurfiol yn gymharol ddigyfnewid. Roedd rhanddeiliaid o'r farn mai ANG, mentoriaid a'r rhai ar gyrsiau arweinyddiaeth oedd y

[51] Gweler er enghraifft, CSC (2021) Galluogi Tegwch a Rhagoriaeth - CSC (cscjes.org.uk)

rhai sy'n eu defnyddio amlaf. Canfuwyd bod ymarferwyr profiadol heb rôl arweinyddiaeth ffurfiol yn eu defnyddio'n llai aml; teimlai rhai rhanddeiliaid nad oedd gan y grŵp hwn o ymarferwyr reswm cymhellol dros ymgysylltu â'r safonau.

> 'Mae hyn [y safonau] yn is ar y rhestr blaenoriaethau na'r cwricwlwm'
> **(Cyfweliad â rhanddeiliad)**

4.48 Dywedodd rhai rhanddeiliaid eu bod yn dechrau ymgorffori'r safonau ar draws eu harlwy dysgu proffesiynol ehangach, gan gynnwys darpariaeth heb ei hachredu/heb ei hardystio. Nododd un darparwr cyfleoedd dysgu proffesiynol ei fod wedi dechrau neilltuo amser myfyrio ar ddiwedd cyrsiau heb eu hardystio er mwyn i gyfranogwyr allu uwchlwytho tystiolaeth o'u cynnydd i'r PDP. Roedd yn gobeithio y byddai ehangu'r dull hwn i'r holl ddarpariaeth dysgu proffesiynol yn helpu i amlygu mwy o ymarferwyr mewn rolau nad ydynt yn rolau arwain i'r safonau.

4.49 Rhoddodd rhai rhanddeiliaid enghreifftiau o leoliadau a oedd yn defnyddio'r safonau fel fframwaith ar gyfer myfyrio parhaus a gweithgaredd hyfforddi gyda'u staff addysgu. Fodd bynnag, nid ystyriwyd bod hyn yn digwydd yn eang, a theimlai'r rhanddeiliaid mai ychydig o ysgolion a oedd yn cyfeirio at y safonau yn rheolaidd fel hyn, neu fel rhan o sesiynau HMS neu sesiynau 'min nos'. Awgrymodd rhai rhanddeiliaid fod lle i ymgorffori'r safonau ymhellach mewn sesiynau hyfforddi a mentora ar gyfer ymarferwyr.

4.50 Dywedodd y rhanddeiliaid y byddai'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol yn sbardun pwysig i annog lleoliadau ac ymarferwyr, yn enwedig CA, i ymgysylltu â'r safonau. Fodd bynnag, teimlent ei bod yn rhy fuan i weld unrhyw effaith eto yn sgil sefydlu'r hawl hon.

4.51 Fel yr adroddwyd yn adroddiad Blwyddyn 1 y gwerthusiad hwn, mae rhai Consortia Addysg Rhanbarthol wedi cyflwyno sesiynau dysgu proffesiynol i ddatblygu dealltwriaeth llywodraethwyr ysgol o'r safonau. Roedd rhai rhanddeiliaid yn ystyried bod hyn yn bwysig oherwydd, yn gyffredinol, ystyriwyd mai prin yr oedd llywodraethwyr ysgolion yn ymwneud â'r safonau. Credai'r rhanddeiliaid y gallai'r math hwn o hyfforddiant ddod yn bwysicach yn y dyfodol. Y rheswm am hyn oedd, wrth i leoliadau ddefnyddio'r safonau'n gynyddol fel fframwaith ar gyfer eu

trefniadau rheoli perfformiad, byddai angen i lywodraethwyr ddatblygu eu dealltwriaeth ohonynt er mwyn ymgysylltu'n llawn â'r broses.

Barn rhanddeiliaid ar y defnydd o'r safonau mewn trefniadau rheoli perfformiad a hunanasesu

4.52 Roedd rhanddeiliaid yn parhau i gredu bod defnydd lleoliadau o'r safonau i reoli perfformiad a hunanasesu yn amrywio. Dywedodd rhai rhanddeiliaid eu bod wedi gweld cynnydd yn nifer y lleoliadau sy'n defnyddio'r safonau fel fframwaith neu offeryn ar gyfer rheoli perfformiad yn ystod Blwyddyn 2 y gwerthusiad. Fodd bynnag, dywedodd y rhanddeiliaid eu bod wedi gweld amrywiaeth eang o ddulliau mewn lleoliadau yr oeddent wedi ymgysylltu â nhw; rhywbeth sy'n gyson â chanfyddiadau gwaith maes y gwerthusiad. Er enghraifft, dywedodd un rhanddeiliad fod rhai lleoliadau yn annog staff i rannu hunanwerthusiadau wedi'u cwblhau gan nodi meysydd i wella arnynt gyda'u rheolwr llinell cyn cynnal adolygiad rheoli perfformiad, ond nid oedd eraill yn gofyn i ymarferwyr rannu'r rhain ag uwch arweinwyr. Yn yr un modd, dywedodd sawl rhanddeiliad fod rhai lleoliadau yn defnyddio meddalwedd masnachol i weinyddu prosesau hunanasesu, tra bod eraill yn defnyddio offer ar ffurf taenlen a ddatblygwyd gan Gonsortia Addysg Rhanbarthol, ac roedd llawer yn defnyddio dulliau ansoddol.

4.53 Awgrymodd rhai rhanddeiliaid y byddai canllawiau cenedlaethol ar sut y dylid defnyddio'r safonau fel rhan o reoli perfformiad yn ddefnyddiol i ddatblygu dull mwy cyson, yn enwedig wrth i fwy o ysgolion ddechrau ymgorffori'r safonau yn eu prosesau. Awgrymodd y rhanddeiliaid y byddai darparu canllawiau penodol i nodi y dylai lleoliadau ac ymarferwyr ddefnyddio'r safonau at y diben hwn yn annog ymarferwyr i adolygu a myfyrio ar y safonau, o leiaf bob blwyddyn.

4.54 Parhaodd rhanddeiliaid i ddweud, yn eu barn hwy, bod ymgysylltiad ymarferwyr â'r PDP yn lleihau ar ôl i ymarferwyr gwblhau eu cyfnod sefydlu statudol. Roedd hyn i'w briodoli i'r ffaith nad oedd ymarferwyr yn cael eu gorfodi i barhau i'w defnyddio, ac eithrio pan oedd darparwyr dysgu proffesiynol yn gofyn iddynt wneud hynny pan oeddent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol achrededig neu ardystiedig. Teimlai'r rhanddeiliaid hefyd nad oedd y defnydd o'r PDP wedi cynyddu

yn unol â'r bwriad oherwydd bod ysgolion yn defnyddio offer eraill i gofnodi eu gweithgareddau dysgu proffesiynol a rheoli perfformiad.

4.55 Fel y nodwyd yn adroddiad Blwyddyn 1, bu rhanddeiliaid yn ymwneud â datblygu offer a thempledi hunanasesu i gefnogi ysgolion i ddefnyddio'r safonau.[52] Roedd yr offer hyn fel arfer yn cynnwys ymarferwyr yn graddio eu datblygiad eu hunain yn erbyn y disgrifyddion. Gan adleisio barn uwch arweinwyr, roedd y rhanddeiliaid yn parhau i gredu y gallai'r mathau hyn o offer fod yn werthfawr o ran helpu lleoliadau i wneud synnwyr o'r safonau ac annog eu staff i'w defnyddio. Mae hyn yn groes i ganllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio'r safonau, sy'n awgrymu bod lleoliadau'n defnyddio'r PDP i gofnodi eu profiadau ac y dylent geisio 'osgoi… datblygu ffurflenni a systemau cofnodi'r ysgol'.[53] Teimlai'r rhanddeiliaid y gallai defnyddio offer hunanasesu annog ymarferwyr i ddechrau ymgysylltu â'r safonau. Fodd bynnag, pwysleisiwyd hefyd yr angen am ddeialog broffesiynol ystyrlon rhwng ymarferwyr ac uwch arweinwyr ochr yn ochr â defnyddio'r mathau hyn o offer hunanasesu. Dywedodd rhai fod risg y byddai'r ymgysylltiad yn 'eang ond yn arwynebol' pe bai lleoliadau'n defnyddio offer hunanasesu heb drafodaethau i gyd-fynd â hynny a fyddai'n canolbwyntio ar ddatblygiad yn erbyn y safonau yn fwy manwl.

4.56 Adleisiodd rhanddeiliaid farn lleoliadau mewn perthynas â 'naid' ganfyddedig yn y cynnydd rhwng y disgrifyddion lefel is a lefel uwch. Nododd rhai rhanddeiliaid fod bwlch yn parhau rhwng cwblhau cyfnod sefydlu statudol ac 'ymarfer hynod effeithiol a pharhaus', yn eu barn nhw. Roedd rhai rhanddeiliaid (e.e. partneriaethau AGA, Consortia Addysg Rhanbarthol) wedi datblygu eu dulliau eu hunain o ddisgrifio'r camau rhwng y lefelau is ac uwch ac yn teimlo bod hyn yn bwysig er mwyn gwneud y safonau'n fwy hygyrch drwy alluogi ymarferwyr i arsylwi ar gynnydd dros amser a thrwy hynny annog defnydd rheolaidd ohonynt.

4.57 Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn parhau i gredu y gallai deunydd enghreifftiol helpu lleoliadau i ddefnyddio a dehongli'r safonau. Roedd y rhanddeiliaid yn tueddu i ffafrio cynnwys digidol, fel fideos neu sain, a theimlent y gellid lansio'r math hwn o

[52] Gweler Rheoli Perfformiad ac Ymchwil Un Dudalen - Rhestr Chwarae Hwb
[53] Gweler Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth: Defnyddio'r safonau (Hwb)

ddeunydd ochr yn ochr â fersiwn wedi'i hailwampio o'r safonau i roi anogaeth i leoliadau sydd ar gam ymgysylltu cynharach â'r safonau. Nododd y rhanddeiliaid y byddai angen cyflwyno unrhyw ganllawiau'n ofalus er mwyn osgoi unrhyw awgrym o ddull 'un ateb sy'n addas i bawb' ac y dylent bwysleisio'r angen i leoliadau addasu offer a dulliau i'w lleoliad eu hunain. Teimlai'r rhanddeiliaid hefyd fod cynhyrchu deunyddiau ychwanegol ochr yn ochr â mireinio'r safonau yn well na'u hailwampio'n fwy sylfaenol.

> 'Yr hyn yr ydym ei eisiau yw mireinio'r safonau yn hytrach na'u hailwampio llwyr.' (**Cyfweliad â rhanddeiliad)**

**Crynodeb o ganfyddiadau'r gwerthusiad terfynol: y defnydd o'r safonau**

- Yn y ddau gam gwerthuso, roedd y defnydd o'r safonau'n amrywio'n sylweddol ar draws lleoliadau. Roedd y defnydd o'r safonau'n cael eu hysgogi'n bennaf gan y pwyslais a roddwyd arnynt gan uwch arweinwyr a oedd yn neilltuo amser i ymarferwyr fyfyrio ar eu perfformiad yn erbyn y safonau, ac a oedd ymarferwyr yn ymwneud ag AGA, prosesau sefydlu neu ddysgu proffesiynol ffurfiol arall (e.e cyrsiau arweinyddiaeth).

- Ym Mlwyddyn 2 y gwerthusiad, roedd nifer o'r lleoliadau wedi ymgorffori'r safonau ymhellach yn eu gweithgareddau a'u systemau gan gynnwys rheoli perfformiad, datblygiad proffesiynol a dysgu proffesiynol. Mewn rhai lleoliadau, dywedodd yr ymarferwyr fod iaith a therminoleg y safonau'n cael eu defnyddio fwyfwy fel rhan o gyfarfodydd staff a deialog broffesiynol anffurfiol ymhlith staff.

- Arhosodd y defnydd o'r safonau yn gymharol ddigyfnewid mewn rhai lleoliadau, oherwydd pwysau a blaenoriaethau eraill a wynebwyd gan ymarferwyr. Roedd defnydd cyfyngedig o'r safonau yn parhau i gael ei nodi mewn ambell leoliad, gyda gweithgaredd yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth gychwynnol, prosesau sefydlu, ac uwch arweinwyr yn eu hystyried fel rhan o broses cynllunio strategol.

- Yn ystod Blwyddyn 2 y gwerthusiad, dywedodd uwch arweinwyr ac ymarferwyr a oedd wedi cymryd rhan mewn rhaglenni dysgu proffesiynol ffurfiol fod y safonau'n nodwedd amlwg o'r rhain a bod hyn wedi eu helpu i ddefnyddio'r safonau yn eu lleoliad eu hunain (e.e. wrth gynllunio dysgu proffesiynol, fel rhan o hunanfyfyrio).
- Fel yr adroddwyd ym Mlwyddyn 1 y gwerthusiad, ymhlith y rhai nad oeddent wedi cymryd rhan mewn rhaglenni dysgu proffesiynol ffurfiol, roedd y defnydd o'r safonau'n dibynnu i raddau helaeth ar y pwyslais yr oedd uwch arweinwyr yn ei roi arnynt yn eu lleoliad. Roedd ymarferwyr y neilltuwyd amser iddynt ymgysylltu â'r safonau ac yr oedd eu lleoliadau wedi datblygu offer hunanasesu yn seiliedig ar y disgrifyddion yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi defnyddio'r safonau.
- Mewn lleoliadau lle nad oedd uwch arweinwyr yn rhoi pwyslais ar ddefnyddio'r safonau, roedd ymarferwyr (gan gynnwys y rhai a oedd wedi cwblhau cyfnod sefydlu'n ddiweddar) yn llai tebygol o'u defnyddio o ddydd i ddydd. Yn benodol, roedd cynorthwywyr addysgu ac athrawon profiadol nad oeddent wedi dilyn cyrsiau arweinyddiaeth ffurfiol yn llai tebygol o ddweud eu bod yn defnyddio'r safonau.
- Mewn rhai lleoliadau, roedd uwch arweinwyr yn defnyddio'r safonau fel fframwaith ar gyfer casglu data cyfanredol ar gyfer y lleoliad cyfan ar ddatblygiad proffesiynol eu gweithlu. Dywedodd yr uwch arweinwyr hyn fod y mathau hyn o ddata yn ddefnyddiol o ran nodi anghenion datblygu proffesiynol a'u bod yn defnyddio hyn, ochr yn ochr â data sicrhau ansawdd arall (e.e. arsylwadau ystafell ddosbarth, adolygiadau gan gymheiriaid), i helpu i gynllunio gweithgareddau dysgu proffesiynol i fynd i'r afael â'r anghenion hyn.
- Roedd y safonau'n parhau i gael eu gwerthfawrogi fel fframwaith sy'n nodi'r disgwyliadau ar gyfer ymarferwyr, ac roedd ymarferwyr yn eu hystyried yn offeryn datblygu defnyddiol. Roedd ymarferwyr mewn unedau cyfeirio disgyblion yn eu gwerthfawrogi gan eu bod yn darparu fframwaith cyson a oedd yn rhoi mwy o statws iddynt. Roedd y farn ar y graddau y gellir defnyddio'r safonau mewn ffordd fwy strwythuredig a meintiol yn amrywio,

gyda rhai yn ffafrio dull mwy ansoddol, ac eraill yn eu gwerthfawrogi fel fframwaith ar gyfer casglu data meintiol ar ddatblygiad proffesiynol.

- Er bod uwch arweinwyr yn cydnabod y gyfatebiaeth rhwng terminoleg y safonau a'r Cwricwlwm i Gymru, nid yw'n ymddangos bod y safonau wedi'u hintegreiddio'n agos â phrosesau lleoliadau o ddylunio a gweithredu'r cwricwlwm. Credai rhai ymarferwyr a rhanddeiliaid y gallai adolygu ac adnewyddu geiriad rhai o'r safonau, yng ngoleuni diwygiadau i'r cwricwlwm a diwygiadau addysg eraill, fod yn werthfawr.
- Gwerthfawrogir y safonau proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu fel fframwaith sy'n sail i ddatblygiad proffesiynol staff cymorth. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod angen gweithgaredd pellach i annog a chynyddu'r defnydd o'r rhain mewn lleoliadau.
- Mae ymarferwyr yn parhau i gredu bod llawer o gynnydd wedi'i wneud o ran datblygiad proffesiynol yn erbyn rhai o'r safonau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, yn enwedig arloesi a chydweithio. Mae rhywfaint o hyn wedi'i ysgogi'n rhannol o leiaf gan yr angen i addasu arferion gwaith mewn ymateb i'r pandemig.
- Mae'r astudiaethau achos a nodir yn Atodiad B yn dangos amrywiaeth o ffyrdd y mae'r sampl o leoliadau a gymerodd ran yn y gwerthusiad hwn yn defnyddio'r safonau ar lefel lleoliad a lefel ymarferydd. Mae'r rhain wedi'u crynhoi mewn tair teipoleg eang sy'n dangos yr ystod o ymarfer a adroddwyd yn y lleoliadau dan sylw:
    - Teipoleg 1: y safonau'n cael eu defnyddio fel fframwaith cyfannol ar gyfer trafod datblygiad proffesiynol
    - Teipoleg 2: y safonau'n cael eu defnyddio fel rhan o ddulliau sy'n seiliedig ar ddeialog a data o ymdrin â datblygiad proffesiynol
    - Teipoleg 3: y safonau'n cael eu defnyddio'n bennaf fel pwynt cyfeirio gan uwch arweinwyr.

  Mae'n bwysig cydnabod nad yw'r teipolegau hyn yn annibynnol ar ei gilydd ac y gall lleoliadau ddangos elfennau o fwy nag un ohonynt.

- Ar draws pob lleoliad, roedd patrymau cyson yn parhau o ran nodweddion lleoliadau y mae eu hymarferwyr yn ystyried bod y safonau'n cael eu defnyddio'n effeithiol. Fel yr adroddwyd ym Mlwyddyn 1 y gwerthusiad hwn, mae'r lleoliadau hyn yn tueddu i:
    - fod ag arweinwyr sydd wedi rhoi cryn bwyslais ar y safonau, yn aml ers nifer o flynyddoedd.
    - meddu ar ddiwylliant dysgu proffesiynol gyda chyfleoedd rheolaidd i staff drafod a dadansoddi agweddau ar y safonau mewn ffordd anfeirniadol fel rhan o ddeialog broffesiynol.
    - meddu ar ddull dysgu proffesiynol cydweithredol sy'n annog ymarferwyr i gymryd perchnogaeth o'u gweithgareddau dysgu proffesiynol.
    - mabwysiadu offer i ymarferwyr hunanasesu yn erbyn y safonau, hyfforddi staff i'w defnyddio a gwneud defnydd ohonynt (neu fwriadu eu defnyddio) fel rhan o brosesau rheoli perfformiad.
    - datblygu dulliau sy'n eu galluogi i sicrhau cydbwysedd rhwng defnyddio'r safonau ar gyfer myfyrio ar lefel unigol a chasglu data a all lywio'r gwaith o gynllunio gweithgareddau dysgu proffesiynol ar lefel lleoliad.
    - annog ymarferwyr i ddefnyddio safonau fel rhan 'naturiol' o drafodaethau wrth rannu eu myfyrdodau a'u profiadau gyda chydweithwyr.

## 5. Y cymorth sydd ar gael i ddefnyddio'r safonau

5.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau'r gwerthusiad terfynol sy'n ymwneud â barn y rhai a gyfwelwyd ynghylch y cymorth sydd ar gael i leoliadau ac ymarferwyr ddefnyddio'r safonau. Yn gyntaf, mae'n crynhoi canfyddiadau adroddiad gwerthuso Blwyddyn 1, cyn ystyried unrhyw newidiadau i'r angen am gymorth a'r cynnig o gymorth yn ystod Blwyddyn 2.

**Crynodeb o ganfyddiadau gwerthusiad Blwyddyn 1**

5.2 Canfu gwerthusiad Blwyddyn 1 y canlynol:

- roedd barn am y cymorth sydd ar gael yn amrywio. Er bod rhai ymarferwyr wedi nodi bod cymorth rhagorol ar gael gan eu hysgol a'r consortia rhanbarthol, nid oedd eraill wedi cael yr un lefel o gymorth
- roedd yr ymarferwyr yn cytuno bod cymorth a gwybodaeth wedi bod ar gael pan lansiwyd y safonau, ond bod y cymorth hwn wedi lleihau dros amser. Credwyd bod y pandemig wedi effeithio ar fomentwm ac ymgysylltiad â'r safonau, a oedd yn awgrymu bod angen i ragor o gymorth a gwybodaeth fod ar gael
- dywedodd ymarferwyr ar gamau cynnar eu gyrfa a'r rhai a oedd yn ymwneud â rhaglenni arweinwyr canol fod cymorth da ar gael
- yn aml, roedd ANG yn fwy cyfarwydd â'r iaith a'r defnydd o safonau, ac felly roedd sawl enghraifft o ANG yn arwain sesiynau ar y safonau i staff eraill yn ystod diwrnodau HMS
- roedd ymarferwyr a rhanddeiliaid fel ei gilydd yn teimlo bod diffyg arweiniad a hyfforddiant clir ar gael i gynorthwywyr addysgu yn benodol, a bod angen cefnogi mwy o ddefnydd o'r safonau proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu mewn ysgolion
- o ran cymorth ychwanegol, nododd yr ymarferwyr y byddent yn gwerthfawrogi arweiniad cliriach ar sut i ddehongli a defnyddio'r safonau; gweithgareddau codi ymwybyddiaeth parhaus i gefnogi ymgysylltu â'r safonau; yr angen i

raeadru cymorth yn fwy strwythuredig a mwy o amser a chapasiti yn ystod cyfnodau hunanfyfyrio i weithio ar y safonau.

**Canfyddiadau gwaith maes Blwyddyn 2**

5.3 Yn y lle cyntaf, rydym yn ystyried barn ymarferwyr a gyfwelwyd yn ystod Blwyddyn 2 cyn ystyried barn rhanddeiliaid mewn perthynas â'r cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd i ymarferwyr ddefnyddio'r safonau, a chyfleoedd yn y dyfodol i wella'r cymorth.

**Barn am y cymorth a ddarperir i ymarferwyr ddefnyddio'r safonau**

Cymorth i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r safonau

5.4 Mae adborth gan ymarferwyr yn awgrymu bod angen gwneud mwy o waith i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r safonau. Roedd arweinwyr lleoliadau'n aml yn dweud bod eu staff wedi dweud wrthynt bod y safonau'n anodd ac yn gymhleth i'w deall a'u bod yn teimlo bod y ddogfen pdf ryngweithiol yn fawr ac yn feichus.[54] Fel ym Mlwyddyn 1, roedd ymarferwyr yn gyffredinol yn dal i gofio cael cyflwyniad cychwynnol gan uwch arweinwyr ar y safonau, ac roedd rhai yn defnyddio'r PDP ac yn dweud eu bod yn gwneud rhywfaint o ddefnydd o'r adnoddau ar Hwb.

5.5 Roedd gan randdeiliaid farn gymysg ynghylch sut yr oedd cymorth ar gyfer y safonau wedi datblygu dros y flwyddyn ddiwethaf gan alw am fwy o gysondeb yn y dull o'u cefnogi ledled Cymru. Fel ym Mlwyddyn 1, ailadroddodd y rhanddeiliaid fod y pandemig wedi lleihau nifer y cyfleoedd sydd ar gael i hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r safonau yn ystod blynyddoedd cynnar eu gweithredu. Cafwyd galwad gan rai ymarferwyr a rhanddeiliaid am fwy o gyfleoedd i ddatblygu ymwybyddiaeth a chytundeb cyffredin ar ddehongli a deall y safonau. Heb hyn, teimlwyd y byddai'n anodd datblygu cysondeb mewn ymarfer, yn enwedig mewn perthynas â'u defnydd wrth reoli perfformiad a hunanfyfyrio.

> 'Nid oes llawer o gymorth parhaus ynghylch y defnydd o'r safonau, heblaw'r hyn sy'n digwydd o fewn yr ysgolion.' **(Cyfweliad â rhanddeiliad)**

5.6 Fodd bynnag, roedd barn hefyd gan leiafrif o'r ymarferwyr a gyfwelwyd nad oedd angen unrhyw gymorth pellach arnynt i ddefnyddio'r safonau neu bod gan eu hysgol

[54] Gweler Safonau proffesiynol - Hwb (llyw.cymru)

flaenoriaethau eraill i ganolbwyntio arnynt, yn enwedig o ran eu hymateb parhaus i’r pandemig neu eu ffocws ar ddylunio’r cwricwlwm ysgol newydd. O'r herwydd, teimlai rhai ymarferwyr mai dim ond amser cyfyngedig oedd ganddynt i ymgysylltu â'r safonau. Er eu bod yn dod yn fwy cyfarwydd ag iaith y safonau, a'r modd yr oeddent yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru, roeddent yn brin o amser i'w hystyried yn fanwl.

> 'Dydw i ddim yn meddwl eu bod nhw'n ddigon anodd i fod angen cymorth ychwanegol. Mae yna fframwaith dysgu ysgol-i-ysgol cryf iawn - felly dyna ble rydyn ni wedi datblygu [ein dull o ddefnyddio'r] safonau' **(Uwch arweinydd, Ysgol arbennig)**

5.7 Mynegwyd barn debyg i’r hyn a fynegwyd ym Mlwyddyn 1 eto mewn perthynas â pha garfanau o ymarferwyr yr oedd angen cymorth ychwanegol arnynt. Parhaodd rhanddeiliaid i awgrymu, er bod ymwybyddiaeth o’r safonau’n uchel ymhlith ANG a’r rhai ar raglenni arweinyddiaeth ganol ac uwch, fod angen mynd i’r afael â’r bwlch o ran cyrraedd y ‘canol coll’ o hyd, sef ymarferwyr profiadol nad oeddent yn awyddus i gael cyfrifoldebau arweinyddiaeth ffurfiol:

> 'Cyrraedd y rhai nad oes ganddynt uchelgeisiau'n ymwneud ag arweinyddiaeth yw'r her...rydym am i'r ymarferwyr hyn fod yn ymarferwyr adfyfyriol o hyd. Mae angen cyflwyno'r safonau'n llechwraidd i'r grŵp hwn.' **(Cyfweliad â rhanddeiliad)**

5.8 Dywedodd ymarferwyr a rhanddeiliaid fel ei gilydd hefyd fod mwy o waith i’w wneud gyda chynorthwywyr addysgu, gan nodi mai cyfyngedig fu’r ymgysylltu â’r garfan hon hyd yma a bod angen canolbwyntio ar gynyddu cymorth ac ymdrech ar y cyd i’w darbwyllo o werth a pherthnasedd y safonau.

Cefnogaeth wrth gymhwyso'r safonau

5.9 Wrth ystyried yr adborth a dderbyniwyd yn ystod gwaith maes yn erbyn canllawiau Llywodraeth Cymru ar 'Sut orau i ddefnyddio'r Safonau Addysgu Proffesiynol' (Llywodraeth Cymru, 2017c)[55], mae tystiolaeth o ymdrechion rheolaidd o fewn lleoliadau i sicrhau bod ymarferwyr yn defnyddio’r safonau mewn ffyrdd sy’n gyson â’r canllawiau a bod:

[55] Gweler Sut orau i ddefnyddio’r Safonau Addysgu Proffesiynol: Safonau proffesiynol - Hwb (gov.wales)

- y safonau'n cael eu trin fel rhai sy'n perthyn i athro neu arweinydd unigol
- y safonau'n cael eu defnyddio fel trosolwg o'u gwaith proffesiynol yn flynyddol (drwy brosesau rheoli perfformiad)
- y disgrifyddion yn cael eu defnyddio
- lleoliadau yn annog datblygiad dros dymor hwy
- safonau'n dod yn rhan annatod o sgyrsiau am addysgu ac arweinyddiaeth.

5.10 Fodd bynnag, roedd llai o dystiolaeth bod uwch arweinwyr yn disgwyl i ymarferwyr yn eu lleoliadau ddefnyddio'r safonau mewn ffyrdd eraill a argymhellir yn y ddogfen 'Sut orau i ddefnyddio'r Safonau Addysgu Proffesiynol' (Llywodraeth Cymru, 2017c). Er enghraifft, prin oedd y dystiolaeth bod ymarferwyr yn defnyddio'r PDP i fyfyrio ar eu hymarfer, ac eithrio ANG a'r rhai sy'n dilyn cyrsiau arweinyddiaeth ffurfiol. Yn yr un modd, nid oedd llawer o dystiolaeth bod cymorth yn cael ei ddarparu yn gyffredinol i sicrhau datblygiad cyflawn a myfyrio dwfn. Ychydig iawn o ysgolion a oedd i'w gweld yn cysylltu disgrifyddion â'i gilydd neu'n gwneud cysylltiadau mewn ymarfer proffesiynol sy'n symud o safon i safon. Er bod rhywfaint o dystiolaeth o ymarferwyr o wahanol leoliadau yn dod at ei gilydd i gefnogi ei gilydd i archwilio safon benodol gyda'i gilydd, nid yw hyn wedi dod yn arfer cyffredin eto.

5.11 Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn y gwaith maes yn awgrymu nad yw ymarfer o fewn lleoliadau ysgol bob amser yn cyd-fynd â'r canllawiau a nodir yn 'Sut orau i ddefnyddio'r Safonau Addysgu Proffesiynol' (Llywodraeth Cymru, 2017c). Er enghraifft, mae'r disgrifyddion yn aml yn cael eu defnyddio fesul un ac yn cael eu defnyddio ar gyfer casglu tystiolaeth; mae ysgolion yn tueddu i ddatblygu pro-fformâu a systemau cofnodi ac maent yn defnyddio'r safonau fel rhan o brosesau rheoli perfformiad blynyddol sy'n canolbwyntio ar y person. Mae'n ymddangos, felly, bod diffyg cysylltiad rhwng ymarfer a'r canllawiau, gydag adborth yn awgrymu bod lleoliadau'n gwerthfawrogi defnyddio'r safonau yn y ffyrdd hyn. Gall hyn awgrymu bod angen mireinio'r canllawiau, yn enwedig o ran defnyddio'r safonau mewn prosesau hunanfyfyrio a rheoli perfformiad.

5.12 Roedd nifer o randdeiliaid yn parhau i deimlo bod diffyg eglurder ynghylch ble y dylai ymarferwyr droi i gael cymorth i ddefnyddio'r safonau. Amlygodd y

rhanddeiliaid hefyd ddiffyg ymwybyddiaeth barhaus o ba adnoddau a hyfforddiant a oedd ar gael i gefnogi ymarferwyr ac ysgolion i'w defnyddio.

5.13 Mae'r Consortia Addysg Rhanbarthol yn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi defnydd a dealltwriaeth ymarferwyr o'r safonau ac ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu. Teimlai rhai rhanddeiliaid fod gan bob un o'r consortia lefelau gwahanol o allu a thryloywder a'i bod yn aneglur ar hyn o bryd pa mor dda yr oedd y consortia yn hyrwyddo gwybodaeth, dealltwriaeth ac ymgysylltiad â'r safonau yn eu rhanbarthau.

5.14 Dywedodd rhai rhanddeiliaid fod y galw am gymorth gan y consortia yn ymwneud â'r safonau yn gymharol isel ymhlith lleoliadau. Awgrymodd un rhanddeiliad fod hyn yn adlewyrchu'r ffaith nad oedd y safonau'n cael digon o flaenoriaeth o bosibl o fewn lleoliadau ar hyn o bryd:

> 'Nid yw [lleoliad] arall erioed wedi cysylltu â mi am gymorth gyda'r safonau proffesiynol' **(Cyfweliad â rhanddeiliaid)**

5.15 Soniodd un rhanddeiliad am sut y gwnaed cynnydd gyda dysgu proffesiynol ar gyfer ymarferwyr dysgu proffesiynol mewn Consortiwm Addysg Rhanbarthol arall, a bod y safonau bellach wedi'u hymgorffori, ac y cyfeirir atynt ym mhob gweithgaredd dysgu proffesiynol a ddarperir drwy hyfforddiant ardystiedig neu achrededig.[56] Roedd her o hyd o ran sicrhau bod hyn hefyd yn cael ei ymgorffori mewn darpariaeth heb ei hachredu. Roedd yr enghraifft hon yn awgrymu bod y dull o hwyluso'r defnydd o'r safonau wedi aeddfedu dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda'r safonau wedi'u hymgorffori'n fwy cynnil mewn gweithgaredd dysgu proffesiynol yn hytrach na hyfforddiant yn seiliedig ar hyrwyddo'r safonau fel endid annibynnol.

5.16 I'r gwrthwyneb, dywedodd rhai rhanddeiliaid fod plethu'r safonau i ddarpariaeth y Consortiwm Addysg Rhanbarthol yn ei gwneud hi'n anoddach nodi neu adnabod y cymorth a ddarperir, ac roedd hyn yn gysylltiedig â'r cwestiwn ynghylch 'perchnogaeth' o'r safonau ar draws yr haen ganol. Er bod rhai ymarferwyr wedi cyfeirio at y ffaith bod y safonau'n rhan amlwg o gyrsiau dysgu proffesiynol, roedd eraill yn ei chael hi'n anodd cofio unrhyw gyfeiriadau at y safonau mewn unrhyw

[56] Uwch arweinwyr neu athrawon yw ymarferwyr dysgu proffesiynol sy'n cynllunio, yn arwain, yn cyflwyno ac/neu'n cydlynu gweithgareddau dysgu proffesiynol ar gyfer ymarferwyr eraill yn eu lleoliadau.

gyrsiau neu raglenni dysgu yr oeddent wedi cymryd rhan ynddynt yn ystod y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf. Awgrymwyd y gellid gwneud mwy i sicrhau gwell dealltwriaeth o swyddogaethau'r consortia mewn perthynas â chefnogi'r safonau, gyda gofyniad o bosibl i'r consortia adrodd yn gliriach ar y gweithgareddau sy'n cael eu cyflawni gan y cyllid grant a dderbyniwyd at y diben hwn.

5.17 Dywedwyd bod cyrsiau ardystiedig ar gyfer arweinwyr cenedlaethol a darpar benaethiaid yn ogystal â chyrsiau Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) bellach yn ei gwneud yn ofynnol i gyfranogwyr ddefnyddio'r Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) i gofnodi eu tystiolaeth, ac o'r herwydd mae'r safonau wedi'u hymgorffori yn eu dull gweithredu.

> 'Roedd defnyddio'r safonau i strwythuro fy nhystiolaeth ar gyfer CPCP yn effeithiol iawn. Heb y rhestr wirio i fyfyrio arni, mae'n debyg y byddwn wedi methu 90% o'r pethau rwy'n eu gwneud'. **(Uwch arweinydd, uned cyfeirio disgyblion)**

5.18 Dros y flwyddyn ddiwethaf, nodwyd bod trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a darparwyr AGA ar sut i asesu a oedd myfyrwyr yn barod i addysgu wedi helpu i greu cysondeb ac eglurder o ran y ffordd y mae darparwyr AGA yn dehongli'r safonau. Crybwyllwyd ymhellach fod perthnasoedd cryf rhwng darparwyr AGA ac arweinwyr sefydlu o fewn awdurdodau lleol a Chonsortia Addysg Rhanbarthol wedi galluogi dull mwy di-dor a chyffredin o ymdrin â'r safonau.

Cymorth ymarferol gyda'r safonau

5.19 Gwelwyd rhywfaint o dystiolaeth yn ystod y gwaith maes fod ysgolion bellach yn dod yn fwy cyfarwydd â'r systemau a'r offer a ddefnyddir i ymgysylltu â'r safonau, yn enwedig offer hunanasesu. O ganlyniad, roedd hunanasesu yn dod yn rhan fwy naturiol o reoli perfformiad ac adfyfyrio yn erbyn y safonau.

5.20 Cyfeiriodd Consortia Addysg Rhanbarthol yn arbennig at y ffaith eu bod yn gwerthfawrogi rôl CGA wrth greu 'llyfrau gwaith' wedi'u teilwra ar y PDP i gasglu tystiolaeth am y gweithgareddau dysgu proffesiynol a ddarperir gan y Consortia. Canmolwyd CGA hefyd am ei barodrwydd i hyfforddi ymarferwyr mewn ysgolion i ddefnyddio'r PDP a PebblePocket. Fel yr adroddwyd ym Mlwyddyn 1, awgrymwyd ymhellach y gallai integreiddio'r PDP o fewn Hwb annog mwy o ddefnydd ohono.

Fodd bynnag, roedd rhywfaint o dystiolaeth gan ymarferwyr ysgol nad oedd cyflwyniad i offer o’r fath bob amser yn arwain at ddefnydd rheolaidd:

> 'Fe wnaeth pobl gyflwyno'r PebblePad i ni, ond wnaethon ni ddim ei ddefnyddio. Yn anffodus, roedd yn rhy drwsgl i ni' **(Uwch arweinydd, uned cyfeirio disgyblion)**

5.21 Dywedodd ymarferwyr a rhanddeiliaid y gwnaed rhywfaint o gynnydd o ran sicrhau bod ymarferwyr yn cofnodi tystiolaeth o’u myfyrdodau yn erbyn y safonau wrth ymgymryd ag unrhyw weithgareddau dysgu proffesiynol. Dywedodd rhai o'r ymarferwyr a rhanddeiliaid a gyfwelwyd bod defnydd cynyddol o amser myfyrio ar ddiwedd sesiynau dysgu proffesiynol i alluogi hyn. Parhaodd rhanddeiliaid a rhai uwch arweinwyr i fynegi dyhead y bydd ymarferwyr sy’n cymryd rhan mewn sesiynau dysgu proffesiynol ‘min nos’ mewn lleoliadau ysgol yn cael amser ar ddiwedd y sesiynau hyn i uwchlwytho eu myfyrdodau i'r PDP.

> 'Dydyn ni ddim yna eto ond dyna'r dyhead' **(Cyfweliad â rhanddeiliad)**

5.22 Nododd rhai ymarferwyr ysgol fod y systemau meddalwedd Adnoddau Dynol masnachol a oedd ar gael i gefnogi lleoliadau i gofnodi tystiolaeth o ddatblygiad ymarferwyr yn erbyn y safonau yn ddrud. Nododd rhai hefyd nad oedd pecynnau meddalwedd masnachol o’r math hwn bob amser ar gael yn Gymraeg, ac felly roedd gan ysgolion cyfrwng Cymraeg lai o allu i ymgysylltu â meddalwedd o’r fath.

**Barn am sut i wella'r cymorth i ymarferwyr ddefnyddio'r safonau**

Datblygu canllawiau ac adnoddau hawdd eu defnyddio

5.23 Dywedodd ymarferwyr yn rheolaidd fod peth o’r derminoleg sy’n gysylltiedig â’r safonau yn anodd ac yn gymhleth, yn enwedig i weithwyr cymorth dysgu ac ymarferwyr eraill a oedd yn llai cyfarwydd â nhw. Galwodd rhai uwch arweinwyr am ffordd haws a hygyrch o ymgysylltu â nhw er mwyn eu gwneud yn haws eu deall:

> 'Pe bai ffordd o gael mynediad i'r safonau [eu defnyddio am y tro cyntaf] sy'n bleserus a heb gymryd gormod o amser byddai'n ffordd o gael staff i ymgysylltu â'r safonau'n amlach' **(Uwch arweinydd, Ysgol Arbennig)**

5.24 Yn benodol, cyfeiriwyd at y disgrifyddion 'arloesi' ac 'arweinyddiaeth' gan rai ymarferwyr fel safonau a oedd yn parhau i fod yn arbennig o anodd dehongli eu hystyr yn llawn. Awgrymodd rhai a gyfwelwyd fod y safon arweinyddiaeth yn

teimlo’n ailadroddus a bod cysylltiad agos rhwng y safon hon â safonau eraill. O fewn y safon 'arloesi', dywedodd rhai ymarferwyr eu bod yn ansicr a ddylai eu myfyrdodau ymwneud ag arloesi a oedd yn newydd i'r unigolyn ynteu'r lleoliad.

5.25 Teimlai rhai rhanddeiliaid hefyd fod angen canllawiau ychwanegol i ganolbwyntio ar a datblygu cyd-ddealltwriaeth ac i ddehongli rhai o’r safonau. Defnyddiwyd dull llwyddiannus gan un darparwr AGA, lle y bu ysgolion a’u mentoriaid yn gweithio i ddadansoddi rhai o’r disgrifyddion yr oedd myfyrwyr yn ei chael hi'n anodd myfyrio arnynt, a darparwyd fideos o’r trafodaethau hyn i ymgeiswyr.

5.26 Codwyd angen penodol am hyfforddiant wedi’i dargedu at lywodraethwyr ysgol i helpu i ddatblygu eu hymwybyddiaeth a’u dealltwriaeth o’r safonau gan ymarferwyr a rhanddeiliaid hefyd. Dywedodd un Consortiwm Addysg Rhanbarthol ei fod wedi darparu’r math hwn o hyfforddiant ond teimlai y gellid gwneud mwy yn y maes hwn.

Ymgorffori'r safonau yn y broses o gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru

5.27 Tynnodd sawl rhanddeiliad sylw at gyfle gwirioneddol i godi proffil y safonau yn sgil cyflawni a chyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Gwelodd yr ymarferwyr sut yr oedd iaith y safonau yn cyd-fynd yn dda â’r Cwricwlwm i Gymru, ac awgrymwyd y byddai hyn, dros amser, yn ei gwneud yn haws i athrawon weld eu perthnasedd a’u diben.

5.28 Nodwyd bod angen sicrhau bod yr holl ddogfennau canllaw a fframweithiau sy’n ymwneud â diwygio addysg yng Nghymru yn cael eu hintegreiddio, a bod cyfle i sicrhau bod y safonau’n cael eu gweld a’u deall o fewn y cyd-destun ehangach. Yn yr ystyr hwn, roedd galw am ‘wneud synnwyr’ o’r safonau ochr yn ochr â’r dull cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol a’r adnodd cenedlaethol: gwerthuso a gwella, fel y gallai ymarferwyr dysgu proffesiynol ddangos i ysgolion sut y gellid ymgorffori'r safonau mewn agweddau eraill.

5.29 Teimlwyd y gallai Consortia Addysg Rhanbarthol chwarae rhan bwysig wrth fodelu i arweinwyr ac ymarferwyr sut y gellid integreiddio’r safonau ag agweddau eraill ar ddiwygio. Awgrymwyd hyfforddiant un-i-un, gweminarau a phodlediadau fel rhai ffyrdd ymarferol o raeadru’r dysgu hwn yn hytrach na deunyddiau ysgrifenedig.

Cryfhau cysylltiadau â'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol

5.30 Awgrymwyd gan randdeiliaid ac ymarferwyr bod angen rhoi proffil uwch yn genedlaethol i'r safonau i atgyfnerthu ac adfer eu pwysigrwydd, er mwyn i ysgolion roi mwy o bwyslais arnynt. Fel arall, roedd ymarferwyr yn credu bod perygl y gallent 'syrthio ar fin y ffordd':

> 'Byddai'n werth codi proffil y safonau er mwyn hybu eu gwerth. Ar hyn o bryd mae safonau proffesiynol yn isel ar y rhestr o flaenoriaethau gwerthfawr, Uwch arweinydd **(Ysgol ganol cyfrwng Saesneg)**

5.31 Awgrymodd rhai rhanddeiliaid y dylid lansio'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol fel cyfle delfrydol i gael 'ail-lansiad meddal' o'r safonau. Fel y nodwyd yn adran 1.29 o'r adroddiad hwn, mae canllawiau'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol yn nodi disgwyliadau ynghylch sut y dylai ymarferwyr, uwch arweinwyr, lleoliadau ac arweinwyr system ymgysylltu â'r safonau. Teimlai'r rhanddeiliaid fod lansio'r Hawl Genedlaethol yn gyfle ychwanegol pwysig i gael ymarferwyr i ymgysylltu â'r safonau, drwy wneud y cysylltiadau rhwng yr hawl a'r safonau yn gliriach.  Er enghraifft, teimlwyd bod yr hawl i ymarferwyr gael mwy o amser a chapasiti ar gyfer hunanfyfyrio o gymorth gyda dilyniant ymarferwyr o ran bodloni disgrifyddion safonau proffesiynol.

5.32 Nododd darparwyr AGA eu bod bellach yn canolbwyntio'n drwm ar fyfyrio a helpu myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau myfyrio. Ystyriwyd bod y safonau yn fframwaith defnyddiol ar gyfer myfyrio, o'u cyflwyno yn y modd hwnnw. Amlygodd rhanddeiliaid hefyd bwysigrwydd caniatáu digon o amser hunanfyfyrio i ymarferwyr, fel ffordd hollbwysig o sicrhau bod y safonau proffesiynol yn cyflawni eu diben yn y pen draw.

> 'Mae angen i ni ryddhau pobl am ychydig wythnosau ar gyfer sesiynau cymorth rhwng ysgolion' **(Cyfweliad â rhanddeiliad)**
>
> 'Os ydym o ddifrif yng Nghymru ynglŷn â hyn - dyna sydd ei angen ar athrawon - 'amser i ffwrdd' go iawn,  gyda chydweithwyr, i fyfyrio a meddwl. Dyna sut mae newid yn digwydd' **(Cyfweliad â rhanddeiliad)**

Cyfrifoldeb am y safonau ar lefel genedlaethol

5.33 Yn ystod gwaith maes Blwyddyn 1, fe wnaeth rhai rhanddeiliaid sylwadau ar ba sefydliad yr oeddent yn teimlo ddylai fod yn gyfrifol am gynnwys, fformat a

hyrwyddo safonau ar lefel genedlaethol. Er nad oedd y materion hyn yn rhan o gwmpas cychwynnol y gwerthusiad, gofynnwyd i ymarferwyr a rhanddeiliaid yn ystod gwaith maes Blwyddyn 2 a oeddent yn ymwybodol o bwy oedd yn gyfrifol am y safonau ar lefel genedlaethol ac a oedd ganddynt unrhyw farn ar y mater hwn.

5.34 Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymarferwyr nad oeddent wedi ystyried yn flaenorol pwy oedd yn gyfrifol am y safonau ar lefel genedlaethol. Roedd ymarferwyr, yn enwedig uwch arweinwyr, yn credu'n fwyaf cyffredin bod y safonau'n 'eiddo' i Lywodraeth Cymru ac roedd y rhan fwyaf yn ymwybodol eu bod ar gael ar wefan Hwb. Fodd bynnag, dywedodd y rhan fwyaf o ymarferwyr hefyd nad oeddent yn ystyried bod y mater hwn yn bwysig iddynt ar lefel lleoliad neu ymarferydd. Dywedodd y rhan fwyaf o ymarferwyr mai cyfrifoldeb ymarferwyr unigol oedd cymryd perchnogaeth o'r safonau.

5.35 Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn credu mai Llywodraeth Cymru oedd yn berchen ar y safonau, gyda rhai yn gwneud y pwynt bod hynny oherwydd eu bod yn ofyniad statudol. Yn yr un modd ag ymarferwyr, nid oedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn ystyried bod perchnogaeth o'r safonau yn fater o bwys, gan nodi mai'r peth pwysicaf oedd i ymarferwyr gymryd perchnogaeth unigol ohonynt.

5.36 Roedd rhai rhanddeiliaid yn amau beth oedd 'perchnogaeth' o'r safonau yn ei olygu'n ymarferol, gan nodi y gallai hyn gynnwys nifer o swyddogaethau:

- rheolaeth olygyddol lawn ac annibynnol o gynnwys, fformat a chyflwyniad y safonau
- rôl neu gynrychiolaeth ar weithgor sy'n gyfrifol am gynnwys, fformat a chyflwyniad y safonau
- cyfrifoldeb am hyrwyddo, codi ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a defnydd o'r safonau ymhlith ymarferwyr.

5.37 Pan gawsant eu hannog i ystyried pwy ddylai fod yn gyfrifol am y safonau, ystyriodd rhai rhanddeiliaid a ddylai CGA fod yn gyfrifol amdanynt. Y rhesymeg dros y farn hon oedd bod CGA eisoes yn cynnal y PDP, sef y platfform lle y caiff tystiolaeth o ddatblygiad yn erbyn y safonau ei chofnodi gan ymarferwyr. Teimlai un rhanddeiliad yn gryf y dylai'r safonau fod yn gyfrifoldeb i CGA, gan nodi ei bod yn arferol i gyrff

proffesiynol gymryd perchnogaeth ohonynt mewn gwledydd eraill ac y byddai hyn yn rhoi eglurder o ran pwy ddylai hybu ymwybyddiaeth o'r safonau a chynorthwyo ymarferwyr i'w defnyddio. Fodd bynnag, fel y nodir uchod, nid oedd gan y rhan fwyaf o randdeiliaid farn gref ar y mater hwn.

5.38 Teimlai rhai a gyfwelwyd ei bod yn bwysig bod rhanddeiliaid yn cydweithio i fireinio cynnwys y safonau a chefnogi ymarferwyr i'w defnyddio. Dywedodd un rhanddeiliad fod perthynas effeithiol a chydweithredol wedi bod rhwng CGA, Llywodraeth Cymru a darparwyr AGA mewn perthynas â'r safonau ac roedd yn dymuno gweld hyn yn parhau. O ganlyniad, dadleuodd y rhanddeiliad hwn y gall y safonau barhau i fod yn eiddo i Lywodraeth Cymru, gan fod yr holl sefydliadau rhanddeiliaid â diddordeb yn cydweithio i sicrhau eu bod yn briodol ar gyfer pob arweinydd, athro a'r rhai sy'n cynorthwyo addysgu. Teimlai rhai y gallai Llywodraeth Cymru amlinellu cyfrifoldebau cliriach ar gyfer rhanddeiliaid penodol o ran hyrwyddo'r safonau a chefnogi'r defnydd ohonynt.

5.39 Mae systemau addysg gwledydd eraill yn mabwysiadu amrywiaeth o ddulliau o sicrhau perchnogaeth o safonau proffesiynol a chyfrifoldeb drostynt. Mewn rhai gwledydd, y corff rheoleiddio ar gyfer y gweithlu addysg sy'n berchen ar safonau. Fodd bynnag, ymddengys mai cyfyngedig yw'r dystiolaeth ynghylch pa fodelau sydd fwyaf effeithiol. Yn ogystal â hynny, mae'r cyd-destun y defnyddir safonau proffesiynol ynddo yn sylweddol wahanol mewn rhai gwledydd. Er enghraifft, yn yr Alban mae'n ofynnol i ymarferwyr gynnal hunanwerthusiad yn erbyn y Safonau Proffesiynol priodol fel rhan o'r broses 'Diweddariad Proffesiynol' er mwyn cynnal eu cofrestriad. Mae hyn yn cynnwys gofyniad iddynt hwy a'u rheolwyr llinell gadarnhau bob pum mlynedd eu bod wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol parhaus ac wedi myfyrio ar eu perfformiad yn erbyn y Safonau Proffesiynol priodol.[57]

5.40 Mae ymgysylltu â chyrff rheoleiddio a llywodraethau y tu allan i Gymru i gasglu tystiolaeth o effeithiolrwydd gwahanol fodelau perchnogaeth a gweithredu safonau proffesiynol ar gyfer athrawon y tu hwnt i gwmpas y gwerthusiad hwn. Fodd bynnag,

[57] Gweler Professional Update - The General Teaching Council for Scotland (gtcs.org.uk)

gellid ystyried hyn fel rhan o waith ymchwil yn y dyfodol i ymchwilio i'r cwestiwn o berchnogaeth y safonau.

**Crynodeb o ganfyddiadau'r gwerthusiad terfynol: cymorth**

5.41 Mae canfyddiadau allweddol y gwerthusiad terfynol fel a ganlyn:

- yn gyffredinol mae ymarferwyr yn dal i fod angen cymorth i wella eu dealltwriaeth a'u defnydd o'r safonau ac maent yn gofyn am hynny. Fodd bynnag, mae hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth gymharol isel yn sgil ymateb i ganlyniadau'r pandemig ac yn gynyddol, yn sgil cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru.
- mae rhai agweddau ar y safonau'n cael eu defnyddio yn unol â'r bwriad gwreiddiol, ond mae gwaith i'w wneud o hyd i ymgorffori ffordd newydd o feddwl a gweithio o fewn y proffesiwn.
- mae galw am ddull mwy cyson o ddarparu cymorth ledled Cymru ac mae angen mwy o eglurder a mwy o adrodd ar y dulliau a ddefnyddir ar lefel consortia.
- efallai bod dadl dros ddirprwyo cyfrifoldebau penodol ar gyfer codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r safonau i un neu fwy o sefydliadau rhanddeiliaid.
- ymddengys ei bod yn amser priodol i ystyried ail-lansio'r safonau a gwneud y cysylltiadau gyda'r ffaith bod y Cwricwlwm i Gymru a'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol yn eu cefnogi ac yn eu hymgorffori.

## 6. Effeithiau canfyddedig a disgwyliedig y safonau

6.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno'r canfyddiadau sy'n ymwneud â'r effeithiau y mae ymarferwyr a rhanddeiliaid yn eu hystyried sy'n dod i'r amlwg o'r safonau a'u barn am yr effeithiau y maent yn disgwyl i'r safonau eu cael yn y dyfodol. Yn gyntaf, mae’n crynhoi canfyddiadau Blwyddyn 1 y gwerthusiad, cyn ystyried sut y mae canfyddiadau ynghylch effaith y safonau wedi newid yn ystod Blwyddyn 2.

**Crynodeb o ganfyddiadau gwerthusiad Blwyddyn 1**

6.2 Roedd ymarferwyr a rhanddeiliaid yn ystyried ei bod yn rhy gynnar i weld effaith y safonau ar lefel y gweithlu neu leoliad, ac roedd y mwyafrif yn teimlo nad oeddent yn gallu priodoli unrhyw effeithiau i ddylanwad y safonau. Fodd bynnag, rhoddodd ymarferwyr a rhanddeiliaid nifer o enghreifftiau o effeithiau sy'n dod i'r amlwg a welwyd ganddynt.

- Nododd ymarferwyr a rhanddeiliaid fod y safonau’n debygol o fod yn cael mwy o effaith ar y rhai a oedd yn eu defnyddio amlaf, sef yr ANG a’r rhai a oedd yn ymgymryd ag AGA
- Dywedodd ymarferwyr fod y safonau wedi helpu i sefydlu iaith gyffredin a fframwaith cyffredin i gefnogi hunanfyfyrio
- Dywedodd CA fod y safonau wedi cefnogi deialog broffesiynol, gan godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd i ddatblygu a bod ganddynt y potensial i wella canfyddiadau o rolau CA
- Dywedodd ymarferwyr mewn rhai lleoliadau fod y safonau wedi helpu i wella prosesau hunanasesu a hunanfyfyrio drwy sefydlu strwythur mwy cadarn i gefnogi datblygiad a gwelliant parhaus
- Rhoddodd uwch arweinwyr a rhanddeiliaid enghreifftiau o ymarferwyr yn cymryd mwy o ymreolaeth a pherchnogaeth dros eu gweithgareddau dysgu proffesiynol

- Nododd ymarferwyr a rhanddeiliaid fod y safonau wedi cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymarferwyr o arweinyddiaeth, ac wedi annog mwy o gydweithio ac arloesi
- Roedd rhai ymarferwyr a rhanddeiliaid yn disgwyl y byddai'r ffocws cynyddol ar addysgeg yn y safonau, dros amser, yn cyfrannu at welliannau yn ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

**Canfyddiadau gwaith maes Blwyddyn 2**

6.3 Yn y lle cyntaf, rydym yn ystyried barn ymarferwyr a gyfwelwyd yn ystod Blwyddyn 2 cyn ystyried barn rhanddeiliaid mewn perthynas ag effeithiau'r safonau sy'n dod i'r amlwg a barn ar yr effeithiau y maent yn rhagweld y bydd y safonau yn eu cael yn y dyfodol.

**Effeithiau ar arweinwyr ac athrawon**

6.4 Roedd newid amlwg ym marn uwch arweinwyr ac athrawon ar yr effaith a oedd yn dod i'r amlwg yn sgil y safonau proffesiynol ar sut y mae athrawon yn ymgysylltu â gweithgareddau dysgu proffesiynol, yn ogystal â'u heffaith ar ymarfer addysgu. Er bod y rhan fwyaf o ymarferwyr yn ystod cam cyntaf y gwerthusiad wedi pwysleisio na fyddai effeithiau'r safonau i'w gweld am nifer o flynyddoedd, rhoddwyd llawer mwy o enghreifftiau o effeithiau sy'n dod i'r amlwg yn ystod trafodaethau dilynol ag uwch arweinwyr, athrawon a CA yn ystod blwyddyn 2.

Newid meddylfryd: cefnogi gwelliant parhaus drwy hunanfyfyrio

6.5 Pwysleisiodd uwch arweinwyr ac athrawon werth y safonau proffesiynol o ran helpu i newid meddylfryd athrawon: drwy gydol y gwerthusiad, mae athrawon wedi cydnabod bod y safonau'n ddatblygiadol eu natur, na ddylid eu defnyddio fel 'trothwyon' neu 'ddyfarniadau', ond yn hytrach eu bod yn darparu fframwaith i athrawon ddatblygu a gwella'n barhaus.

6.6 Nododd uwch arweinwyr mewn llawer o ysgolion fod y safonau wedi dechrau effeithio ar staff drwy eu gwneud yn fwy ymwybodol o’r disgwyliadau sydd arnynt a’r meysydd y mae angen iddynt eu datblygu’n barhaus. Disgrifiwyd y safonau fel rhai sy'n darparu 'sgaffaldiau' pwysig ar gyfer myfyrio a datblygiad proffesiynol.

6.7 Roedd sylwadau gan uwch arweinwyr ac athrawon yn atgyfnerthu’r dystiolaeth a glywyd yn ystod Blwyddyn 1 y gwerthusiad bod athrawon yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu datblygiad proffesiynol eu hunain. Awgrymwyd bod newid graddol wedi bod yn y ffordd y mae athrawon yn ystyried gweithgareddau dysgu proffesiynol a’r ffordd y maent yn ymwneud â’r gweithgareddau hynny. Nododd un uwch arweinydd, er bod athrawon yn 'dderbynwyr goddefol' DPP ar adegau yn y gorffennol, eu bod bellach yn fwy ymwybodol o'r math o weithgareddau dysgu proffesiynol y byddent yn elwa ohono o ran gwella agweddau penodol ar addysgeg neu arweinyddiaeth. Dywedodd uwch arweinydd arall:

> 'Yn hanesyddol, yr Uwch Dîm Arwain fyddai'n penderfynu ar yr holl hyfforddiant. Rwy'n hoffi'r ffaith bod [y safonau] yn rhoi'r cyfrifoldeb ar athrawon i feddwl am eu DPP eu hunain a chwilio amdano – yn hyn o beth, mae wedi dechrau cael effaith ar broffesiynoldeb athrawon.'**(Uwch arweinydd, Ysgol Uwchradd cyfrwng Saesneg)**

6.8 Cyfeiriodd nifer o ysgolion a gyfwelwyd at y ffaith bod ymarferwyr wedi dechrau mabwysiadu dulliau gwahanol o ymdrin â dysgu proffesiynol neu eu bod yn fwy rhagweithiol neu hunangyfeiriedig wrth ymgymryd â gweithgareddau dysgu proffesiynol. Mewn rhai achosion, awgrymodd uwch arweinwyr fod dysgu o bell yn ystod y pandemig yn sbardun ar gyfer hyn: darparwyd enghreifftiau o athrawon yn cynnal eu hymchwil eu hunain i lesiant dysgwyr a dysgu cyfunol:

> 'Nid oeddent yn dibynnu ar gael eu bwydo gyda ffynonellau neu gyrsiau posibl i fynd i'r afael â'r problemau yr oedden nhw'n eu hwynebu. Roedden nhw'n cymryd mwy o gyfrifoldeb uniongyrchol am eu dysgu ac yn chwilio am gymorth ac adnoddau.' **(Uwch arweinydd, Ysgol Gynradd cyfrwng Saesneg)**

Ers hynny mae’r safonau proffesiynol wedi darparu fframwaith ar gyfer cynnal gweithgareddau dysgu proffesiynol mwy annibynnol sy’n cael ei ysgogi gan athrawon.

Mwy o gydweithio

6.9 Gwelodd uwch arweinwyr ac athrawon nifer o newidiadau mewn ymddygiad, gan gynnwys:

- Athrawon yn rhannu eu blaenoriaethau mewn perthynas â safonau proffesiynol neu 'dargedau datblygu' gyda'i gilydd
- Athrawon yn cymryd rhan mewn mwy o ddeialog am eu datblygiad proffesiynol a meysydd i’w gwella ymhellach
- Mwy o gynllunio ar y cyd, gyda phwyslais ar drafodaethau am addysgeg, yn aml yn seiliedig ar y safonau proffesiynol.

6.10 Fel y gwelir uchod, mae llawer o’r effeithiau sy’n dod i’r amlwg a nodwyd gan uwch arweinwyr ac athrawon yn ymwneud â mwy o gydweithio a thrafodaeth rhwng ymarferwyr. Rhoddodd arweinwyr ysgolion cynradd ac uwchradd enghreifftiau o newid gydag athrawon yn rhoi'r gorau i ddatblygu cynlluniau gwaith yn annibynnol ac yn gweithio ar draws cyfnodau allweddol neu o fewn timau Meysydd Dysgu a Phrofiad i gynllunio ar y cyd. Roedd uwch arweinwyr yn cydnabod nad y safonau proffesiynol o reidrwydd oedd y prif sbardun ar gyfer cydweithio pellach, ond roeddent yn cefnogi datblygiadau a diwygiadau eraill ar lefel ysgol ac ar lefel y system ehangach.

> 'Gwelwyd dull cadarn o weithio fel tîm wrth ymgymryd â gwaith cynllunio strategol yn yr ysgol dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac roedd mabwysiadu'r model cyd-gynhyrchu hwn yn cyd-fynd â'r safonau proffesiynol a oedd yn cael eu cyflwyno.' **(Uwch arweinydd, Ysgol Gynradd cyfrwng Saesneg)**

6.11 Dywedodd uwch arweinwyr ac ymarferwyr fod canlyniadau cadarnhaol pellach wedi deillio o fwy o gydweithio a thrafodaethau ar y cyd am ymarfer, wedi’u hysgogi’n rhannol gan ymgysylltiad ysgolion â’r safonau proffesiynol. Awgrymodd un uwch arweinydd fod deialog broffesiynol amlach yn cyfrannu at athrawon yn teimlo'n llai unig a hefyd yn osgoi eu 'gorlethu'. Ystyriwyd bod hyn yn bwysig iawn yn ystod cyfnod o ddiwygio sylweddol ar draws y system addysg, gan roi pwysau newydd ac ychwanegol ar y gweithlu. Nododd uwch arweinwyr fod staff yn fwy agored i drafod ystod o faterion gan gynnwys dulliau addysgu a dysgu, cynllunio a rheoli ymddygiad.

> 'Mae a wnelo'r safonau i raddau helaeth â datblygiad a gwelliant – mae ein hethos fel ysgol bellach yn cydnabod bod lle bob amser i wella, i gydweithredu mwy. Dydw i ddim yn meddwl bod athrawon yn teimlo mor ynysig o ganlyniad... mae'r safonau'n caniatáu trafodaeth agored mewn ffordd dda - maen nhw'n helpu i greu gofod diogel. Mae'r Cwricwlwm i Gymru wedi helpu – gan ein bod ni i gyd yn yr un cwch gyda'r cwricwlwm newydd, rydyn ni i gyd yn dysgu ac mae'n newydd i ni i gyd. Mae'n gyfnod cyffrous i'r byd addysg.' **(Uwch arweinydd, Ysgol Uwchradd cyfrwng Saesneg)**

Effeithiau eraill sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas ag athrawon

6.12 Gwelodd uwch arweinwyr ystod o newidiadau eraill a arsylwyd yn ymddygiad ac arferion athrawon. Dywedwyd bod staff yn fwy cyfforddus yn cymryd risgiau ac yn treialu dulliau newydd. Ystyriwyd bod hyn yn cael ei ysgogi'n rhannol gan ddiwygio'r cwricwlwm ond hefyd gan y pwyslais ar arloesi fel rhan o'r safonau proffesiynol. Roedd enghreifftiau'n cynnwys arloesi digidol ac ymgymryd ag ymchwil gweithredol i lywio dulliau addysgegol newydd.

> 'Fyddwn i ddim wedi gwneud darn ffurfiol o waith ymchwil o'r blaen [ymchwil gweithredol yn ymwneud ag addysgeg] – byddwn i wedi ymchwilio i bwnc penodol, ond fyddwn i ddim wedi'i gofnodi nac wedi myfyrio arno yn erbyn y safon. Mae wedi gwneud i mi fabwysiadu arfer da, a fyddai hynny ddim wedi digwydd fel arall'. **(Athro, Uned cyfeirio disgyblion)**

6.13 Roedd tystiolaeth i awgrymu bod y safonau yn cefnogi ymrwymiad athrawon i welliant parhaus ac yn helpu i ddatblygu dealltwriaeth athrawon o addysgeg dda. Yn wir, roedd cydnabyddiaeth gyffredinol mai'r prif fesur o effaith y safonau, yn y pen draw, fydd a ydynt wedi cyfrannu at wella ansawdd ymarfer addysgu.

6.14 Mewn rhai achosion teimlai uwch arweinwyr nad oedd y datgysylltiad rhwng y safonau a'r trefniadau rheoli perfformiad wedi helpu'r safonau i gael effaith. Er bod rhai o'r ysgolion a gyfwelwyd fel rhan o'r gwerthusiad wedi cyflwyno prosesau a oedd wedi golygu bod y safonau wedi'u hymgorffori fel rhan o reoli perfformiad, roedd hyn yn wir mewn lleiafrif o achosion. Nododd un uwch arweinydd:

> 'Mae rheoli perfformiad braidd yn anacronistig yn y cyd-destun addysgol presennol - mae'n rhyfedd nad yw safonau proffesiynol o reidrwydd wedi'u cysylltu'n benodol â threfniadau rheoli perfformiad'. (**Uwch arweinydd, Ysgol Uwchradd cyfrwng Cymraeg)**

Effeithiau ar gynorthwywyr addysgu

6.15 Nododd cyfweliadau ag uwch arweinwyr a chynorthwywyr addysgu fod datblygu safonau ar gyfer cynorthwyo addysgu wedi arwain at nifer o effeithiau sy'n dod i'r amlwg, gyda rhai ohonynt yn adleisio'r rhai a amlinellwyd uchod mewn perthynas ag athrawon. Dywedwyd bod y ffaith bod safonau ar gyfer cynorthwyo addysgu yn bodoli wedi hybu pwysigrwydd a gwerth rolau cynorthwywyr addysgu. Roedd yr effeithiau a nodwyd yn aml yn cynnwys:

- Pwyslais mewn ysgolion ar nodi cyfleoedd i CA uwchsgilio.
- Ysgolion yn mabwysiadu dull mwy integredig o feddwl am ddatblygiad proffesiynol CA, ochr yn ochr â datblygiad proffesiynol athrawon. Mae'r pwyslais ar gydweithio rhwng athrawon wedi'i adlewyrchu mewn rhai ysgolion mewn perthynas â CA, gan addasu prosesau i sicrhau eu bod hwythau hefyd yn cael cyfleoedd i gynllunio a myfyrio ar y cyd.

  'Yn flaenorol, roedd CA yn cael eu hamser CPA yn unigol, ar adegau gwahanol ond nawr maen nhw'n cael yr amser hwnnw gyda'i gilydd ar foreau Gwener.'

- Niferoedd cynyddol o CA yn ymgysylltu â gweithgareddau dysgu proffesiynol, o ganlyniad i gymryd mwy o berchnogaeth dros eu datblygiad proffesiynol eu hunain.

  'Rydyn ni'n dechrau gweld mwy o gynorthwywyr cymorth dysgu yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol nawr, maen nhw'n bendant yn fwy hyderus nawr i geisio ymgysylltu â gweithgaredd proffesiynol newydd a'i gysylltu â'r safonau. Dyna'r diwylliant sydd yn yr ysgol nawr. Mae wedi rhoi rhywbeth iddyn nhw anelu ato ac sydd â rhywfaint o statws iddo.' **(Uwch arweinydd, Ysgol bob oed cyfrwng Saesneg)**

- Ysgolion yn neilltuo cyfrifoldeb i CA i arwain gweithgaredd dysgu proffesiynol fel rhan o ddiwrnodau HMS, gan wneud i CA deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n fwy.
- CA yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd staff. Ni fyddai hynny wedi digwydd o'r blaen.

- CA yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn rhan agosach a mwy gwerthfawr o'r tîm staff ehangach mewn ysgolion.
- Y safonau’n annog CA i feddwl yn fwy creadigol am eu gwaith a sut i wella eu hymarfer, rhywbeth yr oedd uwch arweinwyr ac athrawon yn ei weld yn fuddiol i ddysgwyr.

**Effaith ar waith cynllunio ysgol gyfan a blaenoriaethau ehangach**

6.16 Roedd rhywfaint o dystiolaeth i ddangos bod y safonau proffesiynol yn effeithio ar ddulliau ehangach ysgolion o gefnogi gwelliant parhaus neu’n cyfrannu at hynny.

6.17 Gan adleisio rhai o'r enghreifftiau a nodir yn adran 4 o'r adroddiad hwn ar y defnydd o'r safonau, mae'r safonau wedi helpu ysgolion i nodi'r blaenoriaethau DPP neu feysydd ffocws ar draws yr ysgol. Ystyrir bod hyn yn effaith bwysig, gan helpu i benderfynu pa agweddau ar y safonau y gellir eu targedu'n strategol er mwyn helpu i ysgogi gwelliannau mewn addysgu a dysgu.

6.18 Yn ôl nifer o uwch arweinwyr ac athrawon, gwelwyd bod y safonau'n gwneud gwahaniaeth i 'naws' y sgyrsiau am addysgu a dysgu. Yn flaenorol, dywedodd athrawon eu bod yn aml yn teimlo'n 'amddiffynnol' neu fel pe baent yn cael eu barnu yn ystod trafodaethau am eu hymarfer addysgu neu ansawdd eu haddysgu. Ymddengys y bu newid mewn llawer o ysgolion: disgrifiwyd trafodaethau am arferion addysgu fel rhai mwy 'sgyrsiol' a 'mwy gonest'. Mae ysgolion yn 'ceisio annog diwylliant o siarad a myfyrio ar ymarfer' sy'n seiliedig ar gefnogi datblygiad parhaus, yn hytrach na barnu yn erbyn meini prawf.

6.19 Yn bwysig ddigon, nododd uwch arweinwyr y dylai’r gwelliant parhaus hwn fod yn seiliedig ar gryfderau, anghenion a blaenoriaethau’r athro unigol. Pwysleisiodd un uwch arweinydd yr angen am 'ofynion dysgu proffesiynol pwrpasol' mewn ymateb i anghenion athrawon. Dywedwyd bod hyn wedi arwain at:

> 'welliant mewn addysgu a gwell ymgysylltiad â gweithgareddau dysgu proffesiynol. [Mae'n] cyd-fynd â phrosiectau a rhaglenni eraill yr ydym yn eu gwneud. Mae'n rhan annatod o gynllun ysgol gyfan ar gyfer addysgu a dysgu.' **(Uwch arweinydd, Ysgol Uwchradd cyfrwng Saesneg)**

6.20 Mae'r pwyslais ar gydweithio a myfyrio sy'n rhan o ymgysylltiad yr ysgol â'r safonau proffesiynol wedi arwain at un ysgol yn cydnabod yr arfer da a'r dysgu y gallant fanteisio arnynt o fewn yr ysgol heb orfod chwilio am gefnogaeth gan bartneriaid bob tro.

> 'Mae gennym ethos cryf o ddatblygiad parhaus ac ymholiad proffesiynol. Mae yna system gylchol gref o ddysgu proffesiynol ac adborth ac rwy'n meddwl bod hyn yn hanfodol i ni. Mae'r ffaith ein bod yn gwneud hyn ar draws yr ysgol yn bwysig: nid oes rhaid i ni bob amser geisio cymorth allanol pan fo arfer da o fewn yr ysgol ei hun.' **(Uwch arweinydd, Ysgol Uwchradd cyfrwng Cymraeg)**

6.21 Awgrymodd uwch arweinwyr fod y safonau proffesiynol yn helpu i ddatblygu a siapio addysgeg mewn ffordd a fydd yn galluogi ysgolion i gyflwyno a gwireddu dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru.

6.22 Un mesur o effaith y gellid ei archwilio dros amser yw a yw'r safonau proffesiynol yn cyfrannu at niferoedd uwch o athrawon yn symud ymlaen i swyddi arwain. Mae'r safonau'n hyrwyddo'r rhinweddau arweinyddiaeth y mae angen i bob athro eu datblygu a'u harddangos yn eu gwaith, o AGA ymlaen. Nododd uwch arweinwyr y gallai'r safonau helpu ymarferwyr i ddeall a gwerthfawrogi eu sgiliau arwain eu hunain a'u helpu i sylweddoli bod yna lwybr arweinyddiaeth y gallent ei ddilyn.

> 'Nid yw arweinyddiaeth at ddant pawb - fodd bynnag, yn hanesyddol, bu prinder penaethiaid. Bydd yn ddiddorol gweld a fydd mwy yn manteisio ar y CPCP yn y dyfodol.' **(Uwch arweinydd, Ysgol Uwchradd cyfrwng Saesneg)**

### Effaith ar ddysgwyr

6.23 Prin oedd y dystiolaeth a gyflwynwyd gan uwch arweinwyr ac athrawon o unrhyw effeithiau uniongyrchol ar ddysgwyr yn sgil y safonau proffesiynol. Roedd rhai uwch arweinwyr yn hyderus y gallai'r safonau gefnogi canlyniadau gwell i ddysgwyr ond mai dim ond dros amser y byddai hyn yn digwydd ac, yn ôl rhai, dim ond ar ôl i ysgolion allu adfer o effeithiau'r pandemig Covid-19. Nododd eraill y byddai'r effaith ar ddysgwyr yn cael ei weld wrth i'r safonau gyfrannu at wella ansawdd yr addysgu.

> 'Rwy'n disgwyl, fel rhan o'u hadfyfyrio parhaus a'u hadolygiad o'u cynnydd yn erbyn y safonau proffesiynol, y bydd athrawon yn meddwl pa wahaniaeth y mae eu haddysgu yn ei wneud i ddysgwyr a'r ffordd y mae eu haddysgeg yn

cefnogi cynnydd da dysgwyr.' **(Uwch arweinydd, Ysgol Gynradd cyfrwng Saesneg)**

6.24 Serch hynny, mewn lleiafrif o achosion, nododd ysgolion fod ymgysylltiad athrawon â'r safonau wedi arwain at ganolbwyntio mwy ar rai agweddau penodol o brofiadau dysgwyr, gan gynnwys llesiant dysgwyr, dysgu gan gymheiriaid ac asesu cymheiriaid a datblygu sgiliau dysgu annibynnol. Nododd uwch arweinwyr ac athrawon mewn rhai ysgolion a lleoliadau fod ymchwil ac ymholiadau proffesiynol a gynhaliwyd yn gysylltiedig â'r safonau proffesiynol yn helpu i wella'r cymorth a ddarperir gan ymarferwyr mewn perthynas ag iechyd a llesiant meddyliol plant.

> 'Mae ymchwil a wnaed gan staff yn y maes hwn yn golygu bod yr ysgol yn gallu adnabod materion yn ymwneud ag iechyd a llesiant meddyliol yn well a dod o hyd i ddulliau mwy effeithiol o ddelio â nhw. Mae adborth rhai CA ar y maes hwn er enghraifft wedi dangos i ni nad oes rhaid i ddisgyblion ddysgu drwy'r amser yn ystod y dydd. Mae'n iawn eu tynnu o'r dosbarth a'u galw yn ôl i mewn pan fyddan nhw'n barod i ddysgu. Rydyn ni'n gwella o ran dod o hyd i ffyrdd o helpu disgyblion mewn perthynas ag ACE – ond wrth gwrs ni fydd effaith hyn yn cael ei weld yn y tymor byr.' **(Uwch arweinydd, uned cyfeirio disgyblion)**

**Barn rhanddeiliaid am yr effeithiau canfyddedig a disgwyliedig**

6.25 Fel yr adroddwyd yn adroddiad Blwyddyn 1, roedd barn rhanddeiliaid ynghylch yr effeithiau sy'n dod i'r amlwg a'r effeithiau a ragwelir yn sgil y safonau yn adlewyrchu'n bennaf y rhai a fynegwyd gan uwch arweinwyr ac athrawon. Credai'r rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid ei bod yn dal yn rhy gynnar i asesu effaith y safonau'n llawn.

6.26 Pwysleisiodd rhanddeiliaid bwysigrwydd arweinyddiaeth wrth gefnogi'r defnydd o'r safonau proffesiynol a llywio effaith y safonau hynny. Nododd sawl rhanddeiliad cenedlaethol, lle mae timau arweinyddiaeth yn hyrwyddo'r safonau fel rhan ganolog o systemau dysgu proffesiynol, y bydd yr effaith ar addysgu a dysgu yn gryfach dros amser.

6.27 Cynigiodd y rhanddeiliaid rai enghreifftiau o'r hyn yr oeddent yn ei ystyried yn effeithiau sy'n dod i'r amlwg yn sgil y safonau. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Gwell dealltwriaeth ymhlith ymarferwyr o'r hyn sy'n gyfystyr ag addysgeg dda a phwysigrwydd cydweithio i gefnogi addysgeg. Tanlinellodd consortia rhanbarthol,

yn arbennig, y pwyntiau hyn, gan nodi y byddai hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr dros amser.

- Mwy o ddefnydd o iaith a geirfa'r safonau.
- Dywedodd consortia rhanbarthol eu bod wedi gweld mwy o bwyslais ar fyfyrio a hunanwerthuso ymhlith ymarferwyr. Er yr adroddwyd bod hyn yn fwyaf cyffredin ymhlith newydd-ddyfodiaid i'r proffesiwn, roedd rhywfaint o dystiolaeth hefyd o hyn yn digwydd ymhlith ymarferwyr mwy profiadol.
- Mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o sgiliau arwain ymhlith ANG ac ymarferwyr ar gam cynnar yn eu gyrfa, ac awydd cynyddol am gyfrifoldeb yn gynnar yn eu gyrfaoedd.
- Ymarferwyr, yn enwedig ANG ac athrawon ar gam cynnar yn eu gyrfa, yn cymryd mwy o berchnogaeth dros eu dysgu proffesiynol eu hunain.
- Mwy o gydweithio rhwng ymarferwyr, gan gynnwys cydweithio sy'n cefnogi datblygiad mewn perthynas â'r safonau proffesiynol.
- Mwy o frwdfrydedd a chymhelliant i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol, yn enwedig ymhlith cynorthwywyr addysgu.
- Mwy o gydweithio rhwng ymarferwyr – mae hyn yn cynnwys bod yn fwy agored i rannu profiadau dysgu a myfyrio ar feysydd i'w datblygu.
- Mwy o arloesi a chreadigrwydd mewn addysgu a dysgu.

6.28 Soniodd rhanddeiliaid am yr anhawster o asesu effaith y safonau, gan nodi bod eu dylanwad ar lefel system yn debygol o fod yn raddol ac yn anodd ei wahanu oddi wrth ddylanwadau diwygiadau eraill ar draws y system. Fel y nodwyd yn ystod Blwyddyn 1 y gwerthusiad, cyfeiriodd rhanddeiliaid at y llu o ffactorau sy'n cyfrannu at ysgogi gwelliannau i addysgu a dysgu, gan gynnwys yr Hawl Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol, diwygio'r cwricwlwm ac Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu.

6.29 Fe wnaeth y rhanddeiliaid sylwadau hefyd ar y potensial i'r safonau gael effaith ar ddysgwyr, yn enwedig drwy wella addysgeg ac, yn sgil hynny, ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Cyfeiriodd rhai rhanddeiliaid at enghreifftiau o ymchwil yn seiliedig ar

ymholiad yr oeddent yn teimlo eu bod wedi arwain at well profiadau i ddysgwyr. Soniodd eraill am y potensial ar gyfer mwy o arloesi yn yr ystafell ddosbarth i gefnogi dysgwyr. Cyfeiriodd rhai rhanddeiliaid at y potensial i'r safonau gyfrannu at ddeilliannau tymor hwy i ddysgwyr fel gwell presenoldeb a chyrhaeddiad.

6.30 Yn olaf, cyfeiriodd rhanddeiliaid at y ffaith bod ymwybyddiaeth a defnydd o'r safonau yn cynyddu ond bod hyn yn parhau i fod yn amrywiol. O ganlyniad, byddai effaith y safonau yn parhau i amrywio hefyd. Roedd nifer o randdeiliaid o'r farn bod effaith y safonau yn debygol o fod ar ei huchaf ymhlith ANG yn sgil y pwyslais a roddir arnynt yn ystod y cyfnod sefydlu. Gwnaed nifer o sylwadau am ffyrdd y gellid cynyddu effaith y safonau: yn gyntaf, drwy wneud y defnydd o'r safonau i gefnogi datblygiad proffesiynol yn orfodol i staff cymorth; yn ail drwy ei gwneud yn ofynnol i ysgolion sicrhau bod y safonau wrth wraidd prosesau rheoli perfformiad ysgolion; ac yn drydydd, drwy ymgorffori'r safonau fel rhan o brosesau hunanwerthuso a rheoli perfformiad ar gyfer yr holl staff. Mewn perthynas â’r pwynt olaf, cwestiynodd rhanddeiliaid a oedd angen arweiniad cenedlaethol i ysgolion er mwyn sicrhau bod ymarferwyr yn defnyddio’r safonau fel rhan o’u gweithgaredd hunanarfarnu a rheoli perfformiad.

**Crynodeb o'r canfyddiadau: effeithiau canfyddedig a disgwyliedig**

- Mae tystiolaeth gan ymarferwyr a rhanddeiliaid yn datgelu bod y safonau proffesiynol yn graddol gael effaith gynyddol ar ymddygiad ac ymarfer athrawon.
- Mae uwch arweinwyr ac ymarferwyr yn gweld y safonau fel rhai sy’n darparu fframwaith sy’n cefnogi hunanfyfyrio a datblygiad proffesiynol parhaus.
- Dengys tystiolaeth fod athrawon yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu datblygiad proffesiynol eu hunain. Awgrymwyd bod symudiad graddol tuag at lawer o athrawon yn cymryd rhan fwy gweithredol wrth nodi’r mathau o weithgareddau dysgu proffesiynol sydd eu hangen i wella agweddau penodol ar addysgeg neu arweinyddiaeth.

- Dywed uwch arweinwyr fod mwy o gydweithio rhwng athrawon, a bod hyn yn aml yn gysylltiedig â’r safonau proffesiynol neu’n cael ei lywio ganddynt. Mae hyn yn cynnwys athrawon yn trafod eu haddysgeg, eu datblygiad proffesiynol a meysydd i’w gwella ymhellach.
- Dengys tystiolaeth a gasglwyd yn ystod y gwerthusiad fod staff yn fwy agored i drafod dulliau addysgu a dysgu, cynllunio a rheoli ymddygiad. Mae'r safonau proffesiynol yn darparu geirfa ac iaith sy'n cefnogi hyn.
- Mae’r safonau ar gyfer cynorthwyo addysgu yn arwain at gyfleoedd pellach i gynorthwywyr addysgu ymgymryd â gweithgareddau dysgu proffesiynol. Mae hyn yn cyfrannu at fwy o werthfawrogiad o rolau cynorthwywyr addysgu. Dywed cynorthwywyr addysgu fod y safonau wedi cyfrannu at wneud iddynt deimlo'n aelodau mwy gwerthfawr o'r tîm staff ehangach.
- Roedd rhywfaint o dystiolaeth i ddangos bod y safonau proffesiynol yn effeithio ar ddulliau ysgol ehangach o gefnogi gwelliant parhaus neu’n cyfrannu at hynny. Mae ysgolion yn defnyddio gwybodaeth sy'n gysylltiedig â datblygiad yr athrawon mewn perthynas â'r safonau proffesiynol i nodi blaenoriaethau ar gyfer DPP i helpu i ysgogi gwelliannau mewn addysgu a dysgu. Awgrymodd uwch arweinwyr fod y safonau proffesiynol yn cefnogi cyflwyno’r Cwricwlwm i Gymru drwy helpu i ddatblygu addysgeg briodol ymhlith athrawon.
- Prin oedd y dystiolaeth a gyflwynwyd gan uwch arweinwyr ac athrawon o unrhyw effeithiau uniongyrchol ar ddysgwyr yn sgil y safonau proffesiynol. Roedd rhai uwch arweinwyr yn hyderus y gallai’r safonau gefnogi canlyniadau gwell i ddysgwyr ond mai dim ond dros amser y byddai hyn yn digwydd.
- Nododd rhai ysgolion fod y safonau wedi arwain at fwy o ffocws ar lesiant dysgwyr, dysgu gan gymheiriaid ac asesu gan gymheiriaid a datblygu sgiliau dysgu annibynnol dysgwyr. Nododd uwch arweinwyr ac athrawon hefyd fod ymholiadau proffesiynol yn gysylltiedig â’r safonau proffesiynol yn helpu i wella’r cymorth ar gyfer iechyd a llesiant meddyliol plant.

- Nododd rhanddeiliaid fod ymwybyddiaeth a defnydd cynyddol o’r safonau yn graddol arwain at effeithiau mwy amlwg ar brosesau ysgol ac ymarfer addysgu. Fodd bynnag, roeddent yn teimlo bod yr effeithiau’n parhau i fod yn amrywiol iawn ar draws y system ehangach a bod yr effeithiau ar eu huchaf ymhlith ANG ac uwch arweinwyr sy’n ymgysylltu’n llawnach â’r safonau. Yr her yw sicrhau bod y safonau'n cael eu hyrwyddo ac yn bwrw gwreiddiau'n ehangach. Cynigiodd rhai rhanddeiliaid y dylid datblygu canllawiau cenedlaethol ychwanegol i ysgolion i annog, neu fynnu bod ymarferwyr yn defnyddio’r safonau fel rhan o’u gweithgaredd hunanarfarnu.

# 7. Casgliadau

7.1 Datblygwyd y casgliadau isod yn seiliedig ar y canfyddiadau a nodir yn Adrannau 3-6. Fel y nodwyd yn Adrannau 2.21-2.23, mae natur ansoddol y fethodoleg yn golygu y dylid ystyried bod y casgliadau hyn fel adlewyrchiad o'r sampl o leoliadau ac ymarferwyr a gymerodd ran yn y gwerthusiad ac ni ellir cyffredinoli'r canfyddiadau i'r boblogaeth ehangach o ymarferwyr.

**Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r safonau**

7.2 Yn ystod y gwerthusiad, cymharol ychydig o newid a welwyd yn ymwybyddiaeth y rhan fwyaf o ymarferwyr o'r safonau, ac ategwyd hyn yn y dystiolaeth gan randdeiliaid. Fodd bynnag, roedd tystiolaeth o ddealltwriaeth gynyddol ymhlith rhai grwpiau o ymarferwyr. Roedd yn ymddangos bod dau ffactor galluogi yn dylanwadu’n bennaf ar hyn:

- y defnydd cynyddol o'r safonau o fewn lleoliadau a oedd wedi eu hymgorffori ymhellach i arferion presennol yr ysgol
- cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol sy’n cyd-fynd yn agos â’r safonau.

7.3 Mae canfyddiadau'r gwerthusiad terfynol yn dangos bod ymarferwyr a gyfrannodd at yr astudiaeth yn cael mynediad at ystod eang o wybodaeth a chanllawiau sy'n ymwneud â'r safonau. Yn ogystal â gwybodaeth benodol am y safonau yn cael ei gynnwys yn nogfennau a gweithgareddau gan Lywodraeth Cymru, rhanddeiliaid ac ysgolion (e.e. cyflwyniadau gan randdeiliaid neu uwch arweinwyr), roedd mwy o dystiolaeth yn ystod Blwyddyn 2 bod y safonau wedi’u hymgorffori mewn gweithgareddau eraill. Dywedodd rhanddeiliaid ac ymarferwyr fod y safonau wedi bwrw gwreiddiau dyfnach, a’u bod yn fwy amlwg mewn rhaglenni dysgu proffesiynol. Mae’r rhaglenni hyn yn chwarae rhan bwysig o ran cynyddu perthnasedd y safonau, a thrwy hynny wella dealltwriaeth ymarferwyr ohonynt.

7.4 Yn ystod y ddau gam gwaith maes, yr un carfannau o ymarferwyr a oedd yn parhau i fod fwyaf cyfarwydd â’r safonau, a’r rhai a oedd yn cymryd rhan mewn rhaglenni

dysgu proffesiynol oedd fwyaf tebygol o fod wedi gwella eu dealltwriaeth dros y flwyddyn ddiwethaf. Uwch arweinwyr a'r rhai sy'n ymwneud ag AGA a phrosesau sefydlu (h.y. ANG, myfyrwyr AGA, mentoriaid sefydlu a dilyswyr allanol) oedd y rhai sydd fwyaf tebygol o nodi lefelau uwch o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o hyd. Ymarferwyr profiadol mewn ysgolion nad ydynt wedi ymgorffori'r safonau mewn gweithgareddau rheoli perfformiad a CA oedd yn parhau i fod leiaf cyfarwydd â'r safonau. Heb anogaeth bellach, neu gyfeiriad strategol cryfach, mae ysgolion nad ydynt wedi gwneud hynny eisoes yn annhebygol o ymestyn y safonau i staff cymorth.

7.5 Yn ystod Blwyddyn 2, mae ymarferwyr a rhanddeiliaid o'r farn bod y safonau'n cyd-fynd yn dda â datblygiadau polisi allweddol eraill, yn enwedig y Cwricwlwm i Gymru. Fodd bynnag, mae canfyddiad o hyd bod ymwybyddiaeth o'r safonau wedi cael ei bwrw i'r cysgod gan ddatblygiadau eraill. Awgryma'r canfyddiadau y gallai fod cyfle i wneud mwy o weithgaredd codi ymwybyddiaeth ar lefel genedlaethol i 'ailwampio ac ail-lansio'r' safonau.

**Y defnydd o'r safonau**

7.6 Roedd pa mor aml ac i ba raddau yr oedd ymarferwyr yn defnyddio'r safonau'n amrywio'n sylweddol ar draws y sampl o leoliadau yr ymgysylltwyd â hwy yn ystod dau gam y gwerthusiad. Y prif ffactorau a ddylanwadodd ar amlder a dyfnder y defnydd gan ymarferwyr oedd:

- y pwyslais a roddir ar y safonau gan uwch arweinwyr, megis a oeddent wedi'u hymgorffori mewn prosesau recriwtio, rheoli perfformiad a dysgu proffesiynol
- a oedd ymarferwyr yn ymwneud ag AGA, prosesau ymsefydlu neu weithgareddau dysgu proffesiynol ffurfiol arall (e.e. cyrsiau arweinyddiaeth).

7.7 Yn y ddau gam gwerthuso, uwch arweinwyr, ANG, mentoriaid sefydlu a'r rhai a gymerodd ran mewn cyrsiau dysgu proffesiynol oedd fwyaf tebygol o nodi eu bod yn defnyddio'r safonau'n rheolaidd neu'n fanwl. Roedd CA ac athrawon profiadol nad

oeddent wedi dilyn cyrsiau arweinyddiaeth ffurfiol yn llai tebygol o ddweud eu bod yn defnyddio'r safonau.

7.8 Ym Mlwyddyn 2 y gwerthusiad, roedd tystiolaeth o ddefnydd cynyddol o'r safonau ymhlith rhai ymarferwyr. Dywedodd ymarferwyr mewn lleoliadau a oedd wedi ymgorffori'r safonau ymhellach yn eu gweithgareddau eu bod yn fwyfwy cyfarwydd a hyderus i'w defnyddio mewn cyd-destunau ffurfiol (e.e. rheoli perfformiad) a llai ffurfiol (e.e. deialog proffesiynol). Yn yr un modd, ar lefel unigol, roedd uwch arweinwyr ac ymarferwyr a oedd wedi cymryd rhan mewn rhaglenni dysgu proffesiynol ffurfiol wedi ymgysylltu’n fanylach â’r safonau; roedd hyn wedi cefnogi defnyddio'r safonau yn eu lleoliad eu hunain (e.e. wrth gynllunio dysgu proffesiynol, fel rhan o hunanfyfyrio). Roedd ymarferwyr y neilltuwyd amser iddynt fyfyrio ar eu datblygiad yn erbyn y safonau (e.e. drwy offer hunanasesu yn seiliedig ar y disgrifyddion) yn fwy tebygol o'u defnyddio.

7.9 Mewn rhai lleoliadau, arhosodd y defnydd o'r safonau yn gymharol ddigyfnewid yn ystod y gwerthusiad. Yn y lleoliadau hyn, roedd uwch arweinwyr yn aml yn cyfeirio at bwysau a blaenoriaethau eraill a oedd wedi cyfyngu ar y graddau yr oeddent wedi ymgorffori’r safonau. Parhaodd ambell leoliad i nodi ei fod wedi gwneud defnydd cyfyngedig o'r safonau y tu hwnt i weithgaredd codi ymwybyddiaeth a gweithgaredd gofynnol fel rhan o brosesau sefydlu. Lle nad oedd uwch arweinwyr yn annog ymarferwyr i ddefnyddio’r safonau, roedd yr ymarferwyr (gan gynnwys y rhai a oedd wedi cwblhau cyfnod sefydlu’n ddiweddar) yn llai tebygol o’u defnyddio o ddydd i ddydd.

7.10 Roedd tystiolaeth o ymgysylltiad cynyddol â’r safonau fel fframwaith ar gyfer cynllunio strategol ymhlith rhai uwch arweinwyr. Mewn rhai lleoliadau, roedd yr uwch arweinwyr hyn yn casglu data cyfanredol ar draws y lleoliad cyfan yn seiliedig ar hunanasesiadau ymarferwyr i nodi anghenion datblygu proffesiynol, ac i gynllunio gweithgareddau dysgu proffesiynol, ar lefel cyfadran a lleoliad cyfan.

7.11 Roedd y safonau'n parhau i gael eu gwerthfawrogi fel fframwaith sy'n nodi'r disgwyliadau ar gyfer ymarferwyr, ac roedd ymarferwyr yn eu hystyried yn offeryn datblygu defnyddiol. Roedd ymarferwyr mewn unedau cyfeirio disgyblion yn eu gwerthfawrogi gan eu bod yn darparu fframwaith cyson a oedd yn rhoi mwy o

statws iddynt. Roedd staff cymorth ac uwch arweinwyr yn parhau i werthfawrogi'r safonau proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu, er bod CA yn llai tebygol o fod yn defnyddio'r rhain o gymharu ag athrawon ac uwch arweinwyr a oedd yn defnyddio eu safonau hwy. Mae’n bosibl bod dadl dros gynnal rhagor o weithgaredd i annog mwy o ddefnydd o’r safonau proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu mewn lleoliadau.

7.12 Er bod uwch arweinwyr yn cydnabod y gyfatebiaeth rhwng terminoleg y safonau a'r Cwricwlwm i Gymru, nid yw'n ymddangos bod y safonau wedi'u hintegreiddio'n agos â phrosesau lleoliadau o ddylunio a gweithredu'r cwricwlwm. Credai rhai ymarferwyr a rhanddeiliaid y gallai fod yn werthfawr adolygu ac adnewyddu geiriad rhai o’r safonau, yn enwedig yng ngoleuni'r Cwricwlwm i Gymru a diwygiadau eraill ar draws y system.

7.13 Ni waeth i ba raddau yr oedd y safonau’n cael eu defnyddio, roedd ymarferwyr a rhanddeiliaid yn gyson o’r farn bod cynnydd wedi’i wneud yn erbyn rhai o’r safonau ar draws y gweithlu addysg yn y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig mewn perthynas ag arloesi a chydweithio. Awgryma'r dystiolaeth fod ymarferwyr a rhanddeiliaid yn priodoli hyn i’r angen i addasu arferion gwaith mewn ymateb i’r pandemig yn ogystal â’r angen i ymateb i ddiwygiadau eraill (e.e. dylunio'r cwricwlwm).

7.14 Dengys y canfyddiadau y bu cynnydd yng nghanran yr ymarferwyr sydd wedi creu eu PDP eu hunain yn ystod cyfnod y gwerthusiad; roedd tua hanner yr athrawon a thraean y staff cymorth wedi creu eu PDP eu hunain erbyn mis Medi 2022. Mae hyn i raddau helaeth yn adlewyrchu'r ffaith bod nifer yr athrawon sy'n creu eu PDP eu hunain yn ystod eu cyfnod sefydlu yn cyfrif am gyfran gynyddol o'r cyfanswm o ymarferwyr sydd wedi creu eu PDP eu hunain. Fodd bynnag, roedd tystiolaeth gyfyngedig o hyd, yn seiliedig ar y sampl o ymarferwyr a gymerodd ran yng ngwaith maes y gwerthusiad, fod ymarferwyr yn defnyddio eu PDP yn weithredol ar ôl cwblhau eu cyfnod sefydlu i uwchlwytho tystiolaeth neu fyfyrio yn erbyn y safonau. Nid yw data monitro ar y dystiolaeth a'r myfyrdodau a uwchlwythwyd i'r PDP ar gael eto fesul rôl ymarferydd ac felly nid yw'n ein galluogi i ddod i gasgliadau ehangach ar hyn.

7.15 Roedd ymarferwyr a rhanddeiliaid yn parhau i ddisgrifio profiadau cymysg o ddefnyddio'r PDP i gofnodi eu profiadau dysgu proffesiynol a myfyrio ar eu datblygiad mewn perthynas â'r safonau. Roedd gan y rhai a oedd wedi defnyddio'r PDP yn rheolaidd fel rhan o AGA a'r broses sefydlu amrywiaeth o safbwyntiau ar ei hygyrchedd a pha mor hawdd ydoedd i'w ddefnyddio. Roedd uwch arweinwyr ac ymarferwyr yn parhau i gynnig y gallai integreiddio mewngofnodi i'r PDP â Hwb gynyddu'r tebygolrwydd o ddefnyddio'r PDP i gofnodi eu profiadau dysgu proffesiynol. Roedd rhai uwch arweinwyr a oedd wedi mabwysiadu offer hunanasesu eraill yn eu lleoliadau er mwyn i ymarferwyr gofnodi tystiolaeth o weithgareddau dysgu proffesiynol yn parhau i ddweud y byddent yn rhoi mwy o werth ar y PDP pe bai'n eu galluogi i archwilio data cyfanredol ar eu gweithlu ar lefel adrannau a lleoliadau.

**Cymorth i ddefnyddio'r safonau**

7.16 Roedd amrywiadau o ran maint a natur y cymorth yr oedd ymarferwyr yn manteisio arno er mwyn defnyddio'r safonau. Roedd cysylltiad agos rhwng hyn a:

- faint o bwyslais yr oedd eu lleoliad yn ei roi ar ddefnyddio'r safonau
    - er enghraifft, a oeddent wedi'u hyfforddi i ddefnyddio offer hunanasesu wedi'u strwythuro o amgylch y safonau, neu wedi cael trafodaethau manwl am y disgrifyddion mewn trafodaethau rheoli perfformiad.
- a oeddent wedi bod yn cymryd rhan mewn dysgu proffesiynol a oedd wedi'i strwythuro o amgylch y safonau, ac felly wedi cael cymorth i fyfyrio ar y disgrifyddion a'u dehongli
    - roedd hyn yn arbennig o wir yn achos ANG, mentoriaid sefydlu a'r rhai ar gyrsiau dysgu proffesiynol achrededig neu arnodedig.

7.17 Awgryma'r dystiolaeth fod angen mwy o gymorth i wella dealltwriaeth a defnydd o'r safonau ymhlith ymarferwyr. Mae ymarferwyr mwy profiadol mewn rolau nad ydynt yn rolau arweinyddiaeth yn parhau i ddibynnu ar gymorth ar lefel yr ysgol i ddeall a defnyddio'r safonau, a gall hyn amrywio. Mae tystiolaeth hefyd yn awgrymu bod amrywiaeth yn y cymorth a ddarperir i leoliadau gan Gonsortia Addysg Rhanbarthol.

Mae angen sicrhau dull mwy cyson o ddarparu cymorth. Fodd bynnag, mae annog lleoliadau ac ymarferwyr i gael cymorth hefyd yn her yng nghyd-destun ymateb i ganlyniad y pandemig a gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Mae hyn yn awgrymu y gallai fod angen ffocws cenedlaethol ar gymorth ychwanegol i godi ymwybyddiaeth a darparu arweiniad ar ddefnyddio’r safonau.

7.18 Mae’r rhan fwyaf o leoliadau yn defnyddio’r safonau yn unol â’r canllawiau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, ond mae rhai yn eu hymgorffori mewn ffyrdd sy’n ymddangos yn anghyson â rhannau o’r canllawiau ond sy'n fuddiol yng ngolwg y lleoliadau hynny (e.e. wrth ddatblygu eu systemau cofnodi eu hunain). Mae hyn yn awgrymu bod angen adolygu'r canllawiau, ochr yn ochr ag iaith rhai o'r disgrifyddion, ac ystyried 'ailwampio ac ail-lansio' y safonau. Byddai hyn yn rhoi cyfle i sicrhau bod y safonau’n ystyried datblygiadau mwy diweddar, megis y Cwricwlwm i Gymru a’r Hawl Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol.

7.19 Ym Mlwyddyn 2, roedd y rhai a gyfwelwyd yn parhau i gredu y dylid datblygu canllawiau cliriach ar sut i ddehongli a defnyddio'r safonau, wedi'u hanelu at grwpiau penodol o ymarferwyr (e.e. staff cymorth). Ymysg yr enghreifftiau roedd:

- datblygu deunyddiau enghreifftiol i ddangos sut y gall ymarferwyr fodloni’r disgrifyddion mewn cyd-destunau amrywiol (gan ddefnyddio rhywfaint o'r ymarfer mewn partneriaethau AGA y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn)
- gweithgareddau codi ymwybyddiaeth parhaus a chymorth sy’n gysylltiedig â diwygiadau addysg eraill (e.e. sut y gellir defnyddio’r safonau i gefnogi cynllunio a gwireddu’r cwricwlwm)
- canllawiau ar sut y dylid defnyddio'r safonau fel rhan o brosesau rheoli perfformiad ysgolion
- canllawiau ar ddyrannu amser a chapasiti i ymarferwyr fyfyrio ar y safonau fel rhan o weithgareddau dysgu proffesiynol.

**Effaith ganfyddedig a disgwyliedig y safonau**

7.20 Mae'r gwerthusiad terfynol wedi canfod tystiolaeth o ymgysylltiad dyfnach â'r safonau mewn rhai lleoliadau ac ymhlith rhai ymarferwyr, sy'n ymddangos fel pe baent yn cael effaith ar ymddygiad ac ymarfer athrawon.

7.21 Ym Mlwyddyn 2, parhaodd uwch arweinwyr i werthfawrogi'r safonau fel fframwaith i gefnogi hunanfyfyrio a datblygiad proffesiynol parhaus. Dywedodd rhai uwch arweinwyr fod defnyddio'r safonau fel fframwaith wedi bod yn gatalydd ar gyfer ffocws cynyddol ar ddatblygiad proffesiynol yn eu lleoliad.

7.22 Mae'r gwerthusiad wedi canfod rhywfaint o dystiolaeth bod athrawon yn cymryd mwy o berchnogaeth o'u datblygiad proffesiynol eu hunain, a bod y safonau'n dylanwadu ar hyn ochr yn ochr â ffocws cynyddol ar addysgeg yn y diwygiadau ehangach. Ym Mlwyddyn 2, nododd rhai uwch arweinwyr ac ymarferwyr fod athrawon bellach yn cymryd rhan fwy gweithredol wrth adnabod y mathau o weithgareddau dysgu proffesiynol sydd eu hangen arnynt i wella agweddau ar addysgeg neu arweinyddiaeth. Ystyriwyd bod paratoadau ar gyfer gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru hefyd yn dylanwadu ar y broses hon.

7.23 Nodwyd mwy o enghreifftiau o gydweithio rhwng ymarferwyr a lleoliadau yn ystod Blwyddyn 2, er enghraifft mewn perthynas ag ymarferwyr yn trafod addysgeg, datblygiad proffesiynol a meysydd i'w gwella ymhellach. Priodolodd uwch arweinwyr hyn i ddylanwadau amrywiol, gan gynnwys y safonau, y Cwricwlwm i Gymru a gweithgareddau mewn ymateb i'r pandemig. Awgrymodd uwch arweinwyr fod y safonau proffesiynol yn cefnogi cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru drwy helpu i ddatblygu addysgeg briodol ymhlith athrawon.

7.24 Soniodd rhai arweinwyr, ymarferwyr a rhanddeiliaid am welliant yn ansawdd a dyfnder y ddeialog broffesiynol rhwng ymarferwyr. Awgryma'r dystiolaeth fod mwy o barodrwydd ymhlith lleoliadau i drafod dulliau addysgu a dysgu, cynllunio a rheoli ymddygiad. Mae'r safonau proffesiynol yn darparu geirfa ac iaith gyffredin sy'n cefnogi'r broses hon.

7.25 Mae rhywfaint o dystiolaeth bod y safonau proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu yn arwain at gyfleoedd pellach i staff cymorth ymgysylltu â gweithgareddau dysgu proffesiynol, drwy ddarparu llwybr a chreu ymdeimlad o werth ynghyd â chreu mwy

o ddyhead o fewn y proffesiwn. Dywedodd ambell CA fod y safonau wedi cyfrannu at wneud iddynt deimlo'n aelodau mwy gwerthfawr o'r gweithlu.

7.26 Prin yw’r dystiolaeth a ganfuwyd gan y gwerthusiad bod y safonau wedi arwain at effeithiau ar ddysgwyr. Fodd bynnag, teimlai rhai uwch arweinwyr y byddai’r effeithiau ar y gweithlu yn debygol o gefnogi canlyniadau gwell i ddysgwyr dros amser. Mewn ambell leoliad, roedd yr ymarferwyr yn teimlo bod y safonau yn hyrwyddo mwy o ffocws ar lesiant dysgwyr, dysgu gan gymheiriaid ac asesu gan gymheiriaid a datblygu sgiliau'r dysgwyr o ran dysgu annibynnol.

7.27 Mae tystiolaeth bod ymarferwyr a rhanddeiliaid yn credu bod defnyddio'r safonau yn graddol arwain at welliannau ym mhrosesau datblygiad proffesiynol lleoliadau ac ymarfer addysgu. Fodd bynnag, mae'r amrywiadau yn nyfnder defnydd y safonau ar draws ymarferwyr a lleoliadau yn golygu bod yr effeithiau hyn yn amrywiol. Y lleoliadau a’r ymarferwyr hynny (e.e. uwch arweinwyr ac arweinwyr canol, ANG) sy’n ymwneud fwyaf â defnyddio’r safonau a fyddai’n fwyaf tebygol o elwa o hyn, a gallai eraill (e.e. athrawon profiadol, cynorthwywyr addysgu) fod angen cymorth ac arweiniad ychwanegol i’w hannog, neu i'w gwneud yn ofynnol iddynt ddefnyddio'r safonau.

## 8. Materion i'w hystyried

8.1 Datblygwyd y materion canlynol i'w hystyried yn seiliedig ar y casgliadau a nodir yn yr adran flaenorol.

8.2 Dylid ystyried cynnal rhagor o weithgaredd i godi ymwybyddiaeth o'r safonau ar lefel genedlaethol, wedi'i anelu'n benodol at yr ymarferwyr hynny y dywedir bod ganddynt lai o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r safonau (e.e. staff cymorth ac athrawon mwy profiadol). Gallai hyn gynnwys deunyddiau sy'n rhoi enghreifftiau ymarferol o sut y gellir defnyddio'r safonau yn y rolau hyn. Dylid ystyried ‘ailwampio ac ail-lansio’ y safonau ar lefel genedlaethol i godi ymwybyddiaeth o’r safonau, yn dilyn adolygiad o eiriad y safonau a’r canllawiau cysylltiedig (gweler Adran 8.3 isod).

8.3 Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cynnull gweithgor o randdeiliaid allweddol i adolygu a mireinio geiriad y safonau ac i ystyried blaenoriaethau ar gyfer y ffordd orau o gefnogi ymarferwyr i’w defnyddio yn y dyfodol. Dylai'r broses hon ystyried sut i sicrhau cyfatebiaeth agosach rhwng y safonau a chyhoeddiadau a datblygiadau ers iddynt gael eu cyhoeddi'n wreiddiol (e.e. canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru).

8.4 Dylai Llywodraeth Cymru ystyried yr arferion a welwyd mewn ysgolion ac yr adroddwyd arnynt gan randdeiliaid yn y gwerthusiad hwn wrth adolygu’r canllawiau cyfredol ar ddefnyddio’r safonau. Yn benodol, dylid ystyried llunio canllawiau cliriach i leoliadau ynghylch a ddylent ddatblygu eu pro fformau a'u systemau cofnodi eu hunain ar gyfer defnyddio'r safonau.

8.5 Dylai Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid, ystyried datblygu canllawiau newydd a deunyddiau ategol ar gyfer lleoliadau ac ymarferwyr ar ddefnyddio’r safonau, gan gynnwys:

- canllawiau ar sut y dylid defnyddio'r safonau fel rhan o brosesau rheoli perfformiad ysgolion, gan gynnwys enghreifftiau ymarferol o sut y mae gwahanol fathau o leoliadau wedi ymgorffori'r safonau a'r disgrifyddion o fewn prosesau hunanasesu a thrafod. Dylai hyn gynnwys canllawiau ar ddefnyddio'r PDP a phlatfformau eraill y mae ysgolion yn eu defnyddio i gefnogi rheoli perfformiad. Gallai hyn gynnwys rhannu templedi enghreifftiol

ar gyfer trafodaethau rheoli perfformiad ac offer hunanasesu sydd wedi'u strwythuro o amgylch y safonau.

- deunyddiau enghreifftiol (e.e. fideos) i ddangos sut y gall ymarferwyr fodloni'r disgrifyddion mewn cyd-destunau amrywiol gan ddefnyddio rhywfaint o'r ymarfer mewn partneriaethau AGA y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn
- deunyddiau sydd â'r nod o wneud y cysylltiadau rhwng y safonau a diwygiadau addysg eraill yn fwy eglur (e.e. sut y gellir defnyddio'r safonau i gefnogi cynllunio a gwireddu'r cwricwlwm)
- canllawiau ar ddyrannu amser a chapasiti i ymarferwyr fyfyrio ar y safonau fel rhan o weithgareddau dysgu proffesiynol.

8.6 Dylid annog uwch arweinwyr i gynnwys eu staff sy'n ymwneud, neu a fu'n ymwneud yn ddiweddar, â phrosesau AGA a sefydlu wrth godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r safonau ymhlith eu gweithlu. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod staff sy'n fwy cyfarwydd â defnyddio iaith a therminoleg y disgrifyddion yn cefnogi eraill i ddefnyddio'r safonau.

8.7 Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a ddylai'r cyfrifoldeb am hyrwyddo'r defnydd o'r safonau a datblygu offer i gefnogi'r defnydd ohonynt gael ei ddirprwyo i un neu fwy o sefydliadau rhanddeiliaid.

8.8 Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ystyried cryfhau'r disgwyliad y bydd lleoliadau'n annog CA i ddefnyddio'r safonau fel rhan o'u datblygiad proffesiynol, gan adeiladu ar y disgwyliadau a nodir yng nghanllawiau'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol.

8.9 Dylai Llywodraeth Cymru barhau i fonitro sut y mae'r PDP yn cael ei ddefnyddio gan ymarferwyr, yn enwedig y rhai sydd wedi cwblhau eu cyfnod sefydlu statudol. Dylai nodi gofynion monitro data rheolaidd manylach i CGA er mwyn sicrhau ei bod yn bosibl gweld faint o ymarferwyr mewn rolau gwahanol (e.e. athrawon profiadol, arweinwyr canol, uwch arweinwyr) sy'n defnyddio'r PDP yn weithredol (e.e. uwchlwytho tystiolaeth a graddio eu hunain yn erbyn disgrifyddion y safonau). Dylai Llywodraeth Cymru hefyd gasglu barn ymarferwyr ar ymarferoldeb y PDP, a'i ddefnydd fel rhan o raglenni dysgu proffesiynol. Dylid hefyd ystyried barn uwch

arweinwyr ac ymarferwyr ar ba mor ddymunol ac ymarferol yw datblygu'r PDP ymhellach i alluogi coladu data cyfanredol, ar lefel lleoliad. Dylai hyn gynnwys ystyried unrhyw faterion preifatrwydd a rheoli data a allai godi yn sgil datblygiadau o'r fath. Dylai CGA a Llywodraeth Cymru hefyd ymchwilio i ymarferoldeb integreiddio mewngofnodi i'r PDP gyda Hwb.

## Atodiad A: Offer ymchwil

Mae’r canllawiau holi a ddefnyddiwyd gyda phob grŵp o gyfranogwyr yn ystod gwaith maes Blwyddyn 2 i’w gweld isod. Mae’r offer a ddefnyddiwyd ar gyfer gwaith maes Blwydyn 1 i’w gweld yn yr adroddiad blaenorol.

**Canllaw holi ar gyfer Rhanddeiliaid strategol**

**Cefndir**

1. Rhowch drosolwg o'ch rôl a'ch cyfrifoldebau o ran dyluniad y Safonau Proffesiynol a'r defnydd ohonynt. [Os yn berthnasol] A yw hyn wedi newid ers llynedd?

**Ymwybyddiaeth a gwybodaeth**

2. [Dim ond os yn gyfwelai newydd ym mlwyddyn 2] Beth fyddech chi'n ei ddweud yw'r egwyddorion sydd wedi llywio datblygiad y Safonau Proffesiynol?
    - Beth mae'r safonau'n anelu at ei gyflawni?
    - Ym mha ffyrdd, os o gwbl, y mae'r Safonau Proffesiynol yn wahanol i safonau blaenorol?
    - Awgrymiadau i'w defnyddio fel y bo'n briodol:
        - Dealltwriaeth o'r goblygiadau i sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiadau ymarferwyr?
        - Ymwybyddiaeth o'r pum safon a'r gwerthoedd a'r ymagweddau cyffredinol
3. Beth yw eich dealltwriaeth o'r cysylltiad rhwng y Safonau Proffesiynol a gweithgareddau ac ymyriadau cenedlaethol eraill? [Os yn berthnasol] Sut mae eich barn wedi newid ers y cyfweliad diwethaf?
    - Diwygio'r cwricwlwm, Ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu, y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol, rheoli perfformiad, AGA, sefydlu, y PDP.
    - [Os yw'n briodol] Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth, y rhaglen CALU.

4. Yn eich profiad chi, i ba raddau y mae ysgolion yn ymwybodol o'r Safonau Proffesiynol? A yw hyn wedi newid dros y flwyddyn ddiwethaf?
    - I ba raddau y mae ysgolion yn deall goblygiadau'r Safonau Proffesiynol i sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiadau ymarferwyr?
    - A oes unrhyw wahaniaethau mewn ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ar draws lefelau Uwch Dîm Arwain, arweinydd canol, athro sy'n gwasanaethu, ANG a CA/CALU?
5. A ydych yn ymwybodol o bwy sydd yn ‘berchen’ ar neu’n gyfrifol am y safonau ar lefel genedlaethol?
    - A yw pwy sydd yn ‘berchen’ ar neu’n gyfrifol am y safonau ar lefel genedlaethol yn gwneud gwahaniaeth i ganfyddiadau neu ddefnydd ohonynt yn eich barn chi? Os felly, ym mha ffordd?
    - A fyddai’n gwneud gwahaniaeth i chi petai sefydliad arall yn gyfrifol am y safonau? Os felly, sut?

**Defnydd o’r safonau**

6. [Cyfeirio yn ôl at nodiadau blwyddyn 1 a theilwra’r cwestiynau yn briodol] Sut ydych chi a'ch sefydliad wedi ymgysylltu â'r Safonau Proffesiynol neu wedi ymateb iddynt?
    - Awgrymiadau: cynllunio strategol, rhaglen gymorth.
7. Hyd y gwyddoch, sut y mae ysgolion/lleoliadau wedi ymgysylltu â'r Safonau Proffesiynol? A yw natur hyn wedi newid dros y flwyddyn ddiwethaf?
    - Awgrymiadau: cynllunio strategol, dysgu proffesiynol, HMS, Cynlluniau Datblygu Ysgol, rheoli perfformiad, polisïau ac arferion ehangach.
    - Hyd y gwyddoch, sut y mae'r ymarferwyr wedi defnyddio'r PDP i gefnogi defnydd o'r Safonau Proffesiynol (holi barn ar amlder a maint y defnydd, hygyrchedd a hyblygrwydd y PDP)?
    - Awgrymiadau: llywio dysgu proffesiynol, cydweithredu, gofynion statudol, amlder y defnydd, amrywiad yn y defnydd rhwng safonau, defnydd o'i gymharu â safonau blaenorol.

- A yw ymgysylltiad yn amrywio ar draws lefelau Uwch Dîm Arwain, arweinydd canol, athro wrth ei waith, ANG a CA/CALU? Os felly, sut?

8. Hyd y gwyddoch, sut y mae ymarferwyr wedi defnyddio'r Pasbort Dysgu Proffesiynol?

**Effeithiolrwydd y defnydd**

9. Pa mor effeithiol, yn eich barn chi, yw'r Safonau Proffesiynol o ran:

    - [Trafodwch ar gyfer myfyrwyr AGA, athrawon gweithredol, ANG, arweinwyr ysgol, CA a CALU] Gosod disgwyliadau clir ynghylch ymarfer effeithiol wrth ymuno â'r proffesiwn ac yn ystod gyrfa ymarferydd?
    - Darparu ysbrydoliaeth a ffocws ar gyfer gwelliant parhaus?
    - Sefydlu fframwaith i osod nodau ac asesu cynnydd ar gyfnodau gyrfa allweddol?
    - Annog ymarferwyr i gymryd cyfrifoldeb am eu safonau eu hunain?
    - Galluogi ymarferwyr i fyfyrio ar eu hymarfer?
    - Cefnogi ymarferwyr i nodi meysydd ar gyfer gweithgareddau dysgu proffesiynol a chefnogi prosesau rheoli perfformiad? Wrth i ysgolion wneud cynnydd gyda'u paratoadau ac agosáu at roi'r cwricwlwm newydd ar waith, a yw hyn wedi newid defnydd neu ganfyddiadau o'r Safonau? A yw hyn wedi cynyddu neu leihau defnydd o'r Safonau?
    - Pa dystiolaeth sydd ar gael i gefnogi'r uchod?

10. Pa mor effeithiol, yn eich barn chi, yw'r Safonau Proffesiynol o ran:

    - Cefnogi ysgolion a rhanddeiliaid addysg eraill i osod nodau, monitro cynnydd a nodi camau gweithredu?
    - Cefnogi prosesau gwella ysgolion?
    - Annog cydweithredu rhwng ysgolion ac ymarferwyr?
    - Cefnogi ysgolion i ddatblygu'r sgiliau a'r mathau o ymddygiad sy'n ofynnol i gyflawni'r cwricwlwm newydd?

- Pa dystiolaeth sydd ar gael i gefnogi'r uchod?

11. Pa ffactorau ac amodau sy'n galluogi ac yn rhwystro ymgysylltiad effeithiol â'r Safonau Proffesiynol?
    - Ar lefel genedlaethol, lefel ranbarthol, lefel ysgol, lefel unigolyn neu lefel arall.

**Cymorth**

12. Beth yw eich barn am y cymorth sydd ar gael i ysgolion ac ymarferwyr ddefnyddio'r Safonau Proffesiynol?
    - Y cymorth a ddarperir gan eich sefydliad eich hun [os yw'n berthnasol]
    - Cymorth ar lefel genedlaethol, ranbarthol a chlwstwr/ysgol
13. Sut y gellir gwella'r cymorth sydd ar gael i ysgolion ac ymarferwyr?
    - Cymorth ar lefel genedlaethol, ranbarthol a chlwstwr/ysgol

**Effeithiau disgwyliedig (a'r effeithiau cychwynnol a brofwyd)**

14. Pa effaith, os o gwbl, fyddech chi'n disgwyl i'r Safonau Proffesiynol ei chael ar:
    - Holi am effaith ar:
        i. Ddysgwyr
        ii. Ymarferwyr (ymarfer addysgu, datblygu gyrfa, llesiant, boddhad swydd) [archwilio ar gyfer pob grŵp ymarferwyr]
        iii. Gydweithredu a gweithio mewn clwstwr
        iv. Ysgolion (arweinyddiaeth, cynllunio strategol, rheoli perfformiad, diwylliant)
        v. Y system addysg ehangach (atebolrwydd, arolygu, strwythurau cymorth rhanbarthol a chenedlaethol).
    - Pa dystiolaeth sydd o'r newidiadau neu'r deilliannau hyn?
15. Sut y gallai’r Safonau gael mwy o effaith ar y grwpiau uchod? Pa ffactorau allai ddylanwadu neu lesteirio hyn?
    - [Os nad wedi ei drafod eisoes] A fyddai newid pwy sydd a chyfrifoldeb dros y Safonau wneud gwahaniaeth, yn eich barn chi?

**Canllawiau holi ar gyfer Penaethiaid ysgolion, Uwch Dîm Arwain, mentoriaid sefydlu ac arweinwyr canol**

**Cefndir**

1. Rhowch drosolwg o'ch rôl a'ch cyfrifoldebau o ran ymgysylltiad eich ysgol neu'ch lleoliad â'r Safonau Proffesiynol a'r defnydd ohonynt. [Os yn berthnasol] A yw hyn wedi newid ers llynedd?

**Ymwybyddiaeth a gwybodaeth**

2. [Cyfwelai newydd yn unig, oni bai eich bod eisoes wedi cyfeirio at hyn mewn ymateb i Ch1] I ba raddau yr ydych yn ymwybodol o'r Safonau Proffesiynol a'r hyn y maent yn ceisio'i gyflawni? Trafodwch mewn perthynas â'r canlynol:
    - Y pum safon a'r gwerthoedd a'r ymagweddau cyffredinol
    - Eglurder a hygyrchedd y safonau
    - Dealltwriaeth o'r goblygiadau i sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiadau ymarferwyr?
    - Sut y maent yn wahanol i safonau blaenorol (os yw'n berthnasol)
    - Eich rôl o ran defnyddio'r safonau o ran eich datblygiad eich hun ac o ran hwyluso datblygiad pobl eraill.
3. Yn eich barn chi, beth yw'r cysylltiad rhwng y Safonau Proffesiynol a gweithgareddau ac ymyriadau cenedlaethol eraill? [Os yn berthnasol] A yw'ch dealltwriaeth wedi newid ers y cyfweliad diwethaf?
    - Diwygio'r cwricwlwm, Ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu, y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol, rheoli perfformiad, AGA, sefydlu y PDP.
    - [Os yw'n briodol] Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth, y rhaglen CALU.
4. Faint o ymwybyddiaeth o'r Safonau Proffesiynol sydd ymysg yr ymarferwyr yn eich ysgol neu'ch lleoliad?

- Yn eich profiad chi, a oes unrhyw wahaniaethau mewn ymwybyddiaeth ar draws lefelau Uwch Dîm Arwain, arweinydd canol, athro wrth ei waith, ANG a CA/CALU?
- I ba raddau y mae ymarferwyr yn deall goblygiadau'r safonau ar gyfer sgiliau, gwybodaeth ac ymarfer? (A oes unrhyw wahaniaethau ar draws lefelau'r Uwch Dîm Arwain, arweinydd canol, athro wrth ei waith, ANG a CA/CALU?

5. A ydych yn ymwybodol o bwy sydd yn 'berchen' ar neu'n gyfrifol am y safonau ar lefel genedlaethol?
    - A yw pwy sydd yn 'berchen' ar neu'n gyfrifol am y safonau ar lefel genedlaethol yn gwneud gwahaniaeth i ganfyddiadau neu ddefnydd ohonynt yn eich barn chi? Os felly, ym mha ffordd?
    - A fyddai'n gwneud gwahaniaeth i chi petai sefydliad arall yn gyfrifol am y safonau? Os felly, sut?

**Defnydd o'r safonau**

6. [Cyfeirio yn ôl at nodiadau blwyddyn 1 a theilwra'r cwestiynau yn briodol] Sut mae eich ysgol neu'ch lleoliad wedi defnyddio'r Safonau ar lefel strategol? A yw hyn wedi newid ers y cyfweliad diwethaf?
    - Awgrymiadau: cynllunio strategol, dysgu proffesiynol, HMS, Cynlluniau Datblygu Ysgol, cynlluniau adrannol, rheoli perfformiad, polisïau ac arferion ehangach.
7. Sut mae ymarferwyr yn eich ysgol neu'ch lleoliad wedi defnyddio'r Safonau Proffesiynol?
    - Awgrymiadau: llywio dysgu proffesiynol, yn unigol, fel adrannau, cydweithredu - rhwng ysgolion ac ymarferwyr, gofynion statudol, amlder y defnydd, amrywiad yn y defnydd rhwng safonau, defnydd o'i gymharu â safonau blaenorol.
    - A yw ymgysylltiad/defnydd yn amrywio ar draws lefelau Uwch Dîm Arwain, arweinydd canol, athro sy'n gwasanaethu, ANG a CA/CALU? Os felly, sut?
    - Ydych chi'n monitro, neu'n cofnodi, eich cynnydd eich hun yn erbyn y safonau? Os felly, sut?

- A yw cynnydd yn erbyn y Safonau Proffesiynol yn cael ei gofnodi ar lefel ysgol gyfan? Os felly, sut?
- [I fentoriaid sefydlu] Sut ydych chi wedi defnyddio'r Safonau Proffesiynol i fonitro cynnydd ANG?

8. Pa agweddau o’r Safonau (os o gwbl) ydych chi wedi gweld mwyaf perthnasol a defnyddiol i’ch ròl?
9. Sut y mae ymarferwyr wedi defnyddio'r Pasbort Dysgu Proffesiynol yn eich ysgol neu'ch lleoliad? A yw hyn wedi newid dros y flwyddyn ddiwethaf?

    - Awgrymiadau: amlder a maint y defnydd (unrhyw amrywiadau yn y defnydd rhwng Uwch Dîm Arwain/ymarferydd profiadol/ANG?), hygyrchedd a hyblygrwydd y PDP.

**Effeithiolrwydd y defnydd**

10. Pa mor effeithiol yw'r Safonau Proffesiynol o ran:

[Holwch fyfyrwyr AGA, athrawon wrth eu gwaith, ANG, arweinwyr ysgol, CA a CALU]

- Gosod disgwyliadau clir ynghylch ymarfer effeithiol pan fydd ymarferydd yn ymuno â'r proffesiwn ac yn ystod gyrfa ymarferydd?
- Gosod disgwyliadau clir ynghylch ymarfer effeithiol yn ystod gyrfa ymarferydd?
- Darparu ysbrydoliaeth a ffocws ar gyfer gwelliant parhaus?
- Sefydlu fframwaith i osod nodau ac asesu cynnydd ar gyfnodau gyrfa allweddol?
- Annog ymarferwyr i gymryd cyfrifoldeb am eu safonau eu hunain?
- Galluogi ymarferwyr i fyfyrio ar eu hymarfer (yn unigol ac ar y cyd)?
- Cefnogi ymarferwyr i nodi meysydd ar gyfer gweithgareddau dysgu proffesiynol a chefnogi prosesau rheoli perfformiad?
- Pa dystiolaeth sydd ar gael i gefnogi'r uchod?

11. Pa mor effeithiol yw'r Safonau Proffesiynol o ran:

- Cefnogi ysgolion i ddatblygu'r sgiliau ac ymddygiadau sydd eu hangen i wireddu'r cwricwlwm newydd? Sut fyddech chi'n disgrifio'r cyswllt rhwng y Safonau a diwygio'r cwricwlwm?
- Cynorthwyo eich ysgol neu'ch lleoliad (e.e. mentoriaid sefydlu/arweinwyr adrannau/cyfadrannau) i osod nodau, monitro cynnydd a nodi gweithredoedd?
- Cefnogi prosesau gwella eich ysgol neu'ch lleoliad?
- Annog cydweithredu rhwng ysgolion/lleoliadau ac ymarferwyr?
- Cefnogi ysgolion i ddatblygu'r sgiliau a'r mathau o ymddygiad sy'n ofynnol i gyflawni'r cwricwlwm newydd?
- Pa dystiolaeth sydd ar gael i gefnogi'r uchod?

12. Pa ffactorau ac amodau sy'n galluogi ac yn rhwystro defnydd effeithiol o'r Safonau Proffesiynol yn eich ysgol neu'ch lleoliad? A yw hyn wedi newid dros y flwyddyn ddiwethaf?
    - Ffactorau llwyddiant?
    - Heriau? (Sut y gellir goresgyn y rhain?)

**Cymorth**

13. Beth yw eich barn am y cymorth sydd ar gael i chi ddefnyddio'r Safonau Proffesiynol yn eich ysgol neu'ch lleoliad? A yw hyn wedi newid dros y flwyddyn ddiwethaf?
    - Y math o gymorth sydd ar gael?
    - Cymorth ar lefel genedlaethol, lefel rhanbarthol a lefel clwstwr/ysgol (e.e. consortia, Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgu, darparwyr AGA, Uwch Dîm Arwain)
    - Sut y gellid ei wella?
14. Sut ydych chi'n cefnogi ymarferwyr i ddefnyddio'r safonau yn eich ysgol neu'ch lleoliad? A yw hyn wedi newid dros y flwyddyn ddiwethaf?
    - Pa adborth, os o gwbl, ydych chi wedi'i gael ar y cymorth rydych chi'n ei ddarparu?

**Effeithiau disgwyliedig (a'r newidiadau cychwynnol a welwyd)**

15. Pa newidiadau neu ddeilliannau cychwynnol, os o gwbl, ydych chi wedi'u gweld yn eich ysgol neu'ch lleoliad? A yw hyn wedi newid dros y flwyddyn ddiwethaf? Holi ynglŷn â deilliannau i:
    - Ddysgwyr
    - Ymarferwyr (ymarfer addysgu, datblygu gyrfa, llesiant, boddhad swydd) [holwch bob grŵp o ymarferwyr]
    - Gydweithredu a gweithio mewn clwstwr
    - Ysgolion a lleoliadau (arweinyddiaeth, cynllunio strategol, rheoli perfformiad, diwylliant)
    - Y system addysg ehangach (atebolrwydd, arolygu, strwythurau cymorth rhanbarthol a chenedlaethol).
    - Pa dystiolaeth sydd o'r newidiadau neu'r deilliannau hyn?
16. Sut y gallai'r Safonau gael mwy o effaith ar y grwpiau uchod? Pa ffactorau allai ddylanwadu neu lesteirio hyn?
    - [Os nad wedi ei drafod eisoes] A fyddai newid pwy sydd a chyfrifoldeb dros y Safonau wneud gwahaniaeth, yn eich barn chi?

**Canllawiau holi ar gyfer Athrawon, ANG, CA/CALU**

**Cefndir**

1. Rhowch drosolwg o'ch rôl. [Os yn berthnasol] A yw hyn wedi newid ers llynedd?

**Ymwybyddiaeth a gwybodaeth**

2. [Os yn gyfwelai newydd, Oni bai eich bod eisoes wedi cyfeirio at hyn mewn ymateb i Ch1] I ba raddau yr ydych yn ymwybodol o'r Safonau Proffesiynol a'r hyn y maent yn ceisio'i gyflawni? Trafodwch mewn perthynas â'r canlynol:
    - Y pum safon a'r gwerthoedd a'r ymagweddau cyffredinol
    - Pa mor glir a hygyrch yw'r safonau?

- Dealltwriaeth o'r goblygiadau i sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiadau ymarferwyr?
- Sut y maent yn wahanol i safonau blaenorol (os yw'n berthnasol)

3. Sut ydych chi'n cael mynediad at y Safonau Proffesiynol ac yn cael gwybodaeth amdanynt? A yw hyn wedi newid dros y flwyddyn ddiwethaf?
    - HMS ysgol gyfan neu leoliad, adran, consortia, mentor sefydlu
    - PDP, Llwyfan dysgu proffesiynol arall, Adnoddau dysgu proffesiynol yr ysgol.
4. Yn eich barn chi, beth yw'r cysylltiad rhwng y Safonau Proffesiynol a gweithgareddau ac ymyriadau cenedlaethol eraill? A yw eich barn wedi newid dros y flwyddyn ddiwethaf?
    - Diwygio'r cwricwlwm, Ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu, y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol, rheoli perfformiad, AGA, sefydlu, y PDP.
    - [Os yw'n briodol] Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth, y rhaglen CALU.
5. A ydych yn ymwybodol o bwy sydd yn 'berchen' ar neu'n gyfrifol am y safonau ar lefel genedlaethol?
    - A yw pwy sydd yn 'berchen' ar neu'n gyfrifol am y safonau ar lefel genedlaethol yn gwneud gwahaniaeth i ganfyddiadau neu ddefnydd ohonynt yn eich barn chi? Os felly, ym mha ffordd?
    - A fyddai'n gwneud gwahaniaeth i chi petai sefydliad arall yn gyfrifol am y safonau? Os felly, sut?

**Ymgysylltiad**

6. Sut ydych chi wedi defnyddio'r Safonau Proffesiynol?
    - Awgrymiadau: datblygu eich dysgu proffesiynol a'ch ymarfer addysgu eich hun, cefnogi eich ymarfer myfyriol eich hun, gwerthuso eich cynnydd eich hun, cynllunio adrannol ac ymarfer adrannol, rhan o broses rheoli perfformiad yr ysgol neu'r lleoliad hwn, cydweithredu ag ymarferwyr eraill ac ysgolion neu

leoliadau. A oes unrhyw amrywiad yn y defnydd o'r safonau o'i gymharu â safonau blaenorol?

- Ydych chi'n cofnodi'ch cynnydd eich hun yn erbyn y safonau? Sut?
- Ydych chi'n defnyddio'r Safonau Proffesiynol i reoli perfformiad ymarferwyr eraill?
- [I fentoriaid sefydlu] Sut ydych chi wedi defnyddio'r Safonau Proffesiynol i fonitro cynnydd ANG?

7. [Cyfeirio at ymateb llynedd os cyfwelwyd ym mlwyddyn 1] Ydych chi wedi clywed am y Pasbort Dysgu Proffesiynol ac a ydych yn ei ddefnyddio? A yw hyn wedi newid dros y flwyddyn ddiwethaf?
    - Amlder, a maint y defnydd.
    - Dull o gael mynediad ato, h.y. gliniadur, llechen/i-pad, neu ap PDP ar android/i-phone
    - Ydych chi'n ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw weithgaredd penodol? Gosod targedau, cofnodi profiad, cefnogi dilyniant gyrfa, dysgu proffesiynol.
    - Beth yw eich barn ar ba mor hygyrch a hyblyg yw'r PDP i'w ddefnyddio?

**Effeithiolrwydd y defnydd**

8. Pa mor effeithiol yw'r Safonau Proffesiynol o ran:
    - Gosod disgwyliadau clir ynghylch ymarfer effeithiol wrth ymuno â'r proffesiwn (ar gyfer ANG) / drwy gydol eich gyrfa (ar gyfer athrawon sy'n ymarfer, CA a CALU)?
    - Darparu ysbrydoliaeth a ffocws ar gyfer gwelliant parhaus?
    - Sefydlu fframwaith i osod nodau ac asesu eich cynnydd ar gyfnodau gyrfa allweddol?
    - Eich annog i gymryd cyfrifoldeb am eich safonau eich hun?
    - Eich galluogi i fyfyrio ar ymarfer (yn unigol ac ar y cyd)?

- Eich cefnogi i nodi meysydd ar gyfer gweithgareddau dysgu proffesiynol a chefnogi rheoli perfformiad?
- Pa dystiolaeth sydd ar gael i gefnogi'r uchod?

9. Pa mor effeithiol yw'r Safonau Proffesiynol o ran:
    - Eich cefnogi i ddatblygu'r sgiliau a'r ymddygiadau sydd eu hangen i wireddu'r cwricwlwm newydd? Sut fyddech chi yn disgrifio'r cyswllt rhwng y Safonau a diwygio'r cwricwlwm?
    - Eich cefnogi i osod nodau, monitro cynnydd a nodi'r camau sydd eu hangen?
    - Eich cefnogi i wella ymarfer?
    - Eich annog i gydweithredu ag ysgolion/lleoliadau ac ymarferwyr?
    - Pa dystiolaeth sydd ar gael i gefnogi'r uchod?
10. Pa ffactorau ac amodau sy'n eich galluogi a'ch rhwystro i ddefnyddio a chyrraedd y Safonau Proffesiynol? A yw hyn wedi newid dros y flwyddyn ddiwethaf?
    - Ffactorau llwyddiant?
    - Heriau? (Sut y gellir goresgyn y rhain?)

**Cymorth**

11. Beth yw eich barn am y cymorth sydd ar gael i chi er mwyn cyrraedd y Safonau Proffesiynol? A yw'ch barn wedi newid dros y flwyddyn ddiwethaf?
    - Y math o gymorth sydd ar gael? Trafod natur a maint y cymorth a ddarperir gan gyfoedion.
    - Cymorth ar lefel genedlaethol, ranbarthol a chlwstwr/ysgol (e.e. consortia, Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, darparwyr AGA, Uwch Dîm Arwain yr ysgol neu'r lleoliad)
    - Sut y gellid ei wella?
12. Sut ydych chi'n cefnogi eraill i ddefnyddio'r safonau yn eich ysgol neu'ch lleoliad?
    - Pa adborth, os o gwbl, ydych chi wedi'i gael ar y cymorth rydych chi'n ei ddarparu?

**Effeithiau disgwyliedig (a'r newidiadau cychwynnol a welwyd)**

13. Pa newidiadau neu ddeilliannau cychwynnol, os o gwbl, ydych chi wedi'u gweld? A yw hyn wedi newid dros y flwyddyn ddiwethaf? Sbarduno mewn perthynas a deilliannau ar gyfer:

    - Eich ymarfer addysgu, datblygu gyrfa, llesiant, boddhad swydd
    - Dysgwyr
    - Cydweithredu a gweithio mewn clwstwr
    - Ysgolion a lleoliadau (arweinyddiaeth, cynllunio strategol, rheoli perfformiad, diwylliant)
    - Y system addysg ehangach (atebolrwydd, arolygu, strwythurau cefnogaeth rhanbarthol a chenedlaethol)
    - Yn eich ymarfer eich hun ac ymarfer pobl eraill?
    - Pa dystiolaeth sydd o'r newidiadau neu'r deilliannau hyn?

14. Sut y gallai'r Safonau gael mwy o effaith ar yr uchod? Pa ffactorau allai ddylanwadu neu lesteirio hyn?

    - [Os nad wedi ei drafod eisoes] A fyddai newid pwy sydd a chyfrifoldeb dros y Safonau wneud gwahaniaeth, yn eich barn chi?

## Atodiad B: Astudiaethau achos

**Astudiaeth Achos 1: Cymuned Ddysgu Abertyleri, ysgol cyfrwng Saesneg, Blaenau Gwent**
**Thema: Mapio datblygiad y staff yn erbyn y safonau**

**Trosolwg o sut mae'r ysgol yn defnyddio'r safonau**

Cynyddodd y defnydd o'r safonau yn ystod y gwerthusiad, fel rhan o bwyslais ar wella'r ysgol o dan dîm arwain newydd yr ysgol. Ar ôl adolygu sut roedd y safonau'n cael eu defnyddio mewn ysgolion eraill, roedd yr uwch arweinwyr yn mynd ati'n gynyddol i drafod y safonau yng nghyd-destun sicrhau ansawdd, rheoli perfformiad a phrosesau hunanfyfyrio.

**Sut mae'r ysgol wedi ymgysylltu â'r safonau dros gyfnod o amser**

Rhwng blwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn y gwerthusiad, dywedodd yr uwch arweinwyr eu bod nhw a'u staff yn defnyddio'r safonau'n fwy rheolaidd. Un o'r pethau a sbardunodd hyn oedd y ffaith bod yr uwch arweinwyr wedi cofrestru â'r Rhaglen Ddatblygu Genedlaethol ar gyfer Uwch Arweinwyr, sy'n rhoi pwyslais ar y safonau. Credai uwch arweinwyr fod y safonau'n adnodd defnyddiol i gynnal sgyrsiau am reoli perfformiad ac iddynt fwy o ffocws. Roeddent hefyd yn teimlo bod y safonau'n ddefnyddiol o safbwynt arweinyddiaeth, gan eu galluogi i wneud penderfyniadau ynghylch sut i gefnogi'r staff.

> 'Fel Uwch Dîm Arwain, rydyn ni wedi gweld eu gwerth, ac rydyn ni wedi buddsoddi ynddyn nhw i lawr i lefel arweinwyr canol. Mae ein staff yn credu bod diben iddyn nhw, a'u bod nhw'n eu helpu i wneud cynnydd yn eu gyrfaoedd'.
> Uwch arweinydd

Er mwyn gwella dealltwriaeth pobl o'r safonau, trefnodd yr ysgol weminar ynghylch sut i'w defnyddio, gan gynnig syniadau ar gyfer casglu tystiolaeth yn erbyn y safonau. Rhoddwyd hyfforddiant i arweinwyr canol yn yr ysgol hefyd, gan ganolbwyntio ar bwysigrwydd addysgeg effeithiol wrth sbarduno gwelliant.



Wrth hunanwerthuso, yn seiliedig ar y safonau, defnyddir meddalwedd wedi'i theilwra



Mae gweithgaredd datblygu proffesiynol yn mynd ati'n gynyddol i dargedu gwendidau a meysydd o angen

**Defnyddio meddalwedd i'w gwneud hi'n haws mapio cynnydd yn erbyn y safonau**

Roedd ymarferwyr yn defnyddio'r safonau drwy feddalwedd hunanwerthuso (Teaching Continua). Roedd ymarferwyr yn defnyddio'r feddalwedd hon i fapio'u datblygiad yn erbyn y

safonau. Teimlai'r uwch arweinwyr fod hyn yn galluogi'r staff i ddefnyddio'r safonau mewn ffordd hygyrch, sydd wedi arwain at fwy o gyfleoedd i hunanfyfyrio ac yna i drafod eu hymarfer addysgu.

> 'Mae athrawon wedi arfer â'r model sy'n defnyddio Teaching Continua, ac mae'r safonau'n cyd-fynd yn dda â hwnnw. I gyrraedd y lefel werdd [lefel yn yr offeryn], mae'r camau'n glir iawn, fe allwn ni dracio'r cynnydd, ac fe allwn ni hybu gwelliant yn rhwydd. Mae'r staff yn deall y camau ac yn gallu eu rhoi nhw ar waith yn effeithiol. Yn y gorffennol, bu rhywfaint o amwysedd am y camau nesaf.' Uwch arweinydd

Ar ôl cynnal yr hunanasesiad hwn, gofynnwyd i ymarferwyr ddewis tri 'segment' o'r safonau i'w datblygu, sef dau segment addysgeg ac un segment arall. Dewisodd yr ymarferwyr yr elfennau yr oedden nhw eisiau canolbwyntio arnynt, gan fyfyrio ar eu hymarfer ac uwchlwytho unrhyw enghreifftiau o weithgareddau dysgu proffesiynol yn y meysydd hyn a myfyrio am yr effaith ar eu hymarfer.

Teimlai'r uwch arweinwyr fod defnyddio'r math hwn o offeryn hunanwerthuso wedi helpu'r staff i ganfod meysydd i'w datblygu ac i fyfyrio ar y cynnydd yr oeddent yn ei wneud. Dywedodd yr ymarferwyr eu bod wedi defnyddio lliwiau mewn 'olwyn' gynnydd a oedd yn cyfateb i'r tri disgrifiad o lefelau'r safonau. Roedd yr ysgol wedi rhannu'r rhain ymhellach i gynnwys lefelau 'dros dro', h.y. 5 o lefelau i gyd. Teimlai'r uwch arweinwyr fod y bwlch rhwng y disgwyliadau ar gyfer athrawon newydd gymhwyso ac athrawon yn rhy eang a bod cael camau ychwanegol rhwng y rhain wedi bod yn ddefnyddiol.

> 'Mae fformat Teaching Continua wedi rhoi hwb mawr i ddatblygiad y staff – gan ddangos yn fanwl y camau nesaf y mae angen eu cymryd i wneud cynnydd. Mae'r camau cynnydd bach yn fwy amlwg – mae'r cymorth sydd ei angen yn cael ei ddisgrifio'n glir – ac mae fformat Continua yn hynod o ddefnyddiol ac yn hawdd ei ddefnyddio. Uwch arweinydd

**Sicrhau bod amser yn cael ei neilltuo i ddefnyddio'r safonau**

Yn ogystal â defnyddio'r offeryn hunanwerthuso hwn, pwysleisiodd yr uwch arweinwyr hefyd bwysigrwydd neilltuo amser yn yr amserlen i sicrhau bod staff yn hunanfyfyrio. Bydd ymarferwyr yn asesu eu hunain yn erbyn y safonau deirgwaith y flwyddyn, ond mae'r offeryn hunanwerthuso hefyd yn ddogfen 'fyw' y gallant ei defnyddio'n rheolaidd. Mae'r ysgol hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd trafodaethau 'organig' rhwng ymarferwyr a rheolwyr llinell ar sail canlyniadau'r gwaith hunanwerthuso, gan ganolbwyntio ar adrannau penodol

yn y safonau. Yn y cyfarfodydd hyn, bydd y staff yn myfyrio gyda'r uwch arweinwyr ar eu cynnydd, yn pennu camau gweithredu, ac yn neilltuo amser i fynd i'r afael â'r rhain. I hwyluso hyn, gall mwy nag un unigolyn weld hunanwerthusiadau'r ymarferwyr, a gall pennaeth pob adran adolygu cynnydd ei dîm.

> 'Mae amser wedi'i neilltuo'n glir yn ein calendr i'r staff hunanwerthuso. Gan fod yr amser wedi'i neilltuo'n benodol, mae'r staff yn sicrhau eu bod yn defnyddio'r offeryn. O ganlyniad, rydym yn rhoi cymorth i'r staff ac yn ymateb i'r hyn maen nhw'n ei ddweud. Mae'r uwch arweinwyr a'r arweinwyr canol yn yr ysgol yn hybu'r defnydd o'r offeryn hunanwerthuso.' Uwch arweinydd

**Yr effaith a'r camau nesaf**

Mae'r safonau wedi rhoi fframwaith i'r ysgol ar gyfer rheoli perfformiad, hunanfyfyrio a chanfod meysydd lle mae angen mwy o gymorth ar bobl. Roedd modd i'r staff siarad yn hyderus am sut roedden nhw wedi defnyddio'r offeryn hunanwerthuso a sut roedd aelodau adrannau wedi cael hyfforddiant a chymorth. Mae modd i'r ymarferwyr adolygu eu 'holwynion lliw' hunanwerthuso blaenorol er mwyn gweld eu cynnydd dros gyfnod o amser. Mae'r ysgol hefyd yn gallu cyfuno data unigolion ac edrych ar gynnydd ar lefel cyfnodau neu adrannau.

> 'Mae'r dystiolaeth yn cael ei huwchlwytho, mae'n meithrin hyder y staff wrth iddyn nhw weld eu cynnydd eu hunain – a hynny mewn ffordd weledol [drwy'r olwyn liwiau], yn hytrach na dim ond gweld rhestr o bethau i weithio arnyn nhw.' Uwch arweinydd

Dywedodd yr uwch arweinwyr fod cynnydd wedi'i weld yn erbyn y safonau yn yr ysgol, ond mae'r ysgol yn teimlo ei bod hi'n dal i geisio 'dal i fyny' ar ôl colli amser o ganlyniad i'r pandemig. Felly, er bod yr uwch arweinwyr yn dweud eu bod nhw'n gweld cynnydd bob blwyddyn, mae'n anodd priodoli effeithiau penodol i'r safonau.

> 'Mae gwell addysgu yn cyfateb i well deilliannau i ddisgyblion, ond fyddwn ni ddim yn gweld yr effaith lawn tan y byddwn ni wedi 'dal i fyny' [ar ôl y pandemig], er bod ein data yn dangos ein bod ni'n gweld cynnydd o flwyddyn i flwyddyn.' Uwch arweinydd

Roedd yr uwch arweinwyr yn teimlo y byddai rhagor o weithgarwch ar lefel genedlaethol i godi proffil y safonau a'u perthnasedd i raglenni a gweithgareddau eraill yn ddefnyddiol.

| Astudiaeth Achos 2: Christ Church, Ysgol Gynradd Gymunedol cyfrwng Saesneg, Sir Ddinbych<br>Thema: Uwch arweinwyr yn defnyddio'r safonau mewn ffordd gyfannol mewn prosesau adolygu perfformiad |
|---|
| **Trosolwg o sut mae'r ysgol yn defnyddio'r safonau** |
| Cyflwynodd yr uwch arweinwyr y safonau i'r staff pan gawsant eu cyhoeddi, ac maent wedi cael eu defnyddio mewn ffordd gyfannol fel rhan o'r trefniadau rheoli perfformiad. Mae rhai ymarferwyr wedi defnyddio'r safonau yn ystod eu gweithgareddau dysgu proffesiynol. Mae'r ysgol yn teimlo mai newydd ddechrau defnyddio'r safonau y mae hi, a chyfeiriwyd at sut tarfodd y pandemig ar bethau ac arafu'r cynnydd wrth eu defnyddio. Mae mwy o uwch arweinwyr ac arweinwyr canol nag o ymarferwyr yn ymwybodol o'r safonau ac yn eu defnyddio. |
| **Sut mae'r ysgol wedi ymgysylltu â'r safonau dros gyfnod o amser** |
| Mae ymwybyddiaeth o'r safonau'n amrywio ymhlith y staff. Teimlai'r uwch arweinwyr eu bod wedi datblygu dealltwriaeth fanwl o'r safonau drwy gymryd rhan mewn sesiynau i'w hyrwyddo a gynhaliwyd gan y consortiwm rhanbarthol. Teimlai'r uwch arweinwyr fod y safonau'n rhoi fframwaith pwysig i ddatblygu'r math o athro yr oedd yr ysgol yn awyddus i'w weld h.y. ymarferwyr a oedd yn myfyrio am wella'n broffesiynol ac yn ymrwymedig i hynny. Roedd teimlad bod arweinwyr canol hefyd yn deall y safonau'n dda, a hynny'n rhannol yn sgil gofyniad i ddangos sut yr oeddent yn defnyddio'r safonau yn yr ysgol yn ystod gweithgaredd Dysgu Proffesiynol i Arweinwyr Canol.<br><br>Dywedwyd bod yr athrawon yn ymwybodol o'r safonau ac o sut yr oeddent yn berthnasol i'w gyrfaoedd, ac roedd hyn yn arbennig o wir ymhlith mentoriaid ANG a oedd yn defnyddio'r safonau i helpu ANG a myfyrwyr AGA.  Roedd gwybodaeth am y safonau wedi'i rhoi i Gynorthwywyr Addysgu hefyd, er bod teimlad nad oeddent nhw o bosibl yn credu bod y safonau mor berthnasol iddyn nhw.<br><br>**Rheoli perfformiad**<br><br>Dywedodd yr uwch arweinwyr fod y safonau wedi bod o gymorth i gynnal trafodaethau am Reoli Perfformiad. Mae'r ysgol yn defnyddio dogfennau rheoli perfformiad sy'n cynnwys targedau i staff, a'r rheini'n gysylltiedig â'r safonau. Teimlai'r uwch arweinwyr fod y safonau'n ddefnyddiol er mwyn cael rhywbeth i gyfeirio ato.<br><br>'Mae'r safonau'n egluro mewn un lle beth sy'n ddisgwyliedig ohonoch chi yn eich swydd. Rwy'n  gwybod ei bod hi'n ddogfen y galla' i edrych arni os bydd angen i mi drafod mater neu ddatblygu cynllun gweithredu i reoli perfformiad.' Uwch arweinydd<br><br>Ar wahân i'w defnyddio mewn trafodaethau am reoli perfformiad, teimlwyd na fu cynnydd sylweddol yn y defnydd o'r safonau ers eu cyflwyno i ymarferwyr. Nid oedd staff yn cofnodi cynnydd |

yn erbyn y safonau'n rheolaidd, ac nid oedd y safonau'n cael eu hystyried yn un o brif ysgogwyr Cynllun Datblygu'r Ysgol. Mae'r ysgol yn mynd ati ei hun i dracio gweithgareddau dysgu proffesiynol ei hymarferwyr, a dywedwyd nad oedd y staff yn defnyddio'r Pasbort Dysgu Proffesiynol.

### Myfyrio ar y defnydd o'r safonau

Ystyriai'r uwch arweinwyr fod y safonau'n eithaf cyffredinol eu natur, ond roeddent yn hoffi manylion gwahanol agweddau ar y safonau, gan deimlo bod y rheini'n ddefnyddiol pan oedd yr uwch arweinwyr yn ceisio cefnogi staff mewn maes penodol. Roedd y rhai a gyfwelwyd yn teimlo ei bod hi'n ddefnyddiol bod y safonau wedi'u rhannu'n adrannau ar gyfer staff ar wahanol lefelau.

Teimlai'r staff mai prin fu'r cymorth a'r hyfforddiant ynghylch sut dylent ddefnyddio'r safonau. Roedd yr ysgol hefyd yn teimlo bod blaenoriaethau eraill, fel ei hymateb i'r pandemig a'r broses o ddylunio cwricwlwm yr ysgol, wedi cyfyngu'r amser a oedd ar gael i ddefnyddio'r safonau. Yn gyffredinol, teimlai'r staff fod iaith y safonau'n cyd-fynd yn dda â'r Cwricwlwm i Gymru, ond nid oeddent wedi cael amser i ystyried hyn yn fanwl eto.

### Yr effaith a'r camau nesaf

Roedd teimlad bod y safonau wedi rhoi fframwaith i'r ysgol ar gyfer ystyried datblygiad proffesiynol ymarferwyr mewn ffordd gyfannol. Roedd teimlad eu bod yn arbennig o ddefnyddiol i uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac i'r rhai a oedd yn mentora ANG a myfyrwyr AGA. Teimlir bod y safonau hefyd yn ddefnyddiol i helpu ymarferwyr i fyfyrio am eu datblygiad proffesiynol eu hunain, ac i berchnogi hynny, yn hytrach na gorddibynnu ar uwch arweinwyr i yrru'r broses hon yn ei blaen.

> 'Rwy'n hoffi'r elfen sy'n rhoi'r cyfrifoldeb arnyn nhw. Yn hanesyddol, yr Uwch Dîm Arwain fyddai'n penderfynu ar yr hyfforddiant a fyddai'n cael ei roi. Dros nos, [mae'r safonau] yn rhoi'r cyfrifoldeb am ddatblygiad proffesiynol parhaus ar ysgwyddau'r aelodau o staff eu hunain, felly [mae'r safonau] wedi cael effaith ar broffesiynoldeb.' Uwch Arweinydd

Teimlai'r uwch arweinwyr mai megis dechrau defnyddio'r safonau y mae'r ysgol, ac nid oedd hyd yma wedi gweld unrhyw effaith fesuradwy yn sgil eu defnyddio. Serch hynny, mae ymarferwyr yn teimlo'u bod nhw'n ddefnyddiol i gynyddu eu hymwybyddiaeth o'r hyn sy'n ddisgwyliedig o ran eu swyddi a'u cyfrifoldebau eu hunain. Mae'r ysgol yn bwriadu parhau i'w defnyddio fel rhan o'i phrosesau rheoli perfformiad, ac mae'n disgwyl gweld mwy o gysylltiadau rhwng y safonau a'r Cwricwlwm i Gymru wrth i hwnnw gael ei gyflwyno.

**Astudiaeth Achos 3: Ysgol Llanfaes, Ysgol Gynradd cyfrwng Saesneg, Powys**
**Thema: Ymgorfforiʼr Safonau yn arferion yr ysgol gyfan**

**Trosolwg o sut maeʼr ysgol yn defnyddioʼr safonau**

Maeʼr safonau wediʼu hymgorffori yn arferion yr ysgol gyfan ac yn cael eu mabwysiadu gan holl ymarferwyr yr ysgol fel rhan oʼu gweithgareddau dysgu proffesiynol. Maeʼr safonauʼn cyd-fynd yn dda â chynllun datblyguʼr ysgol ac yn cael eu defnyddio fel sail i ddulliau adolygu proffesiynol.

**Sut maeʼr ysgol wedi ymgysylltu âʼr safonau dros gyfnod o amser**

Maeʼr uwch arweinwyr wedi cyflwynoʼr safonau iʼr holl ymarferwyr ac iʼr llywodraethwyr fel adnodd cadarnhaol i hybu datblygiad proffesiynol. Ceir ymwybyddiaeth a defnydd da iawn oʼr safonau ymhlith yr holl ymarferwyr fel offeryn ar gyfer datblygiad personol, gan gynnwys ymhlith yr uwch arweinwyr, yr athrawon aʼr staff cymorth dysgu. Mae ymarferwyr iau, yn enwedig y rhai sydd wedi cwblhau eu cyfnodau sefydluʼn fwy diweddar, wedi bod yn defnyddioʼr safonauʼn llawn. Un oʼr anawsterau wrth ddefnyddioʼr safonau fu deall y derminoleg, ac maeʼr ymarferwyr yn teimlo bod y safon ʻarloesiʼ yn fwy anodd ei deall. Mae tuedd iʼr staff cymorth dysgu ei chael hiʼn fwy anodd defnyddioʼr safonau nag ymarferwyr oherwydd y derminoleg anghyfarwydd, eu natur eang, aʼr ddibyniaeth ar gyrsiau fel eu prif ddull dysgu proffesiynol.

ʻMae pawb yn mabwysiaduʼr safonau ... mae pawb yn canuʼr un dôn. Maeʼn rhoi gwerth ar bawb.ʼ Uwch arweinydd

Maeʼr safonauʼn cael eu defnyddio mewn tri phrif faes yn yr ysgol: cynllun datblyguʼr ysgol, adolygu proffesiynol a dysgu proffesiynol.

Maeʼr safonauʼn sail i ddulliau adolygu proffesiynol

Mae cynllun datblyguʼr ysgol yn cyd-fynd âʼr safonau

Bydd ymarferwyr yn hunanwerthuso yn erbyn y safonau i ganfod meysydd iʼw datblygu

Mae adolygiadauʼr staff wediʼu strwythuro o amgylch y safonau

**Cynllun datblyguʼr ysgol**
Mae cynllun datblyguʼr ysgol yn cael ei gyd-gynhyrchu gan gymuned gyfan yr ysgol, gan gynnwys y disgyblion, rhieni, llywodraethwyr ac ymarferwyr, ac maeʼn dangos y meysydd iʼw datblygu nesaf syʼn flaenoriaeth. Maeʼr meysydd blaenoriaeth hyn yn helpu i lywio a rhoi sail i weithgareddau dysgu proffesiynol ymarferwyr unigol. Mae gofyn i ymarferwyr ganfod un maes dysgu proffesiynol syʼn cyd-fynd â blaenoriaethau cynllun datblyguʼr ysgol, yn ogystal â dau faes arall syʼn canolbwyntio ar ddatblygiad personol a datblygiad proffesiynol parhaus.

> ‘Mae’r safonau yn bwydo i mewn i Gynllun Datblygu’r Ysgol ac i’r gwrthwyneb .... mae Cynllun Datblygu’r Ysgol yn rhoi sail i’r blaenoriaethau ar gyfer dysgu proffesiynol’ (Athro)

**Adolygiadau proffesiynol**

Mae trafodaethau’n ymwneud ag adolygiadau proffesiynol yn yr ysgol yn seiliedig ar y safonau ac mae’r gwaith papur sy’n gysylltiedig â rheoli perfformiad wedi’i addasu i adlewyrchu’r safonau hyn. Mae trafodaethau am reoli perfformiad yn cael eu cynnal bob tymor. Y sesiwn adolygu gychwynnol yw’r gyntaf o’r trafodaethau hyn, gyda’r holl drafodaethau wedi’u strwythuro o amgylch y pum safon broffesiynol. Y prif newid a brofwyd yn yr ysgol yw bod y trafodaethau’n ymwneud ag adolygiadau proffesiynol bellach yn ‘fwy manwl, yn cynnwys mwy o ffocws, ac yn fwy ystyrlon’ a bod ymarferwyr yn ‘myfyrio llawer mwy ynghylch ble maen nhw wedi’i gyrraedd’ nag o’r blaen (uwch arweinydd). Mae gofyn i ymarferwyr lenwi hunanasesiad yn erbyn y safonau cyn cynnal y drafodaeth am reoli perfformiad, ac maent yn cael eu hannog i osod eu targedau eu hunain a meysydd ar gyfer dysgu proffesiynol yn y dyfodol. Nid yw rheoli perfformiad bellach yn cael ei ystyried yn ‘rhywbeth sy’n cael ei wneud i bobl’. Un wers a ddysgwyd oedd bod rhai ymarferwyr yn gosod gormod o dargedau iddyn nhw eu hunain yn erbyn y safonau, ac mae’r trafodaethau am reoli perfformiad wedi canolbwyntio ar leihau nifer y targedau er mwyn creu cyfres o uchelgeisiau sy’n haws eu rheoli.

> ‘Gan fod y safonau’n cynnig fframwaith mor glir, mae’r cyfarfodydd eu hunain yn dda iawn.’ (Uwch arweinydd)

**Dysgu proffesiynol**

Ers cyflwyno’r safonau, mae’r ymarferwyr wedi mynd ati’n gynyddol i groesawu’r cyfleoedd dysgu proffesiynol, ac mae angen llai o gyfarwyddyd ac arweiniad arnynt ar gyfer dysgu proffesiynol nag o’r blaen.  Mae’r ymarferwyr yn teimlo bod ganddynt fwy o allu i drefnu eu gweithgareddau dysgu proffesiynol eu hunain, ac maent yn annog eu cydweithwyr i gymryd rhan mewn cyfleoedd o’r fath. Nid yw gweithgareddau dysgu proffesiynol bellach wedi’i gyfyngu i gyrsiau sydd wedi’u trefnu. Yn hytrach, bydd ymarferwyr yn chwilio am wybodaeth a ffynonellau tystiolaeth eraill, fel gwaith ymchwil neu weminarau. Mae diwrnodau HMS yn cael eu defnyddio i edrych ar gyfleoedd ymchwil unigol ac i gyd-gynhyrchu Cynllun Datblygu’r Ysgol, yn hytrach nag i gynnal cyrsiau sydd wedi’u trefnu ymlaen llaw. Mae’r safonau wedi rhoi mwy o eglurder i ymarferwyr ynghylch y meysydd dysgu proffesiynol y mae angen canolbwyntio arnynt, gan ysgogi mwy o drafodaethau proffesiynol drwy’r ysgol.

> ‘Bum mlynedd yn ôl, byddwn i wedi bod yn rhannu dolenni i gyrsiau ... ond maen nhw wedi gwir ddeall [yn ystod y cyfnod clo] eu bod nhw’n gyfrifol am eu gweithgareddau dysgu proffesiynol eu hunain’ (Uwch arweinydd)

**Yr effaith a’r camau nesaf**

Ceir mwy o ddysgu wedi’i hunanysgogi ac mae’r trafodaethau proffesiynol rhwng yr holl ymarferwyr yn ddyfnach. Mae hyn wedi arwain at fwy o gydweithio rhwng timau addysgu. Mae’r ddeialog broffesiynol rhwng ymarferwyr yn cael ei chynnal ar sail reolaidd, anffurfiol. Mae staff cymorth yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ‘i’r un graddau ag athrawon’, yn enwedig gan fod y safonau wedi’u helpu i sylweddoli eu bod yn ‘gwneud y peth iawn’. Mae’r staff wedi parhau i fyfyrio am addysgeg, ac am sut y gall hyn gyd-fynd yn well â’r broses o gyflwyno’r Cwricwlwm i Gymru.

| **Astudiaeth Achos 4: Ysgol Pendalar, Ysgol Arbennig, Gwynedd**<br>**Thema: Sut mae uwch arweinwyr yn defnyddio'r safonau i gynllunio dysgu proffesiynol yr ysgol gyfan** |
|---|
| **Trosolwg o sut mae'r ysgol yn defnyddio'r safonau** |
| Cynyddodd defnydd yr ysgol o'r safonau rhwng blwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn y gwerthusiad. Ysgogwyd hyn yn rhannol gan y ffaith bod un uwch arweinydd wedi defnyddio'r safonau fel rhan o'r Rhaglen Ddatblygu Genedlaethol i Uwch Arweinwyr, a ddarparwyd gan y consortiwm rhanbarthol. Mae'r defnydd o'r safonau yn yr ysgol yn canolbwyntio'n gyffredinol ar waith cynllunio ysgol gyfan ar lefel strategol, ac yn enwedig yng nghyd-destun dysgu proffesiynol a datblygu cwricwlwm newydd yr ysgol. |
| **Sut mae'r ysgol wedi ymgysylltu â'r safonau dros gyfnod o amser** |
| Mae un uwch arweinydd yn yr ysgol wedi cymryd rhan yn y Rhaglen Ddatblygu Genedlaethol i Uwch Arweinwyr, a thrwy hynny mae ganddo fwy o ymwybyddiaeth o'r safonau. Fel rhan o'r rhaglen, cwblhaodd yr uwch arweinydd hwn dasg profiad arwain ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru (a olygai lunio gweledigaeth, gwerthoedd, datblygu llinell sylfaen, a gwerthusiad), gan gyfeirio at y safonau fel rhan o'r broses hon.<br><br>'Fe wnaethon ni fapio pob rhan o'r dasg [fel rhan o'r RhDUA] yn erbyn y safonau. Roedd hon yn broses ddefnyddiol, oherwydd doeddwn i ddim wedi defnyddio'r safonau yn y gwaith o'r blaen – mae'r gwaith cynllunio ac asesu mor brysur; dydy'r safonau ddim wedi bod yn rhan amlwg o fy swydd.' Uwch arweinydd<br><br>Drwy gael mwy o ymwybyddiaeth o'r safonau ers cymryd rhan yn y Rhaglen Ddatblygu Genedlaethol, mae'r uwch arweinydd wedi gallu ystyried y safonau wrth gynllunio dysgu proffesiynol drwy'r ysgol. Mae hyn wedi cynnwys ystyried sut mae'r gweithgareddau dysgu proffesiynol yn gysylltiedig â phob un o'r safonau, gan roi fframwaith i uwch arweinwyr ar gyfer cynllunio'r gweithgaredd hwn. Er nad yw'r cysylltiad â'r safonau'n cael ei esbonio'n uniongyrchol i'r ymarferwyr yn ystod eu cyfleoedd dysgu proffesiynol ar hyn o bryd, mae wedi rhoi mwy o sicrwydd a hyder i'r uwch arweinwyr wrth gynllunio'r dysgu proffesiynol hwn.<br><br>'Dyw hi ddim wastad yn amlwg i'r staff eu bod nhw'n mapio'r hyn maen nhw'n ei wneud yn erbyn y safonau – fi sy'n gwneud y gwaith mapio. Rwy'n teimlo ei fod yn ddefnyddiol wrth gynllunio gweithgaredd datblygu proffesiynol.' Uwch arweinydd |

| | |
|---|---|
| Mae'r uwch arweinwyr yn ymwybodol o'r cysylltiad rhwng gweithgareddau dysgu proffesiynol a'r safonau | Mae'r Safonau Proffesiynol yn cael eu nodi a'u defnyddio wrth ddatblygu'r cwricwlwm newydd |

Nid yw'r uwch arweinwyr a gafodd eu cyfweld yn defnyddio'r Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) gan nad yw'n glir iddynt beth yw manteision hynny na sut i'w ddefnyddio, ac nid oes fyth amser i roi blaenoriaeth iddo. Yn eu tro, nid oes gofyn i'r athrawon (ac eithrio ANG) yn yr ysgol ddefnyddio'r PDP. Gellir ystyried hyn yng nghyd-destun ehangach defnyddio'r safonau'n bennaf fel sail a chymorth i brosesau datblygu'r ysgol gyfan (fel gwaith datblygu'r cwricwlwm neu gynllunio dysgu proffesiynol). Nid yw'r ffurflen rheoli perfformiad sy'n cael ei defnyddio gan amlaf gan yr awdurdod lleol yn cyfeirio at y safonau ychwaith, ond mae'r ysgol wedi mynd i'r afael â hyn yn ddiweddar drwy ddatblygu ei thempled ei hun er mwyn hybu trafodaethau am y safonau. Yn ystod y pandemig, teimlai'r uwch arweinwyr nad oedd pwyslais ar ymgorffori'r safonau mewn prosesau rheoli perfformiad, wrth i weithgareddau eraill gael eu blaenoriaethu. Pwysleisiodd yr uwch arweinwyr mai eu blaenoriaethau oedd lles y dysgwyr a'r staff, ac ystyriwyd bod cadw staff yn flaenoriaeth o bwys.

'Dydy hwn ddim yn gyfnod normal i fod yn gweithio ynddo. Mae yna dasgau sy'n cystadlu â'i gilydd, fel cadw ystafelloedd dosbarth ar agor a lefelau staffio. Mae'n anodd cyflwyno'r safonau i'r drafodaeth – mae'r staff yn teimlo'n weddol negyddol am hyn ar hyn o bryd, oherwydd eu bod nhw dan straen. Dydy hon ddim yn sgwrs hawdd. Rydyn ni'n canolbwyntio mwy ar lefelau lles na'r safonau – rydyn ni'n ceisio amddiffyn ein staff yn hytrach na chyflwyno heriau penodol sy'n gysylltiedig â'r safonau.' Uwch arweinydd

Nid yw'r ysgol yn defnyddio meddalwedd i greu cysylltiad ffurfiol rhwng y safonau proffesiynol a rheoli perfformiad. Dywed yr uwch arweinwyr y gall y feddalwedd adnoddau dynol sydd ei hangen arnynt i wneud hyn fod yn ddrud, ac yn aml ni fydd ar gael yn Gymraeg.

**Yr effaith**

Roedd effaith y safonau'n glir ar lefel yr uwch arweinwyr, ac roedd cymryd rhan yn y Rhaglen Ddatblygu Genedlaethol wedi rhoi hwb i hyder pobl wrth gynllunio gweithgareddau dysgu proffesiynol yn yr ysgol. Gobaith uwch arweinwyr oedd y byddai hyn yn treiddio i'r staff drwy gymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu proffesiynol a thrwy gyfrannu at ddatblygu'r cwricwlwm, er nad oedd y cysylltiadau â'r safonau'n cael eu hegluro'n uniongyrchol. Teimlai'r uwch arweinwyr ei bod hi'n rhy gynnar i weld yr effeithiau ar staff a dysgwyr, ond y gobaith oedd y byddai'r safonau yn 'helpu'r staff i weld y cysylltiadau rhwng eu datblygiad a fframwaith cenedlaethol o safonau'.

| **Y camau nesaf** |
| --- |
| Y cam nesaf i'r ysgol oedd codi proffil y safonau ymhlith y staff a'u hannog i ddefnyddio'r safonau mewn ffordd uniongyrchol ac unigol, a hynny gan gynorthwyo'r staff drwy'r templed rheoli perfformiad newydd. Dywedodd y pennaeth y byddai mwy o sesiynau hyfforddi allanol am y Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) yn ddefnyddiol i annog ymarferwyr i ddefnyddio'r safonau, yn ogystal ag i sicrhau bod cysylltiadau cryf rhwng yr hyfforddiant sy'n cael ei roi gan y consortiwm addysg rhanbarthol ynghylch y PDP ar y naill law a'r safonau proffesiynol ar y llall, ond mewn ffordd fwy hygyrch. At hynny, pwysleisiodd y pennaeth bwysigrwydd ei gwneud hi mor hawdd â phosibl i'r staff addysgu a'r staff cymorth ddefnyddio'r safonau, drwy eu hintegreiddio â'r PDP ar Hwb, er enghraifft. <br><br> 'Mae'r staff yn aml yn dweud bod y safonau'n rhy anodd neu'n rhy gymhleth – tybed a oes ffordd fwy difyr o ddefnyddio'r safonau, sy'n fwy ystyriol o'r defnyddwyr? Mae hi'n ddogfen fawr, fel llawer o'r dogfennau eraill y mae'n rhaid i ni eu defnyddio. Gall hyn wangalonni pobl. Byddai'n wych pe gallen nhw gael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n rhwyddach i'w deall neu ffordd fwy hygyrch'. Uwch arweinydd |

**Astudiaeth Achos 5: Ysgol Bro'r Preseli, Ysgol 3-19 cyfrwng Cymraeg, Sir Benfro**
**Thema: Defnyddio'r safonau i hunanwerthuso ac adolygu perfformiad**

**Trosolwg o sut mae'r ysgol yn defnyddio'r safonau**

Mae'r safonau'n rhoi sylfaen i ddull yr ysgol o hunanwerthuso ac adolygu perfformiad, ac maen nhw'n cael eu defnyddio yn sail i ddatblygu proffesiynol a dysgu.

**Sut mae'r ysgol wedi ymgysylltu â'r safonau dros gyfnod o amser**

Mae'r safonau wedi cael eu mabwysiadu yn rhan o ddull yr ysgol o reoli perfformiad y staff addysgu, ac mae ymwybyddiaeth dda o'r safonau ymhlith yr ymarferwyr, er nad yw'r staff cymorth wedi dechrau eu defnyddio eto.

Mae'r ysgol yn defnyddio'r safonau ar gyfer hunanwerthusiadau athrawon, adolygu perfformiad a datblygiad proffesiynol.

Wrth hunanwerthuso, sy'n seiliedig ar y safonau, defnyddir meddalwedd wedi'i theilwra

Mae'r feddalwedd hunanwerthuso yn canfod blaenoriaethau ac anghenion unigolion, adrannau a'r ysgol

Bydd ymarferwyr yn hunanwerthuso yn erbyn y safonau i ganfod meysydd i'w datblygu

Mae cyfleoedd datblygu proffesiynol yn mynd ati'n gynyddol i dargedu gwendidau a meysydd o angen

**Hunanwerthuso**
Cydweithiodd yr ysgol â chwmni allanol, Xlence, i ddatblygu pecyn meddalwedd unigryw y gallai'r athrawon ei ddefnyddio i hunanwerthuso yn erbyn y Safonau newydd. Roedd hyn yn golygu datblygu diffiniadau manylach ar gyfer pob cam ar hyd y continwwm ar gyfer pob safon, gan fod teimlad ei bod hi'n anodd i'r ymarferwyr hunanwerthuso yn erbyn y meini prawf a ddarparwyd. Mae disgwyl i'r staff addysgu hunanasesu eu perfformiad yn erbyn bob un o'r safonau cyn yr adolygiad o'u perfformiad, a hynny gan ddefnyddio meddalwedd Xlence. Bydd yr ymarferwyr yn rhoi sgôr iddyn nhw eu hunain (rhwng 1 a 6) er mwyn barnu i ba raddau y maent yn teimlo eu bod yn cyflawni pob diffiniad, a bydd y feddalwedd yn creu diagram pry-cop gweledol, sy'n helpu i ddangos y cryfderau a'r gwendidau o dan bob un o'r safonau.

Mae'r staff yn teimlo bod Xlence yn offeryn hawdd a hwylus i'w ddefnyddio at ddibenion hunanwerthuso, ac maent yn arbennig o hoff o'r gallu i dracio'n flynyddol sy'n golygu bod modd iddynt fonitro cynnydd o'r naill flwyddyn i'r llall.

'Mae'r prociau [y diffiniadau ychwanegol] yn rhoi gwell dealltwriaeth o lawer i mi... maen nhw'n fy helpu i ganfod fy ngwendidau'. (Athro)

‘Heb hyn, fe fyddwn i’n ei chael hi’n anodd tracio ble rydw i ar y sbectrwm o dan y pum safon’ (Athro)

Mae modd dadansoddi’r data sy’n cael eu creu drwy’r hunanwerthusiadau ar lefel ymarferwyr unigol, adrannau a’r ysgol, ac mae hynny’n galluogi’r ysgol i ganfod y blaenoriaethau a’r anghenion ar gyfer dysgu proffesiynol ar y gwahanol lefelau hyn. Mae hi hefyd yn bosibl monitro newidiadau o’r naill flwyddyn i’r llall, gan dracio cynnydd.

**Adolygu perfformiad**

Yn ystod cyfarfodydd adolygu perfformiad, bydd yr ymarferwyr yn defnyddio canfyddiadau’r hunanwerthusiad i drafod targedau ac amcanion blynyddol ac i gytuno ar y rheini. Mae gofyn i’r ymarferwyr osod tri tharged, gydag un o’r rhain yn deillio o’r broses hunanwerthuso. Teimlai ymarferwyr fod y broses yn ddefnyddiol i athrawon sy’n ystyried dyfodol eu gyrfaoedd a’r camau nesaf, gan ei bod yn ddefnyddiol i ddangos y camau nesaf y mae angen iddynt eu cymryd.

**Datblygiad proffesiynol**

Ar ôl gwneud ymarfer hunanwerthuso cadarnach sy’n rhoi mwy o wybodaeth, mae’r staff addysgu yn mynd ati’n gynyddol i osod amcanion ar gyfer eu datblygiad proffesiynol sy’n canolbwyntio ar eu gwendidau a meysydd y mae angen iddynt eu datblygu. Mae’r dull newydd o weithio hefyd yn helpu i ganfod blaenoriaethau ar gyfer datblygu ar lefel yr ysgol, a thros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae’r broses hunanwerthuso wedi dangos mai arloesi ac arweinyddiaeth yw’r ddwy Safon y mae angen eu hybu a rhoi mwy o amlygrwydd iddynt ar lefel yr ysgol. Mae’r canfyddiadau hyn yn helpu i lywio’r rhaglenni blynyddol ar gyfer dysgu a hyfforddiant mewn swydd.

‘O’r blaen, byddai’r staff yn gosod targedau iddyn nhw’u hunain mewn meysydd roedden nhw’n eu mwynhau... yn hytrach nag yn seiliedig ar eu gwendidau’. (Uwch arweinydd)

**Yr effaith a’r camau nesaf**

Mae cyflwyno Xlence fel offeryn hunanwerthuso wedi golygu bod y staff yn deall y safonau unigol yn well. Mae’r safonau’n gwbl allweddol wrth osod amcanion yr athrawon ar gyfer eu datblygiad proffesiynol yn y flwyddyn sydd i ddod. Mae’r safonau’n rhoi fframwaith cadarn i athrawon ar gyfer canfod eu cryfderau a’u gwendidau.

Mae cyfle i ymgorffori’r safonau ymhellach drwy’r ysgol i sicrhau eu bod yn cael eu hystyried ar sail barhaus, ac nid fel ymarfer untro yn ystod tymor yr hydref fel rhan o’r broses o hunanwerthuso ac adolygu perfformiad. Mae cyfle hefyd i helpu staff i ddefnyddio’r safonau fel rhan o’r broses o reoli eu perfformiad a’u datblygiad proffesiynol.

**Astudiaeth Achos 6: Ysgol Gymunedol Tonyrefail, ysgol 3-18 cyfrwng Saesneg, Rhondda Cynon Taf**
**Thema: Ymgorffori'r safonau yn y broses o adolygu perfformiad yr holl staff**

### Trosolwg o sut mae'r ysgol yn defnyddio'r safonau

Mae'r ysgol wedi rhoi lle canolog i'r safonau ym mhrosesau adolygu a datblygu'r staff. Mae hyn wedi golygu bod yr uwch arweinwyr yn hybu ymwybyddiaeth o'r safonau, gan ymgorffori'r safonau yn rhan o offeryn hunanadolygu ar-lein a thrafodaethau â rheolwyr llinell, a thrwy osod nodau datblygu ar gyfer staff sy'n gysylltiedig â'r broses hon.

### Sut mae'r ysgol wedi ymgysylltu â'r safonau

Ers i'r ysgol ar ei newydd wedd agor tua phedair blynedd yn ôl, mae uwch arweinwyr yr ysgol wedi codi ymwybyddiaeth o'r safonau drwy roi cyflwyniadau ac wedi ceisio annog pobl i ymgyfarwyddo â'r derminoleg, a hynny er mwyn ymgorffori hyn mewn sgyrsiau proffesiynol. Mae hyn wedi cynnwys codi ymwybyddiaeth ymhlith athrawon, gweithwyr cymorth dysgu, staff gweinyddol yr ysgol, a staff yr ystâd.

Mae rhan o'r broses hon wedi golygu ymgorffori'r safonau mewn offeryn hunanwerthuso (platfform sydd wedi'i ddatblygu gan gwmni masnachol, Xlence). Mae'r holl staff yn cael amser i gwblhau 'adolygiad 360' yn erbyn y safonau ddwywaith y flwyddyn, a hynny yn ystod sesiynau 'min nos' neu sesiynau HMS. Bydd y staff yn rhoi sgôr i'w hyder yn erbyn y safonau, gan gael eu tywys gan y disgrifyddion ar y sgrin. Mae modd i'r staff ddewis y safonau Addysgu, Arweinyddiaeth neu Gymorth Addysgu, fel sy'n briodol i'w swyddi, gan ychwanegu tystiolaeth i gyd-fynd â'u hunanwerthusiad neu edrych ar eu hadolygiadau 360 blaenorol at ddibenion cymharu.

| | |
|---|---|
| Mae'r uwch arweinwyr wedi codi ymwybyddiaeth drwy roi cyflwyniadau | Mae'r safonau wedi'u hymgorffori yn offeryn hunanwerthuso ar-lein y lleoliad |
| Mae'r staff yn hunanwerthuso yn erbyn y safonau (adolygiad 360) | Mae adolygiadau'r staff wedi'u strwythuro o amgylch y safonau |
| Mae amser penodol yn cael ei neilltuo i'r staff gwblhau hunanwerthusiad | Ceir cysylltiad rhwng nodau datblygu proffesiynol a'r safonau |

Ar ôl cwblhau'r broses hon, mae'r staff yn cael darlun gweledol o'u hadolygiad 360. Teimlai un arweinydd canol fod y broses wedi'i helpu i ddefnyddio'r safonau, ymgyfarwyddo â'r derminoleg, a meddwl am y disgrifiadau.

> 'Yn achos rhai ohonyn nhw [y disgrifyddion], mae'n rhaid meddwl fymryn yn galetach am beth fyddwch chi'n ei wneud, ond dros gyfnod o amser fe fyddwch chi'n dechrau dehongli'r geiriad a myfyrio ychydig mwy.' Arweinydd canol

Teimlai athrawon a gweithwyr cymorth dysgu fod eu hymwybyddiaeth o'r safonau wedi gwella o ganlyniad i gwblhau proses hunanwerthuso yr 'adolygiad 360' a chynnal trafodaethau dilynol yr adolygiad staff â rheolwyr llinell. Roeddent yn teimlo bod iaith y safonau'n ddefnyddiol fel fframwaith i annog pobl i fyfyrio ac i lywio'u datblygiad eu hunain. Teimlai'r staff mai rhan allweddol o'r broses hon oedd bod arweinwyr yr ysgol yn neilltuo amser penodol iddynt gwblhau'r adolygiad.

'… mae ein hysgol wedi bod yn drylwyr iawn wrth gyflwyno'r rhain i ni ac wrth roi amser a system i ni fyfyrio amdanyn nhw.' Athro/Athrawes

Mae modd i arweinwyr ysgolion hefyd weld adolygiadau 360 y staff maen nhw'n eu rheoli; mae'r rhain yn rhoi sail i'r trafodaethau rhyngddyn nhw a'u staff. Fel rhan o'r broses hon, mae'r arweinwyr wedi rhoi cyflwyniadau i aelodau eraill o staff yn eu hadrannau sydd wedi canolbwyntio ar sut y maen nhw'u hunain wedi defnyddio'r safonau yn eu hadolygiadau o berfformiad. Esboniodd uwch arweinwyr yr ysgol sut y gwnaethant ddefnyddio canfyddiadau'r adolygiadau 360 i'w helpu i ganfod meysydd ar gyfer datblygu'r staff a chynllunio gweithgareddau dysgu proffesiynol ar draws yr ysgol.

'[A minnau'n rheolwr llinell], fe allwn i edrych ar adolygiadau 360 y gweithwyr cymorth dysgu a defnyddio'r wybodaeth i helpu i gynllunio'r broses uwchsgilio roeddwn i'n ei harwain.' Uwch arweinydd

Mae hunanwerthusiadau ac adolygiadau staff dros y 3 blynedd diwethaf wedi rhoi sail i flaenoriaethau addysgu a dysgu ar gyfer unigolion, adrannau a'r ysgol. Mae gan bob unigolyn dri tharged ar gyfer y flwyddyn.

1. Targed ar gyfer yr ysgol gyfan (yn gysylltiedig â chynllun datblygu'r ysgol)
2. Targed ar gyfer yr adran / tîm (wedi'i osod gan arweinwyr adrannau)
3. Targed ar gyfer rheoli perfformiad unigolion (cytunir ar hwn yn adolygiadau'r staff)

Pwysleisiodd yr uwch arweinwyr mai megis dechrau oedd y broses, ac nad oeddent hyd yma wedi gallu sicrhau ansawdd y broses hunanwerthuso na myfyrio am sut y oedd y meysydd i'w datblygu a ganfuwyd ar lefel adrannau drwy'r adolygiadau 360 yn cyd-fynd â'u blaenoriaethau strategol eu hunain.

**Yr effaith a'r camau nesaf**

Teimlai'r rhai a gyfwelwyd fod y safonau wedi rhoi iaith gyffredin iddynt i drafod eu datblygiad proffesiynol, yn enwedig o ran addysgeg ac arloesi.

'Mae'r iaith yn briodol i ddisgrifio beth yw athro wrth reddf... …Rwy'n credu eu bod nhw'n gweithio'n dda i'ch tywys i gyfeiriad sy'n golygu bod yn ymarferydd sy'n myfyrio.' Athro

Roeddent hefyd yn teimlo bod ymgorffori'r safonau ar ffurf fframwaith ar gyfer prosesau adolygu'r staff wedi'u helpu i ganfod blaenoriaethau dysgu proffesiynol yn yr ysgol ar lefel unigolion a lefel adrannau. Maent yn bwriadu 'triongli' canfyddiadau'r adolygiad gyda'u prosesau sicrhau ansawdd yn y dyfodol. Teimlai'r uwch arweinwyr y gellid datblygu'r safonau ymhellach ar lefel genedlaethol er mwyn cynnwys swyddi eraill yn eu lleoliadau nad ydynt yn ymwneud ag addysgu.

**Astudiaeth Achos 7: Ysgol Gynradd Gymraeg Aberystwyth, Ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, Ceredigion**
**Thema: Safonau'n cynorthwyo i reoli perfformiad**

**Trosolwg o sut mae'r ysgol yn defnyddio'r safonau**

Mae gan dîm arwain yr ysgol wybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o'r safonau ac mae wedi defnyddio'r wybodaeth a gafodd ei meithrin drwy ymwneud â'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru i helpu i godi ymwybyddiaeth o'r safonau ymhlith y staff. Mae'r tîm arwain yn credu bod y safonau'n cyd-fynd yn dda â rhaglenni cenedlaethol eraill. Mae'r safonau eisoes wedi cael eu hintegreiddio yn y prosesau rheoli perfformiad, ac mae cynlluniau i ehangu hynny i'w defnyddio drwy'r ysgol gyfan, yn enwedig mewn perthynas â chyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru.

**Sut mae'r ysgol wedi ymgysylltu â'r safonau**

Mae'r ysgol wedi gweithio i godi ymwybyddiaeth ymarferwyr o'r safonau ac i wella'u gwybodaeth ohonynt, a hynny drwy'r dogfennau rhyngweithiol sydd ar gael ar-lein ar Hwb. Serch hynny, teimlai'r ymarferwyr y byddai'n syniad da cael dogfennau symlach sy'n amlinellu'r safonau'n gliriach. Teimlai'r uwch dîm arwain fod yr ymarferwyr yn ymgyfarwyddo fwyfwy â'r safonau a bod eu hagwedd at ddatblygiad proffesiynol yn newid o ganlyniad i hynny.

'Mae popeth yn dilyn y safonau. Fel ysgol, rydyn ni'n hoffi'r safonau a'r ffordd maen nhw wedi cael eu cyflwyno yn fawr. Mae dilyniant amlwg a rhesymeg iddyn nhw.' Uwch arweinydd

| | |
|---|---|
| Mae'r uwch arweinwyr wedi codi ymwybyddiaeth o'r safonau | Mae offer rheoli perfformiad wedi cael eu datblygu i helpu ymarferwyr a ac arweinwyr |
| Ceir cysylltiad rhwng nodau datblygu proffesiynol a'r safonau | Rhoddir ystyriaeth i sut bydd y safonau'n hybu'r Cwricwlwm i Gymru |

Roedd gan ANG a'r uwch dîm arwain fwy o ymwybyddiaeth o'r safonau nag aelodau eraill o'r staff, a dywedodd yr uwch arweinwyr fod y pandemig Covid wedi arafu'r cynnydd o ran codi ymwybyddiaeth y staff ymhellach. Wrth ymateb i hynny, roedd yr uwch dîm arwain yn awyddus i ddefnyddio'r safonau mewn ffordd ychydig yn fwy ffurfiol.

'Mae'r cwricwlwm newydd wedi cyflwyno geirfa newydd. Gyda'r safonau newydd hefyd, dydy'r ymarferwyr ddim wedi gweld y darlun llawn eto na sut mae'r holl jig-so yn dod at ei gilydd. Ar hyn o bryd, fe ddywedwn i eu bod nhw'n ymwybodol o'r

safonau, ond nad ydyn nhw wedi'u hintegreiddio'n rhan o'u ffordd o feddwl yn llawn.' Uwch arweinydd

Roedd y safonau'n cael eu defnyddio fel rhan o brosesau rheoli perfformiad a wnaeth fwydo yn y pen draw i gynllun datblygu'r ysgol. Mae'r ysgol wedi datblygu 'olwyn addysgu' ac 'olwyn arweinyddiaeth' ar gyfer y safonau, ac mae'r holl ddull o reoli perfformiad yn yr ysgol wedi newid. Mae egwyddor pob safon yn cael ei hystyried ar yr olwynion addysgu ac arweinyddiaeth, ac mae pob amcan wrth reoli perfformiad wedi'i seilio ar yr egwyddorion craidd. Roedd yr ysgol yn bwriadu defnyddio'r safonau wrth reoli perfformiad cynorthwywyr addysgu lefel uwch hefyd.

'Mae'r safonau yn eich atgoffa beth ddylech chi fod yn ei wneud. Maen nhw'n eich rhwystro rhag gorffwys ar eich rhwyfau. Maen nhw'n eich atgoffa ble gallech chi wella. Mae'n rhwydd iawn colli golwg ar eich datblygiad personol pan fyddwch chi'n addysgu yn y dosbarth o'r naill ddiwrnod i'r llall' Arweinydd canol

Teimlai'r uwch arweinwyr fod y safonau'n rhoi arweiniad a disgwyliadau clir i ymarferwyr ynghylch sut i wella. Fel ysgol, roedd pobl yn cael cymorth i ddatblygu'n bersonol, a'r uwch dîm arwain yn annog y staff i wella'n barhaus. Roedd teimlad bod y safonau'n offeryn defnyddiol ac y byddai'r ymarferwyr yn eu defnyddio'n gynyddol dros gyfnod o amser mewn ymdrech fwy ymwybodol i fesur eu datblygiad yn eu herbyn.

**Yr effaith a'r camau nesaf**

Roedd teimlad ei bod hi'n rhy gynnar i weld llawer o effeithiau. Roedd y safonau yn dal yn gymharol newydd a ffres, ond dros gyfnod o amser, roedd disgwyliad y byddent yn effeithiol, yn enwedig i'r athrawon hynny a oedd eisiau datblygu eu gyrfaoedd.

Teimlai'r uwch arweinwyr y byddai'r safonau'n cael eu defnyddio'n gynyddol fel ffordd o adrodd yn effeithiol am ddatblygiad a chynnydd, yn enwedig o ran y Cwricwlwm i Gymru. Roedd yr ysgol yn awyddus i roi cynnig ar bethau newydd, ac yn hyderus y byddai ar flaen y gad wrth ddefnyddio'r safonau pan fyddai'r amser yn iawn. Ochr yn ochr â'r Cwricwlwm i Gymru, roedd teimlad bod y cysyniad o ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu yn cyd-fynd yn dda â'r safonau, gan alluogi mwy o gydweithio, dulliau arloesol o weithio, a dysgu gan bobl eraill. Dywedodd arweinwyr yr ysgol eu bod yn edrych tuag allan yn gynyddol, gan gydweithio ag ysgolion tebyg eraill y tu hwnt i ffiniau'r sir.

'Rwy'n credu y gwelwn ni'r gwahaniaeth mwyaf pan fydd y Cwricwlwm i Gymru'n cael ei gyflwyno. Pan ddaw hwnnw, bydd y dull o weithio – sef gweithio'n thematig ar draws y chwe phrif faes dysgu – yn golygu y bydd popeth yn dod at ei gilydd yn daclus.' Arweinydd canol

**Astudiaeth Achos 8: Ysgol Maes Derw, Uned Cyfeirio Disgyblion, Abertawe**
**Thema: Ymgorffori'r safonau yn y prosesau hunanwerthuso ac adolygu perfformiad**

**Trosolwg o sut mae'r ysgol yn defnyddio'r safonau**

Mae'r safonau wedi'u gwreiddio drwy'r Uned Cyfeirio Disgyblion, gan gynnwys yng nghynllun gwella'r ysgol ac wrth reoli perfformiad y staff. Mae'r holl ymarferwyr yn yr Uned yn ystyried y safonau fel rhan o'u hadolygiad hunanasesu, cyn cymryd rhan mewn adolygiad o'u perfformiad.

**Sut mae'r ysgol wedi ymgysylltu â'r safonau dros gyfnod o amser**

Lleoliad newydd yw Uned Cyfeirio Disgyblion Maes Derw, a sefydlwyd pan unodd pedair uned o'r fath yn Abertawe a symud i safle newydd yn y Cocyd. Mae'r safonau wedi cael eu defnyddio mewn ffordd gyson dros gyfnod o amser ym mhob un o'r lleoliadau, cyn ac ar ôl yr uno. Dywedwyd bod ymwybyddiaeth dda o'r safonau ymhlith yr ymarferwyr yn yr holl leoliadau. Roedd yr ymwybyddiaeth hon yn deillio o ofyniad i'r holl staff hunanwerthuso eu hymarfer yn erbyn y pum gwerth fel rhan o broses hunanwerthuso y byddent yn ei dilyn cyn cynnal adolygiad ffurfiol o'u perfformiad. Dywedodd yr uwch arweinwyr ac ymarferwyr fod amrywiadau i'w gweld wrth fesur i ba raddau roedd y staff yn barod i ddefnyddio'r safonau.

> 'Wrth reddf, mae gan rai o aelodau'r staff fwy o gymhelliad i wella, ac maen nhw'n fwy tueddol o fyfyrio am eu hymarfer eu hunain nag eraill ... maen nhw'n fwy agored wrth edrych ar eu cynnydd.' (Uwch arweinydd)

Mae'r holl ymarferwyr, gan gynnwys cynorthwywyr addysgu, yn hunanwerthuso eu hymarfer yn erbyn y safonau

Mae sesiynau adolygu perfformiad y staff wedi'u strwythuro o amgylch y safonau

Mae'r safonau'n helpu i ganfod cryfderau a meysydd lle ceir tanberfformio

Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol ar lefel yr ysgol yn seiliedig ar ganfyddiadau hunanwerthuso

**Hunanwerthuso**

Dywedwyd bod yr ymarferwyr braidd yn 'ofidus' ynghylch y safonau i gychwyn, yn enwedig o ran y cymorth a oedd ar gael i staff. Felly roedd yn rhaid i'r ysgol fuddsoddi amser ymlaen llaw yn trafod y safonau â'r staff ac yn eu hegluro'n fanwl i'r cynorthwywyr addysgu. Teimlai ymarferwyr ei bod hi'n haws ymdrin â'r safonau wrth ddefnyddio offeryn hunanwerthuso ar ffurf taenlen. Y consortiwm addysg rhanbarthol oedd wedi rhannu'r daenlen hon â nhw. Defnyddiwyd yr offeryn hwn at ddibenion hunanwerthuso yn ystod y tymor academaidd cyntaf, er mwyn helpu ymarferwyr i ganfod eu cryfderau a'u gwendidau. Dywedodd ymarferwyr fod y diagram pry-cop gweledol, sy'n cael ei greu drwy'r broses hon, yn ffordd ddefnyddiol o ddarlunio'r cryfderau a'r gwendidau hyn. Roedd yr ymarfer hunanwerthuso yn helpu i ganfod anghenion dysgu proffesiynol. Dywedodd yr uwch arweinwyr fod hyn wedi golygu nad yw'r ysgol 'yn brysio i fachu ar gyfle hyfforddiant' dim ond oherwydd bod hwnnw'n digwydd bod ar gael. Yn hytrach, mae'n barnu'n fwy pwyllog pa hyfforddiant i'w roi ar sail yr anghenion.

> ‘mae’n annog rhywun i feddwl go iawn am ei gryfderau, ac yn helpu i ganfod y rhain. Fydd rhywun ddim o anghenraid yn meddwl am y rhain, felly mae’n braf gweld beth mae rhywun yn ei wneud yn dda, a myfyrio am hynny, yn enwedig ar ôl gweithio yn y proffesiwn gyhyd’. (Cynorthwyydd addysgu)

**Adolygu perfformiad**

Mae’r safonau’n rhoi sylfaen i brosesau rheoli perfformiad y staff. Bydd yr ymarferwyr yn trafod canlyniadau eu hymarfer hunanwerthuso â’u rheolwyr llinell yn ystod cyfarfodydd adolygu perfformiad, ac mae hyn wedi helpu i ysgogi sgyrsiau proffesiynol a chanfod cyfleoedd i ddatblygu’n broffesiynol yn y dyfodol. Dywedodd yr ymarferwyr fod y safonau’n rhoi fframwaith ‘cadarn’ i reolwyr llinell gael sgyrsiau gonest â staff, a’u bod yn rhoi mwy o hyder i reolwyr llinell eu bod nhw’n adolygu perfformiad ‘yn y ffordd iawn’.

> ‘Mae wedi fy ngalluogi i gael fframwaith i ddechrau sgyrsiau, gosod targedau ac adolygu perfformiad ... doedd y rhai blaenorol fyth yn rhoi man cychwyn i sgyrsiau.’  (Uwch arweinydd)

**Cynllun datblygu’r ysgol**

Mae’r safonau a Chynllun Datblygu’r Ysgol yn cyd-fynd â’i gilydd yn glir, gan fod yr anghenion cyffredin ar gyfer datblygu proffesiynol a amlygwyd yn ystod y prosesau hunanwerthuso wedyn yn cael eu hadlewyrchu ym mlaenoriaethau’r ysgol ar gyfer datblygu. Mae hyn wedi golygu bod modd gweithio fel tîm yr ysgol gyfan, ac mae’r holl ymarferwyr yn gweithio tuag at nodau cyffredin sydd wedi’u cyflwyno yng Nghynllun Datblygu’r Ysgol. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae’r blaenoriaethau ar lefel yr ysgol wedi’u seilio ar ddwy safon, sef addysgeg a dysgu proffesiynol. Mae HMS wedi canolbwyntio ar y ddau faes datblygiad proffesiynol hyn.

> ‘Rydyn ni i gyd yn trafod hyn ac yn symud i’r un cyfeiriad. Pe bai gan bawb wahanol nodau, byddai’n cyfyngu ar ein gallu i rannu ein cynnydd a’n profiadau’. (Uwch arweinydd)

| **Yr effaith a’r camau nesaf** |
| --- |
| Dywedwyd bod ymarferwyr yn ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb dros eu dysgu a’u hymarfer proffesiynol eu hunain ers cyflwyno’r safonau, ac o ganlyniad roedd eu hymarfer wrth addysgu’n gwella: |

> ‘Fyddwn i ddim wedi gwneud darn ffurfiol o waith ymchwil o’r blaen – byddwn i wedi ymchwilio i bwnc a dysgu amdano, ond fyddwn i ddim wedi’i gofnodi nac wedi myfyrio amdano yn erbyn y safon. Mae wedi gwneud i mi fabwysiadu arfer da, a fyddai hyn ddim wedi digwydd fel arall’. (Athro ysgol)

Dywedodd y staff fod y safonau hefyd wedi helpu i gyflwyno ymdeimlad cryfach o gydraddoldeb ymhlith ymarferwyr yr uned cyfeirio disgyblion, o’u cymharu ag ysgolion prif ffrwd, gan eu bod i gyd yn mabwysiadu’r un gyfres o Safonau. Teimlai’r ymarferwyr fod cael un gyfres unigol o Safonau wedi helpu i ysgafnhau’r baich wrth i ymarferwyr bontio o un lleoliad i leoliad arall. Roedden nhw’n credu bod y safonau wedi helpu i gryfhau statws swyddi CA, a bod gallu dangos eu bod yn cyflawni’r safonau yn rhoi ‘cydnabyddiaeth iddyn nhw am y gwaith maen nhw’n ei wneud’ ac yn dilysu eu cyfraniad at yr ysgol.

Mae’r ysgol wedi canolbwyntio ar rai o’r Safonau ‘symlach’ i ddechrau, a bydd yn troi ei golygon at y Safonau eraill, fel arloesi, dros y blynyddoedd nesaf, gan dderbyn y byddai angen rhannu’r safonau’n ‘dalpiau llai y mae modd dygymod â nhw’ dros gyfnod o amser.

**Astudiaeth Achos 9: Ysgol Gyfun Gymunedol Rhisga, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg, Casnewydd**
**Thema: Y safonau'n hybu diwylliant o fyfyrio a chydweithio**

**Trosolwg o sut mae'r ysgol yn defnyddio'r safonau**

Mae'r uwch arweinwyr wedi defnyddio'r safonau fel sbardun i newid diwylliant yr ysgol. Roedd y safonau'n cael eu defnyddio i ysgogi gweithlu addysgu sy'n myfyrio ac yn gwella'u hunain, gan annog ymarferwyr i wneud mwy i berchnogi eu datblygiad proffesiynol. Roedd y safonau'n cyfrannu hefyd at well cydweithio rhwng ymarferwyr ac ysgolion.

**Sut mae'r ysgol wedi ymgysylltu â'r safonau dros gyfnod o amser**

**Ethos yr ysgol**

Mae ymarferwyr yn cael eu hannog i hunanfyfyrio gan ddefnyddio'r safonau, ac i wneud penderfyniadau am eu ymarfer ar sail hyn. Mae'r ysgol hon yn disgrifio ei dull o weithio gyda'r safonau fel dull 'hyblyg' ac 'ysgafn'. Roedd yn ffafrio hyn yn hytrach nag ymgorffori'r safonau mewn ffordd fwy ffurfiol, gan fod uwch arweinwyr yn teimlo y byddai'r staff yn ymateb yn fwy cadarnhaol i ddull mwy hyblyg o weithio. Teimlai'r uwch arweinwyr y byddai'r hyblygrwydd hwn yn fodd o ystyried gwahaniaethau rhwng y staff ac yn grymuso athrawon i berchnogi eu dysgu a'u datblygiad proffesiynol eu hunain, a hynny drwy eu hannog i fyfyrio am beth oedd yn gweithio'n dda yn eu hystafelloedd dosbarth a beth nad oedd yn gweithio cystal.

Mae ymarferwyr yn cael eu hannog i hunanfyfyrio yn erbyn y safonau 

Dywedir bod mwy o gydweithio'n mynd rhagddo rhwng ymarferwyr ac ysgolion 

Disgrifiodd yr ymarferwyr sut yr oeddent yn defnyddio'r safonau mewn amrywiaeth o ffyrdd. Oherwydd maint a manylion y disgrifyddion yn y safonau, pwysleisiodd arweinydd canol na fyddai dull rhestr dicio yn gweithio. Roedd yr ymarferydd hwn yn pwysleisio wrth holl staff yr adran y dylent fod yn canfod safonau sy'n berthnasol i'w hanghenion penodol eu hunain ac anghenion penodol eu hadrannau a'r ysgol. Pan gynhaliwyd y cyfweliad, roedd staff yn yr adran hon yn cael eu hannog i roi sylw penodol i elfennau arweinyddiaeth y safonau proffesiynol:

> 'Mae pawb yn arweinydd yn yr ysgol hon – maen nhw'n arwain dosbarth, maen nhw'n arwain diwrnodau hyfforddiant. Nid yw cael hierarchaeth yn ddefnyddiol nac yn bwysig. Mae'r safonau'n helpu i sicrhau bod athrawon yn cael y cyfleoedd datblygu proffesiynol maen nhw'n eu haeddu, a'u bod nhw'n ceisio gwneud cynnydd ym mha bynnag ffordd maen nhw'n ei dewis.' Arweinydd canol

Yn ôl yr ymarferwyr, roedd y safonau'n cael eu hintegreiddio'n naturiol mewn sgyrsiau proffesiynol yn yr ysgol. Yn ôl un uwch arweinydd, roedd ethos yr ysgol yn 'canolbwyntio gryn dipyn ar ddatblygu – mae wastad gyfle i wella a chydweithio mwy'. Teimlai'r uwch arweinwyr ac arweinwyr canol fod yr ethos hwn wedi creu amgylchedd agored, lle nad oedd neb yn barnu neb arall, i

ymarferwyr drafod eu datblygiad. Teimlai un uwch arweinydd fod datblygu cwricwlwm newydd yr ysgol yn cyd-fynd yn dda â'r broses o ddylunio'r cwricwlwm, gan fod yr holl ymarferwyr yn dysgu, yn arloesi ac yn datblygu gyda'i gilydd.

> 'Maen nhw [y safonau] yn arbennig o berthnasol i'r Cwricwlwm i Gymru, gan ein bod ni i gyd yn yr un cwch: mae'n newydd i bawb, felly rydyn ni i gyd yn dysgu gyda'n gilydd, yn cydweithio ac yn arloesi.' Uwch arweinydd

**Myfyrio**

Mae myfyrio am ymarfer addysgegol yn elfen arall o sut mae'r safonau wedi cael eu hymgorffori yn ethos yr ysgol o ran safonau proffesiynol a datblygu proffesiynol.

> 'Mae'r safonau wedi ein galluogi i ofyn 'a ydyn ni'n gwneud pethau yn y ffordd orau, ac a oes ffyrdd eraill i wneud hyn yn well? … Mae'r safonau wedi helpu i ateb y cwestiwn 'pam' ein bod ni'n rhoi pwyslais ar addysgeg ... Fy hun, rwy'n credu eu bod nhw [y safonau] yn ddefnyddiol iawn ar gyfer myfyrio. Mae'n hawdd 'oeri' yn y swydd hon, ac mae gen i awydd cadw pethau'n ffres. Mae holl syniad y safonau yn ganolog i hyn, wrth fy helpu i ofyn i mi fy hun, 'pa fath o ymarferydd yr hoffwn i fod?' pan fydda' i'n teimlo ychydig yn fflat.' Arweinydd canol

**Yr effaith**

**Cydweithio**

Dywedodd ymarferwyr fod ethos o gydweithio wedi'i sefydlu fel rhan o ddull ehangach yr ysgol o ymdrin â'r safonau, gyda'r broses o rannu gwybodaeth rhwng lleoliadau addysgol yn dod yn fwy cyffredin. Dywedodd yr ysgol ei bod yn gweithio'n agos gydag ysgolion cyfun eraill, gyda'r nod cyffredinol o roi sylw i amrywiaeth mewn safonau addysgol rhwng ysgolion. Dywedodd un uwch arweinydd fod ymarferwyr bellach yn fwy parod i rannu syniadau ac adnoddau na chyn cyflwyno'r safonau a'r Cwricwlwm i Gymru, a bod hyn yn rhan o newid diwylliannol ehangach sy'n annog cydweithio yn hytrach na chystadleuaeth, ac roedd yr uwch arweinydd yn gobeithio y byddai hyn yn parhau.

> 'Er mwyn cyflawni'r cwricwlwm, mae angen staff arnoch chi sy'n deall nid yn unig eu pynciau'u hunain ond hefyd addysgeg yn ehangach, gan fod angen i ni gael bocs tŵls go helaeth i gyflawni'r cwricwlwm newydd' Arweinydd canol

**Y camau nesaf**

Mae'r ysgol yn bwriadu parhau i hybu ei hethos o fyfyrio a chydweithio. Serch hynny, dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd y byddai'n braf cael mwy o ffynonellau gwybodaeth am y safonau, yn benodol i'w helpu i ddeall sut a pham i'r safonau gael eu datblygu, ac i roi syniadau ymarferol ar gyfer eu defnyddio. Rhagwelwyd y gallai'r math hwn o gymorth bontio'r bwlch rhwng llawr yr ystafell ddosbarth a'r rhai sy'n llunio polisïau.

**Astudiaeth Achos 10: Ysgol Gynradd Llangynnwr, ysgol gynradd dwy ffrwd, Sir Gâr**
**Thema: Y safonau'n annog cydweithio a dysgu rhwng cymheiriaid**

**Trosolwg o sut mae'r ysgol yn defnyddio'r safonau**

Roedd y safonau'n berthnasol i'r holl elfennau cynllunio strategol yn yr ysgol, ac yn rhan o gynllunio datblygiad personol ymarferwyr. Mae'r safonau'n cyd-fynd yn glir â chynllun datblygu'r ysgol ac yn treiddio drwy gyfleoedd dysgu a datblygu proffesiynol yr ysgol.

**Sut mae'r ysgol wedi ymgysyltu â'r safonau dros gyfnod o amser**

Roedd arweinydd canol yn yr ysgol wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r safonau pan oedd ar secondiad gyda'r consortia rhanbarthol. Roedd gwaith i godi ymwybyddiaeth gan arweinwyr canol ac uwch arweinwyr yn helpu i sicrhau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dda o'r safonau ymhlith ymarferwyr profiadol yn yr ysgol.

Nid oedd gwaith ffurfiol wedi'i wneud i gyflwyno'r safonau i'r staff cymorth eto, er bod yr uwch dîm yn credu bod ethos y safonau wedi dechrau cael ei gyflwyno i Gynorthwywyr Addysgu drwy'r dull newydd o reoli perfformiad, a hwnnw'n cynnwys elfennau o fyfyrio ac ystyried cyfleoedd datblygu.

> 'Mae'r safonau'n gyson iawn â'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'n golygu ein bod ni, fel athrawon, yn gallu parhau i feddwl a myfyrio, ac mae'n golygu ein bod ni'n dechrau edrych ar ffyrdd gwahanol o ddysgu. Mae wedi rhoi dipyn o hwb i bawb. Mae'n teimlo'n wahanol i'r hyn oedd yn digwydd o'r blaen. Rydym ar drothwy cyfnod newydd, cyffrous.' Arweinydd canol

Mae'r safonau'n cael eu defnyddio mewn tri phrif faes: rheoli perfformiad, gwella parhaus, a chydweithio.

- Mae'r safonau'n rhoi sylfaen i'r prosesau cynllunio strategol
- Mae'r safonau'n helpu ymarferwyr i ganfod meysydd i'w gwella neu i'w datblygu
- Mae'r safonau wedi'u hintegreiddio yn y prosesau rheoli perfformiad
- Mae'r safonau'n rhoi cyfleoedd i gydweithio ac edrych tuag allan

**Rheoli perfformiad**
Mae'r safonau'n cael eu defnyddio'n bennaf mewn prosesau rheoli perfformiad, gyda'r targedau'n seiliedig ar y pum Safon. Roedd y safonau bellach wedi'u hintegreiddio ac yn cael eu defnyddio yn ystod trafodaethau rheoli perfformiad gydag ymarferwyr unigol, ac roedd targedau'n cael eu gosod mewn ffordd a oedd yn cysylltu'n ôl â'r safonau. Roedd yr ysgol wedi annog ymarferwyr i fyfyrio ac ystyried elfennau yr oedd angen eu datblygu.

Yn ystod trafodaethau am reoli perfformiad, a phan oedd ymarferydd yn ei chael hi'n anodd meddwl am gyfleoedd i wella neu ddatblygu'n bersonol, roedd y disgrifyddion o'r safonau'n ddefnyddiol i greu syniadau ar gyfer y datblygu pellach yr oedd angen canolbwyntio arno. Roedd teimlad bod y safonau'n effeithiol hefyd wrth helpu'r ysgol i osod nodau, monitro cynnydd, a chanfod meysydd i'w gwella ar lefel strategol. Gyda'i gilydd, mae'r safonau, cynllun gwella'r ysgol a'r prosesau rheoli perfformiad i gyd yn bwydo i'w gilydd.

> 'Mae'r safonau'n gwneud i mi gamu yn ôl a myfyrio mwy am ein cynnydd hyd yma. Maen nhw'n berthnasol i fy natblygiad personol fy hun. Maen nhw'n rhoi disgwyliadau clir a chysondeb, ac yn galluogi'r staff i ganfod beth ddylen nhw ganolbwyntio arno wrth ddatblygu' Uwch arweinydd

**Gwelliant parhaus**
Roedd yr ysgol eisoes wedi dechrau newid ei dull o gynllunio, ar sail themâu trawsgwricwlaidd. Yn ôl y staff, roedd y safonau wedi'u cyflwyno ar yr adeg iawn i'w helpu i ddatblygu eu ffyrdd o feddwl ac i ddatblygu drwy'r cwricwlwm. Mae'r ysgol wedi bod yn gweithio'n anffurfiol gyda'r Cynghorydd Herio i wreiddio'r safonau yn ei dulliau dysgu ac addysgu o ddydd i ddydd.
Roedd yr uwch reolwyr yn hoffi'r safonau ac yn teimlo bod yr egwyddorion craidd yn cyfleu'n gywir bum elfen swydd ymarferydd mewn ffordd fwy cryno o lawer na'r Safonau blaenorol.

Roedd gan yr ysgol nifer fawr o athrawon newydd gymhwyso a oedd yn gyfarwydd iawn â'r safonau, ac roedd eu penodi wedi cryfhau ymwybyddiaeth a gwybodaeth drwy'r ysgol, gan wneud i athrawon mwy profiadol fyfyrio am eu dulliau gweithio a'u haddysgeg hefyd. Roedd ANG yn teimlo bod y safonau'n gyfle gwych i gydweithio a rhannu profiadau â'i gilydd yn ystod y flwyddyn. Roeddent yn teimlo bod y safonau'n eu hannog i siarad ag athrawon eraill yn yr un sefyllfa er mwyn iddynt allu dysgu gyda'i gilydd. Roedd y broses o fyfyrio a gwerthuso wedi dod yn broses naturiol iddynt.

> 'Mae'r safonau'n gwneud i chi feddwl, ac yn ein helpu ni fel athrawon i weld pwysigrwydd dysgu proffesiynol parhaus – nid i ANG yn unig y mae'r safonau bellach' Mentor

**Cydweithio**
Roedd teimlad bod y safonau wedi annog ac wedi ysgogi cydweithio yn yr ysgol a rhwng ysgolion yn y clwstwr. A hithau'n ysgol gynradd weddol fawr, roedd gwahanol ymarferwyr yn arbenigo mewn gwahanol bethau. Roedd y safonau wedi galluogi'r staff i ddysgu oddi wrh ei gilydd ac i ddysgu sgiliau i'w cymheiriaid. Roedd y safonau hefyd wedi rhoi cyfle i weithio gydag ysgol arall debyg yn y clwstwr. Roedd y safonau wedi cael eu defnyddio fel rhan o brosiect ar y cyd sy'n defnyddio Troeon Dysgu a gwersi monitro, er mwyn rhannu a dysgu o arferion da. Teimlai ymarferwyr ei bod hi'n haws defnyddio rhai elfennau o'r safonau wrth weithio gydag ysgolion eraill, ac roeddent yn

gwerthfawrogi'r pwyslais ar chwilio am brofiadau ac edrych tuag allan yn hytrach na cheisio cyflawni'r safonau yn lleoliad eu hysgol eu hunain yn unig.  Roedd ymarferwyr niferus yn gwerthfawrogi'r cyfle i weld sut roedd pobl eraill yn gweithio.

---

'Roedd hi'n braf ceisio datrys rhai o'r problemau gydag [ysgol arall debyg]. Mae angen i ni ddod i adnabod ein gilydd, ac i'n staff weld bod hyn yn rhywbeth sy'n cael ei wneud i elwa ohono – yn hytrach nag i ganfod beth sydd o'i le. Dros amser, rwy'n gobeithio y bydd fy staff yn dod yn fwy parod i rannu eu profiadau ac i gael cyngor – gan wybod nad ydyn nhw'n cael eu beirniadu.' Uwch arweinydd mewn ysgol glwstwr

---

**Yr effaith a'r camau nesaf**

Mae rhywfaint o'r momentwm wedi'i golli o ganlyniad i'r cyfnodau clo ac effaith pandemig Covid, ond mae'r uwch arweinwyr yn teimlo bod newid amlwg eisoes i'w weld ym meddylfryd athrawon sy'n ymuno â'r proffesiwn. Dros gyfnod o amser, roedd ymarferwyr yn teimlo y byddai hyn yn effeithio ar athrawon presennol ac yn arwain at 'newid amlwg' yn eu dealltwriaeth a'u defnydd o'r safonau. Teimlai staff fod cydnabyddiaeth eisoes bod angen dysgu sut i newid pethau, gyda'r safonau'n cyfrannu'n adeiladol at helpu ymarferwyr i ddysgu gydol oes mewn ffordd barhaus. Soniodd yr uwch dîm am gynnydd ym mharodrwydd a dyhead staff i fynd ar gyrsiau – yn rhannol yn sgil cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru, ond hefyd gan fod mwy o awch yn yr ysgol am weithgareddau dysgu proffesiynol.

**Astudiaeth Achos 11: Ysgol Maesteg, ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg, Pen-y-bont ar Ogwr**
**Thema: Defnyddio'r safonau yn fframwaith ar gyfer hunanwerthuso strwythuredig**

**Trosolwg o sut mae'r ysgol yn defnyddio'r safonau**

Mae'r ysgol wedi defnyddio'r safonau fel strwythur i ymarferwyr ei ddefnyddio wrth hunanwerthuso a myfyrio. Roedd y canfyddiadau o hyn yn cael eu defnyddio i lywio trafodaethau am reoli perfformiad ac i roi sail i dargedau datblygu personol y staff. Roedd y safonau hefyd yn rhoi fframwaith ar gyfer gwaith grwpiau ymholi gweithredol yn yr ysgol, ac roedd teimlad eu bod yn cyd-fynd yn dda â'r dull ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu.

**Sut mae'r ysgol wedi ymgysylltu â'r safonau dros gyfnod o amser**

Roedd yr ysgol yn gweithio tuag at y dull ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu, ac roedd teimlad bod y safonau'n cyd-fynd yn dda â'r fframwaith hwn. Roedd gan bob Maes Dysgu a Phrofiad hyrwyddwr 'Addysgu a Dysgu' a oedd yn arwain ar annog gweithgarwch dysgu proffesiynol. Ar y dechrau, roedd yr ysgol wedi codi ymwybyddiaeth o'r safonau drwy gyflwyniadau a thrafodaethau â'r holl staff yn ystod diwrnodau HMS. Gwahoddwyd CGA hefyd i roi cyflwyniad i'r staff am y PDP, ac i esbonio sut gellid defnyddio ap Pebblepad i gofnodi eu gweithgareddau dysgu proffesiynol o dan y safonau. Dywedodd yr uwch arweinwyr ac arweinwyr canol fod yn well gan y staff y safonau newydd na'r rhai blaenorol.

'Roedd yr hen safonau'n fwy beichus, ac o leiaf mae'n teimlo bod y rhain yn haws eu defnyddio.' Arweinydd canol

Yn ystod blwyddyn gyntaf y gwerthusiad, teimlai'r uwch arweinwyr fod rhywfaint o'r momentwm cynnar hwn a helpodd y staff i ymgyfarwyddo â'r safonau wedi'i golli yn sgil y tarfu a fu ar addysgu a dysgu yn ystod y pandemig. Serch hynny, yn ystod ail flwyddyn y gwerthusiad, esboniodd yr uwch arweinwyr eu bod wedi canolbwyntio o'r newydd ar integreiddio'r safonau yn rhan o brosesau rheoli perfformiad.

**Hunanasesu yn erbyn y safonau fel rhan o reoli perfformiad**

Gofynnwyd i'r holl staff hunanasesu yn erbyn y safonau cyn eu harfarniad rheoli perfformiad. Roedd yr uwch arweinwyr wedi datblygu offeryn ar ffurf taenlen, a hwnnw wedi'i strwythuro o amgylch y safonau, ac fe'i rhannwyd â'r ymarferwyr. Ar ôl ei gwblhau, byddai'r ymarferydd a'i reolwr llinell yn trafod yr hunanasesiad yn ystod y drafodaeth am reoli perfformiad.  Roedd hyn yn ei dro yn rhoi sail i ddatblygu targedau i unigolion ar gyfer dysgu proffesiynol dros y 12 mis nesaf. Roedd yr ymarferwyr yn croesawu'r pwyslais cynyddol ar dargedau i unigolion.

Mae'r ymarferwyr yn hunanasesu yn erbyn y safonau gan ddefnyddio taenlen

Mae'r adolygiadau o berfformiad yn rhoi sail i dargedau ar gyfer datblygiad proffesiynol

Mae'r canfyddiadau o'r hunanwerthusiad yn cael eu trafod â rheolwyr llinell wrth adolygu perfformiad

Mae'r safonau'n cael eu defnyddio fel fframwaith ar gyfer trafodaethau am ymholiadau gweithredol

Ar lefel strategol, roedd modd i uwch arweinwyr ystyried yr adborth o adolygiadau rheolwyr llinell i gynllunio gweithgareddau dysgu proffesiynol ar gyfer yr ysgol gyfan.  Esboniodd yr uwch arweinwyr

fod y broses hon wedi bod yn ddefnyddiol wrth gynllunio gweithgareddau dysgu proffesiynol yr ysgol, ond roedd hefyd wedi helpu'r ymarferwyr i ymgyfarwyddo â'r safonau.

'Rwy'n credu bod ymgyfarwyddo â'r safonau a chael gofynion unigryw ar gyfer dysgu proffesiynol yn helpu i godi proffil y safonau' Uwch arweinydd

Dywedodd yr uwch arweinwyr eu bod yn gobeithio rhoi mwy o bwyslais ar helpu ymarferwyr i uwchlwytho tystiolaeth o weithgareddau dysgu proffesiynol, ac i fyfyrio ar ganlyniadau'r gweithgareddau dysgu hynny. Roedd teimlad bod rhoi mwy o bwyslais ar y safonau mewn cyfarfodydd addysgu a dysgu rheolaidd hefyd yn flaenoriaeth; gobaith yr uwch arweinwyr oedd y gallai hyn helpu i ymgorffori'r safonau mewn trafodaethau proffesiynol o ddydd i ddydd.

'Rydyn ni'n ceisio gwneud dysgu proffesiynol yn rhywbeth mwy ymarferol, gan allu sgwrsio am hyn. Efallai mai rhan o'r ateb yw sicrhau bod ein trafodaethau bob pythefnos yn cysylltu yn ôl â'r safonau.' Uwch arweinydd

**Codi statws a dyheadau gweithwyr cymorth**
Esboniodd yr arweinwyr canol fod y safonau proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu wedi'u hymgorffori yn rhan o ddysgu proffesiynol gweithwyr cymorth dysgu yn yr ysgol. Er bod cydnabyddiaeth bod ymwybyddiaeth o'r safonau yn is ymhlith gweithwyr cymorth dysgu, a'u bod yn defnyddio llai ar y safonau, teimlai ymarferwyr fod rhoi mwy o bwyslais ar y safonau'n helpu i godi statws gweithwyr cymorth drwy greu 'iaith gyffredin'.

'Mae rhai cynorthwywyr cymorth dysgu eisiau gwneud cynnydd yn eu gyrfaoedd, ac mae'r safonau'n bodoli i'w harwain nhw. Mae eraill sydd wedi bod yn gwneud y swydd ers blynyddoedd yn gallu mynd i dipyn o rigol, ac mae'r safonau'n gallu helpu rheolwyr i hyrwyddo diwylliant o gyflawni i'r holl staff, er mwyn i gynorthwywyr cymorth dysgu deimlo eu bod nhw ar yr un lefel [statws] ag athrawon.' CALU

**Defnyddio'r safonau fel fframwaith ar gyfer gwaith ymholi ymarferwyr**
Roedd y safonau hefyd yn cael eu defnyddio fel fframwaith a phwynt cyfeirio ar gyfer gweithgareddh ymholi proffesiynol yn yr ysgol. Dywedodd arweinwyr canol fod y safonau'n helpu i annog yr elfennau hyn mewn ymarfer athrawon.

'O safbwynt y Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol, rwy'n credu bod y safonau'n ddefnyddiol i dywys mwy o athrawon i ddod yn ymchwilwyr. Mae rhai'n

achub ar y cyfle i wneud ymchwil weithredu ac mae'r safonau'n annog hynny mewn ffordd.' Arweinydd canol

**Yr effaith a'r camau nesaf**

Dywedodd yr uwch arweinwyr eu bod wedi gweld bod ansawdd yr addysgu wedi gwella dros gyfnod y gwerthusiad, a bod gwell ymwneud ag addysgu a dysgu. Er nad oedd hi'n bosibl i'r uwch arweinwyr briodoli hyn i un ffactor, roeddent yn teimlo bod y safonau wedi cyfrannu at hyn.

'Maen nhw [y safonau] yn rhedeg yn gyfochrog â'n prosiectau a'n rhaglenni eraill ni, ac maen nhw'n ganolog i gynllun yr ysgol gyfan ar gyfer addysgu a dysgu.' Uwch arweinydd

Teimlai'r rhai a gyfwelwyd fod angen rhoi mwy o bwyslais ar hyrwyddo'r safonau ar lefel genedlaethol, er mwyn codi eu proffil. Dywedodd rhai fod risg y gallai'r safonau ymddangos yn 'ddewisol' ar adegau, yn enwedig ymhlith ymarferwyr sydd wedi cymhwyso'n llawn ond nad ydynt yn dymuno cael cyfrifoldebau arwain. Awgrymodd y rhai a gyfwelwyd y dylai Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid haen ganol roi 'ysgogiad' pellach i'w defnyddio, ac y byddai hynny'n meithrin mwy o ymdeimlad o berchnogaeth o'r safonau yn y proffesiwn.

**Astudiaeth Achos 12: Ysgol y Moelwyn, ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg, Gwynedd**
**Thema: Defnyddio'r safonau mewn ffordd gyfannol yn y meysydd datblygu proffesiynol, ymholi a dysgu**

**Trosolwg o sut mae'r ysgol yn defnyddio'r safonau**

Roedd y safonau'n dechrau dod yn bwynt cyfeirio defnyddiol wrth roi pwyslais cynyddol ar ddatblygu proffesiynol, ymholi a dysgu. Er nad oedd y gweithgareddau hyn wastad yn cyfeirio'n uniongyrchol at y safonau, roedd y staff yn ymwybodol o'r modd y mae'r safonau'n rhoi ffrâm i'w datblygiad proffesiynol a'u gweithgareddau dysgu.

**Sut mae'r ysgol wedi ymgysylltu â'r safonau dros gyfnod o amser**

Roedd gan yr uwch arweinwyr, ANG, mentoriaid sefydlu ac arweinwyr adrannau fwy o ymwybyddiaeth o'r safonau nag aelodau eraill o'r staff yn sgil y ffaith eu bod wedi'u defnyddio'n fwy rheolaidd. Serch hynny, roedd aelodau eraill o staff yn ymwybodol o'r safonau hefyd drwy weithgareddau dysgu proffesiynol, ac roedd rhai gweithwyr cymorth dysgu yn eu plith. Dywedodd staff fod pwyslais cynyddol ar waith ymholi a dysgu proffesiynol yn yr ysgol yn y blynyddoedd diwethaf. Roedd hyn wedi arwain at ddefnyddio'r iaith a geir yn y safonau a'r disgrifiadau'n amlach, er nad yw pobl wastad yn cyfeirio'n 'uniongyrchol' at y safonau yn yr ysgol.

> 'Rydyn ni'n gwneud llawer o bethau sy'n ein gwneud ni'n fwy llwyddiannus fel ysgol, ond rydyn ni'n gwneud hyn heb gyfeirio'n uniongyrchol at y safonau.' Uwch arweinydd

Roedd y safonau'n cael eu defnyddio mewn ffordd gyfannol mewn tri phrif faes: rheoli perfformiad, grwpiau proffesiynol a datblygu'r cwricwlwm.

Cyfeirir at y safonau mewn trafodaethau am reoli perfformiad

Cyfeiriodd y rhai a gyfwelwyd at ddatblygu'r Safonau drwy 'grwpiau proffesiynol'

**Rheoli perfformiad: 'cyfweliadau proffesiynol'**
Bydd cyfarfodydd 'cyfweliadau proffesiynol' yn cael eu cynnal rhwng aelodau o staff ac aelodau o'r uwch dîm arwain er mwyn canfod tri tharged ar gyfer datblygiad proffesiynol (un nod personol, un sy'n cyd-fynd â nodau'r adran, a'r llall yn gysylltiedig â thargedau yng nghynllun datblygu'r ysgol). Fel rhan o bob cyfweliad proffesiynol, gofynnir y canlynol i'r staff: *'Meddyliwch am y safonau proffesiynol i athrawon. A ydych chi'n hyderus eich bod chi'n cyrraedd y safonau hyn? A oes elfennau penodol yr hoffech chi eu trafod? A oes elfennau yr hoffech chi gael cymorth i'w cyflawni?'.* Roedd y broses hon yn galluogi'r staff a'u rheolwyr llinell i fyfyrio ar eu cynnydd eu hunain yng nghyd-destun y safonau, a chanfod meysydd i'w datblygu.

> ‘Yn ein ‘Cyfweliadau Proffesiynol’ [trafodaethau am ddatblygu perfformiad], rydyn ni wedi siarad am rai o’r safonau ac mae hynny’n gwneud i rywun sylweddoli ein bod ni’n rhoi sylw’n naturiol i lawer o’r pethau hyn yn ein gwaith. Mae hi wedi bod yn ddefnyddiol myfyrio a thrafod a gweld bod pobl yn gwneud y pethau hyn yn aml heb feddwl am hynny neu heb sylweddoli’. CALU

**Grwpiau proffesiynol**

Roedd grwpiau proffesiynol o tua 10 o staff yr ysgol yn cwrdd bob wythnos i wneud gwaith ymholi proffesiynol ar wahanol bynciau (e.e. ymddygiad, addysgeg). Roedd gan bob grŵp yr un agenda gyda gwahanol bynciau ymchwil. Y gobaith oedd y byddai’r grwpiau bychain hyn yn galluogi’r staff i wneud eu gwaith ymholi proffesiynol mewn ffordd a oedd yn gefnogol a thrwy gydweithio. Yn eu tro, roedd canfyddiadau’r gwaith ymchwil yn cael eu bwydo yn ôl i’r ysgol ehangach.

Roedd y grwpiau proffesiynol hyn yn fath mwy ffurfiol ar ethos cydweithredol cyffredinol, a gafodd ei sbarduno’n rhannol gan broses yr ysgol i addasu i gyfyngiadau COVID-19 yn 2020. Roedd athrawon wedi myfyrio am yr hyfforddiant i’r ysgol gyfan a ddarparwyd ym maes dysgu digidol a thechnoleg gwybodaeth ar ddechrau’r pandemig, ac roedd teimlad bod hwn wedi bod yn ddefnyddiol i’r holl staff. Cafodd y safonau eu hymgorffori’n organig ac yn ddiweddarach fel rhan o broses fyfyrio, yn hytrach na’u dadelfennu ymlaen llaw neu eu defnyddio fel rhestr wirio. Teimlai’r athrawon eu bod wedi datblygu safonau arweinyddiaeth a chydweithio, er enghraifft, ond dywedwyd bod hyn yn rhywbeth yr oeddent wedi myfyrio yn ei gylch yn ddiweddarach, yn hytrach na’i ystyried ymlaen llaw fel rhan o ymdrech fwriadol i gyflawni’r safonau penodol hyn.

> ‘Hyd yn oed yn y cyfnod clo, roedd pwyslais ar gyflawni ar-lein a chydweithio – fe wnaethon ni gyflawni pob safon yn hynny o beth. Yn y cyfnod clo, rhoddodd [athro] hyfforddiant digidol i ni ac mae pawb wedi gwneud cymaint o gynnydd yn sgil hyn.’ Arweinydd canol

**Datblygu’r cwricwlwm**

Pwysleisiodd yr uwch arweinwyr bwysigrwydd integreiddio’r safonau mewn ffordd bwrpasol wrth ddylunio cwricwlwm gweledigaeth yr ysgol, yn hytrach na cheisio creu cysylltiadau rhwng y ddau beth yn ddiweddarach. Teimlai’r uwch arweinwyr fod iaith ac ethos y safonau’n cyd-fynd yn dda â rhai’r Cwricwlwm i Gymru, a rhoddodd ymarferwyr enghreifftiau o ddatblygu eu haddysgeg ac o fwy o gydweithio rhwng meysydd pwnc. Credai’r ymarferwyr eu bod wedi bod yn datblygu’n broffesiynol yn ystod y broses o ddylunio’r cwricwlwm a’u bod yn gallu myfyrio am y cysylltiadau rhwng y broses ddylunio a’r safonau.

| |
|---|
| 'Mae'n ddefnyddiol eu bod nhw [y safonau] yn cael eu cyflwyno'n naturiol fel rhan o beth rydyn ni eisoes yn ei wneud. Fe fyddwn ni wedyn yn myfyrio'n ddiweddarach am sut mae hyn yn gysylltiedig â'r safonau, fel nad yw'n gymaint o ymarfer ticio blychau.' Athro |
| **Yr effaith a'r camau nesaf** |
| Mae'r safonau wedi rhoi fframwaith ar gyfer myfyrio am weithgareddau datblygu proffesiynol presennol yr ysgol. Dywedwyd bod y broses o sicrhau bod y safonau a chamau gweithredu presennol yr ysgol yn cyd-fynd â'i gilydd yn rhoi hyder a sicrwydd i'r staff. Gobaith yr uwch arweinwyr oedd gwneud y cysylltiad rhwng ymddygiad presennol a'r safonau yn fwy amlwg fel rhan o waith ehangach i godi proffil y safonau. Drwy hynny, byddai modd annog athrawon i nodi eu harferion da. |

**Astudiaeth Achos 13: Ysgol Morgan Llwyd, ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg, Wrecsam**
**Thema: Defnyddio'r safonau mewn prosesau rheoli perfformiad**

**Trosolwg o sut mae'r ysgol yn defnyddio'r safonau**

Mae'r ysgol yn defnyddio'r safonau fel fframwaith i gynnal arfarniadau'r staff, ac mae wedi integreiddio'r safonau mewn meddalwedd y mae'n ei defnyddio i reoli ac adolygu perfformiad (BlueSky). Mae'r ysgol yn defnyddio gwybodaeth o'r arfarniadau i ganfod anghenion datblygu proffesiynol ar lefel ymarferwyr ac i gynllunio gweithgareddau dysgu proffesiynol ar lefel yr ysgol.

**Sut mae'r ysgol yn ymgysylltu â'r safonau dros gyfnod o amser**

Dywedodd yr uwch arweinwyr ac ymarferwyr fod ymarferwyr yn yr ysgol yn ymwybodol o amcanion y safonau. Roedd rhai wedi'u defnyddio fel rhan o'r prosesau cynefino tra bo eraill yn gyfarwydd â nhw gan eu bod nhw wedi defnyddio'r safonau yn ystod prosesau hunanwerthuso a rheoli perfformiad.

> 'Byddwn ni'n arfarnu'r staff ar ddiwedd y cyfnod rheoli perfformiad, yn canfod y camau nesaf, ac yn cynnal arfarniad ar gyfer yr ysgol gyfan drwy BlueSky i ganfod anghenion dysgu proffesiynol a HMS yr ysgol'. Uwch arweinydd

Teimlai'r rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd fod y safonau'n gosod disgwyliadau clir i ymarferwyr. Yn ôl yr uwch arweinwyr, o'u cymharu â'r safonau blaenorol, roedd hi'n fwy anodd i ymarferwyr ddehongli'r geiriad a ddefnyddir, gyda rhai ymarferwyr yn dweud bod rhai o'r safonau'n 'amleiriog'. Serch hynny, dywedodd yr uwch arweinwyr hefyd fod staff yn ymgyfarwyddo â'r safonau wrth eu defnyddio'n fwy rheolaidd yn ystod prosesau rheoli perfformiad.

> 'Rwy'n credu bod iaith y safonau [newydd] yn fwy anodd nag o'r blaen. Dim ond ar ôl gweithio gyda nhw [y safonau] a dechrau meddwl am eich sefyllfa chi'ch hun mewn perthynas â nhw y byddwch chi'n dechrau dod yn fwy cyfforddus â'r iaith.' Uwch arweinydd

- Cyfeirir at y safonau mewn trafodaethau am reoli perfformiad
- Mae'r ysgol yn defnyddio meddalwedd i gofnodi hunanwerthusiadau
- Mae targedau rheoli perfformiad yn cyfeirio at y safonau
- Mae dysgu proffesiynol yn cael ei gynllunio a'i werthuso yn erbyn y safonau

**Rheoli perfformiad**

Disgrifiodd y rhai a gyfwelwyd sut yr oeddent wedi hunanwerthuso eu perfformiad yn erbyn y safonau gan ddefnyddio meddalwedd (BlueSky) sy'n cael ei defnyddio yn yr ysgol. Byddai'r

ymarferwyr yn rhoi sgôr i'w hunain i ddisgrifio i ba raddau yr oeddent yn teimlo eu bod yn cyflawni'r safonau neu'n rhagori arnynt, yn ogystal ag i ddisgrifio ble roedd angen iddynt ddatblygu o dan y safonau. Roedd y wybodaeth hon wedyn yn cael ei defnyddio gan yr ymarferwyr a'u rheolwyr llinell i osod targedau datblygu proffesiynol mwy unigryw a phersonol. Roedd yr uwch arweinwyr hefyd yn adolygu'r data o'r arfarniadau hyn i ganfod anghenion cyffredin y gellid rhoi sylw iddynt yn ystod cyfleoedd dysgu proffesiynol i grwpiau o staff. Roedd yr uwch arweinwyr yn credu ei bod hi'n ddefnyddiol casglu gwybodaeth ar lefel ymarferwyr mewn ffordd gyson, ac ar un platfform. Gallent wedyn ddadansoddi'r wybodaeth hon mewn ffyrdd amrywiol.

> 'Rwyf wedi mynd drwy'r holl ddatganiadau yn BlueSky [pecyn meddalwedd] ac wedi asesu ble rwyf wedi cyrraedd o ran 'angen datblygu', 'cyflawni'r safon', 'cyflawni y tu hwnt i'r safon', neu ganfod 'cryfder amlwg'.' Athro

Pwysleisiodd yr uwch arweinwyr bwysigrwydd neilltuo amser penodol yn ystod sesiynau HMS i ymarferwyr fyfyrio ar eu hymarfer a'u gweithgareddau dysgu proffesiynol.

> 'Mae'n bwysig ein bod ni'n rhoi digon o amser i'r staff fyfyrio. Yn y gorffennol, rydyn ni wedi llenwi sesiynau HMS gyda phethau i'r staff eu gwneud, ond mae angen i ni hefyd gamu yn ôl a rhoi digon o amser iddyn nhw feddwl am eu hymarfer mewn perthynas â'r safonau a'u datblygiad proffesiynol.' Uwch arweinydd

**Yr effaith a'r camau nesaf**

Teimlai'r rhai a gyfwelwyd fod y safonau'n annog athrawon i berchnogi eu datblygiad proffesiynol yn well. Yn ôl yr uwch arweinwyr, cyn cyflwyno'r dull newydd o reoli perfformiad, byddai rheolwyr llinell yn gyfrifol am ysgrifennu'r rhan fwyaf o ddogfennau gwerthuso ac yn gosod targedau i'r staff. Yn ôl yr uwch arweinwyr, ers cyflwyno'r system newydd, roedd y staff wedi ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb dros osod eu targedau'u hunain, gan ganfod cyfleoedd dysgu proffesiynol a gwerthuso'u cynnydd yn erbyn y safonau, gan uwchlwytho tystiolaeth o hyn i'r feddalwedd (e.e. arsylwadau o wersi, dolenni i wefannau a ddarllenwyd neu waith ymchwil a wnaed, nodiadau ymarferwyr).

Drwy ganfod anghenion datblygu proffesiynol mewn ffordd fwy systematig, gobaith yr uwch arweinwyr oedd y bydden nhw dros gyfnod o amser yn gallu cynllunio gweithgareddau dysgu proffesiynol mwy unigryw ar gyfer ymarferwyr penodol yn yr ysgol ac o bosibl ar gyfer ymarferwyr o ysgolion eraill a oedd wedi canfod anghenion tebyg. Teimlai rhai ymarferwyr y byddent yn hoffi cael hyfforddiant ynghylch sut i ddefnyddio'r safonau a gweld enghreifftiau o arferion da sy'n cyflawni'r safonau.

‘Fe fyddwn i’n hoffi cael rhagor o hyfforddiant ynghylch y safonau, er enghraifft gweld enghreifftiau o arferion da sy’n cyflawni’r safonau. Hefyd, fe hoffwn i gael digon o amser i ddatblygu o dan y safonau newydd hyn’. Athro

| **Astudiaeth Achos 14: Ysgol y Deri, Ysgol arbennig, Bro Morgannwg**<br>**Thema: Defnyddio'r safonau proffesiynol yn rhannol a thrwy ddewis a dethol** |
|---|
| **Trosolwg o sut mae'r ysgol yn defnyddio'r safonau** |
| Mae'r ysgol yn defnyddio'r safonau fel rhan o'i thrafodaethau ag ymarferwyr am ddatblygiad proffesiynol. Defnyddir y safonau mewn ffordd hyblyg, gyda phwyslais ar ddefnyddio elfennau unigol o'r safonau'n drylwyr ar adegau priodol, yn hytrach na disgwyl i ymarferwyr ddefnyddio'r holl safonau ar yr un pryd. |
| **Sut mae'r ysgol wedi ymgysylltu â'r safonau dros gyfnod o amser** |

Disgrifiodd yr uwch arweinwyr sut y mae'r safonau wedi rhoi 'fframwaith safonol' ac 'iaith gyffredin' iddyn nhw i gynnal trafodaethau am ddatblygiad proffesiynol eu staff.  Barn uwch arweinwyr oedd bod y safonau'n ddefnyddiol i fframio trafodaethau ag ymarferwyr am addysgeg a gwella mewn ffordd yr oedd y staff yn 'ymrwymo' iddi.

Roedd teimlad bod yr iaith gyffredin a'r pwyntiau cyfeirio a oedd yn cael eu darparu drwy'r safonau yn ddefnyddiol er mwyn sicrhau bod ymarferwyr yn gallu deall pam roedd elfennau penodol o'u hymarfer yn cael eu trafod.  Teimlai'r uwch arweinwyr fod hyn yn rhoi sicrwydd i'r ymarferwyr nad oedd trafodaethau am eu datblygiad proffesiynol yn digwydd 'ar hap' ac ar sail mympwy rheolwyr llinell yn unig.

Roedd yr ysgol wedi cyflwyno dull hyblyg o ddefnyddio'r safonau ac yn credu mai dyma'r ffordd fwyaf defnyddiol a realistig o'u defnyddio yn y lleoliad hwnnw:

'Dull deallus o ddefnyddio'r safonau yn hytrach na dull unffurf [...] allwch chi ddim gwella a gwneud popeth ar unwaith – mae'n rhaid sganio'r gorwel.' Uwch arweinydd

Mae'r safonau'n cael eu defnyddio fel pwynt cyfeirio mewn trafodaethau am ddatblygu proffesiynol

Ceir cydnabyddiaeth y gall ymarferydd ddatblygu rhai agweddau'n gynt na rhai eraill

Roedd y safonau felly'n cael eu defnyddio drwy eu dewis a'u dethol ac mewn ffordd bwrpasol ar lefel unigolion, a hynny wrth reoli perfformiad. Roedd yr uwch arweinwyr yn eu tro yn defnyddio'r wybodaeth o'r broses rheoli perfformiad ar lefel strategol i hybu ac i roi sylfaen i wella'r ysgol gyfan.

'Er enghraifft, [ar sail trafodaethau am reoli perfformiad] fe welson ni nad oedd athrawon newydd yn defnyddio llawer ar strategaeth addysgeg ym maes awtistiaeth, felly roedd angen i ni roi sylw i hyn.  Mae'r safonau yn ein helpu fel tîm arwain drwy roi sylfaen dystiolaeth, sydd yn ei thro yn rhoi sail i'n cynnig ym

maes datblygu proffesiynol. Maen nhw'n ffordd o ganfod ble mae'r anghenion.'
Uwch arweinydd

---

Pwysleisiodd yr uwch arweinydd hwn ei bod yn bwysig i ymarferwyr gydnabod ei bod yn realistig ac yn dderbyniol datblygu rhai rhannau o'u hymarfer cyn rhai eraill, ac i beidio â theimlo dan bwysau i ddatblygu pob agwedd ar eu hymarfer mewn ffordd unffurf. Disgrifiodd un uwch arweinydd sut y byddai'n edrych ar y safonau a oedd yn berthnasol i ymarferwyr penodol ar adeg benodol, yn hytrach nag 'eistedd gydag athro ac edrych ar bob un safon'. Gan gyfeirio at gynrychioli 'proffil' datblygiad ymarferydd yn weledol o dan y safonau, dywedodd un uwch arweinydd y byddai'n pwysleisio wrth y staff ei bod yn dderbyniol ac yn ddisgwyliedig datblygu cryfderau o dan wahanol safonau ar wahanol adegau.

Teimlai'r uwch arweinwyr hefyd fod y safonau'n sail ddefnyddiol i gynnal trafodaethau ag ymarferwyr a oedd angen datblygu eu hymarfer mewn perthynas ag elfen benodol o'u hymarfer pan nad oeddent yn cyrraedd y safonau.

Croesawodd y pennaeth y ffaith nad oedd disgwyl i neb ddefnyddio'r safonau fel 'rhestr wirio'. Yn hytrach, fframwaith oedd y safonau a oedd yn hwyluso sgyrsiau agored, a sgyrsiau goddrychol ar adegau, am yr elfennau amrywiol sy'n gysylltiedig ag ymarfer addysgu neu ddatblygiad proffesiynol.

---

'Mae'r ffaith bod hawl i ddehongli yn beth da, ac fe fyddai hi'n drueni pe bai'r cyrff rheoleiddio yn gweld pethau'n wahanol i hynny.  Fe fyddai athrawon yn hoelio'u sylw ar agweddau sy'n berthnasol iddyn nhw, yn eu tyb nhw, ac yna'n defnyddio'r safonau fel fframwaith i asesu a ydyn nhw ar y llwybr iawn ynteu a oes angen iddyn nhw wneud rhagor.' Uwch arweinydd

---

Teimlai'r uwch arweinwyr fod yr ysgol yn cael ei chefnogi'n dda i ddefnyddio'r safonau, gan ddweud eu bod yn trafod eu dull o weithio yng nghyfarfodydd y rhwydwaith o ysgolion yr oedd yr ysgol yn perthyn iddo.

---

*'Dydw i ddim yn credu eu bod nhw mor anodd nes bod angen rhagor o gymorth. Mae fframwaith dysgu rhwng ysgolion sy'n gryf iawn – a dyna sut rydyn ni wedi datblygu ein dull ni o ddefnyddio'r safonau.'* Uwch arweinydd

---

| Yr effaith a'r camau nesaf |
| --- |
| Teimlai'r uwch arweinwyr fod y safonau wedi helpu i wella ansawdd y trafodaethau ynghylch datblygu proffesiynol a bod gwybodaeth o'u trafodaethau am reoli perfformiad yn helpu i roi sail i'r ffordd yr oeddent yn cynllunio dysgu proffesiynol yn strategol.<br>Teimlai'r uwch arweinwyr y gellid defnyddio mwy ar y safonau pe bai mwy o bwyslais yn cael ei roi arnynt yn y fframwaith arolygu ysgolion, a dywedwyd bod hyn yn arbennig o ddylanwadol wrth sbarduno ymarfer ar lefel yr ysgol. |

## Astudiaeth Achos 15: Uned Cyfeirio Disgyblion
## Thema: Defnyddio’r safonau proffesiynol fel sail i reoli perfformiad gyda phwyslais ar arloesi a chydweithio

### Trosolwg o sut mae’r ysgol yn defnyddio’r safonau


Mae’r lleoliad wedi rhoi pwyslais ar gydweithio ac arloesi wrth ganolbwyntio ar y safonau. Mae’r safonau’n cael eu defnyddio i reoli perfformiad ac i helpu i ddylunio cwricwlwm yr ysgol drwy ddarparu fframwaith sy’n annog addysgeg newydd, gweithio trawsgwricwlaidd a chynllunio gweithgareddau.

### Sut mae’r ysgol wedi ymgysylltu â’r safonau dros gyfnod o amser

**Rheoli perfformiad ar sail y safonau proffesiynol**
Yn yr uned cyfeirio disgyblion, mae’r broses o reoli perfformiad wedi’i strwythuro o amgylch y safonau. Teimlai’r pennaeth fod y safonau’n darparu fframwaith a oedd yn eu galluogi i gynnal trafodaethau mwy strwythuredig am reoli perfformiad, lle bydd rheolwyr llinell yn dehongli’r safonau yng nghyd-destun swydd benodol yr aelod y staff.

Yn eu tro, roedd y sgyrsiau hyn wedi arwain y staff i fyfyrio ar eu hymarfer presennol ac am feysydd yr oeddent eisiau eu gwella. Disgrifiodd yr uwch arweinwyr sut yr oeddent wedi cael sgyrsiau a oedd ‘wedi agor llygaid’ ymarferwyr, gan fyfyrio am bethau a oedd wedi’u cynnwys yn y safonau ‘nad oedden nhw’n sylweddoli eu bod nhw’n eu gwneud’.

Disgrifiodd yr ymarferwyr sut y byddent wedyn yn ceisio ymgorffori’r safonau yn eu hymarfer, er enghraifft wrth fwrw golwg ar lyfrau disgyblion. Serch hynny, dywedodd yr athrawon eu bod yn defnyddio’r safonau gan mwyaf drwy hunanwerthuso’n ddiweddarach, yn hytrach na thrwy gyfeirio atynt yn helaeth wrth addysgu o ddydd i ddydd, pan fydd blaenoriaethau eraill yn cystadlu â nhw.

| | | | |
|---|---|---|---|
|  | Chwilio am ysbrydoliaeth ar gyfer datblygu’n broffesiynol gan ysgolion eraill |  | Mae’r staff yn helpu’i gilydd i ganfod cyfleoedd i ddatblygu’n broffesiynol |
|  | Mae’r staff yn hunanwerthuso yn erbyn y safonau’n ddiweddarach |  | Mae sgyrsiau â rheolwyr llinell wedi’u strwythuro o amgylch y safonau |

Dywedodd yr uwch arweinwyr fod eu dull presennol o reoli perfformiad, sy’n seiliedig ar y safonau, yn ‘newid o bwys’ o’i gymharu â’r trafodaethau mwy ad hoc o’r blaen. Roedd teimlad bod y safonau’n effeithiol wrth ddarparu fframwaith, gan osod disgwyliadau a nodau i’r staff, a oedd yn ei dro yn gwella ansawdd y sgyrsiau am reoli perfformiad.

‘Mae’n sgaffald defnyddiol wrth gynllunio a hunanwerthuso.’ Uwch arweinydd

Disgrifiodd ymarferwyr enghreifftiau lle roedd trafodaethau am reoli perfformiad a oedd yn seiliedig ar y safonau wedi'u hysbrydoli i fanteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol penodol.

'Roedd un athrawes wedi dechrau dysgu Cymraeg yn ddiweddar, rhywbeth roedd hi wedi ystyried ei wneud ers tro, ond roedd hynny wedi'i sbarduno'n rhannol drwy feddwl am yr elfen a oedd yn ymwneud â'r Gymraeg yn y safonau proffesiynol.' Uwch arweinydd

**Cydweithio ar arloesi**

Er bod diwygiadau'r Cwricwlwm i Gymru yn annog cydweithio beth bynnag, dywedodd ymarferwyr fod y safonau'n annog ac yn atgyfnerthu hyn ymhellach. Dywedodd ymarferwyr eu bod yn cydweithio'n gynyddol ac yn dysgu oddi wrth ei gilydd yn y lleoliad. Dywedodd y rhai a gyfwelwyd fod cysylltiad clir rhwng y safonau sy'n annog 'cydweithio' ac 'arloesi'. Er enghraifft, roedd yr ysgol wedi prynu argraffydd 3D, ac roedd hyn wedi annog mwy o arloesi a chydweithio rhwng Gwyddoniaeth, y Celfyddydau a Dylunio a Thechnoleg. Dywedodd athrawon a gweithwyr cymorth hefyd fod mwy o gydweithio rhyngddynt, gydag un athro yn helpu gweithiwr cymorth i ddod o hyd i gwrs i dechnegwyr yr oedd eisiau'i ddilyn er mwyn datblygu.

Soniodd un uwch arweinydd am gydweithio rhwng yr uned cyfeirio disgyblion ac ysgolion eraill, gan ddweud ei fod wedi canfod ysgol uwchradd gyfagos a oedd yn gwneud 'pethau gwych' ym maes datblygu proffesiynol. Roedd yr uwch arweinydd wedi cael cyfleoedd dysgu proffesiynol yn yr ysgol gyfagos hon, ac wedi dysgu am blatfformau/adnoddau amrywiol (WalkThrus) a dulliau datblygu proffesiynol (h.y. hyfforddi cyfarwyddiadol). Ar sail yr egwyddorion a'r adnoddau hyn, roedd y pennaeth wedi datblygu dull datblygiadol a chefnogol o ddatblygu'n broffesiynol ochr yn ochr â rhoi pwyslais parhaus ar addysgeg.

**Yr effaith**

Roedd teimlad bod y safonau'n cael effaith ar gydweithio ac arloesi ymhlith y staff, gan arwain at 'ryddid i roi cynnig ar bethau newydd'. Teimlai'r uwch arweinwyr fod hyn yn annog y staff i ailwerthuso eu swyddi ac yn eu hannog i ddatblygu'n broffesiynol yn barhaus.

'Mae'r staff yn gallu gweld mai'r sylfaen yw gwireddu'r cwricwlwm, yn enwedig wrth i hwnnw sôn am fod yn ddysgwr proffesiynol ac am barhau i wneud gwaith ymchwil. Rwy'n credu bod hyn wedi gwella agwedd broffesiynol y staff a'r disgwyliadau a'r ddealltwriaeth gyffredin o beth yw bod yn athro – sef bod yn ddysgwr gydol oes.' Uwch arweinydd

**Y camau nesaf**

Mae'r uwch arweinwyr yn yr uned cyfeirio disgyblion yn bwriadu parhau i sicrhau bod ymarferwyr yn cymryd camau ar sail hunanwerthusiadau sy'n defnyddio'r safonau. Maent ynn bwriadu parhau i annog y staff i ddatblygu'n broffesiynol drwy arloesi a chydweithio i sicrhau bod y safonau mor effeithiol ac ystyrlon â phosibl.

**Astudiaeth Achos 16: Ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg**
**Thema: Penderfynu defnyddio'r safonau mewn ffordd 'agored' sy'n seiliedig ar ddiwylliant, yn hytrach na'u dilyn yn agos**

**Trosolwg o sut mae'r ysgol yn defnyddio'r safonau**

Mae'r Safonau Proffesiynol wedi cael eu hymgorffori ym mhrosesau'r ysgol gyfan, ac maent yn cael eu hadlewyrchu a'u hyrwyddo mewn amryw o feysydd, o recriwtio i weithgareddau datblygu proffesiynol. Nid oes ffordd benodol na rhagnodedig o ddefnyddio'r safonau, ond maent yn cael eu defnyddio mewn ffordd sy'n gyson â gweledigaeth, gwerthoedd a diwylliant yr ysgol. Mae iaith y safonau wedi'i hymgorffori yn nisgrifiadau swyddi'r ymarferwyr yn ogystal ag yn y prosesau rheoli perfformiad. Roedd yr uwch arweinwyr yn teimlo bod y safonau'n rhan bwysig o sgyrsiau ynghylch datblygiad proffesiynol ymarferwyr.

**Sut mae'r ysgol wedi ymgysylltu â'r safonau dros gyfnod o amser**

Yn ôl disgrifiad yr uwch arweinwyr, roedd y safonau'n 'sylfaenol' i ddiwylliant ac ethos yr ysgol. Mae'r ysgol wedi mynd ati i godi ymwybyddiaeth o'r safonau a'u defnyddio mewn dull cydweithredol. Mae'r uwch arweinwyr yn yr ysgol yn rhoi pwyslais ar fyfyrio ar y cyd, ar gynnal trafodaethau â staff, ac ar 'gyd-ddatblygu' ffyrdd o ymgorffori'r safonau mewn gweithgareddau bob dydd, gan gynnwys wrth gynllunio gwersi a meddwl am addysgeg. Nid yw'r ysgol yn defnyddio'r safonau mewn ffordd ragnodedig, ac nid yw'n dweud yn benodol sut dylai athrawon ddefnyddio'r safonau. Yn hytrach, cyfeirir at y safonau mewn gwahanol arferion gweithio, ac mae'r safonau wedi'u plethu i mewn i'r rheini.

> 'Mae ein gweledigaeth a'n gwerthoedd wedi newid er mwyn cyd-fynd yn well â'r safonau.' Pennaeth

Yn niwylliant cyffredinol yr ysgol, cyfeirir yn uniongyrchol at y safonau mewn dau brif faes: disgrifiadau swyddi a rheoli perfformiad.

Mae'r safonau'n cael eu defnyddio mewn ffordd eang ar sail creu 'diwylliant ysgol' sy'n annog datblygu

Mae'r safonau proffesiynol wedi'u hymgorffori mewn swydd-ddisgrifiadau

**Swydd-ddisgrifiadau a recriwtio**

Mae'r safonau bellach wedi dod yn rhan o bob swydd-ddisgrifiad yn yr ysgol (a hynny'n cynnwys esboniad o beth ydyn nhw, a pham mae'r ysgol yn rhoi gwerth arnynt). Mae swydd-ddisgrifiadau

felly'n cael eu creu i adlewyrchu'r safonau, gyda phwyslais penodol ar addysgeg ac arweinyddiaeth. Yn eu tro, mae'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn i ymgeiswyr mewn cyfweliadau yn seiliedig ar y safonau, gan gynnwys rhai brawddegau sy'n gysylltiedig â'r safonau. Roedd teimlad bod hyn yn cyfrannu at ddiwylliant yn yr ysgol sy'n pwysleisio pwysigrwydd y safonau o'r dechrau'n deg, nes eu bod yn dod yn rhan sylfaenol o yrfaoedd athrawon yn yr ysgol.

**Rheoli perfformiad**

Cyfeirir yn uniongyrchol at y safonau hefyd mewn adolygiadau rheoli perfformiad. Mae gofyn i bob athro osod un targed personol sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag un o'r safonau. Serch hynny, pwysleisiodd yr uwch arweinwyr fod sut mae'r staff yn ymateb i'r targedau hyn, a'r trafodaethau sy'n cael eu cynnal am y safonau ac ansawdd ymarfer, yn bwysicach na'r targedau eu hunain. Pwysleisiodd yr uwch arweinwyr eu bod yn ffafrio'r dull datblygiadol hwn yn hytrach na defnyddio'r safonau mewn ffordd fwy rhagnodol neu ffordd sydd wedi'i seilio ar atebolrwydd.

Teimlai'r uwch arweinwyr fod cysylltiadau cysyniadol da rhwng y safonau a chynlluniau eraill Llywodraeth Cymru (e.e. y Cwricwlwm i Gymru), ond bod gwahaniaethau rhwng sut yr oedd ysgolion a sefydliadau yn rhoi gwerth ar y safonau ac yn eu defnyddio. Teimlai'r uwch arweinwyr y gallai hyn atal ysgolion rhag dilyn y safonau'n rhy agos, gan eu bod yn pryderu am greu gormod o anghydraddoldeb neu wahaniaethau rhwng ysgolion ar sail eu lleoliad daearyddol (e.e. roedd rhai ysgolion yn defnyddio'r safonau fel fframwaith ar gyfer asesu athrawon).

> 'Mae angen deall beth i'w wneud a beth i beidio â'i wneud, mae angen dweud 'mae gennych chi hyblygrwydd i wneud hyn ond peidiwch â gwneud hyn'... mae potensial amlwg i gamddehongli pethau wrth i'r safonau fynd i lawr y 'gadwyn' a chyrraedd yr ysgolion. Mae gwahaniaethau rhwng rhanbarthau ac Estyn er enghraifft – fe all fod hyd at 6 neu 7 o strategaethau sydd i gyd yn wahanol, sy'n golygu nad oes cysondeb drwy Gymru.' Pennaeth

**Yr effaith a'r camau nesaf**

Teimlai'r pennaeth ei bod yn anochel y bydd y safonau'n cael eu datblygu wrth i athrawon ymgyfarwyddo â ffyrdd newydd o asesu disgyblion blwyddyn 7 yn erbyn y camau cynnydd.

> 'Rwy'n disgwyl i ddealltwriaeth pobl o faterion asesu wella. Bydd ffordd o fesur llwyddiant y ffocws hwn – ond fe fyddwn i'n wyliadwrus rhag gwneud hwn yn asesiad cul. Mae'n mynd i fod yn ehangach na dim ond y safonau, ac mae'n

annhebygol y byddwn ni'n asesu hyn yn llwyr o dan y safonau proffesiynol.'

Pennaeth

**Astudiaeth Achos 17: Ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg**
**Thema: Dulliau'r ysgol o ddatblygu profiad arwain athrawon newydd gymhwyso i gyflawni'r safonau yn ystod eu blwyddyn sefydlu.**

**Trosolwg o sut mae'r ysgol yn defnyddio'r safonau**

Cyflwynodd yr uwch arweinwyr y safonau i'r holl staff yn ystod 2018/19 gan ddechrau integreiddio'r safonau yn y prosesau rheoli perfformiad, er i'r pandemig arwain at oedi yn y broses hon maes o law. Roedd ANG a oedd wedi defnyddio'r safonau'n fwy diweddar yn cael eu hannog i helpu ymarferwyr eraill i godi ymwybyddiaeth o'r safonau, ac wrth wneud hynny roeddent yn datblygu eu profiad arwain eu hunain.

**Sut mae'r ysgol wedi ymgysylltu â'r safonau dros gyfnod o amser**

Esboniodd yr uwch arweinwyr fod ANG a mentoriaid yn gyfarwydd iawn â'r safonau gan eu bod wedi gorfod mapio tystiolaeth o'u hymarfer yn erbyn y safonau yn ystod eu cyfnodau sefydlu. Teimlai'r uwch arweinwyr y byddent yn ymgyfarwyddo mwy â'r safonau dros amser wrth i nifer yr ymarferwyr a oedd wedi'u defnyddio yn ystod eu cyfnodau sefydlu gynyddu.

> 'Mae gennyn ni grŵp o staff sy'n gyfarwydd iawn [â'r safonau] ac sy'n hyderus yn eu defnyddio nhw, a grŵp arall o ANG sy'n dechrau ym mis Medi. Dyma sut y bydd ymwybyddiaeth o'r safonau yn datblygu mewn ysgol, oherwydd dydy'r [staff newydd] ddim yn ymwybodol o unrhyw system arall [ar wahân i'r safonau newydd]' Uwch arweinydd

- Roedd yr uwch arweinwyr wedi rhoi cyflwyniadau i'r staff am y safonau
- Mae'r staff wedi'u hyfforddi i ddefnyddio offeryn hunanasesu ar ffurf taenlen
- Mae'r staff yn myfyrio am eu cynnydd yn erbyn y safonau mewn adolygiadau o berfformiad
- Mae athrawon newydd gymhwyso'n cael eu hannog i rannu eu profiadau o ddefnyddio'r safonau gyda phobl eraill

**Dangos arweinyddiaeth ar wahanol lefelau**

Wrth ddefnyddio'r safonau ar y dechrau, roedd rhai ymarferwyr wedi'i chael hi'n anodd dangos tystiolaeth eu bod yn cyrraedd y safonau arweinyddiaeth. I fynd i'r afael â hyn, bu'r uwch arweinwyr yn adolygu ac yn codi proffil y cyfrifoldebau arwain ar wahanol lefelau drwy'r ysgol. Byddai'r ymarferwyr wedyn yn cael tasgau a fyddai'n eu helpu i ddatblygu eu sgiliau arwain ac i roi tystiolaeth o hyn. Gallent wedyn fapio hyn o dan y safonau.

Disgrifiodd un athro iddo drafod â'i fentor sut y gallai ddangos arweinyddiaeth yn ystod ei flwyddyn sefydlu. Gwelodd yr ymarferydd hwn ei fod wedi arwain tasg ymchwil, ac aeth ati i gasglu gwybodaeth am hyn a'i chyflwyno i'w gydweithwyr. Defnyddiwyd y dasg hon wedyn yn sail i ddangos tystiolaeth o gynnydd yn erbyn y safon hon.

Roedd yr uwch arweinwyr hefyd wedi annog ANG ac athrawon gyrfa gynnar i rannu'u profiadau o ddefnyddio'r safonau ag ymarferwyr eraill yn yr ysgol. Roedd hyn wedi galluogi ANG i ddangos eu sgiliau arwain drwy roi cyflwyniadau ac arweiniad i bobl eraill ynghylch casglu tystiolaeth a mapio hyn yn erbyn y safonau. Helpodd hyn hefyd i godi proffil y safonau ymhlith athrawon mwy profiadol ac i ddatblygu eu dealltwriaeth ohonyn nhw.

> 'Mae'r pum athro newydd gymhwyso eleni yn rhoi cyflwyniadau am eu profiadau a sut roedd modd mapio hyn yn erbyn y safonau. Mae hyn yn helpu i feithrin eu hyder a'u sgiliau arwain, ac hefyd yn helpu aelodau eraill o staff i'w deall [y safonau].' Uwch arweinydd

Yn ôl uwch arweinwyr, ar adegau, roedd ymarferwyr wedi'i chael hi'n anodd canfod tystiolaeth addas yn erbyn rai o'r safonau, oherwydd roedd ganddynt amrywiaeth mor eang o brofiadau a thystiolaeth i'w defnyddio. Roedd teimlad bod rhoi enghreifftiau o'r byd go iawn, drwy gyflwyniadau gan ANG, yn ffordd effeithiol o oresgyn y broblem hon.

**Datblygu trefniadau rheoli perfformiad o amgylch y safonau**
Roedd yr ysgol wedi dechrau proses o strwythuro trafodaethau am reoli perfformiad o amgylch y safonau. Yn ôl yr uwch arweinwyr, roedd ysgolion eraill yn eu clwstwr wedi datblygu offeryn hunanasesu ar ffurf taenlen ac roedd hwn wedi'i strwythuro o amgylch y safonau. Roedd yr offeryn hwn yn cynnwys manylion y disgrifiadau wedi'u codio yn ôl lliw, a'r rheini'n disgrifio lefelau hyder yr ymarferwyr yn erbyn bob elfen yn y safonau. Roedd y raddfa a oedd wedi'i chodio yn ôl lliw yn cynnwys pedair lefel, sy'n fwy na'r tair sydd wedi'u cynnwys yn nogfennau'r safonau. Barn yr uwch arweinwyr oedd bod y lefel ychwanegol hon yn rhoi mwy o gyfle i'r ymarferwyr ddangos eu cynnydd dros amser.

> 'Un o'r problemau oedd bod pawb yn dewis y statws ambr/canolig – felly rydyn ni'n defnyddio matrics o bedwar i lenwi'r blwch hwn.' Uwch arweinydd

**Yr effaith a'r camau nesaf**

Teimlai'r uwch arweinwyr ei bod hi'n rhy gynnar i allu gweld unrhyw effaith yn sgil defnyddio'r safonau, er bod ymwybyddiaeth pobl wedi gwella yn ystod y gwerthusiad.

Bwriad yr uwch arweinwyr oedd gofyn i'r holl ymarferwyr hunanasesu yn erbyn y safonau cyn cynnal trafodaethau rheoli perfformiad â'u rheolwyr llinell. Fel rhan o'r broses hon, bydden nhw'n gofyn i'r ymarferwyr ddefnyddio'r offeryn hwn i roi sgôr i'w hyder yn erbyn bob un o'r safonau, ac i ddweud ym mha feysydd yr oeddent yn teimlo bod angen datblygu. Roedd yr uwch arweinwyr hefyd yn bwriadu datblygu rhagor o ganllawiau am y safonau i'w staff, a fyddai'n cyflwyno mwy o

fanylion ynghylch gwneud cynnydd o un lefel i'r nesaf. Byddai hyn yn cynnwys enghreifftiau o dystiolaeth y gellid ei defnyddio i ddangos cynnydd.

Roedd yr uwch arweinwyr yn gobeithio y gallai'r broses hon wedyn roi sail i ddadansoddi data ar lefel strategol er mwyn canfod blaenoriaethau'r ysgol gyfan ar gyfer datblygu proffesiynol, a hynny ar lefel adrannau a lefel yr ysgol i gyd. Gallai hyn yn ei dro roi arweiniad i'r staff wrth iddynt drefnu eu hamser cynllunio, paratoi ac asesu eu hunain.

## Llyfryddiaeth

Prifysgol Metropolitan Caerdydd (2018*).* *Research to Support the National Professional Learning Approach for Wales. Area 9: Schools as Learning Organisations and the Welsh Government Professional Standards.*

Donaldson, G. (2015). Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru Caerdydd: Hawlfraint y Goron 2015.

Cyngor y Gweithlu Addysg (2017). Arolwg Gweithlu Addysg Cenedlaethol: Adroddiad Ymchwil.

Cyngor y Gweithlu Addysg (2021). *Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu, arweinyddiaeth a chynorthwyo addysgu yng Nghymru* Heb ei gyhoeddi.

Estyn (2020). Estyn (2020) The National Evaluation and Improvement Resource (NEIR) update and guidance v1.3, appendix 1.

Furlong, J. (2015). Addysgu Athrawon Yfory.

GTC Scotland (2012). The Standard for Career-Long Professional Learning: supporting the development of teacher professional learning.

OECD (2015). Improving Schools in Scotland: An OECD Perspective.

OECD (2018). Datblygu Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu yng Nghymru*.*

OECD (2020). Achieving the New Curriculum for Wales

Tabberer, R. (2013). Adolygiad o Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru

Waters (2020). Dysgu bod yn athro yng Nghymru: sefydlu athrawon yn y proffesiwn.

Llywodraeth Cymru (2014). Cynlluniau datblygu ysgolion: Canllawiau Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Llywodraeth Cymru (2017a). Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl Cynllun gweithredu 2017-21 Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Llywodraeth Cymru (2017b). Ymgynghoriad - crynodeb o'r ymatebion: Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Llywodraeth Cymru (2017c). Sut orau i ddefnyddio'r Safonau Addysgu Proffesinol. Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Llywodraeth Cymru (2018a). Addysgu: Proffesiwn gwerthfawr. Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Llywodraeth Cymru (2018b). Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru Addysgu athrawon yfory. Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Llywodraeth Cymru (2019a). Manyleb ar gyfer: Gwerthusiad o'r Safonau Addysgu ac Arweinyddiaeth Broffesiynol. Heb ei gyhoeddi.

Llywodraeth Cymru (2019b). Ymgynghoriad - crynodeb o'r ymatebion: Safonau proffesiynol drafft ar gyfer cynorthwyo addysgu. Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Llywodraeth Cymru (2019c): Buddsoddi mewn rhagoriaeth: Ein cynllun cenedlaethol i ddatblygu'r gweithlu 2019-21. Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Llywodraeth Cymru (2020). Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl. Diweddariad Hydref 2020. Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Llywodraeth Cymru (2021). Gwerthusiad o'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu, arweinyddiaeth a chynorthwyo addysgu: blwyddyn 1. Caerdydd: Hawlfraint y Goron.